# Pecyn Cefndirol

# Cyfnod Ymgynghoriad Statudol

# Bangor

# 10 Ebrill – 22 Mai 2018

| Trefn | Dogfen |
|---|---|
| 1 | Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013 |
| 2 | Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 |
| 3 | Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd |
| 4 | Pecyn Ystadegol 2017-18 |
| 5 | Adroddiad Asesiad Ardrawiad Iaith a Chymunedol |
| 6 | Adroddiad Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb |
| 7 | Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Ionawr 2017 |
| 8 | Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Mawrth 2018 |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cod Trefniadaeth Ysgolion

www.cymru.gov.uk











## Cod Statudol

Cod Statudol dogfen rhif: 006/2013
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2013

# Cod Trefniadaeth Ysgolion

**Cynulleidfa** Awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau esgobaethol; ac Estyn.

**Trosolwg** Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Mae'r Cod yn gosod gofynion y mae angen i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a hyrwyddwyr eraill) weithredu yn unol â hwy. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ymarferol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol dalu sylw iddynt, ac mae'n cynnwys y cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau sydd i'w cymryd i ystyriaeth gan y rhai sy'n rhoi cynigion gerbron i ailwampio darpariaeth ysgol a chan y rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ar gynigion.

**Camau i'w cymryd** Gweler uchod.

**Mwy o wybodaeth** Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon, dylech gysylltu â:

David Weale
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6017
e-bost: SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Gellir cael y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru@gov.uk

**Dogfennau cysylltiedig** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013; *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2007); Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru* Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 021/2011 (2011).

ISBN digidol 978 0 7504 9656 8
© Hawlfraint y Goron 2013
WG18187

# Cynnwys


**Crynodeb** **4**

**1. Datblygu ac ystyried cynigion** **6**

1.1 Egwyddorion a pholisïau cefndir allweddol 6

1.2 Ffactorau i’w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion 7

1.3 Ansawdd a safonau mewn addysg 7

1.4 Yr angen am leoedd a’r effaith ar hygyrchedd ysgolion 8

1.5 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill 10

1.6 Ffactorau cyffredinol eraill 12

1.7 Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion 12

1.8 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin 13

1.9 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth 14

1.10 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu i sefydlu ysgol wirfoddol newydd 15

1.11 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid iaith y ddarpariaeth 15

1.12 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid categori ysgol 15

1.13 Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth AAA 16

1.14 Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion 17

**2. Newidiadau y mae angen cynigion ar eu cyfer** **19**

2.1 Elfennau ad-drefnu ysgolion y mae angen cyhoeddi cynigion ar eu cyfer 19

2.2 Newidiadau a reoleiddir 19

2.3 Pwy all gyhoeddi cynnig? 23

| | | |
|---|---|---|
| **3.** | **Ymgynghori** | **25** |
| 3.1 | Egwyddorion | 25 |
| 3.2 | Dogfen ymgynghori | 25 |
| 3.3 | Ymgynghori â phlant a phobl ifanc | 32 |
| 3.4 | Gweithdrefnau | 32 |
| 3.5 | Adroddiadau ymgynghori | 33 |
| **4.** | **Cyhoeddi cynigion statudol** | **36** |
| 4.1 | Sut y cyhoeddir cynigion | 36 |
| 4.2 | Hyd y cyfnod gwrthwynebu | 37 |
| 4.3 | Cynnwys cynigion cyhoeddedig | 37 |
| **5.** | **Penderfynu ar gynigion (ac eithrio cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru)** | **40** |
| 5.1 | Adroddiadau gwrthwynebu | 40 |
| 5.2 | Cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru | 42 |
| 5.3 | Cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol | 42 |
| 5.4 | Penderfyniad gan gynigwyr | 44 |
| 5.5 | Gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol | 44 |
| 5.6 | Hysbysiad o benderfyniad | 45 |
| 5.7 | Atgyfeirio penderfyniadau awdurdodau lleol i Weinidogion Cymru | 46 |
| **6.** | **Gweithredu cynigion** | **47** |
| 6.1 | Gweithredu – cyffredinol | 47 |
| 6.2 | Gweithredu – newid categori | 48 |
| **7.** | **Cau ysgol â llai na 10 disgybl cofrestredig** | **49** |
| **8.** | **Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd mewn ysgolion** | **50** |
| **9.** | **Cynigion gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig** | **52** |

10. Cynigion gan Weinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth 53

11. Hysbysiad o fwriad corff llywodraethu i gau ysgol sefydledig neu wirfoddol 54

Atodiad A: Siart llif enghreifftiol ar gyfer cynigion statudol 55

Atodiad B: Enghreifftiau o hysbysiadau statudol 58

Atodiad C: Templed o'r ddogfen ymgynghori 63

Atodiad Ch: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg 68

Atodiad D: Pwyllgor penderfynu lleol 70

# Crynodeb

Gwneir y Cod hwn ar Drefniadaeth Ysgolion ('y Cod') o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('Deddf 2013').

Mae Adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod a all osod gofynion a chynnwys canllawiau mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion ar y canlynol (a elwir gyda'i gilydd yn y Cod hwn yn "gyrff perthnasol"):

- Gweinidogion Cymru;
- awdurdodau lleol;
- cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir[1];
- hyrwyddwyr cynigion i sefydlu ysgolion gwirfoddol.

Daw'r Cod i rym ar 1 Hydref 2013 a bydd yn gymwys mewn perthynas â'r holl gynigion trefniadaeth ysgolion a gyhoeddir ar ffurf hysbysiad statudol ar neu ar ôl y diwrnod hwnnw. Penderfynir ar gynigion a gyhoeddwyd cyn 1 Hydref 2013 yn unol â'r trefniadau a wnaed o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac nid yw'r Cod yn gymwys iddynt.

Mae'r Cod yn cynnwys yr elfennau canlynol:

1. Mae'n gosod gofynion y mae'n rhaid i gyrff perthnasol (neu bersonau sy'n cyflawni swyddogaeth at ddiben cyflawni'r swyddogaethau yn Rhan 2 (newidiadau sy'n gofyn am gynigion) gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir) weithredu yn unol â hwy. Os bydd corff perthnasol yn methu â chydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Cod hwn, gall arwain at gyflwyno cwyn i Weinidogion Cymru neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Pan osodir gofynion gorfodol gan y Cod neu gan Ddeddf 2013 neu statud neu offeryn statudol arall, nodir bod yn **rhaid** i'r cyrff perthnasol gydymffurfio â'r ddarpariaeth benodol. Pan waherddir arferion, **rhaid** i'r cyrff perthnasol **beidio ag** arddel yr arferion hyn.

2. Mae'n cynnwys y canllawiau statudol y mae'n **rhaid** i gyrff perthnasol roi sylw dyledus iddynt ac mae'n gosod y cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau y dylai'r rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu ysgolion a'r rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ar gynigion eu hystyried. Lle mae'r Cod yn cynnig canllawiau, **dylai** cyrff perthnasol ddilyn y canllawiau hyn oni allant ddangos bod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny.

3. Mae'n rhoi disgrifiad o'r gofynion statudol a nodir yn Neddf 2013.

Mae'r Cod yn adeiladu ar arferion da sy'n bodoli eisoes ymhlith awdurdodau lleol ac eraill, ond nid yw'n ceisio rhoi canllawiau hollgynhwysfawr ar bob agwedd ar drefniadaeth ysgolion. Bydd angen i awdurdodau lleol ac eraill sicrhau, wrth iddynt

[1] **Dyma'r categorïau o ysgolion a gynhelir yng Nghymru: ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol sefydledig ac ysgol arbennig gymunedol.**

gyflawni eu swyddogaethau trefniadaeth ysgolion, eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffyrdd sy'n rhesymol ac sy'n seiliedig ar fuddiannau'r dysgwyr.

Mae'r Cod hwn yn disodli unrhyw ganllawiau a nodir yng Nghylchlythyr Canllawiau Llywodraeth Cymru Rhif: 021/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion, Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 9/99: Trefniadaeth Lleoedd Ysgolion, a Chylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 48/2004 Canllawiau i gyd-fynd â'r Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2004.

Mae'r Cod wedi'i gynllunio'n bennaf i gael ei ddefnyddio gan y cyrff perthnasol ond efallai y bydd o ddefnydd i bawb sydd â diddordeb mewn materion trefniadaeth ysgolion.

# 1. Datblygu ac ystyried cynigion

## 1.1 Egwyddorion a pholisïau cefndir allweddol

Mae'r broses o gynllunio a datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcan Llywodraeth Cymru i weddnewid addysg yng Nghymru a darparu gwell deilliannau addysgol.

**Dylai** cyrff perthnasol sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â pholisïau a nodau cyffredinol cenedlaethol ac yn eu cefnogi, yn benodol ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella effeithiolrwydd ysgolion a lleihau'r anghydraddoldeb o ran cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Ymhlith yr egwyddorion a'r polisïau cyffredinol y **dylai** cyrff perthnasol eu hystyried wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion mae'r canlynol:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17;
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg;
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, cynllun datblygu cynaliadwy newydd i Gymru Mai 2009 ac unrhyw strategaeth olynol;
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011 Dogfen wybodaeth rhif 95/2011), ac unrhyw strategaeth olynol;
- Ffydd mewn Addysg.

Yn ogystal â hyn, wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion, mae'r cynlluniau lleol y **dylai** cyrff perthnasol roi sylw iddynt yn cynnwys y canlynol:

- Cynlluniau lleol ar gyfer datblygu economaidd neu ddatblygu tai;
- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (a wneir o dan ran 4 o Ddeddf 2013);
- Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (neu gynlluniau olynol);
- Ysgolion yr 21ain Ganrif - Rhaglen Fuddsoddi Cyfalaf, ac unrhyw fuddsoddiadau perthnasol.

Yn olaf, **dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r canllawiau canlynol gan Lywodraeth Cymru ar faterion perthnasol:

- Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr - Ebrill 2009;
- Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru, Cylchlythyr Rhif: 021/2011.

## 1.2 Ffactorau i’w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r ffactorau y **dylai** cyrff perthnasol eu hystyried wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran llunio a chyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion, neu eu cymeradwyo/penderfynu arnynt. Yn achos pob un o’r cynigion, mae paragraffau 1.3 i 1.6 yn berthnasol.

## 1.3 Ansawdd a safonau mewn addysg

**Dylai** cyrff perthnasol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall. Gan gyfeirio at gwestiynau allweddol Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn), **dylent** roi’r pwys mwyaf ar effaith debygol y cynigion ar ansawdd:

- y deilliannau (safonau a lles);
- y ddarpariaeth (profiadau dysgu; addysgu; gofal, cymorth ac arweiniad; a'r amgylchedd dysgu);
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweinyddiaeth; gwella ansawdd; gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

yn yr ysgol neu'r ysgolion sy’n destun y cynigion ac unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni/arno. **Dylai** cyrff perthnasol roi sylw arbennig i effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).[2]

**Dylai** cyrff perthnasol hefyd ystyried gallu’r ysgol neu’r ysgolion sy’n destun cynnig i ddarparu’r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol. **Dylai’r** ystyriaeth hon gynnwys ansawdd darpariaeth y cwricwlwm a’r graddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn.[3]

Pan fydd cynigion yn golygu trosglwyddo dysgwyr i ddarpariaeth amgen, fel arfer **dylid** bod tystiolaeth[4] y byddai'r ddarpariaeth amgen yn sicrhau'r deilliannau ac yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr hynny ar y pryd (gan gynnwys dysgwyr ag AAA). **Dylai** cynigwyr sicrhau bod hyn yn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr.

Wrth asesu effaith cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg a pha mor effeithiol mae’r cwricwlwm yn cael ei ddarparu, **dylai** cyrff perthnasol ystyried unrhyw gyngor perthnasol gan Estyn, cyfeirio at adroddiadau diweddaraf

---

[2] Yn y dyfodol, gall y term Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) gael ei ddisodli gan y term Anghenion Ychwanegol (AY).

[3] Mae deddfwriaeth sylfaenol yn nodi amcanion statudol y cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn adran 99 o Ddeddf Addysg 2002.

[4] Byddai'n rhesymol barnu bod cyngor gan Estyn yn dystiolaeth mewn perthynas â darpariaeth amgen newydd sbon.

Estyn neu dystiolaeth arall sy'n deillio o waith monitro perfformiad ac ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyffredinol am effeithiolrwydd ysgol.

## 1.4 Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

**Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd yn eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os oes nifer ddigonol ohonynt, eu bod o'r cymeriad iawn a bod ganddynt ddigon o gyfarpar i ddarparu cyfleoedd addysg priodol i bob disgybl[5]. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynllunio'n drylwyr ac yn ymgysylltu'n llawn â phartneriaid perthnasol, gan gynnwys y cyrff crefyddol priodol[6] ar gyfer ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig yn eu hardal.

Yng ngoleuni'r uchod, **dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r ffactorau canlynol:

Lle cynigir cau ysgol[7], lleihau ei chapasiti neu leihau ei hystod oedran:

- a fydd gan ddarpariaeth ysgol amgen ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, man lleiaf, ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol a'r niferoedd a ragwelir;

  *Wrth ystyried cynigion, **dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r Rheoliadau Adeiladu perthnasol a Bwletinau Adeiladu cysylltiedig, a chylchlythyr Llywodraeth Cymru 'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru' (Cylchlythyr Rhif: 021/2011). Yn ogystal â hyn, mae Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgolion) 1999 yn nodi'r safonau ar gyfer safleoedd ysgolion, gan gynnwys yr ardaloedd lleiaf ar gyfer meysydd chwarae gemau tîm y mae'n rhaid i ysgolion allu manteisio arnynt. **Dylai** cynigion statudol sicrhau y caiff y safonau hyn eu bodloni.*

- gan gyfeirio at natur yr ysgolion sy'n destun cynigion, a yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un:

  a. categori iaith fel yr amlinellir yn "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg", dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru Rhif: 023/2007(dogfen wybodaeth Rhif: 023/2007); ac
  b. (os yn berthnasol) cymeriad crefyddol dynodedig;

  ***Dylai** cynigion sicrhau bod cydbwysedd y ddarpariaeth ysgolion yn adlewyrchu cydbwysedd y galw. Mae hyn yn golygu, os bydd darpariaeth ysgol yn cael ei lleihau neu ei dileu, y **dylid** sicrhau bod*

---

[5] **Adran 14 o Ddeddf Addysg 1996.**
[6] Corff crefyddol priodol yw, yn achos ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig, yr awdurdod esgobaethol priodol, neu yn achos ysgolion eraill, y corff sy'n cynrychioli'r grefydd a'r enwad crefyddol a nodir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn a wnaed dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.
[7] **Mae pob cyfeiriad at 'gau ysgol' yn y ddogfen hon yn golygu terfynu ysgol a gynhelir, fel y'i nodir yn adran 40 o Ddeddf 2013.**

*darpariaeth ysgol amgen o'r un natur (categori iaith neu, os yn berthnasol, cymeriad crefyddol) ar gael i ddisgyblion yn yr ardal leol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, efallai na fydd parhau i gynnal mynediad i ysgolion o'r un natur yn gydnaws â darpariaeth addysg gosteffeithiol.*

*Ym mhob achos, **rhaid** i ddisgyblion presennol mewn ysgol lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei lleihau neu ei dileu allu parhau i dderbyn addysg sy'n darparu o leiaf yr un safonau a chyfleoedd i gamu ymlaen yn eu cyfrwng iaith presennol. Efallai y bydd angen gwneud trefniadau pontio penodol er mwyn cyflawni hyn.*

*Pan fydd cynigion yn effeithio ar ysgolion lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu (ar gyfer pynciau heblaw Cymraeg) drwy'r amser neu beth o'r amser, **dylai** awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.*

- natur siwrneiau i ddarpariaeth amgen ac amseroedd teithio i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion AAA; yn enwedig os bydd disgyblion ysgol gynradd yn gorfod teithio am dros 45 munud un ffordd neu ddisgyblion ysgol uwchradd yn gorfod teithio am dros awr un ffordd;

  ***Dylai** trefniadau ar gyfer cael mynediad i ddarpariaeth amgen annog trafnidiaeth gynaliadwy; a **dylent** fynd i'r afael ag effaith bosibl unrhyw anawsterau o ran trafnidiaeth ar bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol a'r graddau y gallant fanteisio arni. **Dylid** asesu diogelwch a hygyrchedd llwybrau cerdded neu feicio posibl cyn cyflwyno unrhyw gynigion.*[8]

Lle cynigir agor ysgol newydd, cynyddu capasiti neu ehangu ystod oedran;

- bod yna dystiolaeth o angen/galw yn yr ardal ar hyn o bryd neu yn y dyfodol am leoedd ychwanegol, gan gyfeirio at gategori iaith a chymeriad crefyddol dynodedig yr ysgol neu'r ysgol arfaethedig, a'i threfniadau derbyn o ran y rhywiau (h.y. cydaddysgol/un rhyw);

  ***Dylid** asesu'r galw am ddarpariaeth ychwanegol o unrhyw fath yn yr ardal a darparu tystiolaeth o'r galw hwnnw. (Yn achos darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i gynnal yn unol ag unrhyw reoliadau a wnaed dan adran 86 o Ddeddf 2013).*

- a fydd cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

[8] Paragraffau 1.46 – 1.48 yn y Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr - Ebrill 2009

## 1.5 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Mae'n bwysig bod cyllid ar gyfer addysg yn gosteffeithiol. **Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â'r adnoddau addysg:

- A fydd cynigion yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n decach ac yn fwy cyfartal rhwng ysgolion prif ffrwd yn ardal yr awdurdod lleol.

  *Er bod disgwyl i'r cyllid y pen a ddarperir i ysgolion amrywio i ryw raddau, gall patrymau aneffeithlon o ran ad-drefnu ysgolion arwain at batrymau ariannu anghyfartal ac annheg lle bydd rhai ysgolion yn derbyn cyfran anghymesur o'r cyllid ar draul disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill yn yr ardal.* ***Ni ddylai*** *cynigion waethygu gwahaniaethau cyllid o'r fath. Yn hytrach, lle bynnag y bo'n bosibl,* ***dylent*** *gyfrannu at sefydlu patrwm ariannu tecach ar gyfer ysgolion.*

- pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar ddarpariaeth dros ben yn yr ardal;

  *Mae angen rhai lleoedd gwag fel y gall ysgolion ymdopi ag amrywiadau mewn niferoedd disgyblion, ond mae gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen.*

  *Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal,* ***dylai*** *awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a* ***dylent*** *wneud cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes gan ysgolion lefel "sylweddol" o leoedd gwag. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol (fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr 21/2011) ac o leiaf 30 o leoedd gwag.*

  *Fel arfer,* ***ni ddylid*** *bod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion os oes gan ysgolion eraill o'r un fath leoedd gwag o fewn pellter rhesymol. Fodd bynnag efallai y bydd cynigion i gynyddu nifer y lleoedd mewn ymateb i'r galw am fath arbennig o ddarpariaeth e.e. cyfrwng Cymraeg, yn dal yn briodol - yn enwedig os oes darpariaeth effeithiol o leoedd wedi'i chynllunio ar gyfer ardal yr awdurdod lleol.*

- a yw cynigion yn rhan o Raglen Fuddsoddi'r awdurdod lleol o dan y fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac felly'n cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac at well rheolaeth strategol ar ystad yr ysgolion trwy gael gwared ar waith cynnal a chadw sy'n pentyrru ac ar adeiladau ysgol gwael ac aneffeithlon.

**Dylai** cyrff perthnasol hefyd ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â chyllid:

- costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, man lleiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael;

- costau cludiant ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i gynigion;

  ***Dylai*** *cynigwyr ystyried y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a* ***dylent*** *gael cyngor gan y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ar yr effaith y gall y cynnig ei chael ar y costau cludiant perthnasol a'u fforddiadwyedd.*

- costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael;

- maint unrhyw arbedion net arfaethedig (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf ysgolion);

  *Mewn perthynas â chynigion lle mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw (er enghraifft i ategu gwaith ailfodelu sylweddol, gwaith adnewyddu neu brosiect adeiladu o'r newydd),* ***dylid*** *cyfrifo costau ac arbedion y cynigion dros oes yr adeilad perthnasol, a'u cymharu â'r costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â chynnal y sefyllfa sydd ohoni. Lle mae achos busnes awdurdod lleol ar gyfer cyllid o dan y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â model busnes 5 achos Trysorlys Ei Mawrhydi, byddai hyn yn darparu tystiolaeth ddigonol o effeithiolrwydd cost y cynnig o ran gwariant cyfalaf;*

- a fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffyg cyllidebol heb y cynigion;

- a gaiff unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol;

- a fyddai'r enillion (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu'n cyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd ysgolion yn effeithiol.

  *Yn gyffredinol,* ***dylai*** *awdurdodau lleol geisio ailgylchu asedau o unrhyw adeiladau a safleoedd ysgolion dros ben sy'n eiddo iddynt i wella eu hadeiladau ysgolion yn gyffredinol yn hytrach na neilltuo'r enillion hynny i brosiectau y tu allan i'r portffolio addysg, er mai awdurdodau lleol sy'n gwneud y penderfyniadau hyn yn y pen draw.*

## 1.6 Ffactorau cyffredinol eraill

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau cyffredinol canlynol:

- yr effaith y bydd cynigion yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd;

- unrhyw faterion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb;

- a yw'r ysgol neu'r ysgolion yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir.

  ***Rhaid*** *i gynigion sy'n effeithio ar elusennau gyd-fynd â'r gyfraith elusennau neu â'r diben a ddatganwyd ar gyfer yr ymddiriedolaeth elusennol.*[9] *Os oes unrhyw ansicrwydd, dylid cael cyngor gan y Comisiwn Elusennau neu Weinidogion Cymru (fel Prif Reoleiddiwr cyrff llywodraethu sy'n elusennau).*

## 1.7 Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

Nid oes unrhyw ragdybiaeth o blaid neu yn erbyn cau unrhyw fath o ysgol. Prif ddiben ysgolion yw darparu addysg a **dylai** unrhyw achos dros gau ysgol fod yn gadarn ac er budd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal. Serch hynny, mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol.

**Dylai'r** achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd.

Wrth ystyried a yw'n briodol cau ysgol, **dylid** rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

- a ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu'r rhesymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn;

- a ellid ystyried posibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill (gan ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgolion), neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn amgen yn lle cau'r ysgol;

---

[9] Mae cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig a gwirfoddol yn elusennau o dan adran 23 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a gall safleoedd ysgolion cymunedol fod yn ddarostyngedig i fuddiannau elusennol hefyd.

- a ellid archwilio’r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol;

  (**Dylai** awdurdodau lleol ystyried a fyddai'n ddichonadwy ac yn ddarbodus cyd-leoli gwasanaethau lleol yn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal yr ysgol);

- effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol), yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu'r rhai sy'n cael arian fel rhan o weithgarwch adfywio;

- sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig (ee sut y cynorthwyir disgyblion, yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais, i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol).

Er nad yw'r gofyniad i ymgynghori o dan Ddeddf 2013 yn gymwys i gynigion i gau ysgolion bach â llai na 10 o ddisgyblion adeg cyfrifiad y mis Ionawr blaenorol[10], **rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n cyflwyno cynigion o'r fath ystyried y ffactorau a nodir yn y Cod hwn.

## 1.8 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau, yr ystafelloedd a'r cyfleusterau a gynigir, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sy’n dymuno ychwanegu lleoedd meithrin;

- a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal;

- lefel y galw am fathau penodol o addysg feithrin, ee addysg feithrin cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth â chymeriad crefyddol;

- effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector;

- i ba raddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu i ba raddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.

[10] Mae Adran 56 o Ddeddf 2013 yn diffinio ysgol fach, at ddibenion penderfynu a oes angen ymgynghori, yn ysgol â llai na 10 disgybl cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y gwneir y cynigion.

## 1.9 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- a fydd cynigion yn arwain at wella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiant unigolion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 19 oed;

- a fydd cynigion yn cyfrannu at amrywiaeth briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr ac sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion o bob gallu, a hefyd yn cynnal cyrsiau TGAU, Lefel UG/Lefel Uwch a chyrsiau sefydledig eraill yn ôl y gofyn o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed;

- a yw'r cynigion yn debygol o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n parhau i ddysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion a chostau cludiant i'r dysgwr ac eraill, fforddiadwyedd costau o'r fath a'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn barod i deithio;

- i ba raddau y mae cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19 gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 lleol a phartneriaethau dysgu;

- effaith cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion;

- sut y byddai cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu addysg ôl-16 safonol, gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddi preifat;

- sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 lleol a'r ardal ehangach, neu'r gwaith i'w gwella, a hyrwyddo mynediad i'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg ôl-16;

- i ba raddau y bydd y cynigion yn rhoi manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â chadw'r sefyllfa bresennol a dewisiadau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16;

- sut y gall cynigion effeithio ar y ddarpariaeth cludiant ddewisol y gall awdurdod lleol ei darparu i ddysgwyr[11] sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

---

**[11] Mae Adran 6 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn rhoi grym i awdurdod lleol ddarparu cludiant dewisol lle maent hwy yn gweld yn dda i hwyluso trefniadau teithio dysgwyr. Mae paragraffau 2.1 – 2.8 o'r Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr - Ebrill 2009 yn darparu canllawiau pellach ar y ddarpariaeth hon.**

## 1.10 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu i sefydlu ysgol wirfoddol newydd

**Dylai'r** cyrff perthnasol ystyried y canlynol:

- a yw'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn ysgwyddo ei gyfrifoldeb;
- y bydd corff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn gallu ysgwyddo ei gyfrifoldebau ariannol ar gyfer atgyweiriadau a gwaith cyfalaf;
- bod y trefniadau arfaethedig ar gyfer deiliadaeth y tir yn rhoi sicrwydd digonol y bydd yr ysgol yn cadw'r safle.

  *Lle na bydd trefniadau deiliadaeth tir wedi'u cadarnhau, gallai'r rhai sy'n penderfynu ar gynigion nodi eu bod yn gogwyddo o blaid cymeradwyo'r cynigion, yn amodol ar ddatrys y materion hynny yn foddhaol. Gallai penderfyniad o'r fath fod yn briodol pan na fydd hyrwyddwyr yn fodlon ysgwyddo costau cyfreithiol i ddatrys y mater deiliadaeth tan iddynt gael gwybod bod y cynigion yn debygol iawn o gael eu cymeradwyo.*

## 1.11 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid iaith y ddarpariaeth

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactor penodol canlynol:

- i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol gan yr awdurdod addysg lleol drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg yn fwy neu'n llai na'r galw neu'r galw a ragwelir gan rieni ar gyfer darpariaeth o'r fath, a chyfraniad y cynnig at unioni'r sefyllfa honno.

## 1.12 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid categori ysgol

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- mae pob categori ysgol - cymunedol, sefydledig, gwirfoddol a reolir neu wirfoddol a gynorthwyir - yn gydradd o ran statws;
- caiff pob cynnig a ganiateir i newid categori ysgol ei ystyried yn unol â'i rinweddau ei hun[12];

[12] Ni chaniateir i ysgolion newid eu categori i fod yn ysgolion sefydledig ac ni chaniateir i ysgolion â chymeriad crefyddol ddod yn ysgolion cymunedol.

- a ellir nodi unrhyw fanteision.

  *Gallai newid categori darfu ar y broses o redeg yr ysgol a/neu osod baich ychwanegol ar y corff llywodraethu a/neu ychwanegu cymhlethdod at drefniadau ad-drefnu neu dderbyn yr ysgol. Felly,* ***dylid*** *bod rhagdybiaeth yn erbyn newidiadau pan na ellir nodi manteision.*

- a yw unrhyw weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol yn caniatáu iddi newid categori. Os oes unrhyw amheuaeth, neu os yw'n amlwg bod angen gwneud amrywiad i'r weithred ymddiriedolaeth, **dylai'r** cynigwyr gysylltu â'r Comisiwn Elusennau'n ddi-oed.

## 1.13 Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth AAA

### Polisïau ac egwyddorion

**Dylid** ystyried yr egwyddorion a'r cynlluniau a nodir mewn mannau eraill o'r Cod hwn wrth ystyried cynigion i ad-drefnu ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau adnoddau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried sut mae cynigion yn ategu cynlluniau'r awdurdod lleol i hyrwyddo cynhwysiant (h.y. darparu ar gyfer cyfran uwch o ddisgyblion ag AAA i fynychu lleoliadau prif ffrwd) lle bynnag y bo'n briodol i ddiwallu anghenion unigol plentyn neu berson ifanc, a chyda'i strategaeth gyffredinol ar gyfer sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer yr amrywiaeth lawn o AAA.

**Dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r ffactorau a nodir isod mewn perthynas â chynigion sy'n effeithio ar ysgolion arbennig ac unedau adnoddau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

### Safonau'r ddarpariaeth

Yn ogystal â'r ystyriaethau arferol mewn perthynas â safonau'r ddarpariaeth, **dylai** cyrff perthnasol ystyried:

- a fydd cynigion yn gwella safonau'r adeiladau a'r ystafelloedd i ddisgyblion ag AAA, gan gynnwys gwella hygyrchedd yr adeilad;
- sut y bydd cynigion yn ymdrin ag unrhyw faterion o ran iechyd, diogelwch a lles;
- sut y bydd cynigion yn hyrwyddo rhagor o gynhwysiant, lle y bo'n briodol;

- effaith cynigion ar ddarpariaeth AAA arall yn ardal agos ac ehangach yr awdurdod lleol gan gynnwys y tu allan i'r sir lle y bo'n briodol.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Yn ogystal â'r ystyriaethau a restrir yn 1.4, **dylai** cyrff perthnasol ystyried:

- a oes angen am fath penodol o ddarpariaeth AAA yn yr ardal;
- a oes gormod o ddarpariaeth AAA yn yr ardal;
- a fyddai'r ddarpariaeth AAA yn fwy effeithiol neu effeithlon pe bai darpariaeth ranbarthol yn cael ei gwneud; ac
- effaith y cynigion hynny ar gludiant dysgwyr ag AAA.

**Ffactorau eraill**

**Dylai** cyrff perthnasol ystyried:

- sut y bydd newidiadau i ddarpariaeth AAA mewn ysgolion yn debygol o effeithio ar yr holl wasanaethau eraill a ddarperir mewn ardal ar gyfer disgyblion ag anableddau a/neu AAA.

## 1.14 Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion

Wrth gymeradwyo neu benderfynu ar gynigion:

- **rhaid** i gyrff perthnasol ystyried a oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill;
- **rhaid** i gyrff perthnasol sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod hwn (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i gau ysgol sy'n ysgol fach);
- **rhaid** i gyrff perthnasol sicrhau bod y cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;
- **rhaid** i gyrff perthnasol ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- **rhaid** i gyrff perthnasol ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sy'n cefnogi'r cynigion;

- **dylai** cyrff perthnasol ystyried a oes unrhyw fanteision, yn achos cynnig i newid categori ysgol. Os na ellir nodi unrhyw fanteision, **ni ddylid** cymeradwyo cynigion o'r fath;

- **rhaid** i gyrff perthnasol **beidio â** chymeradwyo cynigion i newid categori lle mae angen gwneud amrywiad i weithred ymddiriedolaeth, os nad yw'r amrywiad hwnnw wedi ei wneud eto.

# 2. Newidiadau y mae angen cynigion ar eu cyfer

Fel arfer, mae angen gweithdrefnau statudol i wneud newidiadau sylweddol i ysgolion. Mae'r gweithdrefnau wedi'u cynllunio i alluogi gwneud newidiadau pan ystyrir bod y newidiadau hynny yn angenrheidiol, ond mewn ffordd sy'n diogelu buddiannau dysgwyr ac yn rhoi'r cyfle i'r sawl sydd â diddordeb leisio barn ar y broses.

## 2.1 Elfennau ad-drefnu ysgolion y mae angen cyhoeddi cynigion ar eu cyfer

**Rhaid** i gynigion gael eu cyhoeddi ar gyfer yr elfennau canlynol o ran ad-drefnu ysgolion:

1. agor ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);
2. cau ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);
3. newid categori ysgol fel ei bod yn ysgol o gategori arall[13].

**Cynigion i newid categori ysgol:**

| Categori ysgol | Gall ddod yn | Cynigydd |
|---|---|---|
| Ysgol gymunedol* | Ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir | Corff Llywodraethu (CLl) |
| Ysgol wirfoddol a gynorthwyir* | Ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir | CLl |
| Ysgol wirfoddol a reolir* | Ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir | CLl |
| Ysgol sefydledig* | Ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir | CLl |

*Noder nad yw hi'n bosibl i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir nac ysgolion sefydledig, os oes ganddynt gymeriad crefyddol dynodedig, ddod yn ysgolion cymunedol trwy gynnig i newid categori. Yn ogystal â hyn, ni all ysgolion cymunedol ddod yn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, nac yn ysgolion gwirfoddol a reolir, sydd â chymeriad crefyddol dynodedig. Ni chaniateir i ysgolion cymunedol fod â chymeriad crefyddol ac ni ellir gwneud unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei gymeriad crefyddol dynodedig neu sy'n achosi iddi ennill neu golli cymeriad crefyddol dynodedig.

## 2.2 Newidiadau a reoleiddir

[13] Ac eithrio ysgol sefydledig – mae Deddf 2012 yn gwahardd ysgolion rhag newid eu categori i fod yn ysgolion sefydledig.

Yn ogystal â hyn, **rhaid** i gynigion gael eu cyhoeddi ar gyfer y newidiadau sylweddol canlynol (a elwir yn "newidiadau a reoleiddir") i ysgolion:

- trosglwyddo ysgol i safle neu safleodd newydd oni fyddai prif fynedfa'r ysgol ar ei safle newydd o fewn 1.609344 cilometr (un filltir) o brif fynedfa'r ysgol ar ei safle a safleodd presennol.

- newid ysgol (gan gynnwys ysgol arbennig) o fod yn ysgol un rhyw i fod yn ysgol gymysg, neu i'r gwrthwyneb. (Ystyrir bod ysgol yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig os cyfyngir y disgyblion a dderbynnir o'r rhyw arall i ddisgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ac nad yw nifer y disgyblion hynny yn fwy na 25% o'r grŵp oedran dan sylw);

- newid yn ystod oedran ysgol (gan gynnwys ysgol arbennig) o flwyddyn neu fwy (heb gynnwys cyflwyno Addysg Bellach ran amser neu lawn amser neu ddod â'r addysg honno i ben a heb gynnwys newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol sy'n ailadrodd cwrs addysg a gwblhawyd cyn iddynt gyrraedd yr oedran ysgol gorfodol);

- cyflwyno darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol neu ddod â'r ddarpariaeth honno i ben;

- newid cyfrwng addysgu dosbarth o ddisgyblion mewn grŵp neu grwpiau oedran (gan gynnwys disgyblion meithrin) mewn ysgol gynradd (neu addysg gynradd mewn perthynas ag ysgolion canol neu ysgolion arbennig) o fod y perthyn i'r disgrifiad yng ngholofn 1 o'r tabl isod i fod yn perthyn i'r disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

| **Colofn 1** | **Colofn 2** |
|---|---|
| Gwneir o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Cynnydd neu ostyngiad o fwy nag 20% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Gwneir o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynnydd neu ostyngiad o fwy nag 20% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Gwneir mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, a gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Gwneir mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Gwneir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Gwneir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. |

| | |
|---|---|
| Gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |

- newid cyfrwng addysgu disgyblion mewn grŵp blwyddyn mewn ysgol uwchradd (neu addysg uwchradd mewn perthynas ag ysgolion canol neu ysgolion arbennig) o fod yn perthyn i'r disgrifiad yng ngholofn 1 o’r tabl isod i fod yn perthyn i'r disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

| **Colofn 1** | **Colofn 2** |
|---|---|
| Addysgir pum pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. | Gostyngiad o bedwar pwnc perthnasol neu fwy a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir pum pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. | Gostyngiad o bedwar pwnc perthnasol neu fwy a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl ddisgyblion. | Addysgir tri phwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i'r holl ddisgyblion. | Addysgir tri phwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir un pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir un pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. |

(Diffinnir pynciau perthnasol fel unrhyw bynciau ar wahân i Gymraeg a Saesneg a addysgir mewn ysgol.)

- ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r

gwaith ehangu arfaethedig. Y "dyddiad priodol" yw'r dyddiad diweddaraf o blith:

- y dyddiad sydd bum mlynedd cyn y dyddiad y bwriedir gweithredu'r cynigion i ehangu'r ysgol;
- y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;
- y dyddiad (neu'r dyddiad diweddaraf) pan weithredwyd unrhyw gynigion statudol blaenorol a oedd yn golygu ehangu safle'r ysgol.

At ddibenion ehangu safle ysgol, pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Rhif: 21/2011);

- gwneud ehangiad dros dro o'r ysgol yn ehangiad parhaol, pan fyddai'r ehangiad dros dro hwnnw wedi bod yn newid a reoleiddir oni bai am y ffaith mai dros dro ydoedd;

- lleihau capasiti ffisegol ysgol brif ffrwd, ac eithrio pan fydd y capasiti arfaethedig yn fwy na nifer uchaf y disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol ar unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd ysgol flaenorol cyn cyhoeddi'r cynnig. Yn y cyd-destun hwn, pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011 Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru)[14];

- ychwanegu neu ddileu darpariaeth AAA neu newid y math o ddarpariaeth. Dyma lle mae'r ddarpariaeth mewn ysgol brif ffrwd ond mae'r disgyblion a dderbynnir yn ychwanegol at nifer derbyn yr ysgol. Hefyd, **rhaid** i'r awdurdod lleol gydnabod bod y ddarpariaeth wedi'i chadw'n ôl ar gyfer disgyblion ag AAA;

- cyflwyno neu derfynu trefniadau bandio ar gyfer derbyn disgyblion i ysgol brif ffrwd (o dan adran 101 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf 1998));

- cyflwyno neu derfynu darpariaeth breswyl, neu gynnydd neu ostyngiad gan 50 o ddisgyblion neu 50% o'r capasiti yn y ddarpariaeth breswyl mewn ysgolion prif ffrwd, pa un bynnag sydd fwyaf;

- ar gyfer ysgolion arbennig (ac eithrio os yw'r ysgol mewn ysbyty), cynnydd yn nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer a fyddai, ar y cyd â phob cynnydd blaenorol o'r fath yn nifer y disgyblion, yn cynyddu 10 % ar nifer y disgyblion neu nifer perthnasol y disgyblion o'r fath (pa un bynnag sydd leiaf). Y nifer perthnasol yw 5 os mai dim ond darpariaeth breswyl a gynigir gan yr ysgol, ac 20

[14] **Effaith hyn yw y bydd ysgolion â chapasiti dros ben yn gallu dileu'r capasiti hwnnw heb yr angen am gynnig statudol. Fodd bynnag, os bydd ysgolion yn llawn neu bron yn llawn, rhaid cyhoeddi cynnig i leihau capasiti'r ysgol.**

mewn achosion eraill. Ystyrir unrhyw gynnydd blaenorol yn nifer y disgyblion o'r dyddiad priodol. Y dyddiad priodol yw'r dyddiad diweddaraf o blith y canlynol:

– 19 Ionawr 2013;
– y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;
– y dyddiad (neu'r dyddiad diweddaraf) pan weithredwyd unrhyw gynigion statudol blaenorol a oedd yn golygu ehangu safle'r ysgol.

- ar gyfer ysgol arbennig, cyflwyno neu derfynu'r ddarpariaeth breswyl, neu newid y ddarpariaeth breswyl fel bod nifer y disgyblion y gwneir darpariaeth ar eu cyfer yn cynyddu neu'n gostwng gan 5 disgybl;

- newid yn y math o anghenion addysgol arbennig y mae ysgol arbennig yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer;

- ehangu'r gofod addysgu, neu wneud ehangiad dros dro yn ehangiad parhaol, mewn ysgol feithrin, a hynny o 50% neu ragor;

- ychwanegu neu ddileu darpariaeth (mewn ysgol feithrin) y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ei bod wedi'i chadw'n ôl ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;

- ar gyfer ysgol feithrin lle yr addysgir grŵp o ddisgyblion yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, newid fel bod yr holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg;

- ar gyfer ysgol feithrin lle yr addysgir grŵp o ddisgyblion yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, newid fel bod yr holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 2.3 Pwy all gyhoeddi cynnig?

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r pwerau i gyhoeddi cynigion o dan adrannau 41-45 o Ddeddf 2013:

| **Awdurdod Lleol** | **Llywodraethwyr Ysgolion Sefydledig neu Ysgolion Gwirfoddol** | **Hyrwyddwyr Ysgolion Gwirfoddol newydd (gan gynnwys awdurdodau lleol)** | **Llywodraethwyr Ysgolion Cymunedol** |
|---|---|---|---|
| Cynigion i gau ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig. | Cynigion i gau eu hysgol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynigion i gynyddu/gostwng capasiti ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol heb gymeriad crefyddol. | Cynigion i wneud newid sylweddol i'w hysgol. | | |
| Cynigion i sefydlu, cau neu wneud newid sylweddol i ysgolion cymunedol. | | Cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd. | |
| Cynigion i newid categori ysgolion cymunedol. | Cynigion i newid categori eu hysgol. | | Cynigion i newid categori eu hysgol. |

Gall awdurdodau lleol hefyd wneud cynigion i ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd gwirfoddol a sefydledig, ond dim ond os ydynt wedi cael caniatâd Gweinidogion Cymru i wneud hynny. **Rhaid** ceisio caniatâd drwy gais ysgrifenedig sy’n nodi rhesymeg yr awdurdod lleol dros y cynnig yn glir.

Yn ogystal â hyn, mae Deddf 2013 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynigion i:

a) unioni darpariaeth ormodol neu annigonol o leoedd mewn ysgolion (lle maent eisoes wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i’r perwyl hwnnw) (adran 59);

b) sicrhau darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (lle maent eisoes wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i awdurdod lleol/awdurdodau lleol/cyrff llywodraethu i’r perwyl hwnnw) (adran 68), ac

c) ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth mewn ysgol (adran 71).

# 3. Ymgynghori

## 3.1 Egwyddorion

Mae Adran 48 o Ddeddf 2013 yn nodi bod yn **rhaid** cynnal ymgynghoriad ar gynigion trefniadaeth ysgolion cyn eu cyhoeddi o dan adrannau 41-45. Yn ogystal â hyn, mae’n **rhaid** cynnal ymgynghoriad hefyd ar gynigion a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 68 i sicrhau darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig neu o dan adran 71 i ad-drefnu chweched dosbarth. Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i gau ysgol fach[15] a wneir o dan adran 43.

Mae’r gyfraith achosion wedi pennu y dylai’r broses ymgynghori:

- gael ei chynnal pan fydd cynigion yn dal ar gam ffurfiannol;
- cynnwys digon o wybodaeth a rhesymau dros gynigion penodol er mwyn sicrhau ystyriaeth ac ymateb deallus;
- rhoi digon o amser i ystyried y cynigion ac ymateb iddynt;
- sicrhau y caiff yr hyn sy'n deillio o'r ymgynghoriad ei ystyried mewn ffordd gydwybodol pan wneir y penderfyniad yn y pen draw.

Mae'r broses a'r canllawiau canlynol wedi'u datblygu gan roi sylw dyledus i'r egwyddorion a restrir uchod. Bydd angen i'r rhai sy'n ystyried cyflwyno cynigion fod yn gwbl ymwybodol o'r broses hon a'r canllawiau hyn. Fodd bynnag, **rhaid** i gynigwyr gofio'r pedair egwyddor sylfaenol a chymryd unrhyw gamau ychwanegol angenrheidiol i sicrhau y cynhelir yr egwyddorion hynny.

O bryd i’w gilydd, bydd cynigwyr wedi cynnal ymgynghoriad ‘anffurfiol’ gyda rhai rhanddeiliaid penodol ynghynt yn y broses o ddatblygu cynigion. **Rhaid peidio ag** ystyried bod ymgynghoriad o’r fath yn disodli unrhyw ran o’r prosesau ymgynghori ffurfiol a amlinellir isod.

## 3.2 Dogfen ymgynghori

**Rhaid** i'r rhai sy'n cyflwyno cynigion statudol gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol. **Rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais. **Dylid** ystyried cyhoeddi mewn fformatau eraill os bydd hygyrchedd yn peri pryder.

**Rhaid** i’r canlynol dderbyn naill ai gopi caled o’r ddogfen ymgynghori neu e-bost yn cynnwys dolen i’r wefan berthnasol (ond *gweler* hefyd yr adran ar Ymgynghori â Phlant â Phobl Ifanc):

[15] Mae Deddf 2013 yn diffinio ysgol fach fel ysgol â llai na 10 disgybl cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y gwneir y cynigion. Dewiswyd y dyddiad hwn oherwydd mai dyma’r dyddiad y mae gofyn i bob ysgol yng Nghymru gyflwyno’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion i Lywodraeth Cymru, sy’n cynnwys nifer y disgyblion ar y gofrestr.

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion â datganiad ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion a chyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion sydd wedi'u dadleoli;
- rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff yr ysgolion hynny;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff perthnasol sy'n cynrychioli ysgolion a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol);
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol y gall y cynigion effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;

- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd sydd fel arfer yn trosglwyddo i'r ddarpariaeth uwchradd honno.

**Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori yn ystod tymor yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt a **rhaid** i ymgyngoreion gael o leiaf 42 diwrnod i ymateb i'r ddogfen gydag o leiaf 20 o’r rhain yn ddiwrnodau ysgol.

Yn achos pob cynnig, **rhaid** i'r ddogfen ymgynghori gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

**Disgrifiad a manteision**

- disgrifiad manwl o’r sefyllfa bresennol, sy’n amlinellu cryfderau a gwendidau a’r rhesymau pam yr ystyrir bod angen newid;

- disgrifiad manwl o'r cynnig neu gynigion (gall cynigydd ymgynghori ar fwy nag un cynnig posibl), yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu'r cynigion ac unrhyw drefniadau interim arfaethedig y gellid bod angen eu gweithredu. Wrth ddisgrifio’r cynigion, fel arfer **dylai** cynigwyr gyfeirio atynt gan ddefnyddio’r termau a amlinellir yn y Cod hwn (ee ‘cau ysgolion’), ond os bydd dwy ysgol bresennol neu fwy yn uno’n un ysgol sy’n gweithredu ar fwy nag un safle (ee os bydd hen ysgol babanod ac ysgol iau yn uno i greu ysgol gynradd), gellid defnyddio’r term ‘uno’;

- manteision disgwyliedig y cynigion ac anfanteision o gymharu â’r sefyllfa bresennol;

- unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â’r cynigion ac unrhyw fesurau sy’n ofynnol i reoli’r rhain;

- disgrifiad o unrhyw ddewisiadau amgen a ystyriwyd a’r rhesymau dros eu gwrthod;

- gwybodaeth am unrhyw newidiadau i drefniadau teithio gan ddysgwyr pe bai’r cynigion yn cael eu gweithredu a’r effaith ar hygyrchedd y ddarpariaeth.

**Manylion yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt**

- enwau, lleoliadau a chategorïau (hy cymunedol, gwirfoddol a reolir, gwirfoddol a gynorthwyir, sefydledig) pob ysgol bresennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni (er

enghraifft, yn achos cynnig i gau ysgol, **dylid** rhoi gwybodaeth am yr holl ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y bydd disgyblion yn dymuno trosglwyddo iddynt);

- nifer y disgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd[16] a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad ysgolion blynyddol blaenorol ymhob un o’r ysgolion y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt;

- rhagolygon pum mlynedd o'r disgyblion ar y gofrestr ymhob un o’r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, a hynny ar hyn o bryd (h.y. yn seiliedig ar y ffordd y mae ysgolion wedi'u trefnu ar hyn o bryd) a phe gweithredid y cynigion;

- capasiti lleoedd disgyblion[17] ymhob un o’r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt;

- nifer y lleoedd meithrin ymhob un o’r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt;

- gwybodaeth am ansawdd adeiladau ac ystafelloedd ymhob un o’r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys cyfeiriad at gategori cyflwr yr ysgol fel y’i nodwyd yn sgil Arolwg Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif;

- cyfrwng iaith pob un o’r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt (gan ddefnyddio’r Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 23/2007 "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg").

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

- effaith debygol y cynigion ar ansawdd y canlynol (cyfeirir at Gwestiynau Allweddol perthnasol Estyn mewn cromfachau):

  a. y deilliannau (safonau a lles);
  b. y ddarpariaeth (profiadau dysgu; addysgu, gofal, cymorth ac arweiniad; a'r amgylchedd dysgu);
  c. arweinyddiaeth a rheolaeth (arweinyddiaeth; gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth; a rheoli adnoddau).

yn yr ysgol neu'r ysgolion sy’n destun cynigion ac unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni/arno.

---

[16] Ar gyfer ysgolion cynradd, dylid dangos nifer y disgyblion meithrin ar wahân ac ni ddylid eu cynnwys mewn rhagolygon.
[17] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru".

- gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;

- effaith debygol y cynigion ar allu ysgol neu ysgolion sy'n destun cynigion neu unrhyw ysgol arall sy'n debygol o gael ei heffeithio i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol.

**Cyllid**

- costau ariannol ac arbedion y cynnig ac unrhyw arbedion posibl (gan gynnwys, lle bo'n bosibl, y costau presennol y disgybl a'r costau a amcanestynnir unwaith y gweithredid y cynnig) - cyfalaf a rheolaidd (gan gynnwys costau cludiant a staff yr ysgol);

- ffynonellau cyllid cyfalaf;

- sut y caiff unrhyw dderbyniadau cyfalaf neu arbedion costau rheolaidd eu defnyddio.

**Tir ac adeiladau**

- manylion unrhyw dir neu adeiladau y gellid bod angen eu trosglwyddo neu eu gwaredu o ganlyniad i'r cynigion.

**Manylion ymgynghori**

- manylion o ran sut y gall pobl leisio eu barn gan gynnwys y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno sylwadau ysgrifenedig a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn y sylwadau hynny;

- manylion o ran sut y gall pobl ofyn cwestiynau eraill am y cynigion;

- datganiad i'r perwyl na chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyfrif yn wrthwynebiadau i'r cynnig ac mai dim ond ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad y gall gwrthwynebiadau gael eu cofrestru;

- esboniad o'r broses gyhoeddi, sut i gyflwyno gwrthwynebiadau a sut y penderfynir ar gynigion cyhoeddedig;

- ffurflen ar gyfer cyflwyno sylwadau, gan gynnwys cyfle i ymgyngoreion awgrymu dewisiadau amgen i'r cynigion a nodi eu dymuniad i gael eu hysbysu pan gaiff yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ei gyhoeddi.

Pan fydd cynigion yn cynnwys sefydlu ysgol newydd, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori hefyd:

- Ar gyfer yr ysgol newydd:

  a. y nifer derbyn a'r trefniadau derbyn arfaethedig;

  b. ystod oedran;

  c. capasiti lleoedd disgyblion a/neu nifer y lleoedd meithrin;

  ch. lleoliad;

  d. categori (h.y. cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir neu wirfoddol a reolir);

  dd. categori iaith (yn ôl y diffiniad yn Nogfen Wybodaeth Rhif 023/2007);

  e. manylion yr adeiladau a'r ystafelloedd arfaethedig, gan gynnwys rhestr o'r cyfleusterau arfaethedig;

  f. yn achos uned adnoddau anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig, gwybodaeth am anghenion arbennig y disgyblion y cynigir eu derbyn;

  ff. trefniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol (gan gynnwys unrhyw drefniadau pontio) a pholisi cludiant yr awdurdod lleol.[18]

Pan fydd cynigion yn cynnwys cau ysgol, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- manylion unrhyw opsiynau amgen sydd wedi'u hystyried yn lle cau'r ysgol, a'r rhesymau dros beidio â bwrw ati â'r rhain;

- effaith y cynigion ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf neu raglenni olynol;

- yr effaith debygol ar staff yr ysgolion a enwir mewn cynigion;

- yn achos darpariaeth amgen:

  a. enw a lleoliad y ddarpariaeth amgen arfaethedig;

  b. cymhariaeth o ansawdd a safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni a'r ysgol neu ysgolion amgen arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn yr opsiwn amgen;

---

**[18] Mae Adran 3 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi trothwy ar gyfer hawl i ddarpariaeth cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol, sef 2 filltir neu fwy ar gyfer addysg gynradd a 3 milltir neu fwy ar gyfer addysg uwchradd orfodol.**

c. trefniadau derbyn yr ysgol amgen arfaethedig;

ch. cymhariaeth o ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni a'r dewis arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw ddiffygion yn y dewis amgen;

d. gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sydd ei angen i sicrhau y gall plant sy'n trosglwyddo gael lle yn y ddarpariaeth amgen;

dd. yr effaith ar amseroedd teithio disgyblion i'r ysgol ac ar gostau cludiant i'r ysgol;

e. gwybodaeth am lwybrau cerdded sydd ar gael i'r ddarpariaeth amgen;

f. cyfrwng iaith yr ysgol amgen arfaethedig.

Pan fydd cynigion yn ymwneud ag ysgol arbennig neu'n cynnwys unedau adnoddau arbenigol sydd wedi'u hatodi i ysgolion prif ffrwd, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- yr effaith ar ddarpariaeth AAA;
- sut y bydd cynigion yn cyfrannu'n fwy cyffredinol at wella ansawdd yr addysg a'r cymorth i blant ag AAA.

Pan fydd unrhyw ysgol sy'n rhan o gynnig neu y mae cynnig yn effeithio arni yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- effaith y cynigion ar y Gymraeg (*gweler* yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn Atodiad D).

Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ysgol â chymeriad crefyddol dynodedig, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori;

- yr effaith ar argaeledd a mynediad i leoedd mewn ysgol â'r un cymeriad crefyddol dynodedig.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud â newid categori, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- effaith y newid categori ar drefniadau llywodraethu a phwerau'r corff llywodraethu mewn perthynas â pholisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth a chwricwlwm;

- unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth a chwricwlwm.

O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd cynigwyr o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori ar amrywiaeth o opsiynau yn hytrach nag un cynnig penodol, ond,

ym mhob achos, **rhaid** i'r holl wybodaeth uchod gael ei darparu mewn perthynas â phob un o'r opsiynau a nodwyd.

Ceir templed enghreifftiol ar gyfer dogfen ymgynghori yn Atodiad C. Nid yw'n ofynnol i gynigwyr gadw at y fformat a argymhellir, ond **rhaid** iddynt sicrhau bod unrhyw fformat arall y maent yn dewis ei ddefnyddio yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol.

## 3.3 Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

**Rhaid** i gynigwyr wneud trefniadau addas hefyd i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol y bydd y cynigion yn effeithio arni (neu ran o ysgol yn achos darpariaeth sy’n unswydd ar gyfer plant ag AAA) a, lle y bo'n bosibl, blant a phobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgolion hynny. **Rhaid** i hyn gynnwys, man lleiaf, ymgynghoriad â chynghorau ysgol yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a dylai hefyd gynnwys ymgynghoriad â dysgwyr unigol pan fydd hyn yn briodol ac yn ymarferol. **Rhaid** i gyrff llywodraethu helpu i hwyluso'r agwedd hon ar yr ymgynghoriad.

**Rhaid** i'r wybodaeth a roddir i blant a phobl ifanc gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a'u lefel dealltwriaeth debygol ac yn eu galluogi i lunio barn ddeallus. Mae’r safonau cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru; **dylai** cynigwyr gyfeirio at y rhain a gweithredu’n unol â nhw.

Os ymgynghorir â dysgwyr unigol, **dylai** cynigwyr gynhyrchu a dosbarthu fersiwn neu fersiynau o’r ddogfen ymgynghori sy’n briodol i oed/oedrannau’r plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt. **Dylai’r** ddogfen ymgynghori esbonio’n glir i blant a phobl ifanc y gwahaniaeth rhwng y cyfnod ymgynghori a’r cyfnod gwrthwynebu ynghyd â sut a phryd y gallant wrthwynebu cynigion. Os bydd angen, **dylai** cynigwyr helpu plant a phobl ifanc sydd am gyflwyno ymateb i’r ymgynghoriad.

## 3.4 Gweithdrefnau

Nid yw'n ofynnol i gynigwyr gynnal cyfarfodydd ymgynghori er y bydd amgylchiadau lle y bydd cynigwyr o'r farn y bydd cyfarfod â grwpiau penodol o ymgyngoreion o gymorth mawr wrth ledaenu gwybodaeth ac yn rhoi llwyfan addas i ymgyngoreion leisio eu barn. Pan drefnir cyfarfodydd, **dylai** cynigwyr sicrhau y cânt eu trefnu mewn ffordd sy'n golygu y caiff ymgyngoreion yn unrhyw un o'r categorïau a nodir ym mharagraff 3.2 eu trin yn deg a chyfartal. **Dylai** cofnod ysgrifenedig llawn gael ei wneud o'r materion a godir a'r atebion a roddir mewn unrhyw gyfarfodydd a gynhelir.

Gall cynigwyr ddefnyddio ffyrdd eraill o ymgysylltu ag ymgyngoreion, fel sy'n briodol yn eu barn hwy. Er enghraifft, gallai diwrnodau agored neu sesiynau 'galw heibio' fod yn ffordd gyfleus i’r sawl sydd â diddordeb gael gwybodaeth, holi am eglurhad a rhoi sylwadau.

Yn achos cynigion i ad-drefnu ysgolion y mae tir a/neu adeiladau'n a gedwir ar ymddiriedolaeth, neu ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig, **rhaid** i'r cynigydd gynnal ymgynghoriad â'r ymddiriedolwyr a/neu'r corff crefyddol priodol cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori. **Rhaid** i'r cynigydd ganiatáu 28 diwrnod ar gyfer derbyn sylwadau a **rhaid** iddo roi sylw priodol i'r sylwadau hyn cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gynnal ymgynghoriad cyffredinol.

Pan fydd opsiwn newydd yn dod i'r amlwg yn ystod ymgynghoriad ac y mae'r cynigwyr yn penderfynu ei ystyried, **rhaid** iddynt ymgynghori eto ar yr opsiwn hwn cyn symud ymlaen i gyhoeddi'r cynigion.

## 3.5 Adroddiadau ymgynghori

O fewn 13 wythnos i ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion (ac ym mhob achos cyn cyhoeddi'r cynigion), **rhaid** i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad, gan:

- grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;
- ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny;
- nodi barn Estyn (fel y nodir yn ei ymateb i'r ymgynghoriad) ar rinweddau'r cynnig yn eu cyfanrwydd.

Gallai'r adroddiad ar yr ymgynghoriad hefyd wneud argymhellion - er enghraifft, i weithrediaeth yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu - ynghylch sut i fwrw ymlaen, h.y. cyhoeddi'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol neu ailwampio'r cynigion ac ailymgynghori arnynt.

**Rhaid** i gynigwyr sicrhau y tynnir sylw yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad at unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hynny yn gallu deall yr adroddiad.

**Rhaid** i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad gael ei gyhoeddi'n electronig, naill ai ar wefan y cynigydd neu, os nad oes un ar gael, ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol. Yn ogystal â hyn, **rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais. **Rhaid** i hyn ddigwydd cyn cyhoeddi unrhyw gynnig.

**Rhaid** i'r canlynol gael gwybod bod yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael:

- Disgyblion, rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff ysgolion sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno;
- ymgyngoreion a oedd wedi gofyn am gael eu hysbysu.

**Rhaid** i'r canlynol dderbyn naill ai gopi caled o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad neu e-bost yn cynnwys dolen i'r wefan berthnasol:

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion â datganiad ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion a chyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion sydd wedi'u dadleoli;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff perthnasol sy'n cynrychioli ysgolion a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol);
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol y gall y cynigion effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;

- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol.

Oni bai bod cynigwyr wedi gwneud cais am estyniad amser a'i fod wedi'i roi gan Weinidogion Cymru, **rhaid** cyhoeddi cynigion cyn pen 26 wythnos o ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad, fel arall bydd y cynigion yn methu a **rhaid** cyhoeddi dogfen ymgynghori newydd er mwyn eu hatgyfodi.

**Rhaid** gwneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am estyniad amser cyn i'r cyfnod 26 wythnos ddod i ben a **rhaid** iddo nodi'r rhesymau pam yr ystyrir bod angen estyniad. Wrth benderfynu a ddylent gymeradwyo estyniad, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y rhesymau a roddir dros y cais, natur y cynigion ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. Byddai Gweinidogion Cymru yn annhebygol o gymeradwyo unrhyw gais a fyddai'n arwain at fwy na blwyddyn rhwng diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddi hysbysiad statudol.

Weithiau, cyflwynir cynigion statudol o ganlyniad i adolygiadau strategol o’r ddarpariaeth ysgolion gan awdurdodau lleol. Er ei bod hi’n arfer da ymgynghori ar adolygiadau o’r fath, **rhaid** i ymgynghoriad o’r fath **beidio â** chymryd lle'r ymgynghoriad ffurfiol sydd ei angen ar gynigion unigol yn unol â'r Cod.

Pan nad awdurdod lleol yw'r darpar gynigydd **dylai’r** cynigydd fynd ati’n gynnar, h.y. cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol ddechrau, i drafod ei fwriadau â'r awdurdod lleol a fyddai'n cynnal unrhyw ddarpariaeth newydd neu ddarpariaeth ddiwygiedig arfaethedig.

**Ni ddylai** cynigwyr gyfeirio at y cyfnod a ganiateir ar gyfer gwrthwynebiadau fel y cyfnod ymgynghori. Dim ond i'r cyfnod <u>cyn</u> y gwneir penderfyniadau terfynol i fwrw ati i gyhoeddi cynnig y mae'r term ‘ymgynghori’ yn gymwys.

Gall ymgyngoreion gyflwyno barn o blaid neu yn erbyn cynnig. **Dylid** hysbysu ymgyngoreion na chaiff sylwadau anffafriol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu trin fel gwrthwynebiadau ac, os dymunant wrthwynebu, fod angen iddynt wneud hynny’n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Os bydd ymgyngoreion yn cyflwyno cais yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn gofyn i ymateb a gyflwynir yn ystod y cam ymgynghori gael ei ystyried yn wrthwynebiad, fel arfer **dylai** hyn gael ei dderbyn. **Dylai'r** rhai sy'n gyfrifol am gyhoeddi cynigion wneud pob ymdrech i sicrhau y bydd y rhai sydd wedi gwrthwynebu neu wedi mynegi pryder yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ymwybodol bod hysbysiadau statudol wedi'u cyhoeddi.

# 4. Cyhoeddi cynigion statudol

## 4.1 Sut y cyhoeddir cynigion

Unwaith y bydd y cynigydd yn penderfynu bwrw ymlaen â chynnig, **rhaid** iddo gyhoeddi'r cynnig[19] ar ffurf hysbysiad statudol.

**Rhaid** i gynigion gael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a **rhaid** i'r cyfnod gwrthwynebu (*gweler* 4.2) gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ychwanegol at y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad).

**Rhaid** i'r cynigion gael eu cyhoeddi:

i. ar wefan y cynigydd (os oes un ganddo);
ii. ar wefan yr awdurdod lleol cynhaliol presennol/arfaethedig, os nad yr awdurdod lleol yw'r cynigydd;
iii. drwy gael ei osod wrth neu ger y brif fynedfa i unrhyw ysgol sy'n destun cynnig, neu, os oes mwy nag un brif fynedfa, bob un ohonynt;
iv. lle mae ysgol newydd yn cael ei sefydlu, mewn man amlwg yn yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol;
v. drwy roi copïau o'r hysbysiad i unrhyw ysgol sy'n destun cynigion i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff yr ysgol (gall yr ysgolion ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost);
vi. yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno.

Yn ogystal â hyn, ar y diwrnod y cânt eu cyhoeddi, **rhaid** i'r canlynol dderbyn naill ai gopi caled o'r ddogfen ymgynghori neu e-bost yn cynnwys dolen i'r wefan berthnasol:

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion â datganiad ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;

[19] Adran 48 o Ddeddf 2013

- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy’n destun cynigion a chyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion sydd wedi'u dadleoli;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau’r athrawon ac undebau staff perthnasol sy’n cynrychioli ysgolion a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol);
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol y gall y cynigion effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo’r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol.

Nid yw'n ofynnol cyhoeddi'r cynnig mewn papur newydd mwyach.

## 4.2 Hyd y cyfnod gwrthwynebu

Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau y caiff unrhyw un sydd am gyflwyno gwrthwynebiadau i gynnig trefniadaeth ysgolion y cyfle i wneud hynny. Er mwyn eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, **rhaid** cyflwyno gwrthwynebiadau’n ysgrifenedig neu mewn e-bost, a'u hanfon at y cynigydd cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig ("y cyfnod gwrthwynebu").

## 4.3 Cynnwys cynigion cyhoeddedig

**Rhaid** i'r holl gynigion cyhoeddedig gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enw'r personau neu'r corff sy'n cyhoeddi'r cynnig;
- dyddiad arfaethedig gweithredu’r cynnig (neu’r dyddiadau, os bwriedir gweithredu’r cynnig fesul cam);
- manylion sut i gael copi o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- y dyddiad olaf ar gyfer anfon gwrthwynebiadau a'r cyfeiriad y dylid eu hanfon iddo, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost perthnasol.

Yn ogystal â hyn

- **rhaid** i gynigion i sefydlu ysgol newydd nodi:
  - categori iaith arfaethedig yr ysgol yn ôl y diffiniad yn Nogfen Wybodaeth Rhif 023/2007;
  - enw'r awdurdod lleol cynhaliol arfaethedig;
  - lleoliad safle'r ysgol (a’r cyfeiriad post lle y bo'n briodol);
  - a fydd yr ysgol yn ysgol un rhyw neu'n ysgol gymysg;
  - ystod oedran yr ysgol;
  - categori'r ysgol - cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir, arbennig cymunedol;
  - ai'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol fydd yr awdurdod derbyn;
  - y trefniadau arfaethedig ar gyfer cludo'r disgyblion;
  - nifer y disgyblion i'w derbyn ar gyfer pob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynigion ar bob cam o'r broses weithredu - pennir nifer y disgyblion i'w derbyn, sef y “nifer derbyn”, yn unol â'r cyfrifiad a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011);
  - capasiti arfaethedig yr ysgol - pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011);
  - ar gyfer ysgol arbennig, gwybodaeth am y math o AAA y gwneir darpariaeth ar ei gyfer;
  - a fydd gan yr ysgol gymeriad crefyddol, ac os felly, natur y cymeriad hwnnw a’r corff crefyddol priodol arfaethedig;
  - a fydd trefniadau derbyn yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol yn ôl gallu, a ganiateir gan adran 101 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (bandio disgyblion);

- yn achos ysgol wirfoddol newydd, a fydd y cynigion yn cael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol neu’r hyrwyddwyr ac, os caiff y cynigion eu gweithredu gan y ddau, i ba raddau y cânt eu gweithredu gan y ddau gorff.

- **rhaid** i gynigion i newid ysgol neu newid ei chategori nodi:

  - enw a chyfeiriad yr ysgol sy’n destun cynnig;
  - enw'r awdurdod lleol cynhaliol;
  - disgrifiad o'r newid arfaethedig neu’r newid categori;
  - pan fydd y newid yn cynnwys ehangu’r ysgol, neu leihau capasiti, nifer presennol y disgyblion, capasiti'r ysgol a'r capasiti arfaethedig - pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011);
  - nifer y disgyblion i'w derbyn ym mhob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynigion neu ar bob cam o'r broses weithredu;
  - yn achos newid y math o ddarpariaeth AAA, y ddarpariaeth amgen i'r disgyblion a'r effaith ar gludiant i'r ysgol;
  - goblygiadau posibl y newid ar ddarpariaeth cludiant rhwng y cartref a’r ysgol.

- **rhaid** i gynigion i gau ysgol nodi:

  - enw a chyfeiriad yr ysgol i'w chau;
  - enw'r awdurdod lleol cynhaliol;
  - cymeriad crefyddol yr ysgol os oes ganddi un ac, os felly, y corff crefyddol priodol;
  - manylion yr ysgol/ysgolion amgen y gall y disgyblion ei/eu mynychu, gan gynnwys unrhyw drefniadau interim a chategori iaith yr ysgol/ysgolion amgen fel y’i diffinnir gan Ddogfen Wybodaeth Rhif: 023/2007;
  - manylion unrhyw fesurau a gymerir i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion amgen;
  - y trefniadau ar gyfer cludo'r disgyblion i ysgolion amgen.

**Noder**: Weithiau, bydd angen i gynnig gynnwys dwy elfen ar wahân, e.e. gallai ysgol gael ei throsglwyddo i safle newydd a chael ei hehangu hefyd. Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen dau gynnig, y gellir eu cynnwys mewn un hysbysiad statudol.

Mae Atodiad B yn cynnwys sawl templed enghreifftiol ar gyfer hysbysiadau statudol a all fod o ddefnydd i gynigwyr wrth iddynt lunio hysbysiad statudol.

# 5. Penderfynu ar gynigion (ac eithrio cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru)

## 5.1 Adroddiadau gwrthwynebu

O dan adran 49 o Ddeddf 2013, **rhaid** i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr adroddiad gwrthwynebu"). Rhaid gwneud hyn:

(a) yn achos awdurdod lleol y mae'n rhaid iddo bennu ei gynigion ei hun o dan adran 53 o'r Ddeddf (*gweler* 5.4 isod), cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad; ac
(b) ym mhob achos arall, cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

**Rhaid** cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu drwy ei roi:

i. ar wefan y cynigydd (os oes un ganddo);
ii. ar wefan yr awdurdod lleol cynhaliol presennol/arfaethedig, os yw'n wahanol i (i) uchod.

Yn ogystal â hyn, **rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais.

**Rhaid** i'r canlynol gael gwybod bod yr adroddiad gwrthwynebu ar gael:

- Rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff ysgolion sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno.

**Rhaid** i'r canlynol dderbyn naill ai gopi caled o'r adroddiad gwrthwynebu neu e-bost yn cynnwys dolen i'r wefan berthnasol:

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion â datganiad ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;

- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy’n destun cynigion a chyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion sydd wedi'u dadleoli;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau’r athrawon ac undebau staff perthnasol sy’n cynrychioli ysgolion a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol)
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol y gall y cynigion effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo’r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant ac, yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy’n gwasanaethu ardal yr ysgol;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol.

## 5.2 Cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru

Bydd yn ofynnol cael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru ar gyfer cynigion:

(a) os ydynt yn effeithio ar addysg chweched dosbarth; neu

(b) os ydynt wedi'u gwneud gan rywun heblaw'r awdurdod lleol perthnasol a bod yr awdurdod hwnnw wedi cyflwyno gwrthwynebiad nad yw wedi'i dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Bydd cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth:

(a) os ydynt yn gynigion i sefydlu neu gau ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas yn unig i ofynion unigolion hŷn na'r oedran ysgol gorfodol; neu

(b) os ydynt yn gynigion i wneud newid a reoleiddir i ysgol a fyddai'n cynyddu neu'n lleihau'r ddarpariaeth addysg sy'n addas i ofynion unigolion hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

Pan fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu ar gynnig, **rhaid** i'r cynigwyr hysbysu Gweinidogion Cymru cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu ac anfon atynt gopïau o'r gwrthwynebiadau statudol yn ogystal â'r adroddiad gwrthwynebu a nodir ym mharagraff 5.1. **Rhaid** i'r cynigydd hefyd anfon at Weinidogion Cymru unrhyw gynigion sydd, yn ei dyb ef, yn gysylltiedig â'r cynigion y mae angen gwneud penderfyniad arnynt. Yna, bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu a fydd angen iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â'r cynigion eraill hyn hefyd.

Gall Gweinidogion Cymru benderfynu cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y byddai addasiadau yn ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd. Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a'r corff/cyrff llywodraethu perthnasol a'r awdurdod lleol (pan nad hwy yw'r cynigwyr), a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r addasiad.

Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

## 5.3 Cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol

Mae angen cymeradwyo cynigion a gyhoeddir o dan adran 48:

(a) os nad ydynt yn gofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru;

(b) os ydynt wedi'u gwneud gan gynigydd heblaw'r awdurdod lleol perthnasol; ac

(c) os oes gwrthwynebiad wedi'i wneud i'r cynigion ac nad yw wedi'i dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

**Gweithdrefnau**

Os bydd angen i'r awdurdod lleol gymeradwyo cynigion, **rhaid** i'r cynigydd hysbysu'r awdurdod lleol am gynnig y mae angen ei gymeradwyo ac anfon y dogfennau a restrir isod ato cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu:

- copi o'r ddogfen ymgynghori;
- copi o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- copi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd;
- copi o'r adroddiad gwrthwynebu;
- copïau o'r gwrthwynebiadau statudol;
- copïau o'r uchod mewn perthynas ag unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r cynigion y mae angen eu cymeradwyo.

**Rhaid** i awdurdodau lleol benderfynu a oes angen iddynt gymeradwyo unrhyw gynigion cysylltiedig a anfonir atynt.

**Rhaid** iddynt drafod cynigion y mae angen eu cymeradwyo yn ddi-oed, cyn belled â bod hynny'n gydnaws â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion. Ym mhob achos, **rhaid** i'r awdurdod lleol gyhoeddi ei benderfyniad cyn pen 16 wythnos (112 diwrnod) o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Fodd bynnag, ni fydd methu â chydymffurfio â'r amserlen honno'n effeithio ar ddilysrwydd unrhyw benderfyniad a wneir.

**Rhaid** i awdurdodau lleol benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau.

Dim ond newidiadau fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y gall addasiadau ymwneud â hwy. **Rhaid** i'r awdurdod lleol **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd. Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i'r awdurdod lleol ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r addasiad. **Rhaid** iddynt hefyd gael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Os na ellir cael cydsyniad, ac os bydd yr awdurdod lleol o'r farn nad yw'r cynigion yn dderbyniol ar y ffurf y cyhoeddwyd hwy, **rhaid** iddo wrthod y cynigion. **Rhaid** i'r awdurdod lleol hefyd ymgynghori â chorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn berthnasol iddi (os nad y corff llywodraethu yw'r cynigydd).

Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

## 5.4 Penderfyniad gan gynigwyr

Os nad oes angen cymeradwyo cynigion o dan adrannau 50 a 51 o Ddeddf 2013, y cynigydd fydd yn penderfynu arnynt.

O dan adran 53 o Ddeddf 2013, **rhaid** i'r cynigydd wneud penderfyniad cyn pen 16 wythnos (112 diwrnod) o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Os bydd y cynigydd yn methu â phenderfynu ar y cynnig cyn pen 16 wythnos, ystyrir ei fod wedi tynnu'r cynnig yn ôl a bydd angen iddo ailgyhoeddi'r cynigion os hoffai barhau.

Os bydd gwrthwynebiadau wedi dod i law i gynigion awdurdod lleol, a bod angen penderfyniad o dan adran 53 o Ddeddf 2013, **rhaid** i'r awdurdod lleol **beidio ag** ystyried y cynigion hynny gyda meddwl caeedig. **Rhaid** i'r gwrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwybodol ochr yn ochr â'r dadleuon mewn perthynas â'r cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau a amlinellir yn adran 1.3 – 1.14 o'r Cod hwn. Yn yr achosion hyn, **rhaid** cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu ar yr un pryd â'r penderfyniad, yn hytrach na chyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

## 5.5 Gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol

Os bydd angen i awdurdodau lleol gymeradwyo neu benderfynu ar gynigion y daeth gwrthwynebiad i law yn eu cylch, bydd diwygiad arfaethedig[20] i Atodlen 2 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn caniatáu i weithrediaeth yr awdurdod lleol gyflawni'r swyddogaeth hon. Mae'r weithrediaeth a/neu'r Cabinet eisoes yn gyfrifol am oruchwylio cynlluniau trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys penderfyniadau i ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion a'u cyhoeddi. Felly, bydd ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion trefniadaeth ysgolion. Bydd y ddealltwriaeth hon, ynghyd â'u profiad mwy cyffredinol o wneud penderfyniadau a'r ffaith eu bod yn atebol yn ddemocrataidd i'r etholaeth leol, yn golygu bod y weithrediaeth yn y sefyllfa ddelfrydol i benderfynu a ddylid cymeradwyo cynigion trefniadaeth ysgolion ai peidio.

Fodd bynnag, os byddant yn dewis gwneud hynny, ni fydd Atodlen 2 y rheoliadau perthnasol yn atal awdurdodau lleol rhag mabwysiadu prosesau amgen y cytunwyd arnynt yn lleol i wneud penderfyniadau o'r fath. Gall y rhain gynnwys creu pwyllgor penderfynu lleol mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill yn eu rhanbarth.

**[20] Ar ôl i Ran 3 o Ddeddf 2013 gychwyn, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gosod rheoliadau diwygio i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 fel eu bod yn dod i rym ar yr un pryd ag y mae Rhan 3 yn weithredol.**

Os bydd awdurdodau lleol yn dewis dilyn y trywydd hwn, bydd angen iddynt ystyried yn ofalus sut y byddant yn sicrhau bod cyrff o’r fath yn gwneud penderfyniadau teg a chadarn.

Mae Atodiad E yn darparu manylion model posibl ar gyfer pwyllgor penderfynu lleol.

## 5.6 Hysbysiad o benderfyniad

**Rhaid** gwneud a chyflwyno penderfyniadau (mewn perthynas â chynigion sy’n gofyn am gymeradwyaeth neu benderfyniad) yn ysgrifenedig a **rhaid** nodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn glir.

**Rhaid** cyhoeddi penderfyniadau’n electronig ar wefan y cynigydd (os oes ganddo un) ac ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol (os yw’n wahanol).

**Rhaid** i’r canlynol gael gwybod bod y penderfyniad ar gael:

- Rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff ysgolion sy’n destun cynigion;
- Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno.

**Rhaid** i’r canlynol dderbyn naill ai gopi caled o’r llythyr penderfynu neu e-bost yn cynnwys dolen i’r wefan berthnasol:

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion â datganiad ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy’n destun cynigion a chyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion sydd wedi'u dadleoli;
- Gweinidogion Cymru;

- Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau’r athrawon ac undebau staff perthnasol sy’n cynrychioli ysgolion a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol)
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol y gall y cynigion effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo’r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol.

## 5.7 Atgyfeirio penderfyniadau awdurdodau lleol i Weinidogion Cymru

O dan adran 54 o Ddeddf 2013, os yw cynigion wedi’u cymeradwyo neu eu gwrthod gan awdurdod lleol, gall y cyrff canlynol atgyfeirio’r cynigion cyn pen 28 diwrnod i Weinidogion Cymru eu hystyried:

i Awdurdod lleol arall y mae’r cynigion yn effeithio arno;
ii Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
iii Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy’n destun cynigion;
iv Ymddiriedolaeth sy’n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy’n destun cynigion;
v Sefydliad addysg bellach y mae’r cynigion yn effeithio arni.

Bydd angen i’r cyrff sy’n atgyfeirio nodi pan eu bod o’r farn bod y penderfyniad a wnaeth yr awdurdod lleol yn anghywir.

Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ydy'r cynigion yn effeithio ar y cyrff y cyfeirir atynt yn i, ii a iv, ac felly bod angen iddynt ystyried y cynigion.

Os oes gofyn i Weinidogion Cymru ystyried cynnig **rhaid** i'r awdurdod lleol ddarparu iddynt, ar gais, gopïau o'r gwrthwynebiadau statudol ac unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn hanfodol.

Gall Gweinidogion Cymru benderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cynigion, neu eu cymeradwyo gydag addasiadau.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y byddai addasiadau yn ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd. Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a'r corff/cyrff llywodraethu perthnasol a'r awdurdod lleol (pan nad hwy yw'r cynigwyr), a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r addasiad.

Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

Ni ellir atgyfeirio cynigion i gau ysgol fach i Weinidogion Cymru.

# 6. Gweithredu cynigion

## 6.1 Gweithredu - cyffredinol

Fel arfer, **rhaid** i gynigion gael eu gweithredu yn unol â'r hyn y penderfynwyd arno neu a gymeradwywyd (gyda neu heb addasiadau).

Fodd bynnag, os bydd cynigydd yn fodlon, ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff llywodraethu yr effeithir arno, y byddai'n afresymol o anodd gweithredu cynnig ar y dyddiad gweithredu gwreiddiol, neu fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynnig gael ei gymeradwyo ei bod yn amhriodol ei weithredu ar y dyddiad gwreiddiol, gall addasu'r cynnig fel bod y broses o'i weithredu yn cael ei gohirio am hyd at dair blynedd.

Os bydd cynigydd yn fodlon, ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff llywodraethu yr effeithir arno, y byddai'n afresymol o anodd gweithredu'r cynigion neu fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynigion gael eu cymeradwyo y byddai'n gwbl amhriodol eu gweithredu, gall benderfynu y dylid rhoi'r gorau i'r cynigion.

Yn achos cynigion i gau ysgol, ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff llywodraethu yr effeithir arno, gall cynigydd hefyd benderfynu dwyn dyddiad gweithredu'r cynigion yn ei flaen hyd at 13 wythnos. **Rhaid** mai dim ond os nad oes gan ysgol unrhyw ddisgyblion ar y gofrestr, neu bod ganddi gyn lleied o ddisgyblion fel bod amheuon difrifol a elllid darparu'r cwricwlwm, y dylid dwyn y dyddiad gweithredu yn ei flaen.

Pan fydd cynigion wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru, **rhaid** mai dim ond gyda chytundeb Gweinidogion Cymru y caiff cynigwyr benderfynu gohirio cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu yn ei flaen neu roi'r gorau iddo. **Rhaid** i unrhyw gais o'r fath am gytundeb gael ei wneud yn ysgrifenedig gan nodi rhesymau'r cynigydd yn glir.

**Rhaid** hysbysu partïon perthnasol gan gynnwys Gweinidogion Cymru, Estyn, yr awdurdod lleol cynhaliol, y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol a chyrff llywodraethu, rhieni, disgyblion a staff unrhyw ysgol y mae cynnig yn effeithio arni, fel y bo'n briodol, o unrhyw benderfyniad i ohirio cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu yn ei flaen neu roi'r gorau iddo cyn saith diwrnod o'r ddyddiad y penderfyniad hwnnw. **Rhaid** i'r hysbysiad nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw yn gryno.

Os bydd cynnig wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod lleol yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol, ac nas bodlonir yr amod hwnnw erbyn y dyddiad hwnnw, **rhaid** i'r cynigion gael eu hystyried fel eu bod wedi'u gwrthod, oni bai bod Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol wedi cytuno i ganiatáu i'r cynigydd amrywio'r amod hwnnw drwy osod dyddiad ddiweddarach.

## 6.2 Gweithredu – newid categori

Mae Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2013 yn nodi'r manylion llawn mewn perthynas â throsglwyddo tir. Bydd unrhyw drosglwyddiadau'n digwydd ar y dyddiad gweithredu. Os bydd ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, bydd unrhyw dir heblaw caeau chwarae sy'n eiddo i awdurdod lleol yn trosglwyddo'n awtomatig i ymddiriedolwyr yr ysgol.

Os bydd ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir heb gymeriad crefyddol yn dod yn ysgol gymunedol, bydd unrhyw dir a ariennir yn gyhoeddus yn trosglwyddo'n awtomatig i'r awdurdod lleol. Diffinnir tir a ariennir yn gyhoeddus yn Atodlen 4 o Ddeddf 2013 ac mae'n cynnwys tir a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu drwy grant cyfalaf (yn ystyr Pennod 6 o Ran 3 o Ddeddf Addysg 1996). **Rhaid** i unrhyw dir arall sy'n eiddo i ymddiriedolwyr neu'r corff llywodraethu gael ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol trwy gytundeb trosglwyddo a gaiff ei lunio gan y partïon. Efallai y bydd trosglwyddiad o'r fath yn cynnwys taliad, y cytunwyd arno, gan yr awdurdod lleol. Os na all y partïon gytuno ar drosglwyddiad, gall y naill barti neu'r llall ofyn i Weinidogion Cymru eithrio trosglwyddo unrhyw ddarn o dir. Yna, **rhaid** i Weinidogion Cymru'n penderfynu a ddylid cyfarwyddo eithrio'r darn hwnnw o dir ai peidio.

## 7. Cau ysgol â llai na 10 disgybl cofrestredig

Os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu/awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol.

Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r disgyblion hynny sydd wedi'u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli. Os daw gwrthwynebiadau i law, y cynigydd fyddai'n ystyried y cynnig ym mhob achos. Fodd bynnag, cyn cyflwyno cynigion o'r fath, **rhaid** i gynigwyr ofyn am farn unrhyw ymddiriedolaeth sydd â budd yn yr ysgol, neu'r corff crefyddol priodol, ac ystyried y safbwyntiau hyn cyn symud ymlaen.

Yn achos ysgolion lle mae rhai disgyblion ar ôl, **rhaid** i gynigwyr sicrhau y caiff yr hysbysiad cau ei ddwyn i sylw'r disgyblion, y caiff ei ystyr ei egluro iddynt, ac y caiff camau priodol eu cymryd i alluogi'r disgyblion hyn i ymateb i'r hysbysiad os dymunant wneud hynny. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses benderfynu a **rhaid** i gynigwyr sicrhau yr ystyrir unrhyw farn a fynegir ganddynt yn llawn cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Anogir cynigwyr i rannu gwybodaeth â rhieni ac ysgolion eraill a **dylent** sicrhau eu bod yn cael copi o'r hysbysiad. Yn ogystal â hyn, **rhaid** hysbysu unrhyw ysgolion y nodir eu bod fwyaf tebygol o dderbyn disgyblion.

Nid yw bodolaeth gweithdrefnau symlach mewn perthynas â'r bwriad i gau ysgolion â llai na 10 o ddisgyblion cofrestredig yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu neu awdurdodau lleol gyflwyno cynigion i gau ysgolion o'r fath yn ddi-oed. **Dylid** ystyried cau ysgolion o'r fath yng ngoleuni'r ffactorau a amlinellir yn adran 1.

# 8. Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd mewn ysgolion

Os bydd Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn y gorffennol i gyflwyno cynigion i unioni darpariaeth ormodol neu annigonol o leoedd mewn ysgolion, gallant gyhoeddi eu cynigion eu hunain i'r diben hwnnw.

Byddai'r meini prawf penodol y gallai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i benderfynu cyhoeddi cyfarwyddyd neu gynnig yn amrywio, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau yn yr ardal dan sylw ond, yn gyffredinol, pwerau i'w defnyddio pan fetho popeth arall yw'r rhain a byddent yn cael eu defnyddio pan fyddai awdurdod lleol wedi methu â sicrhau:

- bod ei ardal yn cael ei gwasanaethu gan ysgolion sy'n ddigonol o ran nifer, cymeriad a chyfarpar i ddarparu cyfleoedd addysg priodol i bob disgybl; neu
- bod gan bob plentyn yn ei ardal fynediad rhesymol at un o'r ysgolion hynny; neu
- bod cyllid ar gyfer addysg yn gosteffeithiol a bod adnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl i blant a phobl ifanc.

**Rhaid** i'r cynigion gael eu cyhoeddi'n unol â'r darpariaethau ym Mhennod 4 uchod.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion o fewn y cyfnod gwerthwynebu o 28 diwrnod. Os derbynnir gwrthwynebiadau, **rhaid** i Weinidogion Cymru beri cynnal ymchwiliad lleol i ystyried y cynigion. Rhaid i unrhyw gynigion eraill i ad-drefnu ysgolion, a gyhoeddwyd ond na phenderfynwyd arnynt eto, gael eu hatgyfeirio i'r ymchwiliad lleol os yw Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn gysylltiedig â'r cynnig sy'n cael ei wrthwynebu (ac oni bai bod Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid eu gweithredu).

**Rhaid** i'r ymchwiliad lleol gael ei gynnal gan unigolyn a benodwyd i'r diben hwnnw gan Weinidogion Cymru ac yn unol ag unrhyw weithdrefnau a amlinellir ganddynt adeg sefydlu'r ymchwiliad lleol.

Os bydd ymchwiliad lleol wedi'i gynnal, **rhaid** i Weinidogion Cymru ystyried adroddiad y sawl a gynhaliodd yr ymchwiliad lleol. Yna, gallant wneud un o'r canlynol:

1. ei fabwysiadu gyda neu heb addasiadau, neu benderfynu peidio â mabwysiadu unrhyw un o'r cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru;
2. ei gymeradwyo gyda neu heb addasiadau, neu wrthod unrhyw gynigion eraill a atgyfeiriwyd i'r ymchwiliad lleol;
3. gwneud cynigion pellach i resymoli lleoedd mewn ysgolion.

Os bydd Gweinidogion Cymru’n penderfynu gwneud cynigion pellach, ni fydd gofyniad i beri cynnal ymchwiliad lleol arall.

Os na fydd y cynigion pellach hyn a wnaed gan Weinidogion Cymru wedi’u hatgyfeirio i ymchwiliad lleol, gall Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau:

1. fabwysiadu’r cynnig gyda neu heb addasiadau;
2. penderfynu peidio â mabwysiadu’r cynnig.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y **dylai** addasiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd.

Gellir cymeradwyo cynigion neu eu mabwysiadu yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

**Rhaid** i gynigion a gymeradwyir neu a fabwysiedir gael eu gweithredu’n unol â Phennod 6 uchod.

## 9. Cynigion gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig

Os bydd Gweinidogion Cymru wedi gwneud gorchymyn yn y gorffennol yn cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gyflwyno cynigion i ad-drefnu ysgolion at ddiben sicrhau darpariaeth ranbarthol i blant ag anghenion addysgol arbennig, gallant gyhoeddi eu cynigion eu hunain i'r diben hwnnw.

**Rhaid** ymgynghori ar y cynigion yn unol â Phennod 3 uchod, a rhaid iddynt gael eu cyhoeddi'n unol â Phennod 4.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.

Ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau, gall Gweinidogion Cymru;

1. fabwysiadu'r cynigion gyda neu heb addasiadau;
2. penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynigion.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y **dylai** addasiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd.

Gellir cymeradwyo cynigion neu eu mabwysiadu yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

**Rhaid** i gynigion a fabwysiedir gael eu gweithredu'n unol â Phennod 6 uchod.

# 10. Cynigion gan Weinidogion Cymru i ad-drefnu addysg chweched Dosbarth

O dan adran 71 o Ddeddf 2013, gall Gweinidogion Cymru wneud cynigion sy'n:

1. galw ar awdurdod lleol i sefydlu ysgol neu ysgolion i ddarparu addysg uwchradd sy'n addas i ofynion disgyblion chweched dosbarth yn unig ('ysgol chweched dosbarth');
2. cyflwyno neu ddileu darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol, neu;
3. gau ysgol chweched dosbarth.

**Rhaid** ymgynghori ar y cynigion yn unol â Phennod 3 uchod, a rhaid iddynt gael eu cyhoeddi'n unol â Phennod 4.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion o fewn y cyfnod gwerthwynebu o 28 diwrnod.

Ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau, gall Gweinidogion Cymru;

1. fabwysiadu'r cynigion gyda neu heb addasiadau;
2. penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynigion.

Fel arfer, dim ond newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y **dylai** addasiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ymwneud â hwy. **Rhaid** i Weinidogion Cymru **beidio â** gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd.

Gellir cymeradwyo cynigion neu eu mabwysiadu yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

**Rhaid** i gynigion a fabwysiedir gael eu gweithredu'n unol â Phennod 6 uchod.

## 11. Hysbysiad o fwriad corff llywodraethu i gau ysgol sefydledig neu wirfoddol

Mae Adran 80 o Ddeddf 2013 yn caniatáu i gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol gau'r ysgol trwy roi dwy flynedd o rybudd i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr ysgol o'i fwriad i wneud hynny. O dderbyn rhybudd**, rhaid** i'r corff llywodraethu:

1. gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol wedi gwario arian ar safle'r ysgol (ac eithrio mewn cysylltiad â gwaith atgyweirio);
2. ymgynghori â Gweinidogion Cymru pe byddai cau'r ysgol yn effeithio ar gyfleusterau ar gyfer addysg lawn amser sy'n addas i unigolion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 19 oed;
3. ymgynghori â'r ymddiriedolwyr ynghylch unrhyw dir neu adeiladau a gedwir ar ymddiriedolaeth, a/neu'r corff crefyddol priodol os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol dynodedig, a rhoi sylw priodol i unrhyw sylwadau a dderbynnir.

Os bydd angen cyngor ar gyrff llywodraethu mewn perthynas ag eiddo a gedwir ar ymddiriedolaeth elusennol, **dylent** gysylltu â'r Comisiwn Elusennau.

## Atodiad A: Siart llif enghreifftiol ar gyfer cynigion statudol

Cam 1

Mae'r cynigwyr yn ystyried adran 1 o'r canllawiau ac wedyn yn cymeradwyo ymgynghoriad ar newidiadau i ysgol/ysgolion.

▼

Cam 2

Ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori, **rhaid** i'r cynigwyr ddarparu dogfen ymgynghori i ymgyngoreion a rhoi o leiaf 42 diwrnod iddynt ymateb gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Os bydd y cynigydd o'r farn ei bod yn briodol, cynhelir cyfarfodydd â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori.

▼

Cam 3

Mae'r cynigwyr yn casglu'r sylwadau ar yr ymgynghoriad ac yn eu crynhoi. Cyhoeddir y crynodeb hwn, ynghyd ag ymatebion y cynigydd ei hun i'r sylwadau, mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn pen tri mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

▼

Cam 4

Mae'r cynigwyr yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau cyn pen 6 mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynigion, cymerir Cam 5. Os bydd opsiwn newydd yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad, ac y mae'r cynigwyr am ei ystyried, yna ailadroddir Camau 1-3.

▼

Cam 5

Cyhoeddir hysbysiad statudol gan roi 28 diwrnod o rybudd i gyflwyno gwrthwynebiadau. **Rhaid** i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a chyda 15 diwrnod ysgol (heb gynnwys y diwrnod y caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi) yn rhan o'r cyfnod hwnnw.

▼

| Cam 6<br><br>Os daw gwrthwynebiadau i law, **rhaid** i'r cynigwyr gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan roi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'u hymatebion iddynt cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. |
|---|

▼

| Cam 7a | Cam 7b | Cam 7c |
|---|---|---|
| Os nad oes angen cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru neu’r awdurdod lleol ar y cynnig, **rhaid** i'r cynigwyr wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig cyn pen 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. | Os oes angen penderfyniad gan Weinidogion Cymru ar y cynnig, **rhaid** i'r cynigydd anfon y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu at Weinidogion Cymru cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.<br>Fel arfer, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar gynigion cyn pen 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. | Os oes angen penderfyniad gan yr awdurdod lleol ar y cynnig, **rhaid** i'r cynigydd anfon y ddogfen ymgynghori, yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, yr hysbysiad a gyhoeddwyd, y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu i'r awdurdod lleol cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.<br>**Rhaid** i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad cyn pen 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.<br><br>Cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad penderfyniad yr awdurdod lleol, gall cynigion gael eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru gan y canlynol:<br><br>i Awdurdod lleol arall;<br>ii Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni (yr awdurdod |

| | | |
|---|---|---|
| | | esgobaethol);<br>iii Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>iv Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>v Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni. |

▼

Cam 8

Os caiff y cynigion eu cymeradwyo neu os bydd y cynigydd yn penderfynu eu gweithredu, **dylent** gael eu gweithredu yn unol â'r dyddiad a roddwyd yn yr hysbysiad statudol, neu unrhyw ddyddiad a addaswyd wedi hynny.

# Atodiad B: Enghreifftiau o hysbysiadau statudol

## Enghraifft o hysbysiad statudol i sefydlu ysgol gymunedol neu wirfoddol newydd

[Nodwch enw a chyfeiriad y rhai sy'n cyhoeddi'r cynigion]

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 41 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod [*enw'r cynigydd*], ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig sefydlu ysgol [*nodwch y categori iaith*[21]] newydd i'w chynnal gan [*nodwch enw'r awdurdod lleol cynhaliol*] yn [*nodwch y lleoliad a, lle y bo'n briodol, y cyfeiriad post*] ar gyfer [*bechgyn*]/ [*merched*] /[*bechgyn a merched*] [*nodwch yr ystod oedran*] oed.

Cynhaliodd [*nodwch enw'r cynigydd*] gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar [*nodwch wefan y cynigydd neu, os nad oes un ar gael, wefan yr awdurdod lleol perthnasol*].

Cynigir gweithredu'r cynnig ar [*nodwch y dyddiad*]. [*Pan fwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam,* ***dylid*** *nodi'r dyddiad y bwriedir gweithredu pob cam]*.

Bydd yr ysgol newydd a gynigir yn ysgol [*nodwch* ysgol gymunedol *neu* ysgol wirfoddol a gynorthwyir *neu* ysgol wirfoddol a reolir].

[*nodwch* y corff llywodraethu *neu enw'r awdurdod lleol*] fydd yr awdurdod derbyn.

[*Nodwch y nifer derbyn*] fydd y nifer derbyn ar gyfer [*nodwch y grŵp oedran neu'r grwpiau oedran perthnasol*[22]] yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu. [*Pan fwriedir gweithredu'r cynigion fesul cam,* ***rhaid*** *rhoi'r nifer derbyn yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae pob cam wedi'i weithredu*.] [*Os bydd nifer derbyn ar wahân ar gyfer y chweched dosbarth,* ***dylid*** *cynnwys y nifer hwnnw*.]

[*Nodwch y ffigur capasiti*[23]] fydd capasiti disgyblion yr ysgol newydd. [*Byddai'n ddefnyddiol cynnwys nifer y lleoedd meithrin a ddarperir os yw'n briodol*.]

---

**[21] Dylai'r cynigwyr gyfeirio at ddogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru 23/2007 'Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'.**

**[22] Diffinnir "grŵp oedran perthnasol" yn adran 142(1) o Ddeddf 1998 fel a ganlyn: "an age group in which pupils are normally admitted (or, as the case may be, will normally be admitted) to the school". Felly, gellid bod mwy nag un grŵp oedran perthnasol, ac yn yr achos hwnnw rhaid rhoi'r nifer derbyn mewn perthynas â phob grŵp oedran perthnasol o'r fath.**

**[23] Dylai'r cynigwyr gyfeirio at Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru'.**

[*Ar gyfer ysgol arbennig, gwybodaeth am anghenion addysgol arbennig y disgyblion y gwneir darpariaeth ar eu cyfer*.]

[*Rhowch wybodaeth o ran p'un a gynigir y bydd trefniadau derbyn yr ysgol newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer bandio disgyblion*.]

[*Yn achos ysgol wirfoddol newydd, rhowch wybodaeth am ei chymeriad crefyddol a'i chorff crefyddol priodol arfaethedig os bydd ganddi gymeriad crefyddol*.]

[*Rhowch wybodaeth am y trefniadau arfaethedig i gludo'r disgyblion i'r ysgol newydd*.]

[*Yn achos cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd, nodwch p'un a fwriedir i'r awdurdod addysg lleol neu'r hyrwyddwyr weithredu'r cynigion, ac, os bwriedir i'r ddau barti weithredu'r cynigion, i ba raddau y bydd y ddau gorff yn eu gweithredu*.]

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn [*nodwch ddyddiad*].

Dylid anfon gwrthwynebiadau at [*enw a chyfeiriad y cynigydd*].

Llofnodwyd …...........................................

Ar ran [*yr awdurdod lleol*]

[*Dyddiad - **dylai** hwn fod yr un dyddiad â'r dyddiad cyhoeddi*]

## NODYN ESBONIADOL

[*Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys Nodyn Esboniadol sy'n esbonio'r cynigion mewn iaith syml ac sy'n rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i'r cynigion*.]

**Enghraifft o hysbysiad statudol i gau ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin**

[*Nodwch enw a chyfeiriad y rhai sy'n cyhoeddi'r cynigion*]

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod [*enw'r cynigydd*], ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig cau [*enw a chyfeiriad yr ysgol*]. Cynhelir yr ysgol gan [*nodwch enw'r awdurdod lleol cynhaliol*] [ac *os yn berthnasol, nodwch gymeriad crefyddol yr ysgol*].

Cynhaliodd [*nodwch enw'r cynigydd*] gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar [*nodwch wefan y cynigydd neu, os nad oes un ar gael, wefan yr awdurdod lleol perthnasol*].

Cynigir gweithredu'r cynigion ar [*nodwch y dyddiad*] (2).

[*Nodwch fanylion yr ysgolion y gall y disgyblion yn yr ysgol i'w chau fynd iddynt, gan gynnwys unrhyw drefniadau interim a chategori iaith yr ysgolion amgen fel y’i diffinnir gan Ddogfen Wybodaeth Rhif: 023/2007.*]

[*Nodwch fanylion unrhyw fesurau eraill y bwriedir eu cymryd i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion o ganlyniad i'r cynnig i gau'r ysgol*.]

[*Nodwch fanylion y trefniant arfaethedig i gludo'r disgyblion i ysgolion eraill.*]

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn [*nodwch ddyddiad*].

Dylid anfon gwrthwynebiadau at [*enw a chyfeiriad y cynigydd*].

Llofnodwyd …...........................................

Ar ran [*yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu*].

[*Dyddiad - **dylai** hwn fod yr un dyddiad â'r dyddiad cyhoeddi*].

**NODYN ESBONIADOL**

[*Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys Nodyn Esboniadol sy'n esbonio'r cynigion mewn iaith syml ac sy'n rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i'r cynigion*].

**Enghraifft o hysbysiad statudol i wneud newid a reoleiddir i ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod [*enw'r cynigydd*], ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid [*enw a chyfeiriad yr ysgol]* fel ei bod *[ychwanegu disgrifiad o'r newid/newidiadau arfaethedig*.] Cynhelir yr ysgol/ysgolion gan [*nodwch enw'r awdurdod lleol cynhaliol*].

Cynhaliodd [*nodwch enw'r cynigydd*] gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar [*nodwch wefan y cynigydd neu, os nad oes un ar gael, wefan yr awdurdod lleol perthnasol*].

Cynigir gweithredu'r cynnig ar [*nodwch y dyddiad*]. [*Pan fwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam, dylid nodi'r dyddiad y bwriedir gweithredu pob cam*].

[*Pan fydd y newid yn cynnwys ehangu, neu leihau capasiti, nodwch*]Nifer y disgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd yw [*nodwch nifer*], capasiti disgyblion yr ysgol yw [*nodwch gapasiti lleoedd disgyblion*[24]] a'r capasiti arfaethedig ar ôl gweithredu'r cynnig fydd [*nodwch y capasiti arfaethedig*].

[*Pan fydd y newid yn cynnwys ehangu, neu leihau capasiti nodwch*] [*Nodwch y nifer derbyn*] fydd y nifer derbyn ar gyfer [*nodwch y grŵp oedran neu'r grwpiau oedran perthnasol*[25]] yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu [*Dylech gynnwys nifer chweched dosbarth ar wahân os yw'n briodol*.] [*Pan fwriedir gweithredu'r cynigion fesul cam, rhaid rhoi'r nifer derbyn yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae pob cam wedi'i weithredu*.] [*os yn briodol*]Bydd xx o leoedd meithrin.

[*Pan fydd y newid yn golygu newid y math o ddarpariaeth AAA, rhowch wybodaeth am y ddarpariaeth amgen i'r disgyblion a'r effaith ar gludiant i'r ysgol.*]

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn [*nodwch ddyddiad*].

Dylid anfon gwrthwynebiadau at [*enw a chyfeiriad y cynigydd*].

---

[24] Dylai'r cynigwyr gyfeirio at Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru'.

**[25] Diffinnir "grŵp oedran perthnasol" yn adran 142(1) o Ddeddf 1998 fel a ganlyn: "an age group in which pupils are normally admitted (or, as the case may be, will normally be admitted) to the school". Felly, gellid bod mwy nag un grŵp oedran perthnasol, ac yn yr achos hwnnw rhaid rhoi'r nifer derbyn mewn perthynas â phob grŵp oedran perthnasol o'r fath.**

Bydd [*nodwch enw'r cynigydd*] yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac na chânt eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnynt, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnodwyd …...........................................

Ar ran [*yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu*]

[*Dyddiad -* ***dylai*** *hwn fod yr un dyddiad â'r dyddiad cyhoeddi*]

**NODYN ESBONIADOL**

[*Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys Nodyn Esboniadol sy'n esbonio'r cynigion mewn iaith syml ac sy'n rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i'r cynigion*.]

## Atodiad C: Templed o'r ddogfen ymgynghori

Mae'r templed canlynol yn nodi awgrym o fformat, ond nid fformat gorfodol, ar gyfer yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn dogfen ymgynghori. Nid yw'r amlinelliad hwn o'r cynnwys yn hollgynhwysfawr a byddai disgwyl i gynigwyr gynnwys elfennau ychwanegol gan ddibynnu ar gyd-destun y cynigion sy'n cael eu hystyried.

**Cyflwyniad - Esboniad o'r ymgynghoriad**

Gallai'r adran hon nodi bod y cynigwyr yn ystyried ad-drefnu lleoedd ysgolion mewn ardal benodol ac enw'r ysgol/ysgolion yr effeithir arni/arnynt. Gallai esbonio bod y cynigwyr, cyn bwrw ymlaen â'u cynigion, am geisio barn pawb sy'n debygol o fod â buddiant yn y cynnig/cynigion fel y gellir ystyried eu barn cyn gwneud penderfyniad.

Gallai'r adran hon wedyn nodi'r broses ar gyfer cynnal ymgynghoriad, gan gynnwys:

- rhestr o bawb yr ymgynghorir â hwy (Nodir y sawl y mae'n **rhaid** i gynigwyr ymgynghori â hwy yn Adran 3 o'r Cod. Fodd bynnag, disgwylir y byddai'r cynigwyr hefyd yn ymgynghori ag eraill sydd â diddordeb yn y mater nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr hon, lle y bo'n briodol yng nghyd-destun cynnig penodol);
- os bwriedir cynnal cyfarfodydd, dyddiad, amser, lleoliad a chynulleidfa unrhyw gyfarfodydd o'r fath (gan roi digon o rybudd i'r rhai sy'n debygol o fynd iddynt);
- enw a chyfeiriad y sawl y dylid anfon sylwadau ysgrifenedig ar y cynnig/cynigion ato, a'r dyddiad cau ar gyfer cael y sylwadau hyn;
- y trefniadau a wneir i blant a phobl ifanc gymryd rhan;
- manylion unrhyw drefniadau ymgynghori eraill megis diwrnodau agored, arddangosfeydd, ac ati.

**Cefndir i'r cynnig/cynigion**

Gallai hyn nodi'r manylion canlynol ar gyfer pob ysgol y mae'r cynigion yn effeithio arni neu'n debygol o effeithio arni, gan gynnwys ysgolion a allai ddisgwyl derbyn disgyblion ychwanegol yn y dyfodol, ac ysgolion arbennig:

- enwau, lleoliadau, categorïau a chategorïau iaith pob ysgol bresennol y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni (er enghraifft, yn achos cynnig i gau ysgol, dylid rhoi gwybodaeth am yr holl ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y bydd disgyblion yn dymuno trosglwyddo iddynt);
- nifer y disgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad ysgolion blynyddol blaenorol ym mhob ysgol bresennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio

arni (ar gyfer ysgolion cynradd, **dylid** dangos nifer y disgyblion meithrin ar wahân ac ni ddylid eu cynnwys mewn rhagolygon);

- rhagolygon pum mlynedd o'r disgyblion ar y gofrestr ym mhob ysgol bresennol y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni, a hynny ar hyn o bryd (h.y. yn seiliedig ar y ffordd y mae ysgolion wedi'u trefnu ar hyn o bryd) a phe gweithredid y cynnig;
- capasiti lleoedd disgyblion (yn seiliedig ar Gylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 21/2011 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru');
- nifer y lleoedd meithrin lle y bo'n gymwys;
- nifer y lleoedd chweched dosbarth lle y bo'n gymwys;
- ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd, gan gyfeirio at gategorïau cyflwr adeiladau'r ysgol fel y'u nodwyd yn sgil unrhyw arolygon o'r ysgol.

Pan gynigir sefydlu ysgol newydd:

- ar gyfer yr ysgol newydd:
  - y nifer derbyn a'r trefniadau derbyn arfaethedig;
  - ystod oedran;
  - capasiti lleoedd disgyblion a/neu nifer y lleoedd meithrin;
  - lleoliad a hygyrchedd;
  - categori;
  - categori iaith (ac esboniad o hyn);
  - manylion yr adeiladau a'r ystafelloedd arfaethedig i gynnwys rhestr o'r cyfleusterau arfaethedig;
  - trefniadau a pholisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yr awdurdod lleol, ynghyd â gwybodaeth am lwybrau cerdded diogel;
  - Yn achos uned adnoddau anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig, gwybodaeth am anghenion arbennig y disgyblion.

Pan gynigir cau ysgol:

- manylion unrhyw opsiynau amgen sydd wedi'u hystyried yn lle cau'r ysgol, a'r rhesymau dros beidio â bwrw ati â'r rhain;
- yr effaith ar unrhyw ysgol neu ddarparwr y mae'r cynnig yn effeithio arni/arno - yn enwedig ar ysgolion amgen a enwir mewn cynnig cau;
- effaith debygol y cynigion ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf neu raglenni olynol;

- yr effaith debygol ar staff yr ysgolion a enwir mewn cynnig;
- yn achos trosglwyddo disgyblion i leoliad gwahanol:
    - enw a lleoliad y ddarpariaeth amgen arfaethedig;
    - cymhariaeth rhwng ansawdd ac amrywiaeth yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni a'r dewis/dewisiadau amgen arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn yr opsiwn amgen;
    - trefniadau derbyn yr ysgol amgen arfaethedig;
    - cymhariaeth o ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni a'r opsiwn amgen arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn yr opsiwn amgen;
    - gwybodaeth ynghylch sut y gwneir darpariaeth ar gyfer y plant sy'n trosglwyddo yn yr ysgol amgen, gan gynnwys meintiau dosbarthiadau ar ôl y gweithredu;
    - yr effaith ar amseroedd teithio disgyblion i'r ysgol;
    - hygyrchedd llwybrau cerdded diogel i ysgolion amgen.

Pan fydd cynigion yn ymwneud ag ysgol arbennig neu ddarpariaeth AAA ddynodedig mewn ysgol brif ffrwd:

- yr effaith ar ddarpariaeth AAA
- sut y bydd y cynigion yn cyfrannu'n fwy cyffredinol at wella ansawdd yr addysg a'r cymorth i blant ag AAA.

Pan fydd unrhyw ysgol y mae cynnig yn ymwneud â hi neu'n effeithio arni yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:

- effaith y cynigion ar y Gymraeg (*gweler* yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn Atodiad D).

Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ysgol â chymeriad crefyddol dynodedig:

- yr effaith ar argaeledd a mynediad i ysgolion â'r un cymeriad crefyddol dynodedig.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud â newid categori:

- effaith y newid categori ar drefniadau llywodraethu a phwerau'r corff llywodraethu mewn perthynas â pholisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth a chwricwlwm;

- Unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth a chwricwlwm.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud â gwaredu neu drosglwyddo tir neu adeiladau, mae’r manylion yr un fath.

Gallai'r adran hon egluro hefyd pam yr ystyrir bod y ddarpariaeth yn yr ysgolion presennol yn annigonol neu'n anfoddhaol drwy gyfeirio, fel y bo'n briodol, at y ffactorau a nodir yn Adran 1 o'r Cod.

**Y cynigion - Disgrifiad a rhesymeg**

Gallai'r adran hon roi disgrifiad manwl o’r sefyllfa bresennol a nodi union natur y newid/newidiadau arfaethedig, gan gynnwys yr effaith ar bob ysgol sy’n destun cynnig/cynigion statudol, a phawb arall y mae'r cynnig/cynigion yn debygol o effeithio arnynt.

Gall yr adran hon hefyd gynnwys yr wybodaeth ganlynol, fel y bo'n briodol:

- y diwygiadau disgwyliedig i'r data ysgolion lleol (fel y nodir yn yr adran gefndir uchod) ar ôl gweithredu'r cynigion;
- dyddiadau gweithredu a manylion unrhyw drefniadau pontio;
- arbedion/costau refeniw;
- costau cyllid cyfalaf, gan gynnwys ffynhonnell unrhyw gyllid o'r fath;
- disgrifiad o unrhyw adeiladau ac ystafelloedd newydd;
- trefniadau derbyn newydd arfaethedig;
- trefniadau cludiant newydd arfaethedig a hygyrchedd y trefniadau amgen;
- materion staffio;
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned;
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg;
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- manteision tebygol i blant a phobl ifanc, yn unol â saith nod craidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Gallai'r adran hon hefyd nodi'r rhesymeg dros newid – annigonolrwydd y sefyllfa bresennol (yn ogystal â’r rhinweddau sydd ganddi) a’r manteision a ddaw yn sgil y newidiadau gan gyfeirio at Adran 1 o'r Cod. Os yw'n briodol, gellid nodi anfanteision y cynigion hefyd gan esbonio pam bod y manteision yn drech na’r anfanteision hyn. **Dylid** pwysleisio natur hollbwysig safonau addysgol, a **dylid** cyfeirio'n uniongyrchol at sut y byddai'r cynnig o fudd i'r ddarpariaeth addysgol gyffredinol yn yr ardal ac yn ymdrin â'r ffactorau eraill a nodir yn Adran 1 o'r Cod.

Gellid ystyried cynigion amgen hefyd yn yr adran hon, os yw'n briodol, a'r rhesymau pam nad yw'r rhain wedi'u dewis.

**Esboniad o'r broses statudol**

Gallai'r adran hon nodi'r broses statudol ar gyfer cyhoeddi cynigion a'u cymeradwyo/penderfynu arnynt gan gynnwys y dyddiad y bwriedir cyhoeddi'r hysbysiad/hysbysiadau; esboniad o'r cyfnod gwrthwynebu a'r ffyrdd yr ymdrinnir â gwrthwynebiadau, a sicrwydd y gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

**Ffurflen Ymateb**

**Dylid** atodi ffurflen ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar gyfer cyflwyno sylwadau, gan gynnwys cyfle i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod pan gaiff yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ei gyhoeddi.

## Atodiad D: Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r gofyniad i gynnal asesiadau fod yn rhy feichus ac nid yw’n ystyried bod angen comisiynu gwaith o'r fath gan ymgynghorwyr allanol. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol eisoes i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, a allai fod yn sail i'r asesiadau effaith a nodir yn y canllawiau hyn.

### Effaith ar y Gymuned

Yn ddelfrydol, dylai asesiadau effaith gael eu cynnwys mewn dogfennau ymgynghori. Er nad yw'r nodiadau hyn yn rhagnodi'r hyn y dylid ei gynnwys mewn asesiad o'r effaith ar y gymuned, gallai cynigwyr gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;
- gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;
- gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill a ddarperir yn yr ysgol e.e. clwb ieuenctid/cylch chwarae;
- gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol;
- os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau;
- p'run a gaiff neu p'run a ellid gwella'r cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach pe cai’r ysgol ei chau (e.e. gwella neuaddau pentref, meysydd chwarae, y cynlluniau chwarae a ddarperir yn ystod y gwyliau);
- gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen;
- gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgol amgen yn yr un categori iaith;
- sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion (yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais) i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol);
- gwybodaeth am oblygiadau ehangach y newidiadau ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus;
- gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach.

**Effaith ar y Gymraeg**

Nid yw'r nodiadau hyn yn rhagnodol nac yn hollgynhwysfawr ond gallai'r asesiad o'r effaith mewn perthynas â'r Gymraeg gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol;
- gwybodaeth am gategori iaith unrhyw ysgol amgen;
- gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn unrhyw ysgol amgen;
- gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn unrhyw ysgol amgen (e.e. Clybiau'r Urdd);
- gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, a lle y gellid darparu unrhyw gyfleusterau amgen;
- a allai fod yn briodol darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl ysgol mewn unrhyw ysgol amgen i atgyfnerthu safonau'r Gymraeg;
- sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar unrhyw ysgol amgen ac unrhyw welliant penodol o ran darpariaeth ieithyddol y mae'r ysgol honno yn ei gynnig (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion i gymryd rhan yng nghlybiau'r Urdd);
- gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun.

## Atodiad D: Pwyllgor penderfynu lleol

Mae'r model a amlinellir isod yn un ffordd bosibl o sefydlu 'pwyllgor penderfynu lleol'.

Byddai maint y pwyllgor yn dylanwadu'n arwyddocaol ar ei effeithiolrwydd. Pe bai'n rhy fawr, byddai'n drwsgl a byddai'n anodd cael consensws. Pe bai'n rhy fach, efallai na fyddai digon o ddadlau a gallai'r safbwynt fod yn rhy gul. Efallai mai pwyllgor â phum aelod fyddai'r maint delfrydol.

Bydd cyfansoddiad y pwyllgor yn bwysig ac yn dylanwadu ar sut y bydd yn cael ei weld gan bobl. Os mai'r bwriad yw pwysleisio ei annibyniaeth ar weithrediaeth yr awdurdod lleol, efallai y bydd angen 'anghymwyso' aelodau'r weithrediaeth ac unrhyw un sydd â chysylltiad â'r awdurdod lleol, y cynigydd (os yw'n wahanol i'r awdurdod lleol) neu'r ysgol y mae'r cynigion yn berthnasol iddynt, a all godi amheuon ynglŷn â'u gallu i weithredu'n ddiduedd mewn perthynas â'r cynnig.

Cyn belled nad ydynt wedi'u 'hanghymwyso', gall awdurdodau lleol benderfynu penodi pwyllgorau sy'n cynnwys aelodau awdurdodau lleol yn unig, neu bobl nad ydynt yn gysylltiedig â'r awdurdod lleol (gan gynnwys aelodau awdurdod lleol arall), neu unrhyw gyfuniad o'r ddau.

Os bydd ysgol â chymeriad crefyddol Catholig neu'r Eglwys yng Nghymru (neu y bwriedir iddi fod â chymeriad crefyddol o'r fath) yn destun cynnig, gall yr awdurdod lleol wahodd Bwrdd Addysg Esgobaethol esgobaeth berthnasol yr Eglwys yng Nghymru neu Esgob esgobaeth berthnasol yr Eglwys Gatholig i enwebu cynrychiolydd i fod yn un o aelodau'r pwyllgor. Yn achos unrhyw ysgol wirfoddol arall â chymeriad crefyddol dynodedig, gall yr unigolyn neu'r bobl sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig gael eu gwahodd i enwebu cynrychiolydd.

Efallai y bydd awdurdodau lleol am sicrhau bod gan o leiaf un aelod o'r pwyllgor brofiad uniongyrchol o weithio yn y sector addysg. Gall aelod neu gyn-aelod o dîm uwch reoli ysgol neu lywodraethwr ysgol profiadol fod yn addas yn hyn o beth.

Os bydd y pwyllgor yn cynnwys aelodau'r awdurdod lleol yn unig, efallai yr hoffai'r awdurdod lleol ystyried ei wneud yn fwy cytbwys o safbwynt gwleidyddol yn y ffordd a amlinellir yn adrannau 15 a 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Hwyrach y bydd yr awdurdod lleol am recriwtio, hyfforddi a chadw cronfa o unigolion cymwys a phenodi i bwyllgor yn ôl yr angen. Byddai nifer o fanteision i hyn, gan gynnwys lleihau'r amser sydd ei angen i sefydlu pwyllgor yn ôl yr angen a byddai'n helpu'r awdurdod lleol i sicrhau bod darpar aelodau'r pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant digonol.

Gallai awdurdodau lleol gydweithredu hefyd i ddatblygu cronfeydd rhanbarthol. Byddai hyn yn cynyddu nifer yr ymgeiswyr cymwys a phrofiadol

ac yn darparu mwy o gyfleoedd i aelodau'r pwyllgor ennill profiad a datblygu arbenigedd wrth wneud penderfyniadau am drefniadaeth ysgolion. Fodd bynnag, wrth benodi paneli o unrhyw gronfa ranbarthol o'r fath, efallai yr hoffai awdurdodau lleol sicrhau bod gan rai aelodau o leiaf wybodaeth leol benodol.

Byddai'r awdurdod lleol am sicrhau bod holl aelodau'r pwyllgor yn derbyn hyfforddiant priodol cyn ystyried unrhyw gynigion a bod aelodau profiadol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i ganllawiau ac yn cael cyfle i loywi eu hyfforddiant. Nid oes angen i'r hyfforddiant fod yn hollgynhwysfawr ond hwyrach y dylai geisio sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn gyfarwydd â'r canllawiau yn y Cod a'r rhannau perthnasol o Ddeddf 2013. Gallai dau awdurdod lleol neu fwy gydweithredu i ddarparu hyfforddiant a allai gyflwyno manteision megis rhannu arferion da yn eang, yn ogystal â sicrhau arbedion ariannol posibl.

Byddai'n fuddiol i'r pwyllgor sicrhau bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau clerc. Er na fyddai'r clerc yn aelod o'r pwyllgor, gall weithredu fel ffynhonnell cyngor annibynnol. Er mwyn gallu gwneud hyn, byddai angen i'r clerc fod â dealltwriaeth dda o'r Cod a'r rhannau perthnasol o Ddeddf 2013, a'i fod wedi derbyn hyfforddiant priodol. Byddai angen i'r awdurdod lleol ddarparu cyngor cyfreithiol priodol i'r pwyllgor yn ôl yr angen. Ni ddylai'r clerc fod wedi ymwneud ag unrhyw ran o'r cynnig y mae'r pwyllgor yn ei ystyried ac ni ddylai fod ag unrhyw fuddiant mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan aelodau'r pwyllgor.

Byddai tasgau allweddol y clerc yn cynnwys:

- gwneud y trefniadau gweinyddol angenrheidiol ar gyfer y pwyllgor;
- bod yn ffynhonnell cyngor annibynnol ar weithdrefnau, y Cod a'r rhannau perthnasol o Ddeddf 2013;
- cofnodi'r trafodion, y penderfyniad a'r rhesymau drosto;
- sicrhau bod y penderfyniad yn cael ei hysbysu a'i gyhoeddi yn unol â pharagraff 5.13.

Er mwyn i'r pwyllgor allu gwneud penderfyniad deallus, byddai angen i'r awdurdod lleol anfon y dogfennau a amlinellir ym mharagraff 5.3 uchod at y clerc penodedig yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Dylai'r pwyllgor seilio ei benderfyniad ar y dystiolaeth ysgrifenedig hon yn hytrach na cheisio neu ystyried gwybodaeth newydd (oni bai ei fod o'r farn y bydd yn helpu i wneud ei benderfyniad o fewn yr amserlen) neu ystyried sylwadau ar lafar.

# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

2013 dccc 1

CYNNWYS

**RHAN 1**

CYFLWYNIAD

1 Trosolwg ar y Ddeddf hon

**RHAN 2**

SAFONAU

**PENNOD 1**

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Y seiliau dros ymyrryd*

2 Y seiliau dros ymyrryd

*Ymyrraeth gan awdurdod lleol*

3 Hysbysiad rhybuddio
4 Pŵer i ymyrryd
5 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio
6 Pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol
7 Pŵer awdurdod lleol i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim
8 Pŵer awdurdod lleol i atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig
9 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

*Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru*

10 Hysbysiad rhybuddio
11 Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd

12 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio
13 Pŵer Gweinidogion Cymru i benodi llywodraethwyr ychwanegol
14 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim
15 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgolion yn cael eu ffedereiddio
16 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau
17 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

*Darpariaethau atodol*

18 Cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim
19 Cyfarwyddiadau
20 Canllawiau

**PENNOD 2**

YMYRRYD MEWN AWDURDODAU LLEOL

*Y seiliau dros ymyrryd*

21 Y seiliau dros ymyrryd

*Hysbysiad rhybuddio*

22 Hysbysiad rhybuddio

*Pwerau ymyrryd*

23 Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd
24 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gael gwasanaethau cynghori
25 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran awdurdod
26 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai
27 Pŵer i gyfarwyddo'r modd y mae swyddogaethau addysg eraill yn cael eu harfer
28 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

*Darpariaethau atodol*

29 Cyfarwyddiadau
30 Dyletswydd i gydweithredu
31 Pwerau mynd i mewn ac arolygu

**PENNOD 3**

CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION

32 Ystyr"awdurdod ysgol"
33 Pŵer i ddyroddi canllawiau gwella ysgolion
34 Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
35 Dyletswydd i ddilyn canllawiau gwella ysgolion
36 Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol
37 Cyfarwyddiadau

## RHAN 3

## TREFNIADAETH YSGOLION

### PENNOD 1

### COD TREFNIADAETH YSGOLION

38 Cod Trefniadaeth Ysgolion
39 Llunio a chymeradwyo Cod Trefniadaeth Ysgolion

### PENNOD 2

### CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

*Sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir*

40 Cyfyngu ar sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir
41 Cynigion i sefydlu ysgolion prif ffrwd
42 Cynigion i newid ysgolion prif ffrwd
43 Cynigion i derfynu ysgolion prif ffrwd
44 Cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion arbennig cymunedol

*Newidiadau categori*

45 Cynigion i newid categori ysgol
46 Cyfyngiadau ar newid categori ysgol
47 Effaith newid categori

*Cyhoeddi, ymgynghori a gwrthwynebu*

48 Cyhoeddi ac ymgynghori
49 Gwrthwynebu

*Cymeradwyo cynigion a phenderfynu arnynt*

50 Eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru
51 Eu cymeradwyo gan awdurdod lleol
52 Cynigion cysylltiedig
53 Penderfynu
54 Eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru
55 Gweithredu
56 Dehongli Pennod 2

### PENNOD 3

### RHESYMOLI LLEOEDD YSGOL

*Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i resymoli lleoedd ysgol*

57 Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i gywiro darpariaeth ormodol neu annigonol
58 Darpariaeth bellach am gynigion a wneir ar ôl cyfarwyddyd o dan adran 57(2)

*Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd ysgol*

59 Gwneud a chyhoeddi cynigion gan Weinidogion Cymru

*Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chynigion o dan adran 59*

60 Gwrthwynebiadau

61 Ymchwiliad lleol i gynigion
62 Mabwysiadu cynigion
63 Gweithredu cynigion

**PENNOD 4**

DARPARIAETH RANBARTHOL AR GYFER ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

64 Ystyr "darpariaeth ranbarthol" a "swyddogaethau addysg arbennig"
65 Cyfarwyddyd i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol
66 Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i sicrhau darpariaeth ranbarthol
67 Darpariaeth bellach am gynigion a wneir ar ôl cyfarwyddyd o dan adran 66
68 Cynigion gan Weinidogion Cymru
69 Gwrthwynebiadau
70 Mabwysiadu cynigion

**PENNOD 5**

CYNIGION I AILSTRWYTHURO ADDYSG CHWECHED DOSBARTH

*Gwneud cynigion a'u penderfynu*

71 Pwerau Gweinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth
72 Ymgynghori, cyhoeddi a gwrthwynebiadau
73 Penderfyniad gan Weinidogion Cymru

*Gweithredu cynigion ar gyfer ailstrwythuro addysg chweched dosbarth*

74 Y ffurf weithredu
75 Y cyfrifoldeb dros weithredu
76 Darpariaeth bellach o ran gweithredu

*Darpariaethau atodol*

77 Diwygiadau canlyniadol i adroddiadau arolygu ar addysg chweched dosbarth

**PENNOD 6**

DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL

78 Ysgolion ffederal
79 Gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu ysgolion yn Lloegr
80 Hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol
81 Cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ysgol arbennig gymunedol yn cael ei therfynu
82 Gorchmynion esemptio trosiannol at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010
83 Dehongli Rhan 3

**RHAN 4**

CYNLLUNIAU STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

84 Llunio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg
85 Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg
86 Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg
87 Rheoliadau a chanllawiau

## RHAN 5

### SWYDDOGAETHAU AMRYWIOL YSGOLION

*Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd*

88 Dyletswydd i ddarparu brecwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd
89 Darpariaeth drosiannol
90 Dehongli adrannau 88 a 89

*Pŵer i godi tâl am brydau bwyd*

91 Diwygio'r pŵer i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc

*Cwnsela mewn ysgolion*

92 Gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol a phlant eraill
93 Gwybodaeth am wasanaethau cwnsela annibynnol eraill

*Cyfarfodydd rhieni*

94 Dyletswydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnal cyfarfodydd yn dilyn deiseb gan rieni
95 Diddymu dyletswydd i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni

*Cod ymarfer ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion*

96 Diddymu'r ddarpariaeth am god ymarfer ar gyfer y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion

## RHAN 6

## CYFFREDINOL

97 Gorchmynion a rheoliadau
98 Dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio
99 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
100 Cychwyn
101 Enw byr y Ddeddf hon a'i chynnwys yn un o'r Deddfau Addysg

Atodlen 1 — Cyrff llwodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim
Atodlen 2 — Newidiadau rheoleiddiedig
Atodlen 3 — Gweithredu cynigion statudol
Atodlen 4 — Gweithredu cynigion i newid categori ysgol
Atodlen 5 — Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwygio pwerau awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac sy'n peri pryder; diwygio pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol; darparu ar gyfer canllawiau gwella ysgolion; diwygio'r trefniadau statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion a gynhelir; darparu ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg; gwneud darpariaeth amrywiol mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir; ac at ddibenion cysylltiedig. [4 Mawrth 2013]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## CYFLWYNIAD

### 1 Trosolwg ar y Ddeddf hon

(1) Mae 6 Rhan i'r Ddeddf hon.

(2) Mae Rhan 2 wedi ei rhannu'n 3 Pennod sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynnal a gwella safonau—

(a) mewn ysgolion a gynhelir, a

(b) yn y modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdodau lleol.

(3) Mae Pennod 1 o Ran 2 (gan gynnwys Atodlen 1)—

(a) yn nodi'r seiliau dros ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir sy'n peri pryder, a

(b) yn darparu amrediad o bwerau ymyrryd i alluogi awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymdrin ag achosion y pryder.

(4) Mae Pennod 2—

(a) yn nodi'r seiliau dros ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol sy'n peri pryder, a

(b) yn darparu amrediad o bwerau ymyrryd i alluogi Gweinidogion Cymru i ymdrin ag achosion y pryder.

(5) Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, penaethiaid ysgolion o'r fath ac awdurdodau lleol ynghylch sut y dylai swyddogaethau gael eu harfer gyda golwg ar wella safon yr addysg sy'n cael ei darparu mewn ysgolion a gynhelir.

(6) Mae Rhan 3 wedi ei rhannu'n 6 Phennod sy'n cynnwys darpariaeth am drefniadaeth ysgolion a gynhelir.

(7) Mae Pennod 1 o Ran 3 yn darparu ar gyfer Cod Trefniadaeth Ysgolion ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 3.

(8) Mae Pennod 2 (gan gynnwys Atodlenni 2 i 4) yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir yn unol â phroses benodedig.

(9) Mae Pennod 3 yn darparu ar gyfer rhesymoli lleoedd ysgol os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth ormodol neu annigonol ar gyfer addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir.

(10) Mae Pennod 4 yn darparu ar gyfer gwneud darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

(11) Mae Pennod 5 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru ailstrwythuro addysg chweched dosbarth.

(12) Mae Pennod 6 yn darparu ar gyfer materion amrywiol ac atodol sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion.

(13) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, sydd—

(a) i'w paratoi gan awdurdodau lleol,

(b) i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, ac

(c) i'w cyhoeddi a'u gweithredu gan awdurdodau lleol (adrannau 84, 85 a 87).

(14) Mae Rhan 4 hefyd yn darparu pŵer sy'n arferadwy drwy reoliadau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant (adran 86).

(15) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth am swyddogaethau amrywiol sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir, gan gynnwys darpariaeth—

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu brecwast ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir ar gais cyrff llywodraethu'r ysgolion hynny (adrannau 88 i 90);

(b) sy'n diwygio pwerau presennol awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i godi tâl am brydau ysgol, fel bod—

(i) gofyniad cysylltiedig i godi'r un pris ar bob person am yr un maint o'r un eitem yn cael ei ddileu, a

(ii) gofyniad newydd na fydd y pris a godir am eitem yn fwy na chost darparu'r eitem honno yn cael ei osod (adran 91);

(c) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth resymol am wasanaeth sy'n cwnsela mewn cysylltiad ag anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol i ddisgyblion ysgol penodedig a phlant eraill (adran 92);

(d) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gynnal cyfarfod os gofynnir iddynt wneud hynny gan rieni mewn deiseb (adran 94) ac yn diddymu dyletswydd sy'n bodoli eisoes i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni (adran 95);

(e) yn diddymu dyletswydd Gweinidogion Cymru i ddyroddi cod ymarfer ar gyfer sicrhau perthynas effeithiol rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir (adran 96).

(16) Mae Rhan 6—

(a) yn cyflwyno Atodlen 5, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall sy'n codi o ddarpariaethau'r Ddeddf hon;

(b) yn cynnwys diffiniadau sy'n gymwys at ddibenion y Ddeddf hon yn gyffredinol a mynegai o ddiffiniadau sy'n gymwys i nifer o ddarpariaethau, ond nid yr holl Ddeddf (adran 98);

(c) yn cynnwys darpariaethau eraill sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon.

## RHAN 2

## SAFONAU

### PENNOD 1

### YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Y seiliau dros ymyrryd*

**2 Y seiliau dros ymyrryd**

At ddibenion y Bennod hon, mae'r seiliau dros ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir fel a ganlyn—

SAIL 1 - Mae safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel.

At y diben hwn, mae safonau perfformiad disgyblion yn isel os ydynt yn isel drwy gyfeirio at unrhyw un neu fwy o'r canlynol—

(a) y safonau y gellid yn rhesymol ddisgwyl o dan yr holl amgylchiadau i'r disgyblion eu cyrraedd;

(b) pan fo'n berthnasol, y safonau a gyrhaeddwyd ganddynt o'r blaen;

(c) y safonau a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion cyffelyb.

SAIL 2 - Mae methiant wedi bod yn y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu.

SAIL 3 - Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol neu unrhyw gamau a gymerwyd gan y disgyblion hynny neu eu rhieni yn rhagfarnu'n ddifrifol, neu'n debyg o ragfarnu'n ddifrifol, addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol.

SAIL 4 - Mae diogelwch disgyblion neu staff yr ysgol o dan fygythiad (p'un ai drwy fethiant disgyblu neu fel arall).

SAIL 5 - Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg.

SAIL 6 - Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg.

SAIL 7 - Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("y Prif Arolygydd") wedi rhoi hysbysiad o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005 i ddweud bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol a bod yr hysbysiad hwnnw heb ei ddisodli—

(a) gan y Prif Arolygydd wrth iddo roi hysbysiad o dan yr adran honno i ddweud ei bod yn ofynnol i fesurau arbennig gael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol, neu

(b) gan berson sy'n gwneud arolygiad dilynol ac yn llunio adroddiad sy'n datgan nad oes angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol mwyach yn ei farn ef.

SAIL 8 - Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi rhoi hysbysiad o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005 i ddweud ei bod yn ofynnol i fesurau arbennig gael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol ac nad yw'r hysbysiad hwnnw wedi ei ddisodli gan berson sy'n gwneud arolygiad dilynol ac yn llunio adroddiad sy'n datgan nad oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol mwyach yn ei farn ef.

*Ymyrraeth gan awdurdod lleol*

**3 Hysbysiad rhybuddio**

(1) Os yw awdurdod lleol wedi ei fodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas ag un o'i ysgolion a gynhelir, caiff yr awdurdod roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu'r ysgol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol bennu pob un o'r canlynol yn yr hysbysiad rhybuddio—

(a) y seiliau dros ymyrryd;

(b) y rhesymau pam y mae'r awdurdod wedi ei fodloni bod y seiliau'n bodoli;

(c) y camau y mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu eu cymryd er mwyn ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd;

(d) y cyfnod y mae'r camau i'w cymryd ynddo gan y corff llywodraethu ("y cyfnod cydymffurfio");

(e) y camau y mae'r awdurdod â'i fryd ar eu cymryd os bydd y corff llywodraethu'n methu â chymryd y camau sy'n ofynnol.

(3) Os yw'r awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol, rhaid iddo yr un pryd roi copi o'r hysbysiad rhybuddio i—

(a) y pennaeth;

(b) os yw'r ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol;

(c) Gweinidogion Cymru.

**4 Pŵer i ymyrryd**

(1) Mae gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir o dan y Bennod hon os yw is-adran (2), (3) neu (4) yn gymwys.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad rhybuddio o dan adran 3 i gorff llywodraethu'r ysgol, a

(b) os yw'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio, neu â sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad yr awdurdod o fewn y cyfnod cydymffurfio.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol a bod ganddo reswm dros gredu bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson a hwnnw'n risg sy'n galw am ymyriad brys o dan y Bennod hon.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw sail 7 (ysgol y mae arni angen gwelliant sylweddol) neu sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig) yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol, a

(b) os yw cyfnod heb fod yn llai na 10 niwrnod wedi mynd heibio er y dyddiad y rhoes y Prif Arolygydd hysbysiad i'r awdurdod lleol o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005, yn ddarostyngedig i is-adran (5).

(5) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu, mewn perthynas ag ysgol benodol, bod is-adran (4)(b) yn cael effaith fel petai'r cyfeiriad at 10 niwrnod yn cyfeirio at gyfnod byrrach a bennir yn y penderfyniad.

(6) Pan fo gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd, rhaid iddo gadw golwg ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y pŵer.

(7) Os yw'r awdurdod yn dod i'r casgliad bod y seiliau dros ymyrryd wedi eu trin wrth ei fodd, neu na fyddai arfer ei bwerau o dan y Bennod hon yn briodol am unrhyw reswm arall, rhaid iddo ysgrifennu at y corff llywodraethu i'w hysbysu am ei gasgliad.

(8) Os yw awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (7), rhaid iddo anfon copi yr un pryd—

(a) os yw'r ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol—

(i) at y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, at y corff crefyddol priodol, a

(b) at Weinidogion Cymru.

(9) Mae pŵer awdurdod lleol i ymyrryd yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd un o'r camau canlynol yn digwydd—

(a) bod yr awdurdod yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (7);

(b) bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu nad oes effaith mwyach i'r pŵer i ymyrryd a'u bod yn ysgrifennu at yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu i'w hysbysu am eu penderfyniad;

(c) bod Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu'r ysgol o dan adran 10.

(10) Nid yw awdurdod lleol sydd â phŵer i ymyrryd wedi ei gyfyngu i gymryd y camau y dywedodd ei fod â'i fryd ar eu cymryd mewn hysbysiad rhybuddio.

**5 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir.

(2) Caiff yr awdurdod lleol, gyda golwg ar wella perfformiad yr ysgol, gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i wneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau ohonynt—

(a) ymrwymo i gontract neu drefniant arall gyda pherson penodedig (a gaiff fod yn gorff llywodraethu ysgol arall) i ddarparu i'r corff llywodraethu wasanaethau penodedig sy'n gynghorol eu natur;

(b) arfer y pwerau o dan adran 5(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 (pwerau cydlafurio) a bennir yn y cyfarwyddyd, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan adran 6 o'r Mesur hwnnw.

(3) Cyn rhoi cyfarwyddyd rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—

(a) corff llywodraethu'r ysgol, a

(b) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(4) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i'r contract neu'r trefniant arall gynnwys telerau ac amodau penodedig.

**6 Pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir.

(2) Caiff yr awdurdod lleol benodi cymaint o lywodraethwyr ychwanegol i gorff llywodraethu'r ysgol ag y gwêl yn dda; ac mae'r offeryn llywodraethu ar gyfer yr ysgol yn cael effaith fel petai'n darparu ar gyfer penodiadau o'r fath (er gwaethaf unrhyw beth mewn rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002).

(3) Caiff yr awdurdod lleol enwebu un o'r llywodraethwyr hynny i fod yn gadeirydd y corff llywodraethu yn lle unrhyw berson a etholwyd yn gadeirydd y corff hwnnw.

(4) Cyn gwneud unrhyw benodiad neu enwebiad o'r fath mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—

(a) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(b) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(5) Bydd llywodraethwr a benodir o dan yr adran hon yn dal ei swydd am gyfnod a benderfynir gan yr awdurdod lleol.

(6) Bydd llywodraethwr a enwebir gan yr awdurdod lleol i fod yn gadeirydd y corff llywodraethu yn gadeirydd am gyfnod a benderfynir gan yr awdurdod lleol.

(7) Caiff yr awdurdod lleol dalu tâl cydnabyddiaeth a lwfansau i lywodraethwyr a benodir o dan yr adran hon.

**7 Pŵer awdurdod lleol i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir.

(2) Caiff yr awdurdod lleol ysgrifennu at gorff llywodraethu'r ysgol i'w hysbysu bod y corff llywodraethu, o ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, i'w gyfansoddi'n unol ag Atodlen 1 (cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim).

(3) Cyn rhoi hysbysiad rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol,

(b) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, ymgynghori â'r canlynol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol, ac

(c) sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru.

**8 Pŵer awdurdod lleol i atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os oes gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir, a

(b) os oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(2) Caiff yr awdurdod lleol atal dros dro hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig drwy roi i'r corff llywodraethu hysbysiad am yr ataliad dros dro.

(3) Mae'r ataliad dros dro ar yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig yn dod yn weithredol o'r adeg y bydd y corff llywodraethu'n cael yr hysbysiad.

(4) Os yw'r awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad yn atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig, rhaid iddo roi copi o'r hysbysiad i'r pennaeth yr un pryd.

(5) Mae ataliad dros dro sy'n cael ei osod o dan yr adran hon yn cael effaith at ddibenion Pennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (ariannu ysgolion a gynhelir) fel petai wedi ei wneud o dan baragraff 1 o Atodlen 15 i'r Ddeddf honno (atal dros dro ddirprwyiad ariannol).

**9 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan yr awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir.

(2) Os yw'r awdurdod lleol yn credu ei bod yn briodol at ddibenion ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd, caiff—

(a) rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth, neu

(b) cymryd unrhyw gamau eraill.

*Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru*

**10 Hysbysiad rhybuddio**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir—

(a) os ydynt wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol, a

(b) os yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol naill ai—

(i) heb roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu o dan adran 3 ar un neu fwy o'r seiliau hynny, neu

(ii) wedi rhoi hysbysiad rhybuddio, ond yn nhermau sy'n annigonol ym marn Gweinidogion Cymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu pob un o'r canlynol yn yr hysbysiad rhybuddio—

(a) y seiliau dros ymyrryd;

(b) y rhesymau pam y maent wedi eu bodloni bod y seiliau yn bodoli;

(c) y camau y maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu eu cymryd er mwyn ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd;

(d) y cyfnod y mae'r camau i'w cymryd ynddo gan y corff llywodraethu ("y cyfnod cydymffurfio");

(e) y camau y maent â'u bryd ar eu cymryd os bydd y corff llywodraethu yn methu â chymryd y camau sy'n ofynnol.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol, rhaid iddynt yr un pryd ag y byddant yn rhoi'r hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu roi copi o'r hysbysiad rhybuddio i—

(a) yr awdurdod lleol;

(b) y pennaeth;

(c) os yw'r ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

**11 Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd**

(1) Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir o dan y Bennod hon os yw is-adran (2), (3), (4) neu (5) yn gymwys.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad rhybuddio o dan adran 3 i gorff llywodraethu'r ysgol,

(b) os yw'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio, ac

(c) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r awdurdod lleol wedi cymryd, ac nad yw'n debyg o gymryd, camau digonol at ddibenion ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad rhybuddio o dan adran 10 i gorff llywodraethu'r ysgol, a

(b) os yw'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol a bod ganddynt reswm dros gredu bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson a hwnnw'n risg sy'n galw am ymyriad brys o dan y Bennod hon.

(5) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw sail 7 (ysgol y mae arni angen gwelliant sylweddol) neu sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig) yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol, a

(b) os yw cyfnod heb fod yn llai na 10 niwrnod wedi mynd heibio er y dyddiad y rhoes y Prif Arolygydd hysbysiad i Weinidogion Cymru o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005, yn ddarostyngedig i is-adran (6).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu, mewn perthynas ag ysgol benodol, bod is-adran (5)(b) yn cael effaith fel petai'r cyfeiriad at 10 niwrnod yn cyfeirio at gyfnod byrrach a bennir yn y penderfyniad.

(7) Pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd, rhaid iddynt gadw golwg ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y pŵer.

(8) Os yw Gweinidogion Cymru'n credu bod y seiliau dros ymyrryd wedi eu trin wrth eu bodd, neu na fyddai arfer eu pwerau o dan y Bennod hon yn briodol am unrhyw reswm arall, rhaid iddynt ysgrifennu at y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol i'w hysbysu am eu casgliad.

(9) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (8) mewn perthynas ag ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, rhaid iddynt anfon copi yr un pryd at—

(a) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(b) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(10) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn parhau i gael effaith hyd nes y byddant yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (8).

(11) Os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd, nid ydynt wedi eu cyfyngu i gymryd y camau yr oeddent wedi dweud mewn hysbysiad rhybuddio eu bod â'u bryd ar eu cymryd.

**12 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, gyda golwg ar wella perfformiad yr ysgol, gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i wneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau ohonynt—

(a) ymrwymo i gontract neu drefniant arall gyda pherson penodedig (a gaiff fod yn gorff llywodraethu ysgol arall) i ddarparu i'r corff llywodraethu wasanaethau penodedig sy'n gynghorol eu natur;

(b) arfer y pwerau o dan adran 5(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 (pwerau cydlafurio) a bennir yn y cyfarwyddyd, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan adran 6 o'r Mesur hwnnw.

(3) Cyn rhoi cyfarwyddyd rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) corff llywodraethu'r ysgol, a

(b) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(4) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i'r contract neu'r trefniant arall gynnwys telerau ac amodau penodedig.

**13 Pŵer Gweinidogion Cymru i benodi llywodraethwyr ychwanegol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benodi cymaint o lywodraethwyr ychwanegol i gorff llywodraethu'r ysgol ag y gwelant yn dda; ac mae'r offeryn llywodraethu ar gyfer yr ysgol yn cael effaith fel petai'n darparu ar gyfer penodiadau o'r fath (er gwaethaf unrhyw beth mewn rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru enwebu un o'r llywodraethwyr hynny i fod yn gadeirydd y corff llywodraethu yn lle unrhyw berson a etholwyd yn gadeirydd y corff hwnnw.

(4) Cyn gwneud unrhyw benodiad neu enwebiad o'r fath mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(b) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(5) Bydd llywodraethwr a benodir o dan yr adran hon yn dal ei swydd am gyfnod a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

(6) Bydd llywodraethwr a enwebir gan Weinidogion Cymru i fod yn gadeirydd y corff llywodraethu yn gadeirydd am gyfnod a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth a lwfansau i lywodraethwyr a benodir o dan yr adran hon.

(8) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pŵer o dan yr adran hon mewn perthynas ag unrhyw ysgol—

(a) ni chaiff yr awdurdod lleol atal dros dro hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig o dan baragraff 1 o Atodlen 15 i Ddeddf Safonau a Fframwaith 1998, a

(b) os yw'r awdurdod lleol eisoes wedi arfer y pŵer hwnnw neu ei bŵer o dan adran 8, caiff Gweinidogion Cymru ddirymu'r ataliad dros dro.

(9) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pwerau o dan yr adran hon mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir, nid oes dim mewn rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002 i'w ddarllen fel petai'n awdurdodi penodi llywodraethwyr sefydledig er mwyn eu gwneud yn fwy niferus na'r llywodraethwyr eraill fel y bydd eu nifer hwy wedi ei gynyddu gan y rhai a gaiff eu penodi gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(10) O ran dirymu ataliad dros dro o dan is-adran (8)(b)—

(a) rhaid i'r awdurdod lleol gael ei hysbysu'n ysgrifenedig amdano, a

(b) daw'n weithredol o'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad hwnnw.

**14 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ysgrifennu at gorff llywodraethu'r ysgol i'w hysbysu bod y corff llywodraethu, o'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, i'w gyfansoddi'n unol ag Atodlen 1 (cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim).

(3) Cyn rhoi hysbysiad rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol,

(b) corff llywodraethu'r ysgol, ac

(c) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(4) Nid yw Gweinidogion Cymru yn gorfod ymgynghori â'r personau a grybwyllwyd yn is-adran (3)(b) ac (c) os yw'r awdurdod lleol wedi ymgynghori â hwy am gyfansoddiad corff llywodraethu o dan adran 7 ar sail pŵer i ymyrryd y daethpwyd ag ef i ben drwy effaith adran 4(9)(b) neu (c).

**15 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgolion yn cael eu ffedereiddio**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir ("yr ysgol sy'n peri pryder").

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw un o'r personau canlynol i ddarparu ar gyfer un neu fwy o'r trefniadau a nodir yn is-adran (3)—

(a) awdurdod lleol;

(b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir;

(c) corff llywodraethu ffederasiwn.

(3) Dyma'r trefniadau—

(a) ffedereiddio'r ysgol sy'n peri pryder ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;

(b) ffedereiddio'r ysgol sy'n peri pryder a ffederasiwn sy'n bodoli eisoes;

(c) ffedereiddio'r ysgol sy'n peri pryder a ffederasiwn sy'n bodoli eisoes ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;

(d) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, ffedereiddio'r ffederasiwn hwnnw ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;

(e) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, ffedereiddio'r ffederasiwn hwnnw a ffederasiwn arall sy'n bodoli eisoes;

(f) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, ffedereiddio'r ffederasiwn hwnnw a ffederasiwn arall sy'n bodoli eisoes ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;

(g) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, bod yr ysgol yn ymadael â'r ffederasiwn hwnnw.

(4) Cyn rhoi cyfarwyddiad o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) yr awdurdod lleol,

(b) y cyrff llywodraethu sydd o dan sylw, ac

(c) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(5) Yn yr adran hon mae i "ffederasiwn" yr ystyr a roddir gan adran 21(1) o Fesur Addysg (Cymru) 2011.

**16 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir ar dir sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gael ei therfynu ar ddyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol,

(b) corff llywodraethu'r ysgol,

(c) yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol, ac

(d) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(4) Wrth roi cyfarwyddyd i derfynu'r ysgol, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig hefyd am y cyfarwyddyd i gorff llywodraethu'r ysgol a'i phennaeth.

(5) Pan fo cyfarwyddyd yn cael ei roi i'r awdurdod lleol o dan is-adran (2), rhaid iddo derfynu'r ysgol o dan sylw ar y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd; ac nid oes dim yn Rhan 3 sy'n gymwys i derfynu'r ysgol o dan yr adran hon.

(6) Yn yr adran hon mae unrhyw gyfeiriad at derfynu ysgol a gynhelir yn cyfeirio at yr awdurdod lleol yn peidio â'i chynnal.

**17 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn credu ei bod yn briodol at ddibenion ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd, cânt—

(a) rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth, neu

(b) cymryd unrhyw gamau eraill.

*Darpariaethau atodol*

**18 Cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim**

Mae Atodlen 1 (penodi aelodau o fyrddau gweithrediaeth interim, swyddogaethau'r byrddau, eu gweithdrefnau a materion cysylltiedig) yn cael effaith.

**19 Cyfarwyddiadau**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu bennaeth sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan y Bennod hon gydymffurfio ag ef.

(2) Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd i arfer pŵer neu ddyletswydd sy'n ddibynnol ar farn y corff llywodraethu neu'r pennaeth.

(3) O ran cyfarwyddyd o dan y Bennod hon—

(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach;

(c) gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais gan, neu ar ran, y person a roes y cyfarwyddyd.

**20 Canllawiau**

Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

## PENNOD 2

YMYRRYD MEWN AWDURDODAU LLEOL

*Y seiliau dros ymyrryd*

**21 Y seiliau dros ymyrryd**

At ddibenion y Bennod hon, mae'r seiliau dros ymyrryd â'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau addysg fel a ganlyn—

SAIL 1 - Mae'r awdurdod lleol wedi methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd sy'n swyddogaeth addysg.

SAIL 2 - Mae'r awdurdod lleol wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer swyddogaeth addysg.

SAIL 3 - Mae'r awdurdod lleol yn methu, neu'n debyg o fethu, â chyflawni swyddogaeth addysg yn ôl safon ddigonol.

*Hysbysiad rhybuddio*

**22 Hysbysiad rhybuddio**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i awdurdod lleol os ydynt wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 3 yn bodoli mewn perthynas â'r awdurdod lleol.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu pob un o'r canlynol yn yr hysbysiad rhybuddio—

(a) y seiliau dros ymyrryd;

(b) y rhesymau pam y maent wedi eu bodloni bod y seiliau yn bodoli;

(c) y camau y maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol eu cymryd er mwyn ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd;

(d) y cyfnod y mae'r camau i'w cymryd ynddo gan yr awdurdod lleol ("y cyfnod cydymffurfio");

(e) y camau y maent â'u bryd ar eu cymryd os bydd yr awdurdod lleol yn methu â chymryd y camau gofynnol.

*Pwerau ymyrryd*

**23 Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd**

(1) Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd o dan y Bennod hon â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdod lleol os yw is-adran (2) neu (3) yn gymwys.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad rhybuddio, a

(b) os yw'r awdurdod lleol wedi methu â chydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 3 yn bodoli mewn perthynas â'r awdurdod lleol a bod ganddynt reswm dros gredu—

(a) bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson a hwnnw'n risg sy'n galw am ymyriad brys o dan y Bennod hon, neu

(b) bod yr awdurdod lleol yn annhebyg o allu cydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â hysbysiad rhybuddio.

(4) Pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd, rhaid iddynt gadw golwg ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y pŵer.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru yn dod i'r casgliad bod y seiliau dros ymyrryd wedi eu trin wrth eu bodd, neu na fyddai arfer eu pwerau o dan y Bennod hon yn briodol am unrhyw reswm arall, rhaid iddynt ysgrifennu at yr awdurdod lleol i'w hysbysu am eu casgliad.

(6) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn parhau i gael effaith hyd nes y byddant yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (5).

(7) Os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd, nid ydynt wedi eu cyfyngu i gymryd y camau yr oeddent wedi dweud mewn hysbysiad rhybuddio eu bod â'u bryd ar eu cymryd.

**24 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gael gwasanaethau cynghori**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod lleol i ymrwymo i gontract neu drefniant arall gyda pherson penodedig, neu berson sy'n dod o fewn dosbarth penodedig, i ddarparu i'r awdurdod neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo (neu'r ddau ohonynt), wasanaethau penodedig sy'n gynghorol eu natur.

(3) Caiff y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r contract neu'r trefniant arall gynnwys telerau ac amodau penodedig.

(4) Yn yr adran hon ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn cyfarwyddyd o dan yr adran hon.

**25 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran awdurdod**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi unrhyw gyfarwyddiadau i'r awdurdod lleol neu i unrhyw un neu rai o swyddogion yr awdurdod y maent yn credu eu bod yn briodol i sicrhau bod y swyddogaethau y mae'r seiliau dros ymyrryd yn ymwneud â hwy yn cael eu cyflawni ar ran yr awdurdod gan berson a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (2) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gontract neu drefniant arall a wneir gan yr awdurdod â'r person penodedig gynnwys telerau ac amodau a bennir yn y cyfarwyddyd.

**26 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu cyflawni gan awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod y swyddogaethau sy'n ymwneud â'r seiliau dros ymyrryd i'w harfer gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebir ganddynt.

(3) Os yw cyfarwyddyd wedi ei wneud o dan is-adran (2), rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag arweiniad Gweinidogion Cymru neu eu henwebai mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau.

**27 Pŵer i gyfarwyddo'r modd y mae swyddogaethau addysg eraill yn cael eu harfer**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn credu ei bod yn hwylus, caiff cyfarwyddyd o dan adran 25 neu 26 ymwneud â chyflawni swyddogaethau addysg yn ychwanegol at y swyddogaethau y mae'r seiliau dros ymyrryd yn ymwneud â hwy.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi sylw (ymhlith pethau eraill) i ystyriaethau ariannol wrth benderfynu a yw'n hwylus i gyfarwyddyd ymwneud â swyddogaethau addysg nad ydynt yn swyddogaethau sy'n ymwneud â'r seiliau dros ymyrryd.

**28 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdod lleol.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn credu ei bod yn briodol at ddibenion ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd, cânt—

(a) rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth, neu

(b) cymryd unrhyw gamau eraill.

*Darpariaethau atodol*

**29 Cyfarwyddiadau**

(1) Rhaid i awdurdod lleol, neu swyddog i awdurdod, sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd neu arweiniad o dan y Bennod hon gydymffurfio ag ef.

(2) Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd neu arweiniad i arfer pŵer neu ddyletswydd sy'n ddibynnol ar farn yr awdurdod lleol neu swyddog i'r awdurdod.

(3) O ran cyfarwyddyd o dan y Bennod hon—

(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach;

(c) gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

**30 Dyletswydd i gydweithredu**

(1) Rhaid i awdurdod lleol a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir roi i Weinidogion Cymru, ac unrhyw berson a bennir yn is-adran (3) gymaint o gymorth mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan neu yn rhinwedd y Bennod hon ag y gallant yn rhesymol ei roi.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol sicrhau hefyd, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, fod personau sy'n gweithio yn yr ysgol yn gwneud yr un fath.

(3) Y personau penodedig yw—

(a) unrhyw berson a awdurdodir at ddibenion yr adran hon gan Weinidogion Cymru;

(b) unrhyw berson sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau o dan y Bennod hon;

(c) unrhyw berson sy'n cynorthwyo—

(i) Gweinidogion Cymru, neu

(ii) person a grybwyllwyd ym mharagraff (a) neu (b).

**31 Pwerau mynd i mewn ac arolygu**

(1) Ar bob adeg resymol mae gan berson sy'n dod o fewn is-adran (2)—

(a) hawl i fynd i mewn i fangre'r awdurdod lleol o dan sylw ac unrhyw ysgol a gynhelir ganddo;

(b) hawl i arolygu unrhyw gofnodion neu ddogfennau eraill a gedwir gan yr awdurdod neu unrhyw ysgol a gynhelir ganddo, ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r awdurdod neu unrhyw ysgol o'r fath, y mae'r person yn barnu eu bod yn berthnasol i'r modd y mae swyddogaethau yn cael eu harfer gan y person o dan neu yn rhinwedd y Bennod hon ac i wneud copïau o unrhyw gofnodion neu ddogfennau o'r fath.

(2) Y personau canlynol sy'n dod o fewn yr is-adran hon—

(a) y person a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 24 neu, pan fo'r cyfarwyddyd yn pennu dosbarth ar bersonau, y person y mae'r awdurdod lleol yn ymrwymo gydag ef i'r contract neu'r trefniant arall sy'n ofynnol gan y cyfarwyddyd;

(b) y person a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 25;

(c) Gweinidogion Cymru yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 26;

(d) y person a enwebir drwy gyfarwyddyd o dan adran 26.

(3) Wrth arfer yr hawl o dan is-adran (1)(b) i arolygu cofnodion neu ddogfennau eraill, mae person ("P")—

(a) yn meddu ar yr hawl i gael mynediad i unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw aparatws neu ddeunydd cysylltiedig sy'n cael neu sydd wedi bod yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r cofnodion neu'r dogfennau eraill sydd o dan sylw, ac arolygu a gwirio eu gweithrediad, a

(b) yn cael ei gwneud yn ofynnol i'r personau canlynol roi unrhyw gymorth y mae ar P angen rhesymol amdano (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, trefnu bod gwybodaeth ar gael i'w harolygu neu ei chopïo ar ffurf ddarllenadwy)—

(i) y person y defnyddir neu y defnyddiwyd y cyfrifiadur felly ganddo neu ar ei ran;

(ii) unrhyw berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, yr aparatws neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'i weithredu.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at berson sy'n dod o fewn is-adran (2) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw berson sy'n cynorthwyo'r person hwnnw.

(5) Yn yr adran hon mae'r termau "dogfen" a "cofnodion" ill dau yn cynnwys gwybodaeth a gofnodir ar unrhyw ffurf.

## PENNOD 3

### CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION

**32 Ystyr "awdurdod ysgol"**

Yn y Bennod hon ystyr "awdurdod ysgol" yw—

(a) awdurdod lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau addysg;

(b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir;

(c) pennaeth ysgol a gynhelir.

**33 Pŵer i ddyroddi canllawiau gwella ysgolion**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdod ysgol ynglŷn â'r ffordd y dylai'r awdurdod arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar wella safon yr addysg sy'n cael ei darparu gan unrhyw ysgol a gynhelir y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â hi ("canllawiau gwella ysgolion").

(2) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) dyroddi canllawiau gwella ysgolion i awdurdodau ysgolion yn gyffredinol neu i un neu fwy o awdurdodau penodol;

(b) dyroddi canllawiau gwahanol ynghylch gwella ysgolion i wahanol awdurdodau ysgolion;

(c) diwygio neu ddirymu canllawiau gwella ysgolion drwy ganllawiau pellach;

(d) dirymu canllawiau gwella ysgolion drwy ddyroddi hysbysiad i'r awdurdodau ysgolion y mae'r canllawiau wedi eu cyfeirio atynt.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod canllawiau gwella ysgolion, neu hysbysiad yn dirymu'r canllawiau hynny, yn datgan—

(a) eu bod yn cael eu dyroddi, neu ei fod yn cael ei ddyroddi, o dan yr adran hon, a

(b) y dyddiad y deuant neu y daw yn weithredol arno.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru drefnu i gyhoeddi canllawiau gwella ysgolion, neu hysbysiad yn dirymu'r canllawiau hynny.

**34 Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

(1) Cyn dyroddi neu ddiwygio canllawiau gwella ysgolion, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau a ganlyn ynghylch drafft o'r canllawiau—

(a) awdurdodau ysgolion y mae'r canllawiau yn debyg o effeithio arnynt,

(b) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ac

(c) unrhyw berson arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft (gydag addasiadau neu hebddynt), rhaid iddynt osod copi o'r drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn diwedd y cyfnod o 40 o ddiwrnodau, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o'r canllawiau, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â'u dyroddi ar ffurf y drafft hwnnw.

(4) Os na chaiff unrhyw benderfyniad ei wneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r canllawiau (neu'r canllawiau diwygiedig) ar ffurf y drafft.

(5) O ran y cyfnod o 40 o ddiwrnodau—

(a) mae'n dechrau ar y diwrnod y mae'r drafft yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a

(b) nid yw'n cynnwys unrhyw bryd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.

(6) Nid yw is-adran (3) yn atal drafft newydd o ganllawiau arfaethedig neu ganllawiau diwygiedig arfaethedig rhag cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

**35 Dyletswydd i ddilyn canllawiau gwella ysgolion**

(1) Rhaid i awdurdod ysgol ddilyn y llwybr a nodir mewn canllawiau gwella ysgolion a ddyroddir iddo yn unol â'r Bennod hon pan fydd yn arfer pŵer neu ddyletswydd (gan gynnwys pŵer neu ddyletswydd sy'n ddibynnol ar farn yr awdurdod ysgol); ond mae hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon.

(2) Nid yw awdurdod ysgol sy'n awdurdod lleol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (1) cyhyd—

(a) â bod yr awdurdod yn meddwl bod rheswm da iddo beidio â dilyn y canllawiau mewn categorïau achos penodol neu beidio â'u dilyn o gwbl,

(b) â'i fod yn penderfynu ar bolisi amgen ar gyfer arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â phwnc y canllawiau, ac

(c) â bod effaith i ddatganiad polisi a ddyroddir gan yr awdurdod yn unol ag adran 36.

(3) Nid yw awdurdod ysgol sy'n gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu'n bennaeth arni yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (1) cyhyd â bod—

(a) y corff llywodraethu'n meddwl bod rheswm da iddo ef neu'r pennaeth beidio â dilyn y canllawiau mewn categorïau achos penodol neu beidio â'u dilyn o gwbl,

(b) y corff llywodraethu'n penderfynu ar bolisi amgen ar gyfer arfer ei swyddogaethau neu rai'r pennaeth mewn cysylltiad â phwnc y canllawiau, ac

(c) effaith i ddatganiad polisi a ddyroddir gan y corff llywodraethu yn unol ag adran 36.

(4) Pan fo is-adran (2) neu (3) yn gymwys yn achos awdurdod ysgol—

(a) rhaid i'r awdurdod ddilyn y llwybr a nodir yn y datganiad polisi, a

(b) dim ond i'r graddau nad yw pwnc y canllawiau gwella ysgolion wedi ei ddisodli gan y datganiad polisi y mae'r awdurdod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (1).

(5) Nid yw'r dyletswyddau yn is-adrannau (1) a (4) yn gymwys i awdurdod ysgol i'r graddau y byddai'n afresymol i'r awdurdod ddilyn y canllawiau gwella ysgolion neu'r datganiad polisi mewn achos penodol neu gategori penodol o achos.

**36 Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol**

(1) Rhaid i ddatganiad polisi a ddyroddir o dan adran 35(2) neu (3) nodi—

(a) sut mae'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu (yn ôl y digwydd) yn cynnig y dylai swyddogaethau gael eu harfer yn wahanol i'r llwybr a nodir yn y canllawiau gwella ysgolion, a

(b) rhesymau'r awdurdod neu'r corff dros gynnig y llwybr gwahanol hwnnw.

(2) Caiff awdurdod neu gorff sydd wedi dyroddi datganiad polisi—

(a) dyroddi datganiad polisi diwygiedig;

(b) rhoi hysbysiad sy'n dirymu datganiad polisi.

(3) Rhaid i ddatganiad polisi (neu ddatganiad diwygiedig am bolisi) ddatgan—

(a) ei fod wedi ei ddyroddi o dan adran 35(2) neu (3) (yn ôl y digwydd), a

(b) y dyddiad y mae i ddod yn weithredol arno.

(4) Rhaid i'r awdurdod neu'r corff sy'n dyroddi datganiad polisi (neu ddatganiad diwygiedig am bolisi), neu sy'n rhoi hysbysiad o dan is-adran (2)(b)—

(a) trefnu bod datganiad neu hysbysiad yn cael ei gyhoeddi;

(b) anfon copi o unrhyw ddatganiad neu hysbysiad at Weinidogion Cymru.

**37 Cyfarwyddiadau**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn credu, mewn perthynas â datganiad polisi a ddyroddir gan awdurdod ysgol, nad yw polisi amgen yr awdurdod ar gyfer arfer swyddogaethau (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn debyg o wella safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y mae'r datganiad polisi yn ymwneud â hi.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod ysgol i gymryd unrhyw gamau y mae Gweinidogion Cymru yn credu eu bod yn briodol er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn arfer ei swyddogaethau yn unol â'r canllawiau gwella ysgolion a ddyroddir i'r awdurdod yn unol â'r Bennod hon.

(3) Rhaid i awdurdod ysgol sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan yr adran hon gydymffurfio ag ef.

(4) Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd i arfer pŵer neu ddyletswydd sy'n ddibynnol ar farn yr awdurdod ysgol.

(5) O ran cyfarwyddyd o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo gael ei roi'n ysgrifenedig;

(b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach;

(c) gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais Gweinidogion Cymru neu ar eu rhan.

## RHAN 3

## TREFNIADAETH YSGOLION

### PENNOD 1

### COD TREFNIADAETH YSGOLION

**38 Cod Trefniadaeth Ysgolion**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod am drefniadaeth ysgolion ("y Cod"), a chaniateir iddynt ei ddiwygio o dro i dro.

(2) Mae'r Cod i gynnwys darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau'r personau canlynol o dan y Rhan hon—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) awdurdodau lleol;

(c) cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir;

(d) personau eraill mewn cysylltiad â chynigion a wneir (neu sydd i'w gwneud) ganddynt o dan y Rhan hon.

(3) Caiff y Cod osod gofynion, a chaiff gynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill.

(4) Rhaid i'r personau y cyfeiriwyd atynt yn is-adran (2), wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon—

(a) gweithredu'n unol ag unrhyw ofynion perthnasol a gynhwysir yn y Cod, a

(b) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gynhwysir ynddo.

(5) Mae'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (4) yn gymwys hefyd i berson sy'n arfer swyddogaeth at ddibenion cyflawni swyddogaethau o dan y Rhan hon gan—

(a) Gweinidogion Cymru,

(b) awdurdod lleol,

(c) corff llywodraethu ysgol a gynhelir, neu

(d) personau eraill mewn cysylltiad â chynigion a wneir (neu sydd i'w gwneud) ganddynt o dan y Rhan hon.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi ar eu gwefan y Cod sydd mewn grym am y tro.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ar wahân (drwy gyfrwng codau ar wahân) mewn perthynas â swyddogaethau gwahanol o dan y Rhan hon sy'n perthyn i'r personau a grybwyllwyd yn is-adran (2).

(8) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at "y Cod" neu at swyddogaethau o dan y Rhan hon yn cael effaith, mewn perthynas â chod ar wahân, fel cyfeiriadau at y cod hwnnw neu at swyddogaethau o dan y Rhan hon y mae'n ymwneud â hwy.

**39 Llunio a chymeradwyo Cod Trefniadaeth Ysgolion**

(1) Cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 38, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau a ganlyn ynghylch drafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig)—

(a) pob awdurdod lleol,

(b) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir,

(c) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ac

(d) unrhyw berson arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft (gydag addasiadau neu hebddynt), rhaid iddynt osod copi o'r drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn diwedd y cyfnod o 40 o ddiwrnodau, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o'r cod, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r cod arfaethedig ar ffurf y drafft hwnnw.

(4) Os na chaiff unrhyw benderfyniad o'r fath ei wneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a

(b) daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

(5) O ran y cyfnod o 40 o ddiwrnodau—

(a) mae'n dechrau ar y diwrnod y caiff y drafft ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a

(b) nid yw'n cynnwys unrhyw amser pryd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.

(6) Nid yw is-adran (3) yn atal drafft newydd o god arfaethedig rhag cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(7) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at god arfaethedig yn cynnwys cod diwygiedig arfaethedig.

(8) Caniateir i'r gofyniad i ymgynghori a osodir gan is-adran (1) gael ei fodloni drwy ymgynghoriad yr ymgymerwyd ag ef cyn i'r Rhan hon ddod i rym er bod y cod a ddyroddir o dan adran 38(1) yn cymryd i ystyriaeth (i unrhyw raddau) unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Rhan hon.

## PENNOD 2

## CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

*Sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir*

### 40 Cyfyngu ar sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir

(1) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caniateir i ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol newydd gael ei sefydlu yng Nghymru.

(2) Ni chaniateir i ysgol sefydledig nac ysgol arbennig sefydledig newydd gael ei sefydlu yng Nghymru.

(3) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caniateir i ysgol a gynhelir gael ei therfynu.

(4) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caniateir i newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid rheoleiddiedig mewn perthynas â'r math o ysgol o dan sylw.

(5) Ni chaniateir i unrhyw newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid cymeriad crefyddol yr ysgol neu'n peri i ysgol gaffael neu golli ei chymeriad crefyddol.

(6) Mae is-adran (3) yn cael effaith yn ddarostyngedig i adran 16(5) (pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cau).

(7) Mae Atodlen 2 (sy'n disgrifio newidiadau rheoleiddiedig) yn cael effaith.

**41 Cynigion i sefydlu ysgolion prif ffrwd**

(1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i sefydlu—

(a) ysgol gymunedol newydd, neu

(b) ysgol feithrin newydd a gynhelir.

(2) Caiff unrhyw berson wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd.

**42 Cynigion i newid ysgolion prif ffrwd**

(1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion—

(a) i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol gymunedol;

(b) gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 (agor neu gau chweched dosbarth ysgol) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;

(c) i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 10, 11, 12 neu 13 o Atodlen 2 (cynyddu a lleihau capasiti) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig os nad oes gan yr ysgol honno gymeriad crefyddol;

(d) i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol feithrin a gynhelir.

(2) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wneud cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol.

**43 Cynigion i derfynu ysgolion prif ffrwd**

(1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i derfynu—

(a) ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, neu

(b) ysgol feithrin a gynhelir.

(2) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wneud cynigion i derfynu'r ysgol.

**44 Cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion arbennig cymunedol**

Caiff awdurdod lleol wneud cynigion—

(a) i sefydlu ysgol arbennig gymunedol newydd,

(b) i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol o'r fath, neu

(c) i derfynu ysgol o'r fath.

*Newidiadau categori*

**45 Cynigion i newid categori ysgol**

(1) Caiff corff llywodraethu ysgol gymunedol wneud cynigion i'r ysgol ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir.

(2) Caiff corff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir wneud cynigion i'r ysgol ddod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a reolir (ond gweler is-adran (5)).

(3) Caiff corff llywodraethu ysgol wirfoddol a reolir wneud cynigion i'r ysgol ddod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir (ond gweler is-adran (5)).

(4) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig wneud cynigion i'r ysgol ddod yn ysgol gymunedol, yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir (ond gweler is-adran (5)).

(5) Ni chaniateir gwneud cynigion i ysgol sefydledig sydd â chymeriad crefyddol neu ysgol wirfoddol sydd â chymeriad crefyddol ddod yn ysgol gymunedol.

**46 Cyfyngiadau ar newid categori ysgol**

(1) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caiff ysgol a gynhelir o fewn un o'r categorïau a nodir yn adran 20(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ddod yn ysgol o fewn un arall o'r categorïau hynny (ac eithrio ysgol sefydledig neu ysgol arbennig sefydledig).

(2) Ni chaiff ysgol newid categori i ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir oni fydd corff llywodraethu'r ysgol yn bodloni Gweinidogion Cymru y byddai'n gallu cyflawni ei rwymedigaethau o dan Atodlen 3 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (cyllido ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir) am gyfnod o bum mlynedd o leiaf ar ôl y dyddiad y cynigir bod y newid categori yn digwydd.

(3) Ni chaiff ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig ddod yn ysgol gymunedol onid ydys wedi ymrwymo i unrhyw gytundeb trosglwyddo ac unrhyw gytundeb i drosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau sy'n ofynnol o dan Ran 3 o Atodlen 4.

**47 Effaith newid categori**

(1) Nid yw newid yng nghategori ysgol yn unol â chynigion a wneir o dan adran 45 i'w drin fel petai'n awdurdodi unrhyw newid yng nghymeriad yr ysgol nac fel petai'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw newid o'r fath gael ei wneud (gan gynnwys, yn benodol, unrhyw newid yng nghymeriad crefyddol yr ysgol).

(2) Nid yw newid yng nghategori ysgol yn unol â chynigion a wneir o dan adran 45 i'w drin fel petai'n awdurdodi ysgol i sefydlu corff sefydledig, nac i ymuno neu ymadael â chorff o'r fath.

*Cyhoeddi, ymgynghori a gwrthwynebu*

**48 Cyhoeddi ac ymgynghori**

(1) Rhaid i gynigydd gyhoeddi cynigion a wneir o dan y Bennod hon yn unol â'r Cod.

(2) Cyn cyhoeddi cynigion a wneir o dan y Bennod hon, rhaid i gynigydd ymgynghori ynglŷn â'i gynigion yn unol â'r Cod.

(3) Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 56).

(4) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod eu cyhoeddi, rhaid i'r cynigydd anfon copïau o'r cynigion cyhoeddedig—

(a) at Weinidogion Cymru, a

(b) at yr awdurdod lleol (os nad hwnnw yw'r cynigydd) sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

(5) Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghori y mae wedi ei wneud yn unol â'r Cod.

**49 Gwrthwynebu**

(1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 48.

(2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at y cynigydd cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi ("y cyfnod gwrthwynebu").

(3) Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi crynodeb o'r holl wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag is-adran (2) (ac nas tynnwyd yn eu hôl) a'i ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny—

(a) yn achos awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo benderfynu ar ei gynigion ei hun o dan adran 53, cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod ei benderfyniad o dan adran 53(1), a

(b) ym mhob achos arall, cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben.

*Cymeradwyo cynigion a phenderfynu arnynt*

**50 Eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru**

(1) Mae'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir o dan adran 48 gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon—

(a) os yw'r cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth, neu

(b) os yw'r cynigion wedi eu gwneud gan gynigydd ac eithrio'r awdurdod lleol perthnasol ac os yw gwrthwynebiad wedi ei wneud gan yr awdurdod hwnnw yn unol ag adran 49(2) ac os nad yw wedi ei dynnu yn ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

(2) Mae cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth—

(a) os ydynt yn gynigion i sefydlu neu derfynu ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas at anghenion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol yn unig, neu

(b) os ydynt yn gynigion i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol, y byddai ei effaith yn golygu bod darparu addysg sy'n addas i anghenion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau.

(3) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, rhaid i'r cynigydd anfon copi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (4) at Weinidogion Cymru cyn diwedd 35 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

(4) Y dogfennau yw'r canlynol—

(a) yr adroddiad a gyhoeddir o dan adran 48(5),

(b) y cynigion cyhoeddedig,

(c) unrhyw wrthwynebiadau a wneir yn unol ag adran 49(2) (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl), a

(d) pan fo gwrthwynebiadau wedi eu gwneud felly (a heb gael eu tynnu'n ôl), yr ymateb a gyhoeddir o dan adran 49(3).

(5) Pan fo angen i gynigion gael cymeradwyaeth o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) gwrthod y cynigion,

(b) eu cymeradwyo heb eu haddasu, neu

(c) eu cymeradwyo gydag addasiadau—

(i) ar ôl cael cydsyniad y cynigydd â'r addasiadau, a

(ii) (ac eithrio os y cynigydd yw'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol, yn ôl y digwydd), ar ôl ymgynghori â chorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi a'r awdurdod lleol perthnasol.

(6) Caniateir i gymeradwyaeth ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru, ar gais y cynigydd, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y mae'r digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn is-adran (6) i ddigwydd.

(8) Nid yw is-adran (1) yn atal cynigion rhag cael eu tynnu'n ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y cynigydd i Weinidogion Cymru ar unrhyw bryd cyn iddynt gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon.

(9) Nid yw'n ofynnol i gynigion a wneir o dan adran 43 neu 44 i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 56) gael unrhyw gymeradwyaeth o dan yr adran hon.

(10) Yn yr adran hon ystyr "awdurdod lleol perthnasol" yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

### 51 Eu cymeradwyo gan awdurdod lleol

(1) Mae'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir o dan adran 48 gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon os—

(a) nad yw'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 50,

(b) ydynt wedi eu gwneud gan gynigydd ac eithrio'r awdurdod lleol perthnasol, ac

(c) yw gwrthwynebiad i'r cynigion wedi ei wneud yn unol ag adran 49(2) ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

(2) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, rhaid i'r cynigydd anfon copi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (3) at yr awdurdod lleol perthnasol cyn diwedd 35 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

(3) Y dogfennau yw'r canlynol—

(a) yr adroddiad a gyhoeddir o dan adran 48(5),

(b) y cynigion cyhoeddedig,

(c) gwrthwynebiadau a wneir yn unol ag adran 49(2) (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl), a

(d) yr ymateb a gyhoeddir o dan adran 49(3).

(4) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, caiff yr awdurdod lleol perthnasol—

(a) gwrthod y cynigion,

(b) eu cymeradwyo heb eu haddasu, neu

(c) eu cymeradwyo gydag unrhyw un o'r addasiadau a bennir yn is-adran (5)—

(i) ar ôl cael cydsyniad Gweinidogion Cymru a'r cynigydd â'r addasiadau, a

(ii) (ac eithrio os y cynigydd yw'r corff llywodraethu), ar ôl ymgynghori â chorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

(5) Caiff yr awdurdod lleol perthnasol addasu—

(a) y dyddiad neu'r dyddiadau a bennir yn y cynigion cyhoeddedig fel y dyddiad neu'r dyddiadau y bwriedir gweithredu'r cynigion;

(b) nifer y disgyblion a bennir yn y cynigion cyhoeddedig fel y nifer sydd i'w derbyn i'r ysgol (mewn unrhyw grŵp oedran ac mewn unrhyw flwyddyn ysgol).

(6) Caniateir i gymeradwyaeth ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.

(7) Caiff yr awdurdod lleol perthnasol, ar gais y cynigydd, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y mae'r digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn is-adran (6) i ddigwydd.

(8) Rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol wneud penderfyniad o dan is-adran (4) p'un ai i wrthod neu i gymeradwyo'r cynigion cyn diwedd y cyfnod o 16 o wythnosau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

(9) Nid yw is-adran (1) yn atal cynigion rhag cael eu tynnu'n ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y cynigydd i'r awdurdod lleol perthnasol ar unrhyw bryd cyn iddynt gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon.

(10) Nid yw'n ofynnol i gynigion a wneir o dan adran 43 neu 44 i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 56) gael unrhyw gymeradwyaeth o dan yr adran hon.

(11) Yn yr adran hon ystyr "awdurdod lleol perthnasol" yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

**52 Cynigion cysylltiedig**

(1) Rhaid i gynigydd anfon at Weinidogion Cymru gynigion ("cynigion B") y mae wedi eu gwneud—

(a) os yw o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 50 ("cynigion A"), a

(b) os nad yw'r cynigydd wedi penderfynu a fyddai'n gweithredu cynigion B o dan adran 53 cyn bod Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo neu'n gwrthod cynigion A.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod cynigion B yn gysylltiedig â chynigion A, mae cynigion B i'w trin fel petai'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 50.

(3) Rhaid i gynigydd anfon at awdurdod lleol gynigion ("cynigion D") y mae wedi eu gwneud—

(a) os yw o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol o dan adran 51 ("cynigion C"), a

(b) os nad yw'r cynigydd wedi penderfynu a ddylid gweithredu cynigion D o dan adran 53 cyn bod yr awdurdod lleol yn cymeradwyo neu'n gwrthod cynigion C.

(4) Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod cynigion D yn gysylltiedig â chynigion C, mae cynigion D i'w trin fel petai'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 51.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynigion eraill gael eu trin fel rhai y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 50—

(a) os ydynt o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo ganddynt hwy o dan adran 50, a

(b) os nad yw'r cynigydd wedi penderfynu a ddylid eu gweithredu o dan adran 53 cyn bod Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo neu'n gwrthod y cynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo.

(6) Caiff awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynigion eraill gael eu trin fel rhai y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 51—

(a) os yw o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo ganddo o dan adran 51, a

(b) os nad yw'r cynigydd wedi penderfynu a ddylid eu gweithredu o dan adran 53 cyn bod yr awdurdod lleol yn cymeradwyo neu'n gwrthod y cynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo.

(7) Nid yw'r adran hon yn gymwys i gynigion a gyfeirir i ymchwiliad lleol o dan adran 61 (ymchwiliad lleol i gynigion i resymoli lleoedd ysgol).

**53 Penderfynu**

(1) Pan nad yw'n ofynnol i unrhyw gynigion a gyhoeddir o dan adran 48 gael eu cymeradwyo o dan adran 50 neu 51, rhaid i'r cynigydd benderfynu a ddylid gweithredu'r cynigion.

(2) Os na fydd penderfyniad o dan is-adran (1) wedi ei wneud cyn diwedd 16 o wythnosau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, bernir bod y cynigydd wedi tynnu'r cynigion yn eu hôl.

(3) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod ei benderfyniad o dan is-adran (1), rhaid i'r cynigydd hysbysu'r canlynol am y penderfyniad—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) (ac eithrio os y cynigydd yw ef) yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(c) (ac eithrio os y cynigydd yw ef) corff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

**54 Eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw awdurdod lleol wedi—

(a) penderfynu cymeradwyo neu wrthod cynigion o dan adran 51(4), neu

(b) penderfynu o dan adran 53(1) i weithredu cynigion y gwnaed gwrthwynebiad iddynt yn unol ag adran 49 (ac nas tynnwyd yn ei ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu).

(2) Cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwrnod penderfynu'r awdurdod lleol o dan adran 51(4) neu 53(1), caiff y canlynol atgyfeirio'r cynigion i Weinidogion Cymru—

(a) awdurdod lleol arall y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno;

(b) awdurdod lleol yn Lloegr y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno;

(c) y corff crefyddol priodol ar gyfer—

(i) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi os yw'n ysgol sydd â chymeriad crefyddol, neu y bwriedir iddi fod yn ysgol o'r fath, neu

(ii) unrhyw ysgol arall sydd â chymeriad crefyddol ac y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arni;

(d) os yw'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol, corff llywodraethu'r ysgol;

(e) ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo at ddibenion yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(f) sefydliad o fewn y sector addysg bellach y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno.

(3) Cwestiwn i gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru yw a yw awdurdod, ysgol neu sefydliad yn debyg o gael ei effeithio gan y cynigion at ddiben is-adran (2).

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried cynigion a atgyfeiriwyd iddynt o dan yr adran hon o'r newydd ac mae is-adrannau (5) i (8) o adran 50 yn gymwys fel petai angen eu cymeradwyaeth o dan yr adran honno.

(5) Ni chaniateir i gynigion a wneir o dan adran 43 neu 44 i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 56) gael eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(6) Os yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried cynigion a atgyfeiriwyd o dan yr adran hon, nid yw'r cynigion hynny i'w trin at ddibenion adran 55 neu 61 fel rhai a gymeradwywyd o dan adran 51 neu fel cynigion y mae'r cynigydd wedi penderfynu eu gweithredu o dan adran 53.

(7) Os yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cynigion yn unol â'r adran hon, mae'r cynigion i'w trin at ddibenion adran 55 fel petaent wedi eu cymeradwyo o dan adran 50.

(8) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cynigion yn unol â'r adran hon, mae'r cynigion i'w trin at ddibenion paragraff 35(3)(e) o Atodlen 4 fel petaent wedi eu gwrthod o dan adran 50.

**55 Gweithredu**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i'r canlynol—

(a) cynigion sydd wedi eu cymeradwyo o dan adran 50 neu 51, neu

(b) cynigion y mae'r cynigydd wedi penderfynu o dan adran 53 y byddai'n eu gweithredu.

(2) Rhaid i'r cynigion (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon) gael eu gweithredu ar y ffurf y cawsant eu cymeradwyo neu eu penderfynu i gael eu gweithredu ynddi—

(a) yn achos cynigion a wneir o dan adran 41, 42, 43 neu 44 (sefydlu, newid neu derfynu ysgolion), yn unol ag Atodlen 3;

(b) yn achos cynigion a wneir o dan adran 45 (newid categori), yn unol ag Atodlen 4.

(3) Caiff y cynigydd (yn ddarostyngedig i is-adran (6)) benderfynu gohirio gweithredu am gyfnod o hyd at dair blynedd o'r dyddiad neu'r dyddiadau a bennwyd yn y cynigion (fel y cawsant eu cymeradwyo neu eu penderfynu) fel y dyddiad neu'r dyddiadau y maent i'w gweithredu arno neu arnynt, os yw wedi ei fodloni—

(a) y byddai gweithredu'r cynigion ar y dyddiad hwnnw neu'r dyddiadau hynny yn afresymol o anodd, neu

(b) bod yr amgylchiadau wedi newid i'r fath graddau ers i'r cynigion gael eu cymeradwyo o dan adran 50 neu 51 neu eu penderfynu o dan adran 53, y byddai gweithredu'r cynigion ar y dyddiad hwnnw neu'r dyddiadau hynny yn amhriodol.

(4) Yn achos cynigion i derfynu ysgol a wneir o dan adran 43 neu 44, caiff y cynigydd (yn ddarostyngedig i is-adran (6)) benderfynu dod â'r gweithredu ymlaen gan gyfnod o hyd at 13 o wythnosau o'r dyddiad neu'r dyddiadau a bennir yn y cynigion (fel y'u cymeradwyir neu eu penderfynir) fel y dyddiad neu'r dyddiadau pan gânt eu gweithredu.

(5) Caiff y cynigydd (yn ddarostyngedig i is-adran (6)) benderfynu na fydd is-adran (2) yn gymwys i gynigion os yw wedi ei fodloni—

(a) y byddai gweithredu'r cynigion yn afresymol o anodd, neu

(b) bod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynigion gael eu cymeradwyo o dan adran 50 neu 51 neu eu penderfynu o dan adran 53, y byddai'n amhriodol gweithredu'r cynigion.

(6) Yn achos cynigion sydd wedi eu cymeradwyo o dan adran 50 neu 51, dim ond gyda chytundeb Gweinidogion Cymru y caiff y cynigydd wneud penderfyniad o dan is-adran (3), (4) neu (5).

(7) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod y penderfyniad, rhaid i'r cynigydd hysbysu'r canlynol am unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud o dan is-adran (3), (4) neu (5)—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) (ac eithrio os y cynigydd yw ef) yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(c) (ac eithrio os y cynigydd yw ef) corff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

(8) Pan fo is-adran (2), yn rhinwedd is-adran (5), yn peidio â bod yn gymwys i unrhyw gynigion, mae'r cynigion hynny i'w trin fel petaent wedi eu gwrthod o dan adran 50(5)(a) neu 51(4)(a) neu fel petai'r cynigydd wedi penderfynu o dan adran 53 y byddai'n peidio â'u gweithredu.

**56 Dehongli Pennod 2**

(1) Yn y Bennod hon—

ystyr "y Cod" ("*the Code*") yw'r cod ar drefniadaeth ysgolion a ddyroddir o dan adran 38(1);

mae i "cyfnod gwrthwynebu" ("*objection period*") yr ystyr a roddir gan adran 49(2);

"cynigydd" *("proposer"),* mewn perthynas â chynigion a wneir o dan adran 41, 42, 43, 44 neu 45, yw'r awdurdod lleol, y corff llywodraethu neu'r person arall sydd wedi gwneud y cynigion;

ystyr "newid rheoleiddiedig" *("regulated alteration")* yw newid a ddisgrifir yn Atodlen 2;

ystyr "ysgol fach" *("small school")* yw ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y caiff y cynigion eu gwneud.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio drwy orchymyn y diffiniad o "ysgol fach" yn is-adran (1) yn y fath fodd ag i roi cyfeiriad at ddyddiad gwahanol yn lle'r cyfeiriad at y dyddiad a bennir am y tro.

## PENNOD 3

## RHESYMOLI LLEOEDD YSGOL

*Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i resymoli lleoedd ysgol*

**57 Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i gywiro darpariaeth ormodol neu annigonol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth ormodol neu fod, neu ei bod yn debygol y bydd, darpariaeth annigonol ar gyfer addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir—

(a) yn ardal awdurdod lleol, neu

(b) mewn rhan o'r ardal honno.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyfarwyddo'r awdurdod lleol i arfer ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, a

(b) cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol a gynhelir gan yr awdurdod i arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.

(3) Rhaid i gyfarwyddyd o dan is-adran (2)—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd,

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion, wrth iddynt roi effaith i'r cyfarwyddyd, gymhwyso unrhyw egwyddorion a bennir ynddo, ac

(c) pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod, neu ei bod yn debygol y bydd, darpariaeth annigonol, pennu'r nifer ychwanegol o ddisgyblion y mae lle i'w drefnu ar eu cyfer.

(4) Ni chaniateir i gyfarwyddyd o dan is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion ymwneud ag ysgol a enwir.

**58 Darpariaeth bellach am gynigion a wneir ar ôl cyfarwyddyd o dan adran 57(2)**

(1) Ni chaniateir i gynigion a wneir yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 57(2) gael eu tynnu'n ôl heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cydsyniad at ddibenion is-adran (1) yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol ad-dalu gwariant yr aed iddo'n rhesymol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo wrth wneud cynigion yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 57(2).

(4) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol gwrdd â'r gost o weithredu cynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 57(2) a rheini'n gynigion sydd wedi eu cymeradwyo neu y penderfynwyd eu gweithredu.

*Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd ysgol*

**59 Gwneud a chyhoeddi cynigion gan Weinidogion Cymru**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) Gweinidogion Cymru wedi gwneud cyfarwyddyd o dan adran 57(2), a

(b) naill ai—

(i) cynigion wedi eu cyhoeddi'n unol â'r cyfarwyddyd, neu

(ii) yr amser a ganiatawyd o dan y cyfarwyddyd ar gyfer cyhoeddi'r cynigion wedi dirwyn i ben.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw gynigion y gellid fod wedi eu gwneud yn unol â'r cyfarwyddyd.

(3) Rhaid i'r cynigion gael eu cyhoeddi'n unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r cynigion—

(a) at yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal, a

(b) at gorff llywodraethu pob ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hwy.

*Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chynigion o dan adran 59*

**60 Gwrthwynebiadau**

(1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 59.

(2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Weinidogion Cymru cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi.

**61 Ymchwiliad lleol i gynigion**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud cynigion o dan adran 59 (ac eithrio cynigion a wnaed yn rhinwedd adran 62(1)) nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl.

(2) Os yw gwrthwynebiadau wedi eu gwneud yn unol ag adran 60(2), yna, oni fydd pob gwrthwynebiad sydd wedi ei wneud felly wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig o fewn yr 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd atynt yn yr adran honno, rhaid i Weinidogion Cymru beri bod ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal.

(3) Diben yr ymchwiliad lleol yw ystyried cynigion Gweinidogion Cymru, unrhyw gynigion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu cyfeirio at yr ymchwiliad a'r gwrthwynebiadau a grybwyllwyd yn is-adran (2).

(4) Mae cynigion a gyfeirir at ymchwiliad lleol o dan yr adran hon i'w penderfynu o dan adran 62 ac nid yw adrannau 50, 51, 53, 54, 70 a 73 yn gymwys iddynt.

(5) Pan fo'n ofynnol i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio'r cynigion a restrir yn is-adran (6) i'r ymchwiliad os yw'r cynigion—

(a) heb gael eu penderfynu cyn i drafodion yr ymchwiliad ddechrau, a

(b) yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn rhai sy'n gysylltiedig â'r cynigion a wnaed o dan adran 59 ac y mae'r ymchwiliad i'w gynnal mewn cysylltiad â hwy.

(6) Y cynigion sydd i'w cyfeirio yw—

(a) unrhyw gynigion eraill a gyhoeddir o dan adran 59 mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);

(b) unrhyw gynigion a wneir gan yr awdurdod hwnnw wrth arfer eu pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);

(c) unrhyw gynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol yn yr ardal wrth arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol (a'r rheini'n gynigion sydd heb gael eu tynnu'n ôl);

(d) unrhyw gynigion a wneir o dan adran 68 neu 71 (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl).

(7) Os bydd Gweinidogion Cymru, cyn bod trafodion yr ymchwiliad yn dechrau, yn ffurfio barn y dylid gweithredu unrhyw gynigion, nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfeirio'r cynigion hynny i'r ymchwiliad oni fyddant yn ffurfio barn wahanol cyn bod—

(a) trafodion yr ymchwiliad wedi eu cwblhau, neu

(b) (os ydynt yn gynharach) y cynigion wedi eu penderfynu.

(8) Nid yw'n agored i'r ymchwiliad gwestiynu'r egwyddorion a bennir yn y cyfarwyddyd o dan adran 57(2).

(9) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at benderfynu cynigion yn cyfeirio at—

(a) penderfyniad p'un ai i fabwysiadu neu i gymeradwyo'r cynigion o dan adran 50, 51, 62, 70 neu 73;

(b) penderfyniad p'un ai i weithredu'r cynigion o dan adran 53 ai peidio;

(c) penderfyniad p'un ai i gymeradwyo cynigion a atgyfeiriwyd i Weinidogion Cymru o dan adran 54 ai peidio.

**62 Mabwysiadu cynigion**

(1) Pan fo ymchwiliad lleol wedi ei gynnal, caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried adroddiad y person a benodwyd i gynnal yr ymchwiliad, wneud un neu fwy o'r canlynol —

(a) mabwysiadu, gydag addasiadau neu hebddynt, neu benderfynu peidio â mabwysiadu unrhyw un o'r cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys cynigion a wnaed ganddynt, a gyfeiriwyd o dan adran 61(5)) ac a ystyriwyd gan yr ymchwiliad;

(b) cymeradwyo, gydag addasiadau neu hebddynt, neu wrthod unrhyw gynigion eraill a gyfeiriwyd at yr ymchwiliad o dan adran 61(5);

(c) gwneud cynigion pellach o dan adran 59.

(2) Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud cynigion pellach o dan adran 59 yn unol ag is-adran (1)(c), ni fydd y gofyniad yn adran 61(2) i beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal yn gymwys.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi cynigion o dan adran 59 nad yw'n ofynnol iddynt gael eu hystyried gan ymchwiliad lleol, cânt, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 60(2) (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl)—

(a) mabwysiadu'r cynigion gydag addasiadau neu hebddynt, neu

(b) penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynigion.

(4) Caniateir i fabwysiad neu gymeradwyaeth cynigion ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y mabwysiad neu'r gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.

**63 Gweithredu cynigion**

(1) Mae cynigion sydd wedi eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 62 yn cael effaith fel petaent wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 ar ôl iddynt gael eu gwneud—

(a) gan yr awdurdod lleol o dan ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, neu

(b) yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig neu wirfoddol, gan y corff llywodraethu o dan ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.

(2) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol dan sylw gwrdd â'r gost o weithredu cynigion sy'n cael eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo o dan adran 62 ac sy'n cael effaith fel a grybwyllwyd yn is-adran (1)(b).

**PENNOD 4**

DARPARIAETH RANBARTHOL AR GYFER ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

**64 Ystyr "darpariaeth ranbarthol" a "swyddogaethau addysg arbennig"**

Yn y Bennod hon—

ystyr "darpariaeth ranbarthol" *("regional provision")* yw—

(a) darpariaeth addysg i blant sy'n perthyn i ardaloedd gwahanol awdurdodau lleol, mewn ysgol a gynhelir gan un o'r awdurdodau hynny, neu

(b) darpariaeth a wneir gan ddau awdurdod lleol neu fwy i nwyddau neu wasanaethau gael eu cyflenwi gan un o'r awdurdodau—

(i) i'r llall neu'r lleill, neu

(ii) i un neu fwy o gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod arall neu'r awdurdodau eraill;

ystyr "swyddogaethau addysg arbennig" ("*special education functions*") yw swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 (anghenion addysgol arbennig).

**65 Cyfarwyddyd i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i ystyried a fyddent hwy (neu unrhyw rai ohonynt) yn gallu cyflawni eu swyddogaethau addysg arbennig, mewn cysylltiad â phlant sydd â'r anghenion addysgol arbennig a bennir yn y cyfarwyddyd, yn fwy effeithlon neu effeithiol pe câi darpariaeth ranbarthol ei gwneud.

(2) Rhaid i'r awdurdodau y rhoddir cyfarwyddyd iddynt gyflwyno adroddiad ar eu casgliadau i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na'r amser a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Caniateir i gyfarwyddyd o dan yr adran hon gael ei roi i awdurdodau lleol yn gyffredinol neu i un neu fwy o awdurdodau a bennir yn y cyfarwyddyd.

**66 Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i sicrhau darpariaeth ranbarthol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai dau neu fwy o awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu swyddogaethau addysg arbennig, mewn cysylltiad â phlant sy'n syrthio o fewn disgrifiad penodol, yn fwy effeithiol neu effeithlon os câi darpariaeth ranbarthol ei gwneud mewn perthynas ag ardaloedd yr awdurdodau hynny.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi un neu fwy o'r cyfarwyddiadau a bennir yn is-adran (3) er mwyn sicrhau bod darpariaeth ranbarthol yn cael ei gwneud mewn perthynas â'r disgrifiad o blant o'r ardaloedd a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Y cyfarwyddiadau yw—

(a) bod awdurdod lleol yn arfer ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion;

(b) bod corff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol yn arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol;

(c) bod dau neu fwy o awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau—

(i) y bydd darpariaeth ar gyfer addysg yn cael ei gwneud odanynt gan un o'r awdurdodau mewn cysylltiad â phersonau o ardal (neu ardaloedd) yr awdurdod arall (neu'r awdurdodau eraill), a

(ii) y bydd darpariaeth yn cael ei gwneud odanynt i benderfynu'r taliadau sydd i'w gwneud o dan y trefniadau mewn cysylltiad â darparu'r addysg honno;

(d) bod dau neu fwy o awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau sy'n darparu bod un o'r awdurdodau hynny'n cyflenwi i'r llall (neu'r lleill) nwyddau neu wasanaethau sydd i'w pennu yn y trefniadau ar delerau (gan gynnwys telerau o ran talu) a fyddai'n cael eu pennu felly;

(e) bod awdurdod lleol a chyrff llywodraethu un neu fwy o ysgolion sefydledig neu wirfoddol yn gwneud trefniadau sy'n darparu bod yr awdurdod yn cyflenwi i'r cyrff llywodraethu nwyddau neu wasanaethau sydd i'w pennu yn y trefniadau, ar delerau (gan gynnwys telerau o ran talu) a fyddai'n cael eu pennu felly.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (3)(c) a chyfarwyddyd o dan is-adran (3)(a) neu (3)(b), caniateir i'r taliadau y mae is-adran (3)(c) yn cyfeirio atynt gynnwys swm mewn cysylltiad â'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu, newid neu derfynu'r ysgol o dan sylw.

(5) Rhaid i gyfarwyddyd o dan is-adran (3)(a) neu (3)(b)—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion o dan sylw i gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd, a

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r corff sy'n gwneud y cynigion anfon copi o'r cynigion cyhoeddedig, ynghyd â gwybodaeth arall (o fath a bennir yn y cyfarwyddyd) mewn cysylltiad â'r cynigion hynny i Weinidogion Cymru.

**67 Darpariaeth bellach am gynigion a wneir ar ôl cyfarwyddyd o dan adran 66**

(1) Ni chaniateir i gynigion a wneir yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 66 gael eu tynnu'n ôl heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cydsyniad at ddibenion is-adran (1) yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol ad-dalu gwariant yr aed iddo'n rhesymol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo wrth wneud cynigion yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 66.

(4) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol gwrdd â'r gost o weithredu cynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 66 a'r rheini'n gynigion sydd wedi eu cymeradwyo neu y penderfynwyd eu gweithredu.

**68 Cynigion gan Weinidogion Cymru**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd o dan adran 66, a

(b) naill ai—

(i) cynigion wedi eu cyhoeddi'n unol â'r cyfarwyddyd, neu

(ii) yr amser a ganiatawyd o dan y cyfarwyddyd ar gyfer cyhoeddi'r cynigion wedi dirwyn i ben.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw gynigion y gellid fod wedi eu gwneud yn unol â'r cyfarwyddyd.

(3) Cyn cyhoeddi cynigion o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ynglŷn â'r cynigion yn unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.

(4) Rhaid i'r cynigion gael eu cyhoeddi'n unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r cynigion—

(a) at yr awdurdodau lleol y mae'r cynigion yn effeithio ar eu hardaloedd, a

(b) at gorff llywodraethu pob ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hwy.

**69 Gwrthwynebiadau**

(1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 68.

(2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Weinidogion Cymru cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi.

**70 Mabwysiadu cynigion**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 69 (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl)—

(a) mabwysiadu'r cynigion gydag addasiadau neu hebddynt, neu

(b) penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynigion.

(2) Caniateir i fabwysiad cynigion ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y mabwysiad yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.

(3) Mae cynigion sydd wedi eu mabwysiadu gan Weinidogion Cymru yn cael effaith fel petaent wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 ar ôl cael eu gwneud—

(a) gan yr awdurdod lleol o dan ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, neu

(b) yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig neu wirfoddol, gan y corff llywodraethu o dan ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.

(4) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol dan sylw gwrdd â'r gost o weithredu cynigion sy'n cael eu mabwysiadu o dan is-adran (1) ac sy'n cael effaith fel a grybwyllwyd yn is-adran (3)(b).

## PENNOD 5

CYNIGION I AILSTRWYTHURO ADDYSG CHWECHED DOSBARTH

*Gwneud cynigion a'u penderfynu*

### 71 Pwerau Gweinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud cynigion o dan yr adran hon—

(a) i un neu fwy o ysgolion cymunedol neu arbennig cymunedol newydd gael eu sefydlu gan awdurdod lleol i ddarparu addysg uwchradd sy'n addas at anghenion disgyblion chweched dosbarth (ac nid unrhyw addysg uwchradd arall);

(b) ar gyfer newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 i un neu fwy o ysgolion a gynhelir;

(c) i derfynu un neu fwy o ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg uwchradd sy'n addas at anghenion disgyblion chweched dosbarth (ac nid unrhyw addysg uwchradd arall).

(2) Mae "disgybl chweched dosbarth" yn berson sydd dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 19 oed.

### 72 Ymgynghori, cyhoeddi a gwrthwynebiadau

(1) Cyn cyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 71, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ynglŷn â'r cynigion yn unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 71 yn unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.

(3) Caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.

(4) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Weinidogion Cymru cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion.

### 73 Penderfyniad gan Weinidogion Cymru

(1) Ar ôl diwedd yr 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd atynt yn adran 72(4), rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid—

(a) mabwysiadu'r cynigion, gydag addasiadau neu hebddynt, neu

(b) tynnu'r cynigion yn eu hôl.

(2) Wrth wneud penderfyniad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 72(4) ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl.

(3) Cyn mabwysiadu cynigion yn ddarostyngedig i addasiadau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn credu eu bod yn briodol.

(4) Caniateir i fabwysiad cynigion ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y mabwysiad yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.

(5) Os na fydd y digwyddiad yn digwydd erbyn y dyddiad penodedig rhaid i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad o dan is-adran (1).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu eu cynigion yn ôl ar unrhyw bryd cyn iddynt wneud penderfyniad o dan is-adran (1).

*Gweithredu cynigion ar gyfer ailstrwythuro addysg chweched dosbarth*

**74 Y ffurf weithredu**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gynigion sydd wedi eu mabwysiadu gan Weinidogion Cymru o dan adran 73.

(2) Rhaid i'r cynigion (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon) gael eu gweithredu ar y ffurf y cawsant eu mabwysiadu.

(3) Ar gais corff penodedig, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) addasu cynigion sydd wedi eu mabwysiadu o dan adran 73 ar ôl ymgynghori â'r cyrff penodedig, a

(b) pan fo wedi ei datgan bod mabwysiad y cynigion yn dod yn weithredol yn ddarostyngedig i ddigwyddiad penodedig, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y bydd yn rhaid i'r digwyddiad hwnnw ddigwydd.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu nad yw is-adran (2) yn gymwys i'r cynigion os ydynt wedi eu bodloni, ar ôl ymgynghori â'r cyrff penodedig—

(a) y byddai gweithredu'r cynigion yn afresymol o anodd, neu

(b) bod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynigion gael eu mabwysiadu y byddai'n amhriodol gweithredu'r cynigion.

(5) "Corff penodedig" yw pob un o'r canlynol at ddibenion is-adrannau (3) a (4)—

(a) corff llywodraethu'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(b) yn achos cynnig i sefydlu ysgol newydd, y corff llywodraethu dros dro a gyfansoddwyd yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 34 o Ddeddf Addysg 2002;

(c) yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(d) pan fo'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi yn ysgol arbennig gymunedol, pob awdurdod lleol sy'n cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 mewn cysylltiad â disgybl cofrestredig yn yr ysgol.

**75 Y cyfrifoldeb dros weithredu**

(1) Rhaid i gynigion i sefydlu ysgol gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol y cynigir y bydd yn cynnal yr ysgol.

(2) Rhaid i gynigion i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 gael eu gweithredu—

(a) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol gymunedol, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol;

(b) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir—

(i) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu unrhyw fangre berthnasol, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, a

(ii) fel arall, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu'r ysgol i'r graddau (os o gwbl) y mae'r cynigion yn darparu bod pob un ohonynt yn gwneud hynny;

(c) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag unrhyw ysgol arall, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu'r ysgol i'r graddau (os o gwbl) y mae'r cynigion yn darparu bod pob un ohonynt yn gwneud hynny.

(3) Yn is-adran (2) ystyr "mangre berthnasol" yw—

(a) caeau chwarae, neu

(b) adeiladau sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol ond nad ydynt i fod yn adeiladau'r ysgol.

(4) Rhaid i gynigion i derfynu ysgol gael eu gweithredu—

(a) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol gymunedol neu ysgol arbennig gymunedol, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, a

(b) mewn unrhyw achos arall, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu'r ysgol.

(5) Os bydd ysgol yn newid categori o fod yn ysgol gymunedol ar ôl i gynigion gael eu cyhoeddi o dan adran 72 ond cyn iddynt gael eu gweithredu, rhaid i'r cynigion (i'r graddau nad ydynt wedi eu gweithredu) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (er gwaethaf is-adrannau (2) a (4)).

**76 Darpariaeth bellach o ran gweithredu**

(1) Pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol yn rhinwedd adran 75 ddarparu safle ar gyfer ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir, mae paragraff 7 o Atodlen 3 (darparu safle ac adeiladau i ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir) yn gymwys fel y bo'n gymwys yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-baragraff (1) o'r paragraff hwnnw.

(2) Mae paragraff 8 o Atodlen 3 (grantiau mewn cysylltiad â gwariant penodol ynghylch ysgol wirfoddol a gynorthwyir) yn gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaeth o dan adran 75(2)(b)(ii) fel y bo'n gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 8(1)(a) o'r Atodlen honno.

(3) Mae paragraff 9 o Atodlen 3 (cymorth gan awdurdod lleol mewn cysylltiad ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir) yn gymwys mewn perthynas â rhwymedigaethau a osodir ar gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir o dan adran 75(2)(b)(ii) fel y bo'n gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt yn y paragraff 9 hwnnw, ac mae paragraff 11 o'r Atodlen honno (dyletswydd ar awdurdod lleol i drosglwyddo buddiant mewn mangre a ddarperir o dan baragraff 9 neu 10) yn gymwys yn unol â hynny.

*Darpariaethau atodol*

**77 Diwygiadau canlyniadol i adroddiadau arolygu ar addysg chweched dosbarth**

Ar ôl adran 44 o Ddeddf Addysg 2005 mewnosoder—

*"Sixth forms requiring significant improvement in Wales*

**44A Schools with sixth forms**

(1) Sections 44B to 44D apply to a maintained school in Wales which—

(a) provides full-time education suitable to the requirements of pupils over compulsory school age, and

(b) provides full-time education suitable to the requirements of pupils of compulsory school age.

(2) For the purposes of those sections a school requires significant improvement in relation to its sixth form if—

(a) the school is failing to give its pupils over compulsory school age an acceptable standard of education, or

(b) in relation to its provision for pupils over compulsory school age, the school is performing significantly less well than it might in all the circumstances reasonably be expected to perform.

**44B Inspection reports on schools with sixth forms requiring significant improvement**

(1) Where a person inspecting a school under Chapter 3 is of the opinion that the school requires significant improvement in relation to its sixth form, the provisions specified in subsection (2) apply (with the necessary modifications) as they apply where the person is of the opinion that special measures are required to be taken in relation to the school.

(2) Those provisions are section 34(1) to (6) (registered inspectors) or, as the case requires, section 35(1) of that Act (members of the Inspectorate).

**44C Report after area inspection on schools with sixth forms requiring significant improvement**

(1) This section applies if in the course of an area inspection under section 83 of the Learning and Skills Act 2000 the Chief Inspector forms the opinion that a school requires significant improvement in relation to its sixth form.

(2) The Chief Inspector must make a report about the school stating that opinion.

(3) The report is to be treated for the purposes of this Part as if it were a report of an inspection of the school under section 28.

**44D Copies of report and action plan**

(1) This section applies to a report of an inspection under Chapter 3 which—

(a) states an opinion that a school requires significant improvement in relation to its sixth form, and

(b) is made by a member of the Inspectorate or states that the Chief Inspector agrees with the opinion.

(2) The person making the report must send a copy (together with a copy of the summary, if there is one)—

(a) to the Welsh Ministers, and

(b) if the person making the report is a member of the Inspectorate, to the appropriate authority for the school.

(3) The following provisions apply (with the necessary modifications) in relation to a report to which this paragraph applies—

(a) section 38(2) (additional copies),

(b) section 38(4) (publication by appropriate authority),

(c) section 39 (action plan by appropriate authority), and

(d) where the local authority receives a copy of a report about a school the governing body of which have a delegated budget, section 40(2) and (3) (measures by local authority).

(4) In the application of those provisions—

(a) a reference to a report and summary is to be taken as a reference to a report and, if there is one, its summary, and

(b) a reference to a summary alone is to be taken, in a case where there is no summary, as a reference to the report.

**44E Report on sixth form schools causing concern after area inspection**

(1) This section applies if in the course of an area inspection under section 83 of the Learning and Skills Act 2000 the Chief Inspector forms the opinion that—

(a) special measures are required to be taken in relation to a sixth form school, or

(b) that a sixth form school requires significant improvement.

(2) The Chief Inspector must make a report about the school stating that opinion.

(3) The report is to be treated for the purpose of this Part as if it were a report of an inspection of the school under section 28.

(4) A "sixth form school" is a maintained school which—

(a) provides full-time education suitable to the requirements of pupils over compulsory school age, and

(b) does not provide full-time education suitable to the requirements of pupils of compulsory school age.

**44F Interpretation of sections 44A to 44E**

In sections 44A to 44E—

"the appropriate authority", in relation to a maintained school, means the school's governing body or, if the school does not have a delegated budget, the local authority;

"the Chief Inspector" means Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales;

"maintained school" means a community, foundation or voluntary school or a community special school;

"member of the Inspectorate" means the Chief Inspector, any of Her Majesty's Inspectors of Education and Training in Wales and any additional inspector appointed under paragraph 2 of Schedule 2."

**PENNOD 6**

DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL

**78 Ysgolion ffederal**

Caiff cynigion a wneir o dan y Rhan hon i sefydlu ysgol newydd fod yn gysylltiedig â sefydlu'r ysgol fel ysgol ffederal (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 21(1) o the Fesur Addysg (Cymru) 2011).

**79 Gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu ysgolion yn Lloegr**

Ni chaniateir i unrhyw gynigion gael eu gwneud ar gyfer sefydlu ysgol yn Lloegr y cynigir ei bod yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol yng Nghymru.

**80 Hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol**

(1) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol derfynu'r ysgol drwy gyflwyno i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol hysbysiad sy'n rhoi dwy flynedd o rybudd o'i fwriad i wneud hynny.

(2) Mae'n ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon os aed i wariant ar fangre'r ysgol (ac eithrio mewn cysylltiad ag atgyweiriadau)—

(a) gan Weinidogion Cymru, neu

(b) gan unrhyw awdurdod lleol.

(3) Rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon os byddai terfynu'r ysgol yn effeithio ar y cyfleusterau ar gyfer addysg lawnamser sy'n addas at anghenion personau dros oedran ysgol gorfodol nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed.

(4) Os yw'r corff llywodraethu, tra bo hysbysiad o dan yr adran hon mewn grym, yn hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn anabl neu'n anfodlon rhedeg yr ysgol hyd nes y bydd yr hysbysiad yn dirwyn i ben, mae'r awdurdod—

(a) yn cael rhedeg yr ysgol am y cyfan neu ran o gyfnod yr hysbysiad nad yw wedi dirwyn i ben fel petai'n ysgol gymunedol, a

(b) yn meddu ar hawl i ddefnyddio mangre'r ysgol yn ddi-dâl at y diben hwnnw.

(5) Tra bo'r ysgol yn cael ei rhedeg felly—

(a) rhaid i'r awdurdod gadw mangre'r ysgol mewn cyflwr da, a

(b) mae unrhyw fuddiant yn y fangre a ddelir at ddibenion yr ysgol i'w drin, at bob diben sy'n ymwneud â chyflwr y fangre, ei meddiannu neu ei defnyddio, neu wneud newidiadau iddi, fel buddiant sydd wedi ei freinio yn yr awdurdod.

(6) Er gwaethaf is-adran (5) caiff y corff llywodraethu ddefnyddio'r fangre, neu unrhyw ran ohoni, pan nad oes ei hangen at ddibenion yr ysgol i'r un graddau â phetai wedi parhau i redeg yr ysgol yn ystod cyfnod yr hysbysiad nad oedd wedi dirwyn i ben.

(7) Ni chaniateir i hysbysiad o dan is-adran (1) gael ei dynnu'n ôl heb gydsyniad yr awdurdod lleol.

(8) Os yw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wedi ei therfynu o dan yr adran hon, mae dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal yr ysgol fel ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn peidio.

(9) Nid oes dim yn adran 43 yn gymwys mewn perthynas â therfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol o dan yr adran hon.

(10) Mae is-adran (11) yn gymwys—

(a) pan fo tir sydd wedi ei feddiannu gan yr ysgol yn cael ei ddal gan unrhyw ymddiriedolwyr at ddibenion yr ysgol,

(b) pan fo'r ymddiriedolwyr (a hwythau â'r hawl i wneud hynny) yn bwriadu rhoi hysbysiad i gorff llywodraethu'r ysgol i derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hwnnw, ac

(c) pan fyddai terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hwnnw yn arwain at y canlyniad nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r ysgol barhau i gael ei rhedeg ar ei safle presennol.

(11) Rhaid i'r hysbysiad y mae'r ymddiriedolwyr yn ei roi i'r corff llywodraethu i derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir gael ei roi o leiaf ddwy flynedd ymlaen llaw; ond os, yn ystod y ddeuddeng mis cyntaf o gyfnod yr hysbysiad hwnnw, yw'r corff llywodraethu yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (1), nid yw hysbysiad yr ymddiriedolwyr yn cael yr effaith o derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hyd nes i hysbysiad y corff llywodraethu ddod i ben.

(12) Rhaid i gopi o hysbysiad yr ymddiriedolwyr hefyd gael ei roi i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol adeg rhoi'r hysbysiad i'r corff llywodraethu.

(13) Pan fo ymddiriedolwyr yn rhoi, yr un (neu i raddau helaeth yr un) pryd, hysbysiadau sy'n honni terfynu meddiannaeth ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol ar ddau neu fwy o ddarnau o dir sy'n cael eu dal gan yr ymddiriedolwyr at ddibenion yr ysgol, yna er mwyn penderfynu a yw is-adran (10)(c) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r darnau hynny o dir, caniateir i ystyriaeth gael ei rhoi i effaith gyfun terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y ddau neu'r cyfan ohonynt.

(14) Os bydd cwestiwn yn codi ynghylch a fyddai terfynu meddiannaeth ysgol ar unrhyw dir yn arwain at y canlyniad a grybwyllwyd yn is-adran (10)(c) (gan gynnwys cwestiwn ynghylch a yw is-adran (13) yn gymwys mewn unrhyw amgylchiadau penodol), mae i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

**81 Cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ysgol arbennig gymunedol yn cael ei therfynu**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i derfynu ysgol arbennig gymunedol a gynhelir ganddo ar ddiwrnod penodedig, os ydynt yn credu ei bod yn hwylus gwneud hynny er iechyd, diogelwch neu les disgyblion yn yr ysgol.

(2) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol hysbysu personau penodedig neu ddosbarth penodedig ar bersonau.

(3) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) yr awdurdod lleol,

(b) unrhyw awdurdod lleol arall y byddai terfynu'r ysgol yn effeithio arno yn eu barn hwy, ac

(c) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(4) Wrth roi cyfarwyddyd o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig am y cyfarwyddyd i gorff llywodraethu'r ysgol a'i phennaeth.

(5) Rhaid i awdurdod lleol y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan is-adran (1) derfynu'r ysgol o dan sylw ar y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(6) Nid oes dim yn adran 44 sy'n gymwys i derfynu ysgol o dan yr adran hon.

**82 Gorchmynion esemptio trosiannol at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gynigion bod ysgol yn peidio â bod yn ysgol un rhyw.

(2) Mae gwneud cynigion o'r fath o dan adran 59, 68 neu 71 i'w drin fel cais gan y corff sy'n gyfrifol i Weinidogion Cymru am orchymyn esemptio trosiannol o dan Ddeddf 2010, a chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o'r fath yn unol â hynny.

(3) Yn yr adran hon—

mae i "y corff sy'n gyfrifol" yr un ystyr â ("*the responsible body*") yn adran 85 o Ddeddf 2010;

ystyr "Deddf 2010" ("*the 2010 Act*") yw Deddf Cydraddoldeb 2010;

mae i "gorchymyn esemptio trosiannol" yr un ystyr â ("*transitional exemption order*") ym mharagraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf 2010;

mae "gwneud"("*make*"), mewn perthynas â gorchymyn esemptio trosiannol, yn cynnwys amrywio neu ddirymu;

mae i "ysgol un rhyw" yr un ystyr â ("*single-sex school*") ym mharagraff 1 o Atodlen 11 i Ddeddf 2010.

**83 Dehongli Rhan 3**

(1) Yn y Rhan hon—

ystyr "pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion" ("*powers to make proposals to establish, alter or discontinue schools*") yw'r cyfan neu unrhyw rai o bwerau awdurdod lleol i wneud cynigion o dan adran 41, 42, 43 neu 44;

ystyr "pwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol" ("*powers to make proposals to alter its school*"), mewn perthynas â chorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol, yw ei bwerau i wneud cynigion o dan adran 42(2).

(2) Mae cyfeiriad yn y Rhan hon at gategori ysgol yn golygu un o'r categorïau a nodir yn adran 20(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (ac mae cyfeiriadau at newid categori i'w darllen yn unol â hynny).

(3) Mae cyfeiriad yn y Rhan hon at derfynu ysgol a gynhelir yn gyfeiriad at yr awdurdod lleol yn peidio â'i chynnal.

## RHAN 4

## CYNLLUNIAU STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

### 84 Llunio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

(1) Cynllun yw cynllun strategol Cymraeg mewn addysg sy'n cynnwys—

(a) cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn—

(i) gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei darparu yn ei ardal;

(ii) gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(b) targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(c) adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ar gyfer ei ardal.

(3) Rhaid i awdurdod lleol gadw golwg ar ei gynllun, ac os yw'n angenrheidiol, ei ddiwygio.

(4) Wrth lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg neu gynllun diwygiedig, rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—

(a) ei awdurdodau lleol cyfagos;

(b) pennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo;

(c) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo;

(d) pob sefydliad o fewn y sector addysg bellach yn ei ardal;

(e) mewn perthynas ag unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn ei ardal—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol;

(f) personau rhagnodedig eraill.

(5) Os yw awdurdod lleol yn cynnal asesiad o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â rheoliadau o dan adran 86, rhaid iddo ystyried canlyniadau'r asesiad hwnnw y tro nesaf y bydd yn llunio neu'n diwygio ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg.

**85 Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg**

(1) Rhaid i awdurdod lleol sydd wedi llunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cymeradwyo'r cynllun fel y'i cyflwynwyd,

(b) cymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau, neu

(c) gwrthod y cynllun a llunio cynllun arall sydd i'w drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod.

(3) Os yw awdurdod lleol yn dymuno diwygio ei gynllun, rhaid iddo gyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun diwygiedig, gydag addasiadau neu hebddynt.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdod lleol cyn—

(a) addasu cynllun yr awdurdod o dan is-adran (2)(b),

(b) llunio cynllun arall i gymryd lle cynllun yr awdurdod o dan is-adran (2)(c), neu

(c) addasu cynllun diwygiedig yr awdurdod o dan is-adran (4).

(6) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg (neu ei gynllun diwygiedig) a gymeradwywyd.

(7) Rhaid i awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg (neu ei gynllun diwygiedig) a gymeradwywyd.

**86 Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau, wneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni yn ei ardal am addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth (ymhlith pethau eraill) ynghylch pryd a sut i wneud asesiad.

**87 Rheoliadau a chanllawiau**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach am y materion canlynol (ymhlith pethau eraill)—

(a) ffurf a chynnwys cynllun;

(b) amseriad a hyd cynllun;

(c) cadw golwg ar gynllun a'i ddiwygio;

(d) ymgynghori yn ystod y broses o lunio cynllun a'i ddiwygio;

(e) cyflwyno cynllun i gael ei gymeradwyo;

(f) pryd a sut i gyhoeddi cynllun.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i alluogi dau neu fwy o awdurdodau lleol i lunio cydgynllun, a chaiff unrhyw reoliadau o'r fath addasu unrhyw ddarpariaeth yn y Rhan hon o ran y modd y mae'n gymwys i gydgynlluniau.

(4) Rhaid i awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

## RHAN 5

## SWYDDOGAETHAU AMRYWIOL YSGOLION

*Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd*

### 88 Dyletswydd i ddarparu brecwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd

(1) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu brecwast ar bob diwrnod ysgol i ddisgyblion mewn ysgol gynradd a gynhelir gan yr awdurdod—

(a) os yw corff llywodraethu'r ysgol wedi ysgrifennu at yr awdurdod i ofyn bod brecwast yn cael ei ddarparu, a

(b) os yw 90 o ddiwrnodau wedi mynd heibio, gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cafwyd y cais.

(2) Nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (1) yn gymwys (neu y mae'n peidio â bod yn gymwys) mewn perthynas â chais gan gorff llywodraethu os yw'r naill neu'r llall o'r paragraffau canlynol yn gymwys—

(a) bod y corff llywodraethu wedi ysgrifennu at yr awdurdod i ofyn iddo roi'r gorau i ddarparu brecwast;

(b) y byddai'n afresymol darparu'r brecwast ac o ganlyniad bod yr awdurdod lleol wedi hysbysu'r corff llywodraethu'n ysgrifenedig—

(i) nad yw'n mynd i ddarparu brecwast, neu

(ii) ei fod yn mynd i roi'r gorau i ddarparu brecwast.

(3) Os yw'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu brecwast i bob disgybl sy'n gofyn i'r awdurdod amdano; at y diben hwn, caniateir i'r cais gael ei wneud gan neu ar ran y disgybl.

(4) O ran brecwast a ddarperir gan awdurdod lleol o dan yr adran hon—

(a) caiff fod ar unrhyw ffurf y gwêl yr awdurdod yn dda, yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 4 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (gofynion ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol);

(b) rhaid ei ddarparu am ddim;

(c) rhaid iddo fod ar gael ar fangre'r ysgol;

(d) rhaid iddo fod ar gael cyn dechrau pob diwrnod ysgol, ac eithrio yn achos ysgol arbennig gymunedol lle y caniateir i frecwast fod ar gael cyn neu ar ddechrau pob diwrnod ysgol.

(5) Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir gan awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru am ddarparu brecwast i ddisgyblion.

**89 Darpariaeth drosiannol**

(1) Pan fo awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol gynradd, neu ei gorff llywodraethu, eisoes yn darparu brecwast i ddisgyblion yr ysgol ar yr adeg y daw adran 88 i rym, mae'r adran honno'n gymwys mewn perthynas â'r ysgol fel petai—

(a) cais wedi ei wneud o dan yr adran honno i frecwast gael ei ddarparu gan y corff llywodraethu,

(b) 90 o ddiwrnodau wedi mynd heibio, gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cafwyd y cais, ac

(c) pob disgybl y mae brecwast eisoes yn cael ei ddarparu ar ei gyfer wedi gwneud cais i'r awdurdod.

(2) Mae is-adran (3) yn gymwys pan fo cais ysgrifenedig am ddarparu brecwast i ddisgyblion wedi ei wneud, cyn i adran 88 ddod i rym, gan gorff llywodraethu'r ysgol gynradd i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, ond nad yw'r awdurdod lleol na'r corff llywodraethu wedi bod yn darparu brecwast i ddisgyblion yr ysgol.

(3) Mae cais a wneir cyn i adran 88 ddod i rym yn cael effaith fel cais o dan yr adran honno a wnaed ar y diwrnod y daeth yr adran i rym.

**90 Dehongli adrannau 88 a 89**

Yn adrannau 88 a 89—

mae "darparu" ("*provide*") yn cynnwys trefnu darpariaeth;

ystyr "disgybl" *("pupil")* yw plentyn sy'n cael addysg gynradd yn yr ysgol (p'un a yw'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig ai peidio);

ystyr "ysgol gynradd" *("primary school")* yw ysgol sy'n darparu addysg gynradd (p'un a yw hefyd yn darparu mathau eraill o addysg ai peidio).

*Pŵer i godi tâl am brydau bwyd*

**91 Diwygio'r pŵer i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc**

(1) Mae Rhan 9 o Ddeddf Addysg 1996 (swyddogaethau atodol) wedi ei diwygio fel a nodir yn is-adrannau (2) a (3).

(2) Yn adran 512ZA (pŵer i godi tâl am brydau bwyd etc)—

(a) yn is-adran (1A), hepgorer "in England";

(b) hepgorer is-adran (2).

(3) Yn adran 533 (swyddogaethau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir mewn cysylltiad â darparu prydau bwyd ysgol etc)—

(a) yn is-adran (3A), hepgorer "in England";

(b) hepgorer is-adran (4).

*Cwnsela mewn ysgolion*

**92 Gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol a phlant eraill**

(1) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaeth sy'n cwnsela mewn cysylltiad ag anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol ("gwasanaeth cwnsela annibynnol") i'r canlynol—

(a) disgyblion cofrestredig sy'n cael addysg uwchradd—

(i) mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod, a

(ii) mewn ysgolion eraill yn ei ardal;

(b) personau eraill sy'n perthyn i ardal yr awdurdod ac sydd wedi cyrraedd 11 oed ond nid 19 oed;

(c) disgyblion cofrestredig sy'n ymgymryd â blwyddyn academaidd olaf eu haddysg gynradd—

(i) mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod, a

(ii) mewn ysgolion eraill yn ei ardal;

(d) y personau eraill sy'n cael addysg gynradd a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

(2) Wrth sicrhau bod gwasanaeth cwnsela annibynnol yn cael ei ddarparu o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw—

(a) i'r egwyddor bod y gwasanaeth i fod yn annibynnol ar—

(i) corff llywodraethu neu berchennog arall ysgol lle y mae person y darperir y gwasanaeth iddo yn cael addysg, a

(ii) rheolwyr ysgol lle y mae person y darperir y gwasanaeth iddo yn cael addysg;

(b) i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaeth cwnsela annibynnol yn cael ei ddarparu ar safle pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod sy'n darparu addysg uwchradd (p'un a yw'n darparu mathau eraill o addysg hefyd ai peidio).

(4) Caiff awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaeth cwnsela annibynnol yn cael ei ddarparu mewn mannau eraill.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i wasanaeth cwnsela annibynnol gael ei ddarparu mewn mannau eraill.

**93 Gwybodaeth am wasanaethau cwnsela annibynnol eraill**

(1) Rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru i'r awdurdod i wneud y canlynol—

(a) crynhoi gwybodaeth am y gwasanaeth cwnsela annibynnol y mae'n ei sicrhau o dan adran 92;

(b) darparu gwybodaeth am y gwasanaeth hwnnw i Weinidogion Cymru.

(2) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) gynnwys arweiniad i grynhoi neu ddarparu gwybodaeth mewn modd, ac ar adeg, a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Ni chaniateir i gyfarwyddyd o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol—

(a) darparu gwybodaeth am unigolyn dynodedig;

(b) darparu gwybodaeth mewn modd sydd, naill ai ar ei phen ei hun, neu mewn cyfuniad ag unrhyw wybodaeth arall, yn dynodi unrhyw unigolyn y mae'n ymwneud ag ef neu sy'n galluogi'r unigolyn hwnnw i gael ei ddynodi.

(4) Os nad yr awdurdod lleol yw'r person sy'n darparu gwasanaeth cwnsela annibynnol—

(a) rhaid i'r awdurdod lleol roi i'r person sy'n darparu'r gwasanaeth gopi o unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (1), a

(b) rhaid i'r person sy'n darparu'r gwasanaeth grynhoi'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, a'i darparu i'r awdurdod lleol mewn modd nad yw'n dynodi'r unigolion y mae'n ymwneud â hwy, nac yn ei gwneud yn bosibl iddynt gael eu dynodi (naill ai ar ei phen ei hun neu mewn cyfuniad â gwybodaeth arall).

(5) O ran cyfarwyddyd o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir iddo gael ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach;

(c) gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais Gweinidogion Cymru neu ar eu rhan.

*Cyfarfodydd rhieni*

**94 Dyletswydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnal cyfarfodydd yn dilyn deiseb gan rieni**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gynnal cyfarfod ("y cyfarfod") os yw'n cael deiseb gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol yn gofyn am gyfarfod a'i fod wedi cael ei fodloni bod pob un o'r pedwar amod canlynol wedi ei fodloni.

(2) Yr amod cyntaf yw bod y ddeiseb yn cynnwys llofnodion y nifer gofynnol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol.

(3) Y nifer gofynnol o rieni yw'r isaf o'r canlynol—

(a) rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu

(b) rhieni 30 disgybl cofrestredig.

(4) At ddibenion is-adran (3), mae nifer y disgyblion cofrestredig i'w gyfrifo drwy gyfeirio at nifer y disgyblion cofrestredig ar y diwrnod y ceir y ddeiseb.

(5) Yr ail amod yw bod y cyfarfod y gofynnir amdano yn un at ddibenion trafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol.

(6) Y trydydd amod, pe bai cyfarfod yn cael ei gynnal, yw na ddylid cynnal mwy na thri chyfarfod o dan yr adran hon yn ystod y flwyddyn ysgol y ceir y ddeiseb.

(7) Y pedwerydd amod yw bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gydymffurfio â'r gofyniad yn is-adran (8).

(8) Rhaid i'r gyfarfod gael ei gynnal cyn diwedd cyfnod o 25 o ddiwrnodau.

(9) At ddibenion is-adran (8)—

(a) mae'r cyfnod o 25 o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl y diwrnod y ceir y ddeiseb (yn ddarostyngedig i is-adran (10)), a

(b) nid yw'r cyfnod o 25 o ddiwrnodau yn cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol.

(10) Os cynhelir cyfarfod arall y mae'n ofynnol ei gynnal o dan yr adran hon o ganlyniad i ddeiseb wahanol ("y cyfarfod arall") ar ddiwrnod yn ystod y cyfnod o 25 o ddiwrnodau yn is-adran (9), ond cyn y diwrnod y cynhelir y cyfarfod, bydd y cyfnod o 25 o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl y diwrnod y cynhelir y cyfarfod arall.

(11) Mae'r cyfarfod i fod yn agored i'r canlynol—

(a) rhieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol,

(b) y pennaeth, ac

(c) personau eraill a wahoddir gan y corff llywodraethu.

(12) Rhaid i'r corff llywodraethu, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael deiseb sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal cyfarfod, ysgrifennu at rieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol i'w hysbysu am ddyddiad y cyfarfod a'r mater sydd i'w drafod.

(13) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

**95 Diddymu dyletswydd i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni**

Mae adran 33 o Ddeddf Addysg 2002 wedi ei diddymu.

*Cod ymarfer ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion*

**96 Diddymu'r ddarpariaeth am god ymarfer ar gyfer y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion**

Mae adran 127 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (cod ymarfer i sicrhau perthynas effeithiol rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir yng Nghymru) wedi ei diddymu.

## RHAN 6

## CYFFREDINOL

**97 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Rhaid i bŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon gael ei arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau gwahanol ar achos, gwahanol ardaloedd neu ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth wahanol yn gyffredinol neu'n ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodedig neu mewn perthynas ag achosion penodol neu ddosbarthau penodol ar achos yn unig;

(c) i wneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, dros dro, trosiannol neu ddarpariaethau arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(3) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan y Ddeddf hon neu orchymyn o dan adran 56(2) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu'n unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan baragraff 26(1) o Atodlen 2 gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**98 Dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio**

(1) Mae darpariaethau'r Ddeddf hon a darpariaethau Deddf Addysg 1996 i'w darllen fel petai nhw i gyd wedi eu cynnwys yn Neddf Addysg 1996.

(2) Ond pan roddir i ymadrodd at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon ystyr sy'n wahanol i'r un a roddwyd iddo at ddibenion Deddf Addysg 1996, mae'r ystyr a roddir at ddibenion y ddarpariaeth honno i fod yn gymwys yn lle'r un a roddwyd at ddibenion Deddf Addysg 1996.

(3) Yn y Ddeddf hon—

mae i "awdurdod esgobaethol priodol" yr un ystyr ag ("*appropriate diocesan authority*") yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") (ac eithrio yn adran 54(2)(b)) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae "awdurdod ysgol" ("*school authority*") wedi ei ddiffinio yn adran 32 at ddibenion Pennod 3 o Ran 2;

ystyr "y Cod" ("*the Code*") ym Mhennod 2 o Ran 3 yw'r cod ar drefniadaeth ysgolion a ddyroddir o dan adran 38(1);

ystyr "corff crefyddol priodol" ("*appropriate religious body*")—

(a) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, neu ysgol arfaethedig o'r fath, yw'r awdurdod esgobaethol priodol, a

(b) yn achos ysgolion eraill neu ysgolion arfaethedig eraill, yw'r corff sy'n cynrychioli'r crefydd neu'r enwad crefyddol a ddatganwyd, neu y bwriedir iddo gael ei ddatgan, mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae i "corff sefydledig" yr un ystyr â ("*foundation body*") yn adran 21(4)(a) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae "cyfnod gwrthwynebu" ("*objection period*") wedi ei ddiffinio yn adran 49(2) at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

mae “cynigydd” (“*proposer*”) wedi ei ddiffinio yn adran 56 at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

mae “darpariaeth ranbarthol” (“*regional provision*”) wedi ei diffinio yn adran 64 at ddibenion Pennod 4 o Ran 3;

mae “darparu” (“*provide*”) wedi ei ddiffinio yn adran 90 at ddibenion adrannau 88 a 89;

mae “disgybl” (“*pupil*”) wedi ei ddiffinio yn adran 90 at ddibenion adrannau 88 a 89;

ystyr “llywodraethwr sefydledig” (“*foundation governor*”), mewn perthynas ag ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, yw person a benodwyd yn llywodraethwr sefydledig yn unol â rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002;

ystyr “newid rheoleiddiedig” (“*regulated alteration*”) ym Mhennod 2 o Ran 3 yw newid a ddisgrifir yn Atodlen 2;

mae “pwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol” (“*powers to make proposals to alter its school*”) wedi eu diffinio yn adran 83 at ddibenion Rhan 3;

mae “pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion” (“*powers to make proposals to establish, alter or discontinue schools*”) wedi eu diffinio yn adran 83 at ddibenion Rhan 3;

ystyr “rhagnodedig” (“*prescribed*”) yw wedi ei ragnodi drwy reoliadau;

ystyr “rheoliadau” (“*regulations*”) yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

mae “swyddogaethau addysg arbennig” *(“special education functions”)* wedi eu diffinio yn adran 64 at ddibenion Pennod 4 o Ran 3;

mae i “un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig” yr un ystyr â (“*Roman Catholic Church school”)* yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae i “un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru” yr un ystyr â (“*Church in Wales school*”) yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr “ysgol a gynhelir” (“*maintained school*”) yw ysgol yng Nghymru sy’n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, yn ysgol arbennig gymunedol neu’n ysgol feithrin a gynhelir;

mae “ysgol fach” (“*small school*”) wedi ei diffinio yn adran 56 at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

mae “ysgol gynradd” (“*primary school*”) wedi ei diffinio yn adran 90 at ddibenion adrannau 88 a 89.

(4) Ar gyfer cyfeiriadau yn Rhan 3 at—

(a) terfynu ysgol a gynhelir, gweler adran 83;

(b) categori ysgol, gweler adran 83.

(5) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at ysgol â chymeriad crefyddol yn cyfeirio at ysgol sydd wedi ei dynodi’n un sydd â chymeriad o’r fath drwy orchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

**99 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

Mae Atodlen 5 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

**100 Cychwyn**

(1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol—

adran 1;

yr adran hon;

adran 101.

(2) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar 1 Ebrill 2013 —

adrannau 88 i 90;

adrannau 92 a 93.

(3) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddeufis gan ddechrau ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol—

Pennod 3 o Ran 2;

adran 91;

adrannau 94 a 95;

paragraffau 31, 33, 34(1) a (3), 35 a 36 o Ran 3 o Atodlen 5 (ac adran 99 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny).

(4) Daw gweddill y darpariaethau yn y Ddeddf hon i rym ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

**101 Enw byr y Ddeddf hon a'i chynnwys yn un o'r Deddfau Addysg**

(1) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

(2) Mae'r Ddeddf hon i'w chynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996.

# ATODLEN 1

*(a gyflwynwyd gan adran 18)*

## CYRFF LLYWODRAETHU SYDD WEDI EU FFURFIO O AELODAU GWEITHREDIAETH INTERIM

*Dehongli'r Atodlen*

1 (1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "yr awdurdod priodol" ("*the appropriate authority*")—

(a) pan fo'r Atodlen hon yn gymwys drwy rinwedd hysbysiad o dan adran 7, yw'r awdurdod lleol a roes yr hysbysiad, a

(b) pan fo'r Atodlen hon yn gymwys drwy rinwedd hysbysiad o dan adran 14, yw Gweinidogion Cymru;

ystyr "corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal" ("*a normally constituted governing body*") yw corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn unol â rheoliadau a wnaed yn rhinwedd adran 19 o Ddeddf Addysg 2002 (cyrff llywodraethu);

ystyr "y cyfnod interim" ("*the interim period*"), o ran ysgol y mae hysbysiad o dan adran 7 neu 14 wedi ei roi mewn cysylltiad â hi, yw'r cyfnod y mae'r corff llywodraethu wedi ei gyfansoddi ynddo yn unol â'r Atodlen hon;

ystyr "llywodraethwyr presennol" ("*existing governors*"), o ran ysgol y mae hysbysiad o dan adran 7 neu 14 wedi ei roi mewn cysylltiad â hi, yw'r llywodraethwyr sy'n dal swydd yn union cyn y daw'r corff llywodraethu'n gyfansoddedig yn unol â'r Atodlen hon.

(2) Yn yr Atodlen hon mae unrhyw gyfeiriad at derfynu ysgol a gynhelir yn gyfeiriad at yr awdurdod lleol yn peidio â'i chynnal.

*Y corff llywodraethu i gael ei ffurfio o aelodau a benodir gan awdurdod priodol*

2 (1) Mae corff llywodraethu'r ysgol i gael ei ffurfio o aelodau a benodir gan yr awdurdod priodol, yn lle cael ei gyfansoddi'n unol â rheoliadau a wneir yn rhinwedd adran 19 o Ddeddf Addysg 2002.

(2) Yn narpariaethau canlynol yr Atodlen hon—

(a) cyfeirir at y corff llywodraethu fel y'i cyfansoddir yn unol â'r Atodlen hon fel "y bwrdd gweithrediaeth interim", a

(b) cyfeirir at aelodau'r corff llywodraethu fel y'u cyfansoddir felly fel "aelodau gweithrediaeth interim".

*Effaith hysbysiad o dan adran 7 neu 14*

3 (1) Ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dan adran 7 neu 14, mae'r llywodraethwyr presennol yn gadael eu swydd.

(2) Nid yw is-paragraff (1) yn atal llywodraethwr presennol rhag cael ei benodi'n aelod gweithrediaeth interim.

(3) Yn ystod y cyfnod interim, mae unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw ddarpariaeth sydd yn y Deddfau Addysg, neu sydd wedi ei gwneud oddi tanynt, at lywodraethwr neu lywodraethwr sefydledig ysgol yn cael effaith, o ran yr ysgol, fel cyfeiriad at aelod gweithrediaeth interim.

(4) Yn ystod y cyfnod interim, mae adran 83 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (addasu'r darpariaethau sy'n gwneud llywodraethwyr ysgol sefydledig neu wirfoddol yn ymddiriedolwyr ex officio) yn cael effaith o ran yr ysgol drwy roi yn lle paragraffau (a) i (c) gyfeiriad at yr aelodau gweithrediaeth interim.

*Nifer yr aelodau gweithrediaeth interim*

4 (1) Rhaid i nifer yr aelodau gweithrediaeth interim beidio â bod yn llai na dau.

(2) Rhaid i benodiad cychwynnol aelodau gweithrediaeth interim gael ei wneud yn y fath fodd ag i ddod yn weithredol ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dan adran 7 neu 14.

(3) Caiff yr awdurdod priodol benodi aelodau gweithrediaeth interim pellach ar unrhyw bryd yn ystod y cyfnod interim.

*Telerau penodi aelodau gweithrediaeth interim*

5 (1) Rhaid i bob penodiad aelod gweithrediaeth interim gael ei wneud drwy offeryn ysgrifenedig yn gosod telerau'r penodiad.

(2) O ran aelod gweithrediaeth interim—

(a) mae'n dal swydd yn unol â thelerau'r penodiad ac yn ddarostyngedig i baragraff 16, a

(b) caniateir iddo gael ei symud o'i swydd gan yr awdurdod priodol am anghymhwyster neu gamymddygiad.

(3) Caiff telerau penodi aelod gweithrediaeth interim ddarparu i'r penodiad fod yn derfynadwy gan yr awdurdod priodol drwy hysbysiad.

*Dyletswydd yr awdurdod priodol i hysbysu personau eraill*

6 (1) Rhaid i'r awdurdod priodol roi copi o'r hysbysiad o dan adran 7 neu 14 ac o bob offeryn penodi aelod gweithrediaeth interim—

(a) i bob aelod gweithrediaeth interim,

(b) i bob llywodraethwr presennol yr ysgol,

(c) os yr awdurdod lleol yw'r awdurdod priodol, i Weinidogion Cymru,

(d) os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, i'r awdurdod lleol, ac

(e) yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol—

(i) i'r person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, i'r corff crefyddol priodol.

(2) Nid yw methiant â chydymffurfio ag is-baragraff (1) yn annilysu'r hysbysiad na'r penodiad.

*Pŵer i bennu hyd cyfnod interim*

7 Caiff yr awdurdod priodol bennu hyd y cyfnod interim yn yr hysbysiad o dan adran 7 neu 14. 7

*Cadeirydd*

8 Caiff yr awdurdod priodol enwebu un o'r aelodau gweithrediaeth interim i fod yn gadeirydd y bwrdd gweithrediaeth interim.

*Cydnabyddiaeth a lwfansau*

9 Caiff yr awdurdod priodol dalu i unrhyw aelod gweithrediaeth interim unrhyw gydnabyddiaeth a lwfansau y bydd yr awdurdod priodol yn eu penderfynu, yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir o dan baragraff 13(2).

*Dyletswydd y bwrdd gweithrediaeth interim*

10 (1) Yn ystod y cyfnod interim, rhaid i'r bwrdd gweithrediaeth interim redeg yr ysgol yn y fath fodd ag i sicrhau, cyhyd â'i bod yn ymarferol gwneud hynny, bod sail gadarn yn cael ei darparu ar gyfer gwella yn y dyfodol y modd y mae'r ysgol yn cael ei rhedeg.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar ddyletswyddau eraill y bwrdd gweithrediaeth interim fel corff llywodraethu.

*Trafodion y bwrdd gweithrediaeth interim*

11 (1) Caiff y bwrdd gweithrediaeth interim benderfynu ei weithdrefn ei hun.

(2) Caiff y bwrdd gweithrediaeth interim wneud unrhyw drefniadau y gwêl yn dda i unrhyw berson arall gyflawni ei swyddogaethau.

(3) Mae'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir o dan baragraff 13(2).

*Effaith ar atal dros dro gyllideb ddirprwyedig*

12 (1) Os nad oes gan yr ysgol, yn union cyn y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan adran 7 neu 14, gyllideb ddirprwyedig, mae ataliad dros dro ar hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig wedi ei ddirymu yn rhinwedd yr is-baragraff hwn o'r dyddiad hwnnw.

(2) Os yw hysbysiad o dan baragraff 1 o Atodlen 15 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (atal cyllideb ddirprwyedig dros dro am gamreoli etc) wedi ei roi i'r corff llywodraethu cyn y dyddiad a bennwyd mewn hysbysiad o dan adran 7 neu 14 ond nad yw wedi dod yn weithredol eto, mae effaith yr hysbysiad yn peidio ar y dyddiad hwnnw.

(3) Yn ystod y cyfnod interim, ni chaiff yr awdurdod lleol arfer y pŵer a roddir gan adran 8 (pŵer i atal dros dro hawl i gael cyllideb ddirprwyedig).

(4) Mae is-baragraff (1) i'w ddehongli'n unol ag adran 49(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

*Eithrio darpariaethau statudol penodol*

13 (1) Nid yw rheoliadau a wneir o dan adran 19(2) neu (3) o Ddeddf Addysg 2002 (cyrff llywodraethu) yn gymwys mewn perthynas â'r bwrdd gweithrediaeth interim.

(2) Ond caniateir i reoliadau a wneir o dan adran 19(3)(f), (g), (i), (j), (k) neu (l) o Ddeddf Addysg 2002 (ac eithrio rheoliadau o dan adran 19(3)(l) sy'n ymwneud â chyfansoddiad cyrff llywodraethu) gael eu cymhwyso mewn perthynas â'r bwrdd (gydag addasiadau neu hebddynt) drwy reoliadau.

(3) Nid yw offeryn llywodraethu'r ysgol yn cael effaith mewn perthynas â'r bwrdd gweithrediaeth interim i'r graddau y mae'n ymwneud â chyfansoddiad y corff llywodraethu.

(4) Yn ystod y cyfnod interim—

(a) ni chaiff yr awdurdod lleol arfer unrhyw bŵer a roddir gan adran 6 (pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol), a

(b) ni chaiff Gweinidogion Cymru arfer unrhyw bŵer a roddir gan adran 13 (pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol).

*Cau'r ysgol*

14 (1) Ar unrhyw bryd yn ystod y cyfnod interim, caiff y bwrdd gweithrediaeth interim, os gwêl yn dda, wneud adroddiad i'r awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru yn argymell y dylai'r ysgol gael ei therfynu, a chan ddatgan y rhesymau dros yr argymhelliad hwnnw.

(2) Ni chaiff y bwrdd gweithrediaeth interim—

(a) cyhoeddi o dan adran 43 gynigion i derfynu'r ysgol, na

(b) cyflwyno hysbysiad o dan adran 80.

(3) Bydd is-baragraff (4) yn gymwys os, yn ystod y cyfnod interim—

(a) bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 16 neu 81 mewn perthynas â'r ysgol, neu

(b) bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu terfynu'r ysgol.

(4) Mae'r cyfnod interim i barhau tan y dyddiad terfynu, hyd yn oed pan fyddai'n dod i ben fel arall cyn y dyddiad hwnnw.

(5) Yn y paragraff hwn ystyr "y dyddiad terfynu" yw un o'r canlynol (yn ôl fel y digwydd)—

(a) y dyddiad y bydd cynigion i derfynu'r ysgol yn cael eu gweithredu arno o dan Ran 1 o Atodlen 3;

(b) y dyddiad y caiff yr ysgol ei therfynu arno o dan adran 80;

(c) y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd o dan adran 16 neu 81(1).

*Hysbysu bod y corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal wedi ailddechrau llywodraethu*

15 (1) Bydd yr is-baragraff canlynol yn gymwys—

(a) os nad yw'r hysbysiad o dan adran 7 neu 14 yn pennu hyd y cyfnod interim, a

(b) os nad yw paragraff 14(4) yn gymwys.

(2) Caiff yr awdurdod priodol roi hysbysiad i'r personau a grybwyllir yn is-baragraff (3) yn pennu dyddiad pan fydd y corff llywodraethu'n dod yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal.

(3) Y personau hynny yw'r canlynol—

(a) pob aelod gweithrediaeth interim,

(b) os yr awdurdod lleol yw'r awdurdod priodol, Gweinidogion Cymru,

(c) os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, yr awdurdod lleol, a

(d) yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

*Yr amser pan fydd aelodau gweithrediaeth interim yn peidio â dal eu swydd*

16 (1) Mae aelodau gweithrediaeth interim i adael eu swydd—

(a) mewn achos lle y mae is-baragraff (4) o baragraff 14 yn gymwys, ar y dyddiad terfynu o fewn ystyr y paragraff hwnnw,

(b) mewn achos lle nad yw'r is-baragraff hwnnw yn gymwys a bod yr hysbysiad o dan adran 7 neu 14 yn pennu hyd y cyfnod interim, ar ddiwedd y cyfnod penodedig, ac

(c) mewn unrhyw achos arall, ar y dyddiad a bennir o dan baragraff 15(2).

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal terfynu penodiad aelod gweithrediaeth interim ynghynt o dan baragraff 5(2)(b) neu'n unol â thelerau ei benodiad.

*Sefydlu corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal*

17 (1) Pan fo aelodau gweithrediaeth interim i adael eu swydd ar y dyddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 16(1)(b) neu (c), rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer cyfansoddi'r corff llywodraethu ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud, drwy reoliadau, ddarpariaeth ynglŷn â'r trosi o fwrdd gweithrediaeth interim i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal, a chânt, mewn cysylltiad â'r trosi hwnnw—

(a) addasu unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan unrhyw un neu rai o adrannau 19, 20 a 23 o Ddeddf Addysg 2002 neu gan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno,

(b) cymhwyso unrhyw ddarpariaeth o'r fath gydag addasiadau neu hebddynt, ac

(c) gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i unrhyw ddarpariaeth o'r fath neu'n gyffelyb iddi.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-baragraff (2) yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, ddarpariaeth sy'n galluogi llywodraethwyr i gael eu hethol neu eu penodi, ac i arfer swyddogaethau, cyn diwedd y cyfnod interim.

## ATODLEN 2

*(Cyflwynwyd gan adran 40)*

## NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

### RHAN 1

### POB YSGOL A GYNHELIR

1 Mae paragraffau 2 a 3 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir.

*Trosglwyddo safle*

2 Trosglwyddo ysgol i safle neu safleoedd newydd oni fyddai prif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd newydd o fewn 1.609344 cilomedr (un filltir) o brif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd presennol.

*Ysgolion rhyw gymysg ac ysgolion un rhyw*

3 (1) Newid a wneir i ysgol fel a ganlyn—

(a) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw, neu

(b) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig.

(2) At ddibenion y paragraff hwn mae ysgol i'w thrin fel un sy'n derbyn disgyblion o un rhyw yn unig os yw trefn derbyn disgyblion o'r rhyw arall—

(a) yn gyfyngedig i ddisgyblion dros oedran ysgol gorfodol; a

(b) heb fod yn fwy na 25% o nifer y disgyblion yn y grŵp oedran a dan sylw sydd fel arfer yn yr ysgol.

### RHAN 2

### POB YSGOL A GYNHELIR AR WAHÂN I YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR

4 Mae paragraffau 5 i 8 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig cymunedol.

*Ystod oedran*

5 (1) Newid oedran isaf y disgyblion y darperir addysg iddynt yn arferol yn yr ysgol gan flwyddyn neu fwy.

(2) Newid oedran uchaf y disgyblion y darperir addysg iddynt yn arferol yn yr ysgol gan flwyddyn neu fwy os yw'r ysgol, cyn ac ar ôl y newid, yn darparu addysg sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol ond heb fod yn darparu addysg sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol.

*Darpariaeth chweched dosbarth*

6 (1) Cyflwyno'r ddarpariaeth o addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sy'n darparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol.

(2) Terfynu'r ddarpariaeth o addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sydd i barhau i ddarparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol.

*Cyfrwng iaith – addysg gynradd*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer—

(a) ysgolion cynradd,

(b) ysgolion arbennig ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg gynradd i ddisgyblion yn yr ysgolion, ac

(c) ysgolion canol ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg gynradd i ddisgyblion yn yr ysgolion.

(2) Daw newid o fewn y paragraff hwn os yw addysgu dosbarth o ddisgyblion mewn grŵp oedran (neu grwpiau oedran) mewn ysgol yn dod o fewn disgrifiad mewn cofnod yng ngholofn 1 o dabl 1 isod, ac os cynigir newid addysgu'r dosbarth cyfatebol o ddisgyblion yn y grŵp oedran hwnnw (neu'r grwpiau oedran hynny) fel ei fod yn dod o fewn y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

(3) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "grŵp oedran" yw—

(i) grŵp blwyddyn o'r cyfnod sylfaen (o fewn yr ystyr a roddir i "*foundation phase*" gan adran 102 o Ddeddf Addysg 2002), neu

(ii) grŵp blwyddyn o'r ail gyfnod allweddol (o fewn yr ystyr a roddir i "*second key stage*" gan adran 103 o Ddeddf Addysg 2002);

(b) nid yw cyfeiriad at addysgu dosbarth o ddisgyblion yn cynnwys gwasanaeth ysgol na gweithgareddau eraill mewn ysgol a gynhelir fel arfer gyda grwpiau mawr o ddisgyblion.

**TABL 1**

| 1 | 2 |
|---|---|
| Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg | Cynnydd neu leihad o fwy na 20% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg | Cynnydd neu leihad o fwy na 20% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg |
| Mae mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae rhywfaint o addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Mae mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae rhywfaint o addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg |
| Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | Cynhelir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg | Cynhelir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg |
| Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Saesneg | Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg |
| Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg |

*Cyfrwng iaith – addysg uwchradd*

8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer—

(a) ysgolion uwchradd,

(b) ysgolion arbennig ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg uwchradd i ddisgyblion yn yr ysgolion, ac

(c) ysgolion canol ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg uwchradd i ddisgyblion yn yr ysgolion.

(2) Daw newid o fewn y paragraff hwn os yw addysgu disgyblion mewn grŵp blwyddyn mewn ysgol yn dod o fewn disgrifiad mewn cofnod yng ngholofn 1 o dabl 2 isod, ac os cynigir newid addysgu'r disgyblion yn y grŵp blwyddyn hwnnw fel ei fod yn dod o fewn y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

(3) Yn y paragraff hwn "pwnc perthnasol" yw unrhyw bwnc ar wahân i Gymraeg a Saesneg a addysgir yn yr ysgol i ddisgyblion yn y grŵp blwyddyn o dan sylw.

**TABL 2**

| 1 | 2 |
|---|---|
| Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl | Lleihad o bedwar neu ragor o'r pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl |
| Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl | Lleihad o bedwar neu ragor o'r pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl | Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i bob disgybl | Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl |
| Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl |
| Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl |

RHAN 3

YSGOLION CYMUNEDOL, YSGOLION SEFYDLEDIG AC YSGOLION GWIRFODDOL

9 Mae paragraffau 10 i 17 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol.

*Newidiadau i fangreoedd*

10 (1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion o'i gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol.

(2) Wrth benderfynu cynnydd mewn capasiti at ddibenion is-baragraff (1), mae pob ehangiad a wnaed ar ôl y dyddiad priodol i'w cymryd i ystyriaeth ynghyd â'r ehangiad arfaethedig.

(3) Y "dyddiad priodol" yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) y dyddiad sy'n dod bum mlynedd cyn y dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad;

(b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

(c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud unrhyw newid i'r ysgol a oedd yn golygu ehangu ei mangre ac y cyhoeddwyd y cynigon hynny o dan—

(i) adran 48, 59, 68 neu 72, neu

(ii) adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

(4) Nid yw cyfeiriadau yn y paragraff hwn at ehangu yn cynnwys ehangu dros dro.

11 (1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol os yw'r dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad yn dod o fewn y cyfnod a ddisgrifir yn is-baragraff (2).

(2) Pum mlynedd yw'r cyfnod ac mae'n dechrau ar ddyddiad gweithredu'r cynigion (neu'r dyddiad diweddaraf) sy'n dod o fewn paragraff 13 (lleihau capasiti ysgol).

(3) Nid yw "ehangu" yn y paragraff hwn yn cynnwys ehangu dros dro.

12 Gwneud ehangu dros dro, a fyddai ar yr adeg y'i gwnaed wedi dod o fewn paragraff 10 (heblaw am y ffaith ei fod dros dro), yn ehangu parhaol.

13 Newid a wneir i fangre'r ysgol a fyddai'n lleihau capasiti'r ysgol, lle y byddai'r capasiti arfaethedig yn is na'r nifer uchaf o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd cyn y dyddiad y lluniodd y cynigydd ei gynnig i wneud y newid arfaethedig.

14 At ddibenion paragraffau 10 i 13—

(a) mae cyfeiriadau at gapasiti ysgol yn gyfeiriadau at nifer y disgyblion y gall yr ysgol drefnu lle ar eu cyfer fel a ddyfernir yn unol â chanllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, a

(b) "ehangu dros dro" yw ehangu mangre ysgol y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

*Anghenion addysgol arbennig*

15 (1) Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

(2) Os oes darpariaeth a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, newid yn y math o'r cyfryw ddarpariaeth.

*Trefniadau derbyn*

16 Cyflwyno trefniadau derbyn y mae adran 101(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (bandio disgyblion) yn gymwys iddynt.

*Darpariaeth fyrddio*

17 (1) Cyflwyno darpariaeth ar gyfer llety byrddio neu ei dirwyn i ben.

(2) Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 50 o ddisgyblion neu ragor neu gan 50% neu ragor.

RHAN 4

YSGOLION ARBENNIG

18 Mae paragraffau 19 i 21 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion arbennig cymunedol.

*Cynnydd yn nifer disgyblion*

19 (1) Ac eithrio pan fo ysgol wedi ei sefydlu mewn ysbyty, cynnydd yn nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, a fyddai o'i gymryd ynghyd â phob cynnydd blaenorol ar ôl y dyddiad priodol, yn cynyddu nifer y disgyblion gan o leiaf 10% neu gan y nifer perthnasol o'i gymharu â nifer y disgyblion ar y dyddiad priodol.

(2) Yn y paragraff hwn—

y "dyddiad priodol" ("*appropriate date*") yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) 19 Ionawr 2012;

(b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

(c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud newid i'r ysgol i gynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer ac y cyhoeddwyd y cynigion hynny o dan y canlynol—

(i) adran 48, 59, 68 neu 72, neu

(ii) adran 31 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno; ac

"y nifer perthnasol" *("relevant number")* mewn perthynas â nifer y disgyblion mewn ysgol yw—

(a) pan fo'r ysgol yn darparu llety byrddio yn unig, 5, a

(b) ym mhob achos arall, 20.

*Darpariaeth fyrddio*

20 Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 5 disgybl neu ragor.

*Darpariaeth anghenion addysgol arbennig*

21 Newid yn y math o anghenion addysgol arbennig y trefnwyd yr ysgol i wneud darpariaeth ar ei gyfer.

RHAN 5

YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR

22 Mae paragraffau 23 i 25 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion meithrin a gynhelir.

*Y man addysgu*

23 (1) Ehangu'r man addysgu, ac eithrio ehangu dros dro, gan 50% neu fwy.

(2) Gwneud ehangu dros dro y man addysgu gan 50% neu fwy yn ehangu parhaol.

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "man addysgu" ("*teaching space*") yw unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu addysg feithrin ac eithrio'r canlynol—

(a) unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer addysg disgyblion y mae eu hanghenion addysgol yn cael eu hasesu o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 a disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig a gedwir o dan adran 324 o'r Ddeddf honno;

(b) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn y fath fodd nad yw'n addas at ddibenion addysgu cyffredinol;

(c) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn bennaf ar gyfer storio cyfarpar, offer neu ddeunyddiau a ddefnyddir wrth addysgu;

(d) unrhyw ran o ardal y mae ei hangen ar gyfer symudiad disgyblion drwy'r ardal honno ac a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben hwnnw;

"ehangu dros dro" ("*temporary enlargement*") yw ehangu man addysgu y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

*Anghenion addysgol arbennig*

24 (1) Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

(2) Os oes darpariaeth a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, newid yn y math o'r cyfryw ddarpariaeth.

*Cyfrwng iaith*

25 (1) Yn achos ysgol y caiff grŵp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, unrhyw newid i'r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

(2) Yn achos ysgol y caiff grŵp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, unrhyw newid i'r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

## RHAN 6

## ATODOL

*Y pŵer i ddiwygio*

26 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn yr Atodlen hon.

(2) Caiff gorchymyn o dan is-baragraff (1) wneud diwygiadau canlyniadol i unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 3 o'r Ddeddf hon.

## ATODLEN 3
*(Cyflwynwyd gan adran 55)*

## GWEITHREDU CYNIGION STATUDOL

### RHAN 1

### CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU

*Dehongli*

1 Yn y Rhan hon o'r Atodlen hon—

(a) ystyr "cynigion" yw cynigion sydd i'w gweithredu o dan adran 55;

(b) mae cyfeiriad at awdurdod lleol mewn perthynas ag ysgol neu ysgol arfaethedig yn gyfeiriad at yr awdurdod lleol sy'n cynnal neu a fydd yn cynnal yr ysgol honno.

*Cynigion ynghylch ysgolion cymunedol neu ysgolion meithrin a gynhelir*

2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol gymunedol arfaethedig neu ysgol feithrin a gynhelir sy'n arfaethedig.

(2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 41, 42 neu 43 gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol.

*Cynigion ynghylch ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a reolir*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol wirfoddol a reolir sy'n arfaethedig.

(2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 41(2) neu 43(1)(a) gael eu gweithredu gan yr awdurdod.

(3) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 42(1)(b) neu (c) gael eu gweithredu gan yr awdurdod a chan y corff llywodraethu i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.

(4) Rhaid i gynigion a wneir o dan adran 41(2) (nas gwneir gan awdurdod lleol) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol a chan y person a wnaeth y cynigion i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.

(5) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 42(2) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.

(6) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 43(2) gael eu gweithredu gan y corff llywodraethu a chan yr awdurdod lleol.

*Cynigion ynghylch ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir*

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n arfaethedig.

(2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 42(1)(b) neu (c) gael eu gweithredu—

(a) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu mangre berthnasol i'r ysgol, gan yr awdurdod lleol, a

(b) fel arall gan yr awdurdod a'r corff llywodraethu i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.

(3) Rhaid i gynigion a wneir o dan adran 41(2) gael eu gweithredu—

(a) os yr awdurdod lleol yw'r cynigydd, gan yr awdurdod lleol, a

(b) os nad yr awdurdod lleol yw'r cynigydd—

(i) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu mangre berthnasol i'r ysgol, gan yr awdurdod lleol, a

(ii) fel arall gan y person a wnaeth y cynigion.

(4) Nid oes dim sydd yn is-baragraff (3)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu mangre berthnasol—

(a) pan fo'r ysgol newydd wirfoddol a gynorthwyir i'w sefydlu yn lle un neu ragor o ysgolion annibynnol, sefydledig neu wirfoddol sy'n rhai presennol ac sydd i'w terfynu ar neu cyn dyddiad gweithredu'r cynigion, a

(b) pan oedd y fangre honno yn rhan o fangre unrhyw un neu rai o'r ysgolion presennol ond na chafodd ei darparu gan yr awdurdod.

(5) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 42(2) gael eu gweithredu—

(a) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu mangre berthnasol i'r ysgol, gan yr awdurdod lleol, a

(b) fel arall gan y corff llywodraethu.

(6) Ystyr "mangre berthnasol" yw—

(a) caeau chwarae, neu

(b) adeiladau sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol ond nad ydynt i fod yn adeiladau ysgol.

(7) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 43(1) gael eu gweithredu gan yr awdurdod.

(8) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 43(2) gael eu gweithredu gan y corff llywodraethu a chan yr awdurdod lleol.

*Cynigion ynghylch ysgolion arbennig cymunedol*

5 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig gymunedol arfaethedig.

(2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 44 gael eu gweithredu gan yr awdurdod.

*Newid categori*

6 Os bydd ysgol yn newid categori o ysgol gymunedol ar ôl i gynigion cael eu cyhoeddi o dan adran 48 ond cyn iddynt gael eu gweithredu, rhaid i'r cynigion (i'r graddau na chawsant eu gweithredu) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol (er gwaethaf paragraffau 3 a 4).

RHAN 2

DARPARU MANGREOEDD A CHYMORTH ARALL

*Darparu safle ac adeiladau i ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol yn rhinwedd paragraff 3(2), (3), (4) neu (5) ddarparu safle i ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir, neu ysgol wirfoddol a reolir sy'n arfaethedig.

(2) Rhaid i'r awdurdod drosglwyddo ei fuddiant yn y safle ac yn unrhyw adeiladau sydd ar y safle sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol—

(a) i ymddiriedolwyr yr ysgol, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol, neu

(b) os nad oes ymddiriedolwyr gan yr ysgol, i gorff sefydledig yr ysgol neu (yn absenoldeb corff o'r fath) i'r corff llywodraethu, i'w ddal gan y corff hwnnw at y dibenion perthnasol.

(3) Os bydd unrhyw amheuaeth neu anghydfod yn codi o ran y personau y mae'n ofynnol i'r awdurdod wneud y trosglwyddiad iddynt, rhaid iddo gael ei wneud i'r personau hynny y mae Gweinidogion Cymru'n barnu eu bod yn briodol.

(4) Rhaid i'r awdurdod dalu i'r personau y gwneir y trosglwyddiad iddynt eu costau rhesymol mewn cysylltiad â'r trosglwyddiad.

(5) Mae is-baragraff (6) yn gymwys—

(a) pan fo trosglwyddiad yn cael ei wneud o dan y paragraff hwn, a

(b) pan fo'r trosglwyddiad yn cael ei wneud i bersonau ("y trosglwyddeion") y mae ganddynt unrhyw swm, neu sydd â hawl ganddynt iddo neu y gellid bod ganddynt yr hawl iddo, sef swm sy'n cynrychioli'r enillion ar werthiant mangre arall a gafodd ei defnyddio at ddibenion yr ysgol.

(6) Rhaid i'r trosglwyddeion hysbysu'r awdurdod lleol bod is-baragraff (5)(b) yn gymwys iddynt a rhaid iddynt hwy neu eu holynwyr dalu i'r awdurdod lleol gymaint o'r swm hwnnw, gan roi sylw i werth y buddiant a drosglwyddwyd, ag y benderfynir ei fod yn gyfiawn, naill ai drwy gytundeb rhyngddynt hwy a'r awdurdod neu, yn niffyg cytundeb, gan Weinidogion Cymru.

(7) Yn is-baragraff (5)(b) mae'r cyfeiriad at enillion ar werthiant mangre arall yn cynnwys cyfeiriad at y canlynol—

(a) cydnabyddiaeth am greu neu am waredu unrhyw fath o fuddiant mewn mangre arall, gan gynnwys rhent, a

(b) unrhyw log sydd wedi cronni mewn perthynas â chydnabyddiaeth o'r fath.

(8) Mae unrhyw swm a delir o dan is-baragraff (6) i'w drin at ddibenion adran 14 o Ddeddf Safleoedd Ysgolion 1841 (sy'n ymwneud â gwerthu neu gyfnewid tir sy'n cael ei ddal ar ymddiried at ddibenion ysgol) fel swm a ddefnyddir at brynu safle i'r ysgol.

(9) Caniateir i benderfyniad gael ei wneud o dan is-baragraff (6) mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo sy'n ddarostyngedig i ymddiriedolaeth sydd wedi codi o dan adran 1 o Ddeddf Dychweliad Safleoedd 1987 (hawl dychweliad yn cael ei disodli gan ymddiried i werthu) —

(a) os gwneir y penderfyniad gan Weinidogion Cymru (a dim ond bryd hynny), a

(b) maent wedi eu bodloni (a dim ond bryd hynny) bod camau wedi eu cymryd i amddiffyn buddiannau'r buddiolwyr o dan yr ymddiriedolaeth.

(10) Mae is-baragraff (6) yn gymwys at ddibenion digolledu'r awdurdod a hysbysir o dan yr is-baragraff hwnnw mewn perthynas yn unig â'r rhan honno o'r swm a grybwyllir yn is-baragraff (5)(b) (os oes un) sy'n weddill ar ôl cymhwyso paragraffau 1 i 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (gwaredu tir - ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig sefydledig) i'r swm hwnnw.

(11) Yn y paragraff hwn—

ystyr "y dibenion perthnasol" ("*the relevant purposes*") yw—

(a) mewn perthynas â throsglwyddiad i gorff sefydledig ysgol, dibenion yr ysgolion sy'n ffurfio'r grŵp y mae'r corff hwnnw'n gweithredu drosto, neu

(b) mewn perthynas â throsglwyddiad i gorff llywodraethu ysgol, dibenion yr ysgol;

nid yw "safle" *("site")* yn cynnwys caeau chwarae ond fel arall mae'n cynnwys unrhyw safle sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol o dan sylw.

*Grantiau mewn cysylltiad â gwariant penodol ynghylch ysgol wirfoddol a gynorthwyir boed hi'n un bresennol neu'n un arfaethedig*

8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn rhinwedd paragraff 4(5) i weithredu cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol, neu

(b) pan fo'n ofynnol i berson yn rhinwedd paragraff 4(3)(b) i weithredu cynigion i sefydlu ysgol newydd wirfoddol a gynorthwyir.

(2) Mae paragraff 5 o Atodlen 3 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (grantiau i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir mewn cysylltiad â gwariant ar fangre neu gyfarpar)—

(a) yn gymwys mewn perthynas â'r ysgol a grybwyllir yn is-baragraff (1)(a), a

(b) yn gymwys mewn perthynas â'r ysgol newydd a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b) fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag ysgol bresennol sy'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir.

(3) Wrth gymhwyso'r paragraff hwnnw mewn perthynas ag ysgol newydd wirfoddol a gynorthwyir—

(a) mae cyfeiriadau at y corff llywodraethu, mewn perthynas ag unrhyw adeg cyn i'r corff llywodraethu gael ei gyfansoddi, yn gyfeiriadau at y person a wnaeth y cynigion o dan adran 41(2), a

(b) pan osodir gofynion mewn perthynas a grant a delir yn rhinwedd y paragraff hwn i'r person a wnaeth y cynigion, rhaid i gorff llywodraethu, pan gyfansoddir ef, yn ogystal â'r person hwnnw, gydymffurfio â'r gofynion.

*Cymorth mewn cysylltiad â chynnal a chadw a rhwymedigaethau eraill mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir*

9 Caiff awdurdod lleol roi i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir y cymorth y gwêl yr awdurdod yn dda i'w roi pan fo'r corff llywodraethu'n cyflawni unrhyw rwymedigaeth sy'n codi yn rhinwedd paragraff 4(5) mewn perthynas â chynigion a wnaed ganddo o dan adran 42(2).

*Cymorth mewn cysylltiad ag ysgol newydd wirfoddol a gynorthwyir*

10 Caiff awdurdod lleol roi i'r personau y mae'n ofynnol iddynt yn rhinwedd paragraff 4(3)(b) i weithredu cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol a gynorthwyir y cymorth y gwêl yn dda i'w roi pan fo'r personau hynny'n cyflawni unrhyw rwymedigaeth sy'n codi yn rhinwedd y paragraff hwnnw.

*Dyletswydd i drosglwyddo buddiant mewn mangre a ddarperir o dan baragraff 9 neu 10*

11 (1) Pan fo cymorth o dan baragraff 9 neu 10 yn golygu darparu unrhyw fangre i'w defnyddio at ddibenion ysgol, rhaid i'r awdurdod leol drosglwyddo ei fuddiant yn y fangre—

(a) i ymddiriedolwyr yr ysgol i'w ddal ar ymddiried at ddibenion yr ysgol, neu

(b) os nad oes ymddiriedolwyr gan yr ysgol, i gorff sefydledig yr ysgol, i'w ddal gan y corff hwnnw at ddibenion yr ysgolion sy'n ffurfio'r grŵp y mae'r corff hwnnw'n gweithredu drosto.

(2) Os bydd unrhyw amheuaeth neu anghydfod yn codi o ran y personau y mae'n ofynnol i'r awdurdod wneud y trosglwyddiad iddynt, rhaid iddo gael ei wneud i'r personau hynny y mae Gweinidogion Cymru'n barnu eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i'r awdurdod dalu i'r personau y gwneir y trosglwyddiad iddynt eu costau rhesymol mewn cysylltiad â'r trosglwyddiad.

RHAN 3

GORCHMYNION ESEMPTIO TROSIANNOL AT DDIBENION DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

*Ysgolion un rhyw*

12 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion i wneud newid rheoleiddiedig a ddisgrifir ym mharagraff 3(1)(a) o Atodlen 2 (ysgol i beidio â bod yn un sy'n derbyn disgyblion o un rhyw yn unig).

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys pan wneir cynigion o'r fath o dan adran 42 neu 44 ac, yn unol ag adran 48(4), pan fo'r cynigydd yn anfon copi o'r cynigion wedi eu cyhoeddi at Weinidogion Cymru.

(3) Mae anfon y cynigion wedi eu cyhoeddi i Weinidogion Cymru i'w drin fel cais gan y cynigydd am orchymyn esemptio trosiannol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a chaniateir i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn o'r fath yn unol â hynny.

(4) Yn y paragraff hwn—

mae i "gorchymyn esemptio trosiannol" yr ystyr a roddir i ("*transitional exemption order*") ym mharagraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

mae "gwneud" *("make"),* mewn perthynas â gorchymyn esemptio trosiannol yn cynnwys amrywio neu ddirymu.

# ATODLEN 4

*(Cyflwynwyd gan adran 55)*

## GWEITHREDU CYNIGION I NEWID CATEGORI YSGOL

### RHAN 1

### CYFLWYNIAD

*Dehongli*

1 Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cytundeb trosglwyddo" *("transfer agreement")* mewn perthynas ag ysgol yw cytundeb—

(a) a wnaed rhwng yr awdurdod lleol ac ymddiriedolwyr neu gorff sefydledig neu gorff llywodraethu'r ysgol, a

(b) sy'n darparu bod tir yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac yn cael ei freinio ynddo ar y dyddiad gweithredu (p'un a fu cydnabyddiaeth drwy daliad ai peidio gan yr awdurdod);

"y dyddiad gweithredu" *("the implementation date")* yw'r dyddiad y cynigir y bydd y newid categori yn digwydd;

mae i "grŵp" yr ystyr a roddir i ("*group*") gan adran 21(4)(b) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "tir wedi ei gyllido'n gyhoeddus" *("publicly funded land")* yw tir a gafodd ei gaffael—

(a) oddi wrth awdurdod lleol o dan drosglwyddiad o dan adran 201(1)(a) o Ddeddf Addysg 1996,

(b) yn gyfan gwbl drwy gyfrwng grant cynnal, grant diben arbennig neu grant cyfalaf (o fewn ystyr Pennod 6 o Ran 3 o Ddeddf Addysg 1996),

(c) yn gyfan gwbl drwy gyfrwng grant a wnaed o dan reoliadau a wnaed o dan baragraff 4 o Atodlen 32 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998,

(d) yn gyfan gwbl drwy gyfrwng gwariant a wnaed at ddibenion yr ysgol ac a gafodd ei drin gan yr awdurdod lleol fel gwariant o natur cyfalaf,

(e) o dan drosglwyddiad o dan reoliadau a wnaed o dan baragraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998,

(f) yn gyfan gwbl drwy gyfrwng cymorth ariannol a roddwyd o dan adran 14 o Ddeddf Addysg 2002,

(g) o dan drosglwyddiad o dan yr Atodlen hon, neu

(h) yn gyfan gwbl drwy enillion wrth waredu unrhyw dir a gafodd ei gaffael fel a grybwyllir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (g).

*Gweithredu*

2 Ar y dyddiad gweithredu mae'r ysgol i newid categori yn unol â'r cynigion.

RHAN 2

TROSGLWYDDO STAFF

*Newid i ysgol wirfoddol a gynorthwyir*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir yn newid categori i ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir.

(2) Mae'r contract cyflogaeth rhwng P a'r awdurdod lleol yn cael effaith o'r dyddiad gweithredu fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng P a'r corff llywodraethu.

(3) Caiff holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r awdurdod lleol o dan y contract cyflogaeth neu mewn cysylltiad ag ef eu trosglwyddo i'r corff llywodraethu ar y dyddiad gweithredu.

(4) Mae unrhyw beth a gafodd ei wneud cyn y dyddiad hwnnw gan yr awdurdod lleol neu mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad â'r contract hwnnw neu â P i'w drin o'r dyddiad hwnnw ymlaen fel pe bai wedi ei wneud gan y corff llywodraethu neu mewn perthynas ag ef.

(5) Yn y paragraff hwn, "P" yw person sydd—

(a) yn union cyn y dyddiad gweithredu yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol i weithio dim ond yn yr ysgol o dan sylw, neu

(b) cyn y dyddiad gweithredu, wedi ei benodi gan yr awdurdod lleol i weithio yn yr ysgol o'r dyddiad gweithredu ymlaen neu ar ddyddiad diweddarach.

(6) Ond nid yw cyfeiriad at "P" yn cynnwys—

(a) person y mae ei gontract cyflogaeth yn terfynu ar y diwrnod yn union cyn y dyddiad gweithredu, neu

(b) person a gyflogir gan yr awdurdod lleol i weithio yn yr ysgol dim ond mewn cysylltiad â darparu prydau bwyd.

(7) Nid yw'r paragraff hwn yn effeithio ar unrhyw hawl gan gyflogai i derfynu'r contract os gwneir (ar wahân i newid cyflogwr) newid sylweddol sy'n niweidiol i amodau gwaith y cyflogai.

*Newid i ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir*

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn newid categori i ddod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a reolir.

(2) Mae'r contract cyflogaeth rhwng P a'r corff llywodraethu yn cael effaith o'r dyddiad gweithredu fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng P a'r awdurdod lleol.

(3) Caiff holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r corff llywodraethu o dan y contract cyflogaeth neu mewn cysylltiad ag ef eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol ar y dyddiad gweithredu.

(4) Mae unrhyw beth a gafodd ei wneud cyn y dyddiad hwnnw gan y corff llywodraethu neu mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad â'r contract hwnnw neu â P i'w drin o'r dyddiad hwnnw ymlaen fel pe bai wedi ei wneud gan yr awdurdod lleol neu mewn perthynas ag ef.

(5) Yn y paragraff hwn, "P" yw person sydd—

(a) yn union cyn y dyddiad gweithredu yn gyflogedig gan y corff llywodraethu i weithio yn yr ysgol o dan sylw, neu

(b) cyn y dyddiad gweithredu, wedi ei benodi gan y corff llywodraethu i weithio yn yr ysgol o'r dyddiad gweithredu ymlaen neu ar ddyddiad diweddarach.

(6) Ond nid yw "P" yn cynnwys person y mae ei gontract cyflogaeth yn terfynu ar y diwrnod yn union cyn y dyddiad gweithredu.

(7) Nid yw'r paragraff hwn yn effeithio ar unrhyw hawl gan gyflogai i derfynu'r contract os gwneir (ar wahân i newid cyflogwr) newid sylweddol sy'n niweidiol i amodau gwaith y cyflogai.

*Newid i ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol*

5 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol sefydledig sydd â chymeriad crefyddol yn newid categori i ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys os bydd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, athro neu athrawes yn yr ysgol wirfoddol a reolir neu'r ysgol sefydledig yn mwynhau hawliau a roddwyd gan adran 59(2) i (4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn rhinwedd adran 60(2) o'r Ddeddf honno.

(3) Mae'r athro hwnnw neu'r athrawes honno i barhau i fwynhau'r hawliau hynny tra bydd yn gyflogedig fel athro neu athrawes yn yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir.

RHAN 3

TROSGLWYDDO TIR

*Effaith trosglwyddo*

6 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo tir yn cael ei drosglwyddo a'i freinio mewn corff yn unol â'r Atodlen hon, a

(b) pan fo'r trosglwyddwr yn mwynhau neu'n ysgwyddo unrhyw hawliau neu rwymedigaethau yn union cyn y dyddiad gweithredu mewn cysylltiad â'r tir hwnnw.

(2) Caiff yr hawliau neu'r rhwymedigaethau hynny hefyd eu trosglwyddo i'r corff hwnnw, ac yn rhinwedd yr Atodlen hon, eu breinio ynddo.

7 Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon o'r Atodlen hon, mewn perthynas ag ysgol, at dir yn cael ei drosglwyddo i gorff sefydledig a'i freinio ynddo yn gyfeiriad ato'n cael ei drosglwyddo i'r corff hwnnw a'i freinio ynddo at ddibenion yr ysgolion sy'n ffurfio'r grŵp y mae'r corff hwnnw'n gweithredu drosto.

8 Nid yw trosglwyddo tir o dan yr Atodlen hon yn effeithio ar hawliau'r corff llywodraethu mewn perthynas â'r tir o dan Atodlen 13 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

9 Yn ei gymhwysiad at drosglwyddo o dan yr Atodlen hon, mae Atodlen 10 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriadau sydd ynddi at y dyddiad trosglwyddo yn gyfeiriadau at y dyddiad gweithredu.

*Newid o ysgol gymunedol i ysgol wirfoddol a gynorthwyir*

10 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.

(2) Mae unrhyw dir ar wahân i gaeau chwarae a oedd yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio, yn union cyn y dyddiad gweithredu, gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol, ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.

11 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.

(2) Mae unrhyw dir ar wahân i gaeau chwarae neu dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio, yn union cyn y dyddiad gweithredu, gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig ac i'w freinio ynddo.

*Newid o ysgol gymunedol i ysgol wirfoddol a reolir*

12 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.

(2) Mae unrhyw dir ar wahân i gaeau chwarae a oedd yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio, yn union cyn y dyddiad gweithredu, gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol, ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.

13 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.

(2) Mae unrhyw dir ar wahân i gaeau chwarae neu dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio, yn union cyn y dyddiad gweithredu, gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig ac i'w freinio ynddo.

*Newid o ysgol sefydledig i ysgol gymunedol*

14 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

(2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.

(3) Mae unrhyw dir arall, a oedd, yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

15 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

(2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.

(3) Mae unrhyw dir arall, a oedd, yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol sefydledig, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

*Newid o ysgol sefydledig i ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir*

16 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.

(2) Mae unrhyw dir, ar wahân i dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol, ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.

17 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.

(2) Mae unrhyw dir, ar wahân i dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig, ac i'w freinio ynddo.

18 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.

(2) Mae unrhyw dir, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.

*Newid o ysgol wirfoddol a gynorthwyir i ysgol gymunedol*

19 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a gynorthwyir nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

(2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.

(3) Mae unrhyw dir arall, a oedd, yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

20 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

(2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.

(3) Mae unrhyw dir arall, a oedd, yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

*Newid o ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir i ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir*

21 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.

(2) Mae unrhyw dir, ar wahân i dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig, ac i'w freinio ynddo.

22 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.

(2) Mae unrhyw dir, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.

*Newid o ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir i ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir*

23 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig arall yn gweithredu drosto.

(2) Mae unrhyw dir, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig a grybwyllir yn is-baragraff (1)(a) at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b), ac i'w freinio ynddo.

*Newid o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol*

24 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a reolir nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

(2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.

(3) Mae unrhyw dir arall, a oedd, yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo yn unol â chytundeb trosglwyddo.

25 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a reolir sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

(2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgol yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ysgol wirfoddol a reolir, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.

(3) Mae unrhyw dir arall, a oedd, yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol wirfoddol a reolir i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

*Trosglwyddiadau heb eu cwblhau*

26 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys, yn union cyn y dyddiad gweithredu, mewn perthynas ag unrhyw newid categori sy'n digwydd mewn cysylltiad ag ysgol—

(a) pan fo'n ofynnol yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth statudol i drosglwyddo unrhyw dir a freiniwyd mewn awdurdod lleol i gorff llywodraethu neu i unrhyw ymddiriedolwyr yr ysgol, ond

(b) pan nad yw'r tir hyd yn hyn wedi ei drosglwyddo felly.

(2) Mae paragraffau 10 i 25 o'r Atodlen hon yn gymwys i'r ysgol fel pe bai'r tir wedi cael ei drosglwyddo felly erbyn yr adeg honno.

*Trosglwyddo hawl i ddefnyddio tir*

27 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) os yw paragraff 10, 11, 12 neu 13 yn gymwys i ysgol,

(b) os oedd unrhyw dir a oedd yn cael ei ddal gan berson neu gorff ar wahân i awdurdod lleol, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, ac

(c) os oedd yr awdurdod lleol yn mwynhau neu'n ysgwyddo unrhyw hawliau neu rwymedigaethau yn union cyn y dyddiad gweithredu mewn cysylltiad â defnydd o'r tir.

(2) Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau hynny, ar y dyddiad gweithredu, i'w trosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol, ac i'w freinio ynddynt, ac os nad oes ymddiriedolwyr, y corff llywodraethu.

28 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) os yw paragraff 14, 15, 19, 20, 24 neu 25 yn gymwys i ysgol,

(b) os oedd unrhyw dir a oedd yn cael ei ddal gan berson neu gorff ar wahân i gorff llywodraethu'r ysgol, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, ac

(c) os oedd y corff llywodraethu yn mwynhau neu'n ysgwyddo unrhyw hawliau neu rwymedigaethau yn union cyn y dyddiad gweithredu mewn cysylltiad â'r defnydd o'r tir.

(2) Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau hynny, ar y dyddiad gweithredu, i'w trosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w breinio ynddo.

29 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) os yw paragraff 14, 15, 19, 20, 24 neu 25 yn gymwys i ysgol,

(b) os oedd unrhyw dir a oedd yn cael ei ddal gan berson neu gorff ar wahân i unrhyw ymddiriedolwyr neu gorff sefydledig, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, ac

(c) os oedd yr ymddiriedolwyr neu'r corff sefydledig yn mwynhau neu'n ysgwyddo unrhyw hawliau neu rwymedigaethau yn union cyn y dyddiad gweithredu mewn cysylltiad â defnydd o'r tir.

(2) Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau hynny, ar y dyddiad gweithredu, i'w trosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w breinio ynddo yn unol â chytundeb trosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau.

(3) Ystyr "cytundeb trosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau" yw cytundeb—

(a) a wnaed at ddibenion is-baragraff (2) rhwng yr awdurdod lleol a'r ymddiriedolwyr neu'r corff sefydledig, a

(b) sy'n darparu i'r hawliau neu'r rhwymedigaethau o dan sylw gael eu trosglwyddo i'r awdurdod a chael eu breinio ynddo ar y dyddiad gweithredu, p'un a ydyw mewn cydnabyddiaeth o daliad ai peidio gan yr awdurdod o swm y cytunir arno rhwng y partïon.

*Eithrio rhag trosglwyddo*

30 Nid oes dim ym mharagraffau 10 i 25 yn cael yr effaith o drosglwyddo i unrhyw gorff neu freinio ynddo—

(a) unrhyw dir, hawliau neu rwymedigaethau a eithrir o dan baragraff 31 neu 32,

(b) unrhyw hawliau neu rwymedigaethau o dan gontract cyflogaeth,

(c) unrhyw rwymedigaeth gan awdurdod lleol, corff llywodraethu neu ymddiriedolwyr mewn cysylltiad â phrifswm unrhyw fenthyciad neu logau arno, neu

(d) unrhyw rwymedigaeth mewn cyfraith camwedd.

31 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os ceir y canlynol cyn y dyddiad gweithredu mewn perthynas ag unrhyw newid categori—

(a) bod y trosglwyddai a'r trosglwyddwr arfaethedig wedi cytuno'n ysgrifenedig y dylid eithrio unrhyw dir rhag gweithrediad paragraffau 10 i 25, a

(b) bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi eu cymeradwyaeth ysgrifenedig i'r cytundeb.

(2) Mae'r tir (ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau sy'n ymwneud ag ef) i'w eithrio felly.

32 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys yn absenoldeb cytundeb o dan baragraff 31—

(a) os yw'r trosglwyddai a'r trosglwyddwr arfaethedig wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i eithrio unrhyw dir rhag gweithrediad paragraffau 10 i 25, a

(b) os yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i'w eithrio.

(2) Mae'r tir (ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau sy'n ymwneud ag ef) i'w eithrio felly.

33 (1) Caiff cytundeb o dan baragraff 31 ddarparu bod y tir yn cael ei ddefnyddio neu ei ddal at ddibenion yr ysgol ar y cyfryw delerau ag a bennir neu a ddyfernir yn unol â'r cytundeb.

(2) O ran cyfarwyddiadau o dan baragraff 32—

(a) cânt roi unrhyw hawliau neu osod unrhyw rwymedigaethau y gellid bod wedi eu rhoi neu eu gosod drwy gytundeb o dan baragraff 31, a

(b) maent yn cael effaith fel pe baent wedi eu cynnwys mewn cytundeb o'r fath.

34 Ym mharagraffau 31 a 32—

ystyr "y trosglwyddai arfaethedig" ("*the prospective transferee*"), mewn perthynas ag unrhyw dir, yw'r corff (ar wahân i baragraffau 31 a 32) y byddai'r tir yn cael ei drosglwyddo iddo o dan baragraffau 10 i 25, a

mae "y trosglwyddwr arfaethedig" ("*the prospective transferor*") i'w ddehongli yn unol â hynny.

*Cyfyngiadau ar waredu neu ddefnyddio tir*

35 (1) At ddibenion paragraffau 36 a 37 mae'r weithdrefn i ddod yn ysgol mewn categori arall heb ei chwblhau mewn perthynas ag ysgol pan fo'r weithdrefn wedi ei dechrau gan y corff llywodraethu mewn perthynas ag ysgol a heb gael ei therfynu.

(2) Bernir bod y weithdrefn wedi ei dechrau mewn perthynas ag ysgol pan fo'r awdurdod lleol yn cael hysbysiad o gyfarfod y corff llywodraethu y mae cynnig ynddo i ystyried cael penderfyniad i ymgynghori ynghylch cynigion i newid categori.

(3) Bernir bod y weithdrefn wedi ei therfynu—

(a) os na chynhelir y cyfarfod,

(b) os cynhelir y cyfarfod ond na roddir y cynnig gerbron neu, er bod y cynnig wedi ei roi gerbron, nid yw'r penderfyniad yn cael ei basio,

(c) os na wneir yr ymgynghoriad yn unol ag adran 48,

(d) os na chaiff y cynigion y gwnaed yr ymgynghoriad mewn cysylltiad â hwy eu cyhoeddi yn unol ag adran 48,

(e) os caiff y cynigion eu gwrthod gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 neu gan awdurdod lleol o dan adran 51 neu os cânt eu tynnu'n ôl neu os yw'r corff llywodraethu wedi penderfynu peidio â'u gweithredu o dan adran 53, neu

(f) ar ddyddiad gweithredu'r cynigion.

36 (1) Tra bod y weithdrefn o ddod yn ysgol o gategori arall heb ei chwblhau mewn perthynas ag ysgol, ni chaiff awdurdod lleol, heb gydsyniad Gweinidogion Cymru—

(a) gwaredu unrhyw dir a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion yr ysgol, neu

(b) ymrwymo i gontract i waredu tir o'r fath.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gwarediad a wneir yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo, neu opsiwn a roddwyd, cyn bod y weithdrefn i ddod yn ysgol o gategori arall wedi ei dechrau mewn perthynas â'r ysgol.

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys—

(a) os caiff cynigion i ddod yn ysgol o gategori arall eu cymeradwyo neu os yw'r corff llywodraethu wedi penderfynu eu gweithredu, a

(b) os yw'n ofynnol dod i gytundeb o dan baragraff 2(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (dynodi eiddo, etc.) ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw dir sydd i'w drosglwyddo.

(4) Nid yw'r weithdrefn i ddod yn ysgol o gategori arall i'w thrin fel un a derfynwyd at ddibenion y paragraff hwn mewn perthynas â'r tir hwnnw tan y dyddiad y caiff y mater ei benderfynu'n derfynol.

(5) Nid yw gwarediad neu gontract yn annilys neu'n ddi-rym am yr unig reswm iddo gael ei wneud neu yr ymrwymwyd iddo yn groes i'r paragraff hwn ac nid yw person sy'n caffael tir, neu'n ymrwymo i gontract i gaffael tir, oddi wrth awdurdod lleol i ymboeni a ddylid gwneud ymholiadau a gafodd unrhyw gydsyniad sy'n ofynnol gan y paragraff hwn ei roi.

(6) Mae'r paragraff hwn yn cael effaith er gwaethaf unrhyw beth yn adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer cyffredinol i waredu tir) neu mewn unrhyw ddeddfiad arall; ac mae'r cydsyniad sy'n ofynnol gan y paragraff hwn yn ychwanegol at unrhyw gydsyniad sy'n ofynnol gan is-adran (2) o'r adran honno neu gan unrhyw ddeddfiad arall.

(7) Yn y paragraff hwn—

(a) mae cyfeiriadau at waredu tir yn cynnwys rhoi neu waredu unrhyw fuddiant yn y tir, a

(b) mae cyfeiriadau at ymrwymo i gontract i waredu tir yn cynnwys rhoi opsiwn i gaffael tir neu fuddiant o'r fath.

37 (1) Tra bod y weithdrefn ar gyfer dod yn ysgol o gategori arall heb ei chwblhau mewn perthynas ag ysgol, ni chaiff awdurdod lleol, heb gydsyniad Gweinidogion Cymru, gymryd unrhyw gamau mewn perthynas ag unrhyw dir yr awdurdod sy'n cael ei ddefnyddio neu ei ddal at ddibenion yr ysgol sy'n peri bod y tir i unrhyw raddau yn peidio â chael ei ddefnyddio neu ei ddal felly.

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys yn achos unrhyw ysgol—

(a) os yw cynigion bod ysgol yn dod yn ysgol o gategori arall yn cael eu cymeradwyo neu os yw'r corff llywodraethu yn penderfynu eu gweithredu, a

(b) os yw awdurdod lleol, mewn perthynas ag unrhyw dir, wedi cymryd camau yn groes i is-baragraff (1).

(3) Mae'r darpariaethau ynghylch trosglwyddo eiddo yn cael effaith fel pe bai'r eiddo, yn union cyn y dyddiad gweithredu, wedi cael ei ddefnyddio neu ei ddal gan yr awdurdod at y dibenion y cafodd ei ddefnyddio neu ei ddal pan ddechreuwyd y weithdrefn o ddod yn ysgol o gategori arall.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "y darpariaethau ynghylch trosglwyddo eiddo" yw darpariaethau'r Atodlen hon ac adran 198 of Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ac Atodlen 10 iddi, a

(b) mae'r cyfeiriadau at gymryd camau yn cynnwys perchnogi eiddo at unrhyw ddiben.

## RHAN 4

## ATODOL

*Llywodraethu ysgol*

38 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â gweithredu cynigion i newid categori ysgol o ran llywodraethu'r ysgol.

(2) Caiff y rheoliadau hynny (ymysg pethau eraill) wneud darpariaeth—

(a) ynghylch adolygu a disodli offeryn llywodraethu'r ysgol,

(b) ynghylch ailgyfansoddi ei chorff llywodraethu,

(c) sy'n cymhwyso, gydag addasiadau neu hebddynt, darpariaeth a wnaed gan neu o dan Bennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Addysg 2002 (llywodraethu ysgolion a gynhelir), a

(d) ynghylch materion trosiannol.

*Darpariaethau trosiannol - derbyniadau*

39 (1) Pan fo ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir mae unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad gweithredu gan yr awdurdod lleol fel awdurdod derbyn o dan unrhyw ddarpariaeth ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (trefniadau derbyn) yn cael effaith, o'r dyddiad gweithredu ymlaen, fel pe bai wedi ei wneud gan y corff llywodraethu.

(2) Pan fo ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn dod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a reolir mae unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad gweithredu gan y corff llywodraethu fel awdurdod derbyn o dan unrhyw ddarpariaeth ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cael effaith, o'r dyddiad gweithredu ymlaen, fel pe bai wedi ei wneud gan yr awdurdod lleol.

## ATODLEN 5

*(Cyflwynwyd gan adran 99)*

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

### RHAN 1

### DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â RHAN 2 (SAFONAU)

*Deddf Diwygio Addysg 1988*

1 (1) Mae adran 219 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (pwerau Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â sefydliadau addysgol penodol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3) ar ôl "institution" mewnosoder "in England".

(3) Ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(3A) Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 ("the 2013 Act") (intervention in conduct of maintained schools) has effect in relation to an institution in Wales to which this section applies as if—

(a) a reference to the governing body of a maintained school included a reference to the governing body of an institution to which this section applies;

(b) the only relevant grounds for intervention were grounds 5 and 6 in section 2 of the 2013 Act; and

(c) sections 3 to 9 and 12 to 16 of the 2013 Act did not apply."

*Deddf Addysg 1996*

2 (1) Mae Deddf Addysg 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 409(4) (cwynion a gorfodi: ysgolion a gynhelir yng Nghymru) yn lle'r geiriau o "section 496" i "duties)" rhodder "Chapter 1 or 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in conduct of maintained schools and local authorities)".

(3) Yn adran 484(7) (grantiau safonau addysg) yn lle "sections 495 to 497" rhodder "section 495 or in Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(4) Yn adran 496(2) (y pŵer i atal arfer afresymol o swyddogaethau)—

(a) ym mharagraff (a), ar ôl "local authority" mewnosoder "in England";

(b) ym mharagraff (b), ar ôl "school" ym mhob man yr ymddengys mewnosoder "in England".

(5) Yn adran 497(2) (pwerau diofyn cyffredinol am fethu â chyflawni dyletswydd)—

(a) ym mharagraff (a), ar ôl "local authority" mewnosoder "in England";

(b) ym mharagraff (b), ar ôl "school" ym mhob man yr ymddengys mewnosoder "in England".

(6) Yn adran 497A(1) (y pŵer i sicrhau cyflawni swyddogaethau'n briodol) yn lle "a local authority's education functions" rhodder "the education functions of a local authority in England".

(7) Yn adran 560(6) (profiad gwaith ym mlwyddyn olaf addysg orfodol mewn ysgol) ar ôl "or 496" mewnosoder "or Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(8) Ym mharagraff 6(4) o Atodlen 1 (unedau cyfeirio disgyblion) yn lle'r geiriau o "section 496" i "powers)" rhodder "Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities)".

*Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998*

3 Yn adran 19 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (gofyniad i ddilyn cyfnod ymsefydlu) yn lle is-adran (12) rhodder—

"(12) Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 ("the 2013 Act") (intervention in conduct of maintained schools) has effect in relation to duties imposed and powers conferred by virtue of this section as if—

(a) references to functions under the Education Acts included duties imposed and powers conferred by virtue of this section;

(b) references to the governing body of a maintained school included—

(i) the governing body of a special school not maintained by a local authority,

(ii) the governing body (within the meaning given by section 90(1) of the Further and Higher Education Act 1992) of a further education institution, and

(iii) an appropriate body for the purposes of subsection (2);

(c) the only relevant grounds for intervention were grounds 5 and 6 in section 2 of the 2013 Act; and

(d) sections 3 to 9 and 12 to 16 of that Act did not apply.

(13) Chapter 2 of Part 2 of the 2013 Act (intervention in local authorities) has effect in relation to duties imposed and powers conferred by virtue of this section as if references to education functions included duties imposed and powers conferred on a local authority by virtue of this section."

*Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*

4 (1) Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae Pennod 4 o Ran 1 (ymyrryd mewn ysgolion yng Nghymru sy'n peri pryder) wedi ei diddymu.

(3) Yn adran 51A (gwariant a wnaed at ddibenion cymunedol)—

(a) hepgorer "section 17 or";

(b) ar ôl "15" mewnosoder "or section 8 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(4) Yn adran 62 (pŵer wrth gefn i atal methiant mewn disgyblaeth)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) ar ôl "local authority" mewnosoder "in England";

(ii) hepgorer "or (3)";

(b) hepgorer is-adran (3).

(5) Yn adran 89C(2) (darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau i gydgysylltu trefniadau derbyn) yn lle ", sections 496" i'r diwedd rhodder—

"(a) Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 ("the 2013 Act") (intervention in conduct of maintained schools) is to apply as if any obligations imposed on a governing body under the scheme were duties imposed by the Education Acts.

(b) Chapter 2 of Part 2 of the 2013 Act (intervention in local authorities) is to apply as if any obligation imposed on a local authority were an education function."

(6) Yn adran 142(4)(b) (dehongli cyffredinol) hepgorer "of section 16(6) or (8)".

(7) Yn adran 143 (mynegai) yn y cofnod ar gyfer "maintained school", hepgorer y cofnod sy'n dechrau "(in Chapter 4 of Part 1)".

(8) Hepgorer Atodlen 1A (cyrff llywodraethu a ffurfiwyd o aelodau gweithrediaeth interim).

(9) Yn Atodlen 22 (gwaredu tir), ym mharagraff 5(1)(b)(i) yn lle "section 19(1)" rhodder "section 16 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

*Deddf Llywodraeth Leol 2000*

5 (1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (trefniadau gweithrediaeth yng Nghymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 10 rhodder—

"10 Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities) applies to the performance of any duty imposed on a local authority by virtue of paragraph 8 or 9 as it applies to the performance by a local authority of a duty that is an education function but as if—

(a) the only relevant grounds for intervention were grounds 1 and 2 in section 21 of that Act; and

(b) sections 24 to 27 of that Act did not apply."

(3) Ym mharagraff 11A yn lle "9" rhodder "10".

*Deddf Addysg 2002*

6 (1) Mae Deddf Addysg 2002 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 34(7) (trefniadau ar gyfer llywodraethu ysgolion newydd) ar ôl "State)" mewnosoder "and Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in conduct of maintained schools in Wales)".

(3) Yn adran 35(7) (staffio ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir)—

(a) hepgorer "section 17 of, or";

(b) ar ôl "2006" mewnosoder ", or section 8 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(4) Yn adran 36(7) (staffio ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig)—

(a) hepgorer "section 17 of, or";

(b) ar ôl "2006" mewnosoder ", or section 8 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(5) Yn adran 37(11) (taliadau mewn cysylltiad â diswyddo, etc)—

(a) hepgorer "section 17 of, or";

(b) ar ôl "1998 (c 31)" mewnosoder "or section 8 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(6) Hepgorer adrannau 55 i 59 ac adran 63 (pwerau ymyrryd).

(7) Yn adran 64 (darpariaethau sy'n atodol i bwerau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gael gwasanaethau cynghori)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) hepgorer "or 63",

(ii) hepgorer "or the National Assembly for Wales",

(iii) hepgorer "or it",

(iv) hepgorer "or the Assembly" (yn y ddau le);

(b) yn is-adran (2) hepgorer "or 63";

(c) yn is-adran (7) hepgorer "or 63" ac "or 63(2)".

(8) Hepgorer Atodlenni 5 a 6 (diwygiadau mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder a chyrff llywodraethu a ffurfiwyd o aelodau gweithrediaeth interim).

(9) Yn Atodlen 21 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraffau 92 i 94 a 103.

(10) Gweler hefyd y diwygiad a wnaed gan baragraff 21(11) o'r Atodlen hon i baragraff 5(2)(b)(iii) o Atodlen 1 (sy'n rhannol o ganlyniad i Ran 2 o'r Ddeddf hon).

*Deddf Plant 2004*

7 (1) Mae Deddf Plant 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 50 (ymyrryd)—

(a) yn is-adran (1) ar ôl "local authority" mewnosoder "in England";

(b) yn is-adran (2)(c) hepgorer "or under sections 25, 26 and 29 above (in the case of a local authority in Wales)";

(c) yn y pennawd ar ôl "Intervention" mewnosoder "- England".

(3) Ar ôl adran 50 mewnosoder—

**"50A Intervention – Wales**

(1) Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities) applies in relation to the functions of a local authority in Wales which are specified in subsection (2) as it applies in relation to a local authority's education functions but as if the only relevant ground for intervention were ground 3 in section 21 of that Act.

(2) The functions of a local authority are—

(a) functions conferred on or exercisable by the authority which are social services functions, so far as those functions relate to children;

(b) the functions conferred on the authority under sections 23C to 24D of the Children Act 1989 (so far as not falling within paragraph (a)); and

(c) the functions conferred on the authority under sections 25, 26 and 29 above.

(3) In the application of Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 by virtue of this section, section 27 of that Act (power to direct exercise of other education functions) has effect as if the reference to education functions included (for all purposes) the functions of the local authority which are specified in subsection (2).

(4) In this section—

"education functions" has the meaning given by section 579(1) of the Education Act 1996;

"social services functions" has the same meaning as in the Local Authority Social Services Act 1970."

*Deddf Addysg 2005*

8 (1) Mae Deddf Addysg 2005 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 45 (y pŵer i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau).

(3) Yn adran 114(8) (cyflenwi gwybodaeth am weithlu ysgol)—

(a) hepgorer "and" ar ddiwedd paragraff (a);

(b) ym mharagraff (b) ar y dechrau mewnosoder "in relation to England,";

(c) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"and

(c) in relation to Wales, provide that Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities) is to have effect as if—

(i) references to a local authority included a reference to a prescribed person,

(ii) duties imposed by virtue of this section were education functions,

(iii) the only relevant ground for intervention were ground 1 in section 21, and

(iv) sections 24 to 27 did not apply."

(4) Yn Atodlen 9 (diwygiadau mewn perthynas ag arolygu ysgol) hepgorer paragraffau 14 i 20.

(5) Gweler hefyd y diwygiad a wnaed gan baragraff 22(2)(b) o'r Atodlen hon i adran 28(4)(c) o Ddeddf Addysg 2005 (sy'n rhannol o ganlyniad i Ran 2 o'r Ddeddf hon).

*Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006*

9 (1) Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 7 (diwygiadau mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder) hepgorer paragraffau 3 i 14, 16, 17, 18, 19(b), a 21.

(3) Yn Atodlen 17 (diwygiadau amrywiol) hepgorer paragraffau 1, 2 a 6.

*Deddf Gofal Plant 2006*

10 Yn lle adran 29 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (pwerau Gweinidogion Cymru i sicrhau cyflawniad priodol etc) rhodder—

**"29 Powers of intervention of Welsh Ministers**

(1) Chapter 2 of Part 2 the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities) applies in relation to a Welsh local authority and the powers conferred or the duties imposed on it by, under or for the purposes of this Part as it applies in relation to the education functions (as defined by section 579(1) of the Education Act 1996) of such an authority.

(2) In the application of Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 by virtue of this section, section 27 of that Act (power to direct exercise of other education functions) has effect as if the reference to education functions included (for all purposes) functions of a Welsh local authority under this Part."

*Deddf Cydraddoldeb 2010*

11 (1) Mae adran 87 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cymhwyso pwerau penodol o dan Ddeddf Addysg 1996) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar y dechrau mewnosoder—

"(A1) Subsections (1) and (2) do not apply in the case of a school in Wales."

(3) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(3) In the case of a school in Wales—

(a) Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 ("the 2013 Act") (intervention in conduct of maintained schools) applies to the performance of a duty under section 85, but as if—

(i) the only relevant grounds for intervention were grounds 5 and 6 in section 2 of that Act, and

(ii) sections 3 to 9 and 12 to 16 of that Act did not apply;

(b) Chapter 2 of Part 2 of the 2013 Act (intervention in local authorities) applies to the performance of a duty under section 85, but as if—

(i) the only relevant grounds for intervention were grounds 1 and 2 in section 21 of that Act, and

(ii) sections 24 to 27 of that Act did not apply.

(4) But neither of Chapters 1 and 2 of Part 2 of the 2013 Act applies to the performance of a duty under section 85 by the proprietor of an independent educational institution (other than a special school)."

*Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009*

12 Yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 hepgorer adran 205 ac Atodlen 14 (pwerau mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder).

*Mesur Addysg (Cymru) 2011*

13 (1) Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 16 (ffedereiddio ysgolion sy'n peri pryder drwy gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru).

(3) Yn adran 18(1) (ffederasiynau: darpariaethau atodol)—

(a) yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir), neu";

(b) ym mharagraff (b) yn lle "o'r Ddeddf honno" rhodder "o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998".

RHAN 2

DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â RHAN 3 (TREFNIADAETH YSGOL)

*Deddf Diwygio Addysg 1988*

14 (1) Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 198(1) (trosglwyddo o dan Rannau 1 a 2) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"or

(d) Part 3 of Schedule 4 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013;".

*Mesur Byrddau Addysg Esgobaethol 1991*

15 (1) Mae Mesur Byrddau Addysg Esgobaethol 1991 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 3 (gweithrediadau pan fo cyngor neu gydsyniad y Bwrdd yn ofynnol)—

(a) hepgorer is-adran (1)(a)(ii), (b)(ii) a (d);

(b) yn is-adran (1)(c) yn lle "1998 Act" rhodder "School Standards and Framework Act 1998 ("the 1998 Act")".

(3) Yn adran 7 (pwerau'r Bwrdd i roi cyfarwyddiadau i gyrff llywodraethu ysgolion eglwysig gwirfoddol a gynorthwyir)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) hepgorer paragraffau (a)(ii), (b)(ii) ac (c);

(ii) ym mharagraff (b)(i) yn lle "1998 Act" rhodder "School Standards and Framework Act 1998";

(b) yn is-adran (1A) hepgorer "or paragraph 2 or 3 of Schedule 8 to the 1998 Act";

(c) yn is-adran (3)—

(i) ym mharagraff (a) hepgorer "or section 28(2)(b) of the 1998 Act";

(ii) hepgorer paragraff (b);

(iii) yn y geiriau ar ôl paragraff (b) hepgorer "the 1998 Act and".

*Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992*

16 (1) Mae Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 58 (ad-drefnu ysgolion sy'n ymwneud â sefydlu corfforaeth addysg bellach)—

(a) yn is-adran (3), yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) a relevant alteration has been made to the school,";

(b) hepgorer is-adran (4);

(c) ar y diwedd mewnosoder—

"(5) In subsection (3)(b) "relevant alteration" means—

(a) in the case of a school in England, a prescribed alteration within the meaning of section 18 of the Education and Inspections Act 2006, and

(b) in the case of a school in Wales, a regulated alteration within the meaning of Chapter 2 of Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013."

*Deddf Addysg 1996*

17 (1) Mae Deddf Addysg 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 5(3A)(b) (ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion canol)—

(a) mae'r geiriau ar ôl "Wales," yn mynd yn is-baragraff (i);

(b) ar ôl "1998" mewnosoder—

", and

(ii) section 48, 59 or 68 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(3) Yn adran 394 (penderfynu achosion pan nad yw'r gofyniad ar gyfer addoli cynulleidfaol Cristnogol i fod yn gymwys), hepgorer is-adran (9)(b).

(4) Yn adran 409(2) (cwynion a gorfodi: ysgolion a gynhelir yng Nghymru), hepgorer "or foundation special".

(5) Yn adran 529(2) (y pŵer i dderbyn rhoddion ar ymddiried at ddibenion addysgol)—

(a) yn lle "28 and 31 of the School Standards and Framework Act 1998" rhodder "41 and 44 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(b) yn lle'r geiriau o "(so that" i "in Wales)" rhodder "and sections 48 to 55 of, and Schedule 3 to, that Act (school organisation proposals".

(6) Yn adran 530(3)(b) (prynu tir yn orfodol) o'r geiriau o "paragraph 18" i'r diwedd rhodder "paragraph 9 of Schedule 3 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (assistance in respect of maintenance and other obligations relating to voluntary aided schools) including that paragraph as applied by section 76(3) of that Act".

*Deddf Addysg 1997*

18 (1) Mae Deddf Addysg 1997 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 29 (swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chwricwlwm ac asesu)—

(a) yn is-adran (5) yn y diffiniad o "maintained school", hepgorer "or foundation";

(b) yn is-adran (6) hepgorer "or foundation".

(3) Yn adran 43(2)(c) (darparu addysg gyrfaoedd mewn ysgolion yng Nghymru), hepgorer "or foundation".

*Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*

19 (1) Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 20(2A)(b) (categorïau newydd o ysgolion a gynhelir) ar ôl "this Act" mewnosoder "or sections 45 to 55 of, and Schedule 4 to, the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(3) Yn adran 21(6) (mathau o ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a mathau o sefydliadau)—

(a) ym mharagraff (a)—

(i) hepgorer "in accordance with Schedule 8 or", a

(ii) ar ôl "Act 2006" mewnosoder "or in accordance with proposals made under section 45 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(b) ym mharagraff (f)—

(i) yn is-baragraff (i), hepgorer "under paragraph 2 of Schedule 8 or" ac ar ôl "Act 2006" mewnosoder "or under section 48 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013",

(ii) yn is-baragraff (ii) yn lle "that paragraph or that section" rhodder "either of those sections",

(iii) hepgorer is-baragraff (iii).

(4) Hepgorer adrannau 28 a 29 (cynigion ar gyfer sefydlu, newid a therfynu ysgolion prif ffrwd).

(5) Yn adran 30 (hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol)—

(a) yn is-adran (1) ar ôl "voluntary school" mewnosoder "in England";

(b) yn is-adran (3) hepgorer paragraff (b);

(c) yn is-adran (9) hepgorer paragraff (a);

(d) yn y pennawd ar ôl "voluntary school" mewnosoder "in England".

(6) Hepgorer adrannau 31 i 35 (darpariaethau'n ymwneud ag ysgolion arbennig, rhesymoli lleoedd ysgol a newid categori ysgolion).

(7) Yn adran 49(6) (ysgolion a gynhelir i gael cyllidebau dirprwyedig)—

(a) hepgorer "paragraph 14(2) of Schedule 6, paragraph 3(3) of Schedule 7A to the Learning and Skills Act 2000",

(b) ar ôl "2002" mewnosoder "section 75(2)(b) of, or paragraph 4 of Schedule 3 to, the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(8) Yn adran 82(1) (addasu gweithredoedd ymddiriedolaeth), yn lle "or the Academies Act 2010" rhodder ", the Academies Act 2010 or the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(9) Hepgorer adran 101(3) (dethol a ganiateir: bandio disgyblion).

(10) Yn adran 103(2)(b) (dethol a ganiateir: cyflwyno, amrywio neu roi'r gorau i ddarpariaeth ar gyfer dethol o'r fath) yn lle "prescribed alteration for the purposes of section 28" rhodder "regulated alteration within the meaning of Chapter 2 of Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(11) Yn adran 143 (mynegai)—

(a) hepgorer y cofnod sy'n dechrau "alteration";

(b) hepgorer y cofnod sy'n dechrau "area";

(c) hepgorer y cofnod sy'n dechrau "discontinuing";

(d) hepgorer y cofnod sy'n dechrau "promoters";

(e) hepgorer y cofnod sy'n dechrau "school opening date".

(12) Yn Atodlen 3 (cyllido ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig sefydledig)—

(a) ym mharagraff 2(2)(a)(ii), yn lle'r geiriau o "or promoters" i "proposals)" rhodder "or the person by whom proposals were made is required to provide by virtue of Part 2 of Schedule 3 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (provision of premises and other assistance)";

(b) ym mharagraff 7—

(i) yn is-baragraff (3)(a) ar ôl "28," mewnosoder—

"(ia) the implementation of proposals made under section 42 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 to make a regulated alteration to a school,";

(ii) yn is-baragraff (5) yn lle "to the promoters" rhodder—

"(a) in relation to England, to the promoters, and

(b) in relation to Wales, to the person who made the proposals under section 41(2) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(13) Hepgorer Atodlenni 6 i 8 (darpariaethau'n ymwneud â gweithdrefn a gweithredu cynigion statudol, rhesymoli lleoedd ysgol a newid categori ysgolion).

(14) Yn Atodlen 22 (gwaredu tir)—

(a) ym mharagraff 1,—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle ", voluntary or foundation special" rhodder "or voluntary";

(ii) ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder—

"(aa) any land acquired under paragraph 7 of Schedule 3 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, under that paragraph as applied by section 76(1) of that Act or under Part 3 of Schedule 4 to that Act;";

(b) ym mharagraff 2, ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder—

"(aa) any land acquired under paragraph 7 or 11 of Schedule 3 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, under either of those paragraphs as applied by section 76(1) or (3) of that Act or under Part 3 of Schedule 4 to that Act;";

(c) ym mharagraff 2A—

(i) yn is-baragraff (1) hepgorer "or foundation special";

(ii) ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder—

“(aa) any land acquired under paragraph 7 of Schedule 3 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, under that paragraph as applied by section 76(1) of that Act or under Part 3 of Schedule 4 to that Act;”;

(iii) yn is-baragraff (1)(b) ar ôl “(a)” mewnosoder “or (aa)”;

(iv) yn is-baragraff (1)(c) hepgorer “or foundation special”;

(v) yn is-baragraff (2)(a)(ii) ar ôl “(a)” mewnosoder “or (aa)”;

(vi) yn is-baragraff (2)(b) ar ôl “(a)” mewnosoder “or (aa)”;

(vii) yn is-baragraff (6) hepgorer “or foundation special school”;

(viii) yn y pennawd hepgorer “or foundation special school”;

(d) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle “, voluntary or foundation special” rhodder “or voluntary”;

(ii) ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder—

“(aa) any land acquired under paragraph 7 or 11 of Schedule 3 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, under those paragraphs as applied by section 76(1) or (3) of that Act or under Part 3 of Schedule 4 to that Act;”;

(iii) yn is-baragraff (3) ar ôl “(a)” mewnosoder “or (aa),”;

(iv) yn is-baragraff (4)(c)(ii) ar ôl “this Act” mewnosoder “or under paragraph 7(6) of Schedule 3 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”;

(v) yn is-baragraff (8)(b)(i) yn lle “, voluntary or foundation special” rhodder “or voluntary”;

(vi) yn is-baragraff (8)(b)(ii) yn lle “foundation, voluntary or foundation special” rhodder “voluntary”;

(vii) yn is-baragraff (12) yn lle “, voluntary or foundation special” rhodder “or voluntary“;

(viii) yn y pennawd yn lle “, voluntary or foundation special” rhodder “or voluntary”;

(e) ym mharagraff 4(1)(a)(i) yn lle “, voluntary or foundation special” rhodder “or voluntary”;

(f) ym mharagraff 5—

(i) yn is-baragraff (1)(b)(i) yn lle “, voluntary or foundation special” rhodder “or voluntary”;

(ii) hepgorer is-baragraff (1)(b)(ii);

(iii) yn is-baragraff (4)(c) ar ôl “alteration” mewnosoder “or regulated alteration”;

(iv) yn is-baragraff (4A) hepgorer "or foundation special" ac ar ôl "(a)," mewnosoder "(aa),";

(v) yn is-baragraff (4B)(b)(ii) hepgorer "or foundation special";

(vi) yn is-baragraff (4B)(d) ar ôl "alteration" mewnosoder "or regulated alteration";

(vii) yn is-baragraff (6)(a) ar ôl "2A(1)(a)," mewnosoder "(aa),";

(g) ym mharagraff 6—

(i) yn is-baragraff (1) ar ôl "section 30(1)" mewnosoder "or section 80 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(ii) yn is-baragraff (2)(a) ar ôl "section 30(2)" mewnosoder "or section 80(2) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(h) ym mharagraff 8—

(i) yn is-baragraff (1) ar ôl "section 30(10)" mewnosoder "or section 80(11) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(ii) yn is-baragraff (2) ar ôl "section 30(2)(a) to (d)" mewnosoder "or section 80(2) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(i) ym mharagraff 10 ar ôl is-baragraff (1)(e) mewnosoder—

"(f) "regulated alteration" has the same meaning as in Chapter 2 of Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013."

*Deddf Dysgu a Sgiliau 2000*

20 (1) Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 33P(3)(b)(i) (cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i fyfyrwyr sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig neu fyfyrwyr a chanddynt anawsterau dysgu) hepgorer "or foundation".

(3) Ar ôl adran 83(9) (arolygiadau ardal) mewnosoder—

"(9A) For provision on reporting on sixth forms found to be causing concern in an area inspection, see sections 44C and 44E of the Education Act 2005."

(4) Hepgorer adrannau 113 a 113A.

(5) Yn adran 126(3)(b) (sefydliadau addysgol: gwybodaeth a mynediad) hepgorer "or foundation".

(6) Hepgorer y darpariaethau a ganlyn—

(a) Atodlenni 7 a 7A;

(b) paragraffau 84, 89 a 90 o Atodlen 9.

*Deddf Addysg 2002*

21 (1) Mae Deddf Addysg 2002 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 19(2)(e) (cyrff llywodraethu) hepgorer ", a foundation special school".

(3) Hepgorer adran 72 (ailstrwythuro addysg chweched dosbarth).

(4) Yn adran 97 (dehongli Rhan 7)—

(a) ym mharagraff (b) yn y diffiniad o "maintained school" hepgorer "or foundation";

(b) yn y diffiniad o "maintained secondary school" hepgorer "or foundation".

(5) Yn adran 111(4) (gwaith datblygu ac arbrofion) yn lle ", voluntary aided or foundation special" rhodder "or voluntary aided".

(6) Yn adran 116N(3)(b) (cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i blant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig) hepgorer "or foundation".

(7) Yn adran 129(6)(b) (trosglwyddo cyflogaeth) ar ôl "1998" mewnosoder "or Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(8) Yn adran 153(4) (pwerau awdurdod lleol mewn cysylltiad ag addysg feithrin a ariennir) yn y diffiniad o "maintained school" hepgorer "or foundation".

(9) Hepgorer adran 154 (sefydlu neu newid ysgolion meithrin a gynhelir).

(10) Hepgorer adrannau 191 i 193 (darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig).

(11) Ym mharagraff 5(2)(b) o Atodlen 1 (ymgorfforiad a phwerau corff llywodraethu) yn lle paragraffau (i) i (iii) rhodder—

"(i) the date on which proposals for discontinuing the school are implemented under Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013,

(ii) the date on which the school is discontinued under section 80 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, or

(iii) the date specified in a direction given under section 16(2) or 81(1) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".

(12) Hepgorer Atodlenni 9 a 10 (cynigion sy'n ymwneud â chweched dosbarth a sefydlu ysgolion).

(13) Yn Atodlen 21 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraffau 98, 115, 116 a 126.

*Deddf Addysg 2005*

22 (1) Mae Deddf Addysg 2005 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 28 (dyletswydd i drefnu arolygiadau rheolaidd ar ysgolion penodol)—

(a) yn is-adran (2)(b) hepgorer "and foundation",

(b) yn is-adran (4)—

(i) ym mharagraff (a) hepgorer "or foundation";

(ii) ym mharagraff (b) yn lle "section 30 of the School Standards and Framework Act 1998 (c31)" rhodder "section 80 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(iii) ym mharagraff (c) hepgorer "or foundation" ac yn lle "section 19 or 32 of that Act" rhodder "section 16(2) or 81(1) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(iv) ym mharagraff (d) hepgorer "or foundation".

(3) Yn adran 31(1) (dehongli Pennod 3) yn y diffiniad o "maintained school" hepgorer "or foundation".

(4) Yn adran 41(3) (cyrchfan adroddiadau: ysgolion nas cynhelir) hepgorer "or foundation".

(5) Yn adran 42(4) (datganiad i'w lunio gan berchennog ysgol) hepgorer "or foundation".

(6) Yn adran 43 (dehongli Pennod 4) yn y diffiniad o "maintained school" hepgorer "or foundation".

(7) Hepgorer y darpariaethau a ganlyn—

(a) adran 46 (chweched dosbarth lle y mae gwelliant arwyddocaol yn ofynnol);

(b) adrannau 68, 69, 70, 71 (trefniadaeth ysgol).

(8) Ym mharagraff 1 o Atodlen 4 (arolygiadau ysgol yng Nghymru o dan adran 28) yn y diffiniad o "appropriate authority" hepgorer "or foundation".

(9) Hepgorer y darpariaethau a ganlyn—

(a) Atodlen 5 (chweched dosbarth lle y mae gwelliant arwyddocaol yn ofynnol);

(b) paragraffau 7, 8, 13 a 14 o Atodlen 12 (diwygiadau'n ymwneud â threfniadaeth ysgol).

*Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006*

23 (1) Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 54(1)(e) (bandio disgyblion).

(3) Yn Atodlen 3 (diwygiadau'n ymwneud â threfniadaeth ysgol) hepgorer paragraffau 14(b)(ii), 18, 20, 22 i 26, 33 i 36, 46 a 50.

(4) Yn Atodlen 14 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraffau 61 a 66.

*Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*

24 (1) Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 5(1)(a) a (b) o Atodlen 1 (darpariaeth bellach am Weinidogion Cymru a gwasanaethau o dan y Ddeddf hon) yn lle ", voluntary or foundation special" rhodder "or voluntary".

*Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008*

25 (1) Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 24(1) (dehongli cyffredinol) yn y diffiniad o "ysgol a gynhelir" hepgorer "neu ysgol arbennig sefydledig".

*Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*

26 (1) Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 44 (llwybrau dysgu: dehongli) yn y diffiniad o "ysgol a gynhelir" hepgorer "neu ysgol arbennig sefydledig".

*Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009*

27 (1) Mae Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 11 (dehongli) yn y diffiniad o "ysgol a gynhelir" hepgorer "neu sefydledig".

*Deddf Cydraddoldeb 2010*

28 (1) Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4 o Atodlen 11 (ysgolion un rhyw yn troi i fod yn ysgolion cydaddysgol) —

(a) yn is-baragraff (2) yn lle'r geiriau o "paragraph 22" i "1998" rhodder "section 82 of, or Part 3 of Schedule 3 to, the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(b) hepgorer is-baragraff (5).

*Mesur Addysg (Cymru) 2011*

29 (1) Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 8 (dehongli Rhan 1) yn y diffiniad o "ysgol a gynhelir" hepgorer "neu ysgol arbennig sefydledig".

(3) Yn adran 13(b) (corff llywodraethu sengl ar gyfer ffederasiynau) yn lle'r geiriau o "ym Mhennod 2" i'r diwedd rhodder "yn Rhan 3 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (trefniadaeth ysgolion) neu yn Rhan 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (derbyniadau i ysgolion)".

(4) Hepgorer adran 20 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Addysg 2005).

(5) Yn adran 21(1) (dehongli Pennod 1) yn y diffiniad o "ysgol a gynhelir" hepgorer "neu ysgol sefydledig arbennig".

(6) Hepgorer adrannau 26 i 30 (ysgolion sefydledig).

*Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*

30 (1) Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2 o Atodlen 6 yn y diffiniad o "corff llywodraethu ysgolion" hepgorer "neu ysgol arbennig sefydledig".

RHAN 3

DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â RHAN 5 (DYLETSWYDDAU AMRYWIOL YSGOLION)

*Deddf Addysg 1996 a gorchmynion a wneir odani*

31 (1) Yn adran 512A(6) o Ddeddf Addysg 1996 (trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 512 i gyrff llywodraethu), hepgorer o "and such" i'r diwedd.

(2) Yng Ngorchymyn Addysg (Trosglwyddo Swyddogaethau Ynghylch Ciniawau Ysgol) (Cymru) 1999 (OS 1999/610), hepgorer erthygl 4.

(3) Yng Ngorchymyn Addysg (Trosglwyddo Swyddogaethau Ynghylch Ciniawau Ysgol) (Cymru) (Rhif 2) 1999 (OS 1999/1779), hepgorer erthygl 4.

*Deddf Addysg 2002*

32 Yn Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraff 110.

*Deddf Addysg 2005*

33 Yn adran 103 o o Ddeddf Addysg 2005 (cyfarfodydd blynyddol rhieni) hepgorer is-adran (2) a (3)(a)(ii).

*Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006*

34 (1) Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 58 (cod ymarfer o ran y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir).

(3) Yn adran 87 (y pŵer i godi tâl am ddarparu prydau bwyd)—

(a) yn is-adran (1), hepgorer paragraff (b);

(b) yn is-adran (2), hepgorer paragraff (b).

*Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009*

35 Yn adran 8(2)(b) o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (sy'n darparu i is-adran (4A) newydd gael ei mewnosod yn adran 512 o Ddeddf Addysg 1996), yn lle "7(5)" rhodder "4".

*Deddf Addysg 2011*

36 Yn adran 35 o Ddeddf Addysg 2011 (dyletswyddau mewn perthynas â phrydau bwyd)—

(a) yn is-adran (2) hepgorer paragraff (b);

(b) yn is-adran (3) hepgorer paragraff (b).

©Ⓒ Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

# ADDYSG GYNRADD O'R ANSAWDD GORAU I BLANT GWYNEDD



## 1. EIN GWELEDIGAETH

***"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn."***

## 2. EIN HAMCANION

Er mwyn gwireddu'r uchod, mae'r Gweithgor wedi cytuno ar yr amcanion canlynol:

- Cynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant y Sir drwy sicrhau **dosbarthiadau o faint addas** ac **arweinyddiaeth o ansawdd uchel** yn ein hysgolion;
- Anelu i **hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg** - fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol - wrth roi cynigion newydd yn eu lle ar gyfer addysg gynradd y Sir;
- Ymateb i anghenion a chyfleon yn y gyfundrefn addysg gynradd bresennol drwy **fod yn rhagweithiol a chreadigol**, gan weithio ar y cyd gydag eraill tuag at **gynllun hir dymor** fydd yn gynaliadwy ac ymarferol;
- Gwneud y **defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael** – yn ddynol, technolegol, ariannol – fel bod plant yn cael y budd mwyaf o wariant y Sir ar addysg;
- **Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir** drwy wella cyfleusterau ac adeiladau;
- Datblygu ein hysgolion i fod yn **sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.**

## 3. EIN STRATEGAETH

3.1 Mae'r Gweithgor eisoes wedi penderfynu bod **"rhaid cael newid mewn rhai ardaloedd am nifer o resymau".** Er mwyn cynllunio a rheoli'r newid, mae gofyn cael strategaeth glir ac ymarferol.

3.2 Penderfynwyd yn ogystal gan y Gweithgor y dylai dalgylchoedd ysgolion uwchradd fod yn sail ar gyfer y gwaith cynllunio manwl. Mae rhestr o'r dalgylchoedd hyn i'w gweld yn *Atodiad 1*.

3.3 Bydd y strategaeth i wireddu ein Gweledigaeth a'n Hamcanion yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Bod angen cynllunio'r newid fesul dalgylch, gan flaenoriaethu'r dalgylchoedd ble mae'r angen am y newid fwyaf amlwg a chlir;
- Bod graddfa, natur ac amserlen y newid am amrywio o dalgylch i dalgylch;
- Bod angen cynllunio'r newid fesul dalgylch law yn llaw gyda chynrychiolwyr lleol - mewn rhai dalgylchoedd bydd posib trafod nifer o opsiynau ac mae modd ystyried syniadau am newid fydd yn deillio o'r drafodaeth leol;
- Bod fframwaith adolygu clir a theg yn cael ei weithredu ar gyfer dalgylchoedd ac ysgolion unigol - bydd y fframwaith yn gyd-destun pwysig wrth benderfynu graddfa, natur ac amserlen y newid mewn dalgylchoedd penodol;
- Bod unrhyw gynnig i newid y ddarpariaeth addysg gynradd yn lleol yn cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith addysgol a chymunedol.
- Bod y Cyngor yn ymrwymo i gadw unrhyw arbedion sy'n deillio o ad-drefnu ysgolion yn y gyfundrefn addysg.

## 4. YSTYRIAETHAU AR GYFER Y FFRAMWAITH ADOLYGU

Pwrpas y Fframwaith Adolygu yw cefnogi'r broses o flaenoriaethu'r dalgylchoedd ble mae'r angen am y newid fwyaf amlwg a chlir. Defnyddir yr ystyriaethau isod er mwyn blaenoriaethu dalgylchoedd i'w hadolygu. Yn ogystal, fe'u defnyddir i gefnogi'r gwaith o benderfynu graddfa a natur y newid fydd ei angen yn y dalgylchoedd gwahanol.

### 4.1. Maint Dosbarthiadau

4.1.1 Ein disgwyliadau yw y bydd dosbarthiadau o'r maint addas yn ysgolion cynradd Gwynedd fel bod y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl yn cael eu cynnig i blant y Sir.

4.1.2 Ar hyn o bryd, mae maint dosbarthiadau yn amrywio yn sylweddol drwy'r Sir, gan effeithio ar brofiadau addysgol plant. Mewn rhai dalgylchoedd, mae dosbarthiadau mawr ac uwchlaw 30 mewn nifer. Mae'r Cyngor yn credu bod dosbarthiadau mawr iawn yn cael effaith negyddol ar brofiadau addysgol plant. Cefnogir hyn gan ymchwil diweddar (Blatchford et al, Sefydliad Addysg Llundain, 2008). Ar y llaw arall mae dosbarthiadau bach iawn yn nifer o ysgolion y Sir. Mewn adroddiad i Gyngor Gwynedd (2004) gan y cyn brif arolygydd addysg yng Nghymru, Roy James, , nodwyd bod "*nifer fach o ddisgyblion a geir mewn grwpiau blwyddyn yn yr ysgolion lleiaf yn arwain at lai o gystadleuaeth a symbyliad academaidd, a llai o gyfle i fanteisio ar amrediad amrywiol o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol*". Bydd y Cyngor yn anelu i leihau maint dosbarthiadau mawr a chryfhau maint dosbarthiadau lleiaf y sir er mwyn sicrhau y caiff y disgyblion amrediad llawn o brofiadau a sylw priodol.

4.1.3 Ar y sail uchod, byddwn yn anelu – drwy ein cynlluniau – i gyflawni'r canlynol o ran maint dosbarthiadau:

- Na fydd mwy na 30 o ddisgyblion o un oed mewn dosbarth Cyfnod Allweddol 2;
- Y byddwn, dros gyfnod o flynyddoedd, yn anelu i sicrhau uchafswm o 25 disgybl o'r un oed mewn dosbarth cynradd;
- Anelu at sicrhau nad oes gan unrhyw ddosbarth oed cymysg fwy na 20 disgybl na llai na 12 disgybl.

4.1.4 *Bydd "maint dosbarthiadau" felly yn ddangosydd allweddol wrth flaenoriaethu dalgylchoedd i'w hadolygu.*

### 4.2. Poblogaeth a Niferoedd Disgyblion

4.2.1 Ein disgwyliadau yw bod angen adlewyrchu tueddiadau o ran poblogaeth a niferoedd disgyblion cynradd wrth gynllunio ar gyfer dyfodol addysg mewn dalgylchoedd gwahanol.

4.2.2 Mae gwaith gan Wasanaeth Ysgolion Gwynedd yn dangos bod niferoedd disgyblion y Sir wedi lleihau 21% ar draws y Sir ers 1975. Mae pob dalgylch wedi gweld lleihad yn ei niferodd o leiaf 11%. Mae'r lleihad yn amrywio o ardal i ardal, gydag Arfon yn profi gostyngiad o 15%, Dwyfor 27% a Meirionnydd 28%. Mae dros 2,000 yn llai o blant yn ysgolion y Sir (oed 5-10) heddiw nag oedd yn 1975.

4.2.3 Mae'r gostyngiad sylweddol yn niferoedd y disgyblion yn golygu bod gan y Sir lefelau uchel o lefydd gweigion yn ei hysgolion Cynradd. Yn Ionawr 2008, roedd gan 55% o ysgolion cynradd Gwynedd fwy na 25% o'u lleoedd heb eu llenwi. Mae'r gostyngiad mewn niferoedd hefyd wedi arwain, yn naturiol, at gynnydd yn y nifer o ysgolion cynradd yn y sir sydd a 39 neu lai o blant (ysgolion yn y "rhwyd diogelwch"). Ar hyn o bryd mae 30 o ysgolion o fewn y Sir yn y categori yma.

4.2.4 Mae'n wir dweud, serch hynny, bod rhai cymunedau wedi profi twf yn niferoedd y disgyblion ers 1975. Mae rhai o'r ysgolion yn y cymunedau hyn yn wynebu anawsterau sylweddol er mwyn dygymod gyda'r twf ym mhoblogaeth plant, ac yn ei chael hi'n anodd cadw maint dosbarthiadau o dan 30.

4.2.5 Mae gofyn hefyd edrych ar ragolygon poblogaeth i'r dyfodol - er nad yw hyn yn wyddor fanwl. Mae ysgolion y sir yn cyflwyno rhagolygon tair blynedd pob mis Medi i'r Awdurdod. Ar sail ffigyrau ysgolion unigol yn Medi 2008, bydd lleihad pellach o tua 4% dros y 3 blynedd nesaf. Os gwireddir hyn, bydd lleihad o bron 10% yn niferoedd disgyblion cynradd y sir rhwng 2006-2011.

4.2.6 Mae rhagolygon hyd at 2016 yn amrywio, gan ddibynnu ar y fethodoleg a ddefnyddir. Fe gyflwynir papur yn *Atodiad 2* gan Uned Ymchwil y Cyngor sy'n cyflwyno gwybodaeth am ragolygon poblogaeth i Wynedd.

4.2.7 O ran y Fframwaith Adolygu, *bydd graddfa'r newid yn niferoedd y disgyblion ers 1975 yn y dalgylch yn ddangosydd allweddol wrth flaenoriaethu. Mae hyn yn fodd o sicrhau bod unrhyw ostyngiad sylweddol mewn niferoedd yn cael ei gydnabod wrth gynllunio ar gyfer dyfodol addysg gynradd mewn dalgylchoedd gwahanol.*

## 4.3. Amgylchedd Dysgu'r Plentyn

4.3.1 Ein disgwyliadau yw bod yr "amgylchedd dysgu" i blant ac athrawon y Sir – fel cyflwr yr ysgol, y dosbarth, ystafell athrawon, y ddarpariaeth chwarae – yn bodloni gofynion addysgu a dysgu yn y 21ain Ganrif.

4.3.2 Mae pryder gwirioneddol ynglŷn â chyflwr ac addasrwydd nifer o ysgolion cynradd y Sir. Mae angen buddsoddiad sylweddol yn yr adeiladau er mwyn ymateb i faterion iechyd a diogelwch ac i gyrraedd safonau priodol. Mae nifer o ysgolion mewn cyflwr gwael. Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn amlinellu costau ôl-groniad cynnal a chadw ysgolion Gwynedd fel £12.6miliwn. Yn ychwanegol i hyn, mae pryder am gyflwr adeiladau dros dro mewn ysgolion - gall hyn olygu anghenion gwariant o tua £11miliwn. Mae costau uwchraddio ac addasu adeiladau ysgolion y sir i ymateb i ofynion y cwricwlwm newydd a safonau sy'n ddisgwyliedig yn fwy sylweddol eto.

4.3.3 Yn ôl adroddiad Estyn yn 2007 (Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol) "*nid yw hen adeiladau ysgol sydd mewn cyflwr gwael yn gallu bodloni anghenion addysgu a dysgu modern. Mae adeiladau annigonol yn gwneud gwelliannau mewn safonau cyflawniad yn fwy heriol…. Caiff gwelliannau yn ansawdd adeiladau effaith fuddiol iawn ar ansawdd yr addysgu a moral staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion*".

4.3.4 Ar sail yr uchod, byddwn yn anelu – drwy ein cynlluniau – i gyflawni'r canlynol o ran amgylchedd dysgu'r plentyn:

- I ystyried canfyddiadau ac oblygiadau Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor a'r gost o atgyweirio, adnewyddu ac addasu adeiladau ysgolion;
- Y cyfleon o ddenu cyfalaf o wahanol ffynonellau er mwyn adeiladu ysgolion newydd neu adnewyddu yn sylweddol rai o'r ysgolion presennol;
- Anelu i sicrhau adeiladau o ansawdd o fewn y Sir trwy fabwysiadu cynllun bwriadus er mwyn darparu addysg gynradd, gan roi ystafelloedd pwrpasol i benaethiaid ac athrawon a mynediad at gaeau chwarae a neuadd addas i blant. Bydd gofyn hefyd sicrhau bod adeiladau yn ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm newydd 2008.

4.3.5 *O ran y Fframwaith Adolygu, bydd y wybodaeth am gyflwr ac addasrwydd ysgolion cynradd yn ystyriaeth allweddol wrth flaenoriaethu dalgylchoedd i'w hadolygu.*

## 4.4. Arweinyddiaeth

4.4.1 Ein disgwyliadau yw bod penaethiaid yn cael tegwch i fedru arwain a rheoli yn broffesiynol yn eu hysgolion.

4.4.2 Does dim dwywaith nad yw ansawdd uchel Pennaeth fel arweinydd yn ffactor allweddol wrth greu ysgol lwyddiannus. Byddai galluogi penaethiaid y Sir i roi pwyslais ar y meysydd isod – meysydd sydd yn seiliedig ar "Safonau Cenedlaethol Diwygiedig i Benaethiaid yng Nghymru" gan Lywodraeth Cynulliad Cymru – yn cyfrannu'n fawr at ein hamcanion addysgol:

- Y gallu i greu cyfeiriad strategol;
- Arwain ar Ddysgu ac Addysgu;
- Datblygu a Gweithio Gydag Eraill;
- Rheoli'r Ysgol;
- Sicrhau Atebolrwydd;
- Cryfhau'r Ffocws Cymunedol.

4.4.3 Er hyn, un o'r prif fygythiadau sy'n ein hwynebu yw'r anawsterau wrth recriwtio Penaethiaid newydd. Mae gan y Gwasanaeth Ysgolion gofnod o'r anawsterau hyn. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod nifer o ysgolion yn gorfod ail-hysbysebu swyddi ac oherwydd hyn, mae gan sawl un o'n hysgolion cynradd bennaeth mewn gofal.

4.4.4 Yn ychwanegol, mae dros 50% o'r penaethiaid presennol yn gymwys i ymddeol yn gynnar dros y 5 mlynedd nesaf. Gall y sefyllfa felly waethygu yn arw.

4.4.5 Mae'r Gweithgor yn hynod bryderus ynglŷn â'r sefyllfa yma, yn bennaf oherwydd yr effaith posibl ar ansawdd arweinyddiaeth ysgol. Mae'n rhaid felly parhau i roi blaenoriaeth i'r maes yma, a sicrhau bod trefniant clir yn ei le i adnabod darpar ymgeiswyr ar gyfer cwrs CPCP fydd yn paratoi athrawon ar gyfer swyddi penaethiaid yn y Sir.

4.4.6 *O ran y Fframwaith Adolygu, bydd yr anawsterau o ran penodi penaethiaid sydd wedi neu ar fin taro ysgolion y dalgylch yn ddangosydd allweddol wrth flaenoriaethu'r dalgylchoedd ble mae'r angen am y newid fwyaf amlwg a chlir.*

## 4.5. Y Gymuned

4.5.1 Ein disgwyliadau yw bod Ysgolion Cynradd y Sir yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol, gan gyfoethogi profiadau a chyfleon i'r disgyblion.

4.5.2 Mae'r Gweithgor yn awyddus i weld defnydd llawn o'r ysgol gan y gymuned, gan fwyaf ar ôl oriau ysgol, yn unol â rhaglen y Cynulliad a'r Cyngor i ddatblygu "ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned". Does dim dwywaith nad oes cyfleon i'r ysgolion ddarparu gwasanaethau neu weithgareddau ychwanegol, er enghraifft, cylchoedd chwarae, clybiau chwaraeon a sefydliadau gwirfoddol, fydd yn ei dro yn cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol.

4.5.3 Mae gan yr Awdurdod wybodaeth am y defnydd cymunedol a wneir o ysgolion y Sir, e.e.:

- Mae swyddogion adfywio bro wedi cynnal arolwg o gyfleusterau cymunedol ac mae data ar gael i weld y defnydd a wneir o sefydliadau addysgol yn ogystal â sefydliadau eraill yn y gymuned;
- Mae'r Gwasanaeth Ysgolion wedi cynnal arolwg o'r defnydd cymunedol o ysgolion yn 2007 gan weld pa mor addas yw adeiladau ysgolion ar gyfer gweithgareddau cymunedol.

4.5.4 Rydym hefyd yn awyddus i feithrin a datblygu ymhellach y cyswllt rhwng ysgolion a'r gymuned leol, fel bod y disgyblion yn gwerthfawrogi hanes, diwylliant a datblygiad y cymunedau hyn.

4.5.5 Er hyn, ffactor sy'n allweddol wrth geisio gwneud hyn yw bod yr ysgol yn cynrychioli ac yn gwasanaethu ei chymuned. Pryder y Gweithgor yw bod dros 20% o ddisgyblion oed cynradd ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Tra bod gan rieni'r hawl cyfreithiol i ddewis ysgol eu plentyn, mae'r ganran sylweddol sydd yn dewis ysgolion all-dalgylch yn bryder cynyddol o safbwynt cynllunio strategol a'r amcan o ddatblygu ysgolion cymunedol eu natur.

4.5.6 Barn y Gweithgor yw y dylid casglu gwybodaeth am y nifer o ysgolion sydd â chanran sylweddol o ddisgyblion all-dalgylch neu sydd yn colli disgyblion i ysgolion/dalgylchoedd eraill.

4.5.7 Rydym yn awyddus i roi ystyriaeth i symudiadau o'r fath o fewn ein Fframwaith Adolygu. *Teimlad y Gweithgor yw y dylid cynnal adolygiad o'r sefyllfa pe byddai ysgolion y dalgylch yn ennill neu golli dros 20% o'i disgyblion oherwydd yr effaith ar y gymdeithas gyfagos a'r dalgylch. Bydd hyn felly yn ddangosydd allweddol wrth flaenoriaethu dalgylchoedd i'w hadolygu.*

### 4.6. Adnoddau Ariannol

4.6.1 Ein disgwyliadau yw bod Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer addysg gynradd y Sir.

4.6.2 Mae Gwynedd eisoes yn gwario ymysg chwartel uchaf Cymru ar addysg, ac ar ddatganoli cyllid i'r ysgolion. Yn ôl Estyn (2007), roedd y Cyngor wedi rhoi cyllideb addysgu net y disgybl (gan gynnwys gwariant nad yw wedi'i ddatganoli e.e. ar gyfer cyllideb integreiddio) ar gyfer 2006-07 o £4,322 o'i gymharu â chyfartaledd o £4,094 i Gymru gyfan (gwariant cyflawn). Serch hynny, mae canran sylweddol o'r gyllideb yma yn mynd ar gynnal adeiladau gwael, nifer uchel o safleoedd ar draws y Sir ac ar lefydd gweigion.

4.6.3 Yn ychwanegol i hyn, mae'r Gwasanaeth Ysgolion hefyd yn wynebu toriadau cyson dros y pum mlynedd nesaf fel pob Gwasanaeth arall o fewn y Cyngor. Bydd felly angen i gynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion gymryd ystyriaeth o'r cyd-destun hwn ac ymateb yn briodol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn anelu, lle bo hynny'n briodol, i gadw unrhyw arbedion sy'n deillio o ad-drefnu ysgolion o fewn y gyfundrefn addysg

4.6.4 Mae amrywiaeth sylweddol yn y gwariant fesul disgybl rhwng un dalgylch a dalgylch arall, a hefyd rhwng ysgolion o fewn yr un dalgylch.

4.6.5 Yn ogystal, mae nifer helaeth o ysgolion y sir wedi'u cynllunio ar gyfer llawer mwy o ddisgyblion nag sydd wedi mynychu'r ysgol ers blynyddoedd. Er na ddylai cost llefydd gweigion yrru unrhyw gynigion newydd, mae'n rhaid bod yn fyw i effaith ac oblygiadau gwariant sylweddol ar ysgolion sydd â chanran helaeth o lefydd gweigion - yn enwedig effaith ac oblygiadau hyn ar y gyllideb ac ar ysgolion eraill.

4.6.6 Ar hyn o bryd mae 30 o'n hysgolion sydd â 39 neu lai o ddisgyblion yn derbyn rhyngddynt £477,000 o gyllid ychwanegol trwy'r "rhwyd-diogelu" er mwyn eu galluogi i gyflogi Pennaeth ac athro/athrawes. Er bod amgylchiadau'r ysgolion hyn yn amrywio cryn dipyn ni ellir peidio â'u hystyried wrth fanylu ar y defnydd o adnoddau".

4.6.7 Ar sail yr uchod, byddwn yn rhoi ystyriaeth i lefydd gweigion o fewn y Fframwaith Adolygu. *Mae'r Gweithgor wedi adnabod y canlynol fel dangosyddion allweddol wrth flaenoriaethu dalgylchoedd i'w hadolygu:*

- *Llefydd gweigion o dros 25% ar draws y dalgylch;*
- *Amrediad gwariant y pen pan fo'n fwy na 10% yn uwch neu'n is na'r cyfartaledd sirol ar draws y dalgylch.*

### 4.7. Cais penodol am weithredu neu sefyllfa eithriadol

4.7.1 Tra bod awydd i arolygu trefniadaeth ysgolion y sir yn strategol ac ar lefel dalgylch, mae ysgolion unigol wedi ysgrifennu at y Cyngor yn gofyn i'r Awdurdod adolygu'r sefyllfa yn lleol. Dylid bod yn agored i hyn ac ymateb yn gadarnhaol os yn bosibl pan fydd cais o'r fath yn dod gerbron.

4.7.2 Dylid ystyried gwybodaeth broffesiynol berthnasol er mwyn tynnu sylw at sefyllfaoedd argyfyngus o fewn y Sir sy'n amharu yn uniongyrchol ar ansawdd addysg a phrofiadau disgyblion (e.e. niferoedd bychan iawn mewn ysgol, cyflwr adeiladau'r ysgol yn hynod ddrwg, methu recriwtio pennaeth).

4.7.3 *Bydd sefyllfa argyfyngus ysgolion unigol a amlygir ar sail gwybodaeth broffesiynol berthnasol gan gynnwys ceisiadau penodol gan ysgolion unigol yn ystyriaeth wrth adnabod ardaloedd sydd angen sylw pellach..*

## 4.8 Yr Iaith Gymraeg

4.8.1 Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

4.8.2 Mae astudiaeth ardrawiad ieithyddol wedi'i chynnal ar effeithiau ieithyddol posib cynllun drafft Hydref 2007 (ar gael ar y safwe Cyngor Gwynedd) ac mae'r wybodaeth hon yn gyfrwng i ystyried datblygiadau addysgol yn y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i furiau'r dosbarth

4.8.3 Bydd angen i unrhyw gynigion i newid trefniadaeth yn lleol gymryd ystyriaeth lawn o effeithiau ieithyddol posib

4.8.4 Bydd cynnal a gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol ac fel iaith gymdeithasol ymhlith plant felly yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn dalgylchoedd unigol.

## 4.9. Ffactorau Daearyddol

4.9.1 Ein disgwyliadau yw bod gan bob plentyn hawl i gael mynediad at addysg safonol o fewn pellter rhesymol i'r cartref.

4.9.2 Sylweddolir bod Gwynedd yn sir wledig iawn gyda phellter teithio sylweddol rhwng rhai cymunedau. Wrth gyflwyno unrhyw gynigion penodol mewn sir fel Gwynedd, bydd y pellter rhwng safleoedd a'r amser teithio i'r plentyn yn ystyriaethau allweddol.

4.9.3 Mae polisi cenedlaethol yn nodi bod hyd at 45 munud o deithio unffordd yn addas. Barn y Gweithgor yw y dylid ceisio cyfyngu teithio i uchafswm o 30 munud o deithio unffordd rhwng y cartref a'r ysgol.

4.9.4 *Bydd yr uchod felly yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn dalgylchoedd unigol.*

## 5. Y MATRICS

5.1 Cyflwynir Matrics yn *Atodiad 3* sy'n dwyn ynghyd yr ystyriaethau gwahanol.

5.2 Bydd y dalgylchoedd hynny sy'n sgorio uchaf yn erbyn dangosyddion allweddol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r trefniadau presennol. Bydd y dangosyddion hyn yn gweithredu i bob pwrpas fel "pwyntiau sbardun" ar gyfer cynnal adolygiad.

5.3 Bydd pecynnau data fesul dalgylch yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi. Byddwn yn gwahodd sylwadau ar y pecynnau hyn.

5.4 Ar sail yr asesiad a gynhaliwyd trwy ddefnyddio'r Fframwaith Adolygu, adnabyddir 3 dalgylch i fod yn rhan o'r cylch gyntaf o'r arolwg, sef dalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn a'r Gader.

5.5 Wrth ddatblygu rhaglen waith 2010-11, adolygir y fframwaith adolygu yn ystod Ionawr 2010.

## 6. Y PANEL YMGYNGHOROL SIROL

6.1 Sefydlir Panel Ymgynghorol Sirol gan yr Arweinydd Portffolio Ysgolion er mwyn ei chefnogi wrth lunio cynigion i bob dalgylch yn ei thro. Yn ogystal, bydd y Panel Ymgynghorol Sirol yn cadw gorolwg ar y darlun sirol.

6.2 Bydd aelodaeth y Panel Ymgynghorol yn cynnwys aelodau presennol y Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Cynradd Gwynedd ac yn cyfarfod fel bo'r angen ac ar gais yr Arweinydd Portffolio Ysgolion.

## 7. Y BROSES O ADOLYGU DALGYLCHOEDD

7.1 Wedi i'r broses o flaenoriaethu'r dalgylchoedd gael ei chwblhau, bydd angen ystyried yn fanwl iawn y ddarpariaeth bresennol a'r opsiynau gwahanol yn y dalgylchoedd hynny sy'n peri'r pryder mwyaf.

7.2 Er mwyn gwneud hyn mewn dull cynhwysol ac agored, bwriedir sefydlu Panel Adolygu Dalgylch. Fe fydd gan y Panel yr hawl i gyfethol nifer cyfyngedig o bobl er mwyn cefnogi eu gwaith. Tra bod pryder y gall grwpiau sy'n rhy fawr gyfyngu ar drafod agored, derbynnir y bydd gan ysgolion ddiddordeb mewn anfon cynrychiolwyr i'r Panel. Awgrymir felly y dylid ceisio cyfyngu aelodaeth y Panel Adolygu Dalgylch i nifer sy'n caniatáu cyfathrebu adeiladaol ochr-yn-ochr â chynrychiolaeth deg, ond bod hyn yn ddibynnol ar gytundeb cynrychiolwyr yr ysgolion yn y cyfarfod cyntaf yn y dalgylch. Tybier y bydd aelodaeth y Panel Adolygu Dalgylch yn cynnwys:

- Pob Aelod Etholedig Lleol;
- Arweinydd Portffolio Ysgolion (neu ei chynrychiolydd);
- Cynrychiolaeth o'r Panel Ymgynghorol;
- PennaethYsgol(ion) Uwchradd y Dalgylch;
- O leiaf un pennaeth ac un cadeirydd llywodraethwyr ar ran ysgolion cynradd y dalgylch , neu bennaeth a chadeirydd Corff Llywodraethol (neu gynrychiolydd arall o blith y corff llywodraethol) pob ysgol petai hynny'n ddymuniad lleol;
- Cynrychiolaeth eglwysig lle'n berthnasol;
- Unrhyw aelodau pellach mae'r Panel Adolygu Dalgylch yn eu gwahodd;
- Cefnogir y gwaith gan swyddogion perthnasol y Cyngor fel sy'n addas.

7.3 Yn gryno, rôl a maes gwaith y Panel fydd casglu tystiolaeth leol (ar lefel y dalgylch) a chyflwyno syniadau ac opsiynau gwahanol i'r Arweinydd Portffolio Ysgolion.

7.4 Wrth sefydlu'r Panel Adolygu Dalgylch, cynhelir cyfarfod i Benaethiaid, Cadeiryddion Cyrff Llywodraethol pob ysgol, a'r cynrychiolwyr Dalgylch a adnabyddir yng nghymal 7.2. Defnyddir y cyfarfod i:

- rannu gwybodaeth a gwirio data gan gynnig cyfle i drafod ac i herio'r dystiolaeth. Ni fydd y Panel yn bwrw ymlaen i drafod modelau amgen posibl nes i unrhyw amheuaeth resymol am gywirdeb data gael ei drafod a'i wyntyllu;
- egluro'r broses;
- enwebu aelodaeth ddewisol y Panel Adolygu Dalgylch;
- geisio sylwadau/syniadau i ddod i gyfarfod swyddogol cyntaf y Panel Adolygu Dalgylch.

7.5 Rhagwelir o gwmpas 3-4 o gyfarfodydd o'r Panel Adolygu Dalgylch o fewn cyfnod o 3 mis. Bydd Aelodau'r Panel yn chwarae rôl allweddol er mwyn cefnogi'r Arweinydd Portffolio i lunio cynigion ar gyfer y dalgylch.

7.6 Bydd cyfarfod cyntaf y Panel Adolygu Dalgylch yn cytuno ar y Cylch Gorchwyl. Bydd y cylch gorchwyl yn cynnwys amlinelliad o'r isod:

- Manylu ar gynllun prosiect clir ag iddo gerrig milltir pendant;
- Sefydlu dulliau o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth gyda grwpiau ac unigolion perthnasol.

Rhoddir sylw manwl iawn yng nghyfarfod cyntaf y Panel Adolygu Dalgylch i sefyllfaoedd ysgolion unigol - a bydd canlyniadau'r Fframwaith Adolygu yn gyd-destun pwysig ar gyfer hynny. Bydd cyfle hefyd i gasglu syniadau cychwynnol aelodau'r Panel Adolygu Dalgylch ar sail y trafodaethau yn y cyfarfod dalgylch cyfan nodwyd yn 7.2.

7.7 Yn yr ail gyfarfod bydd cyfle i ymateb i syniadau a gyflwynwyd a cheisio consenswys ar y syniadau hynny. Golyga hyn drafod unrhyw fodelau sydd wedi datblygu o'r broses gyfathrebu yn y dalgylch yn ogystal â syniadau cychwynnol y Cyngor.

7.8 Bydd cyfle i'r Panel Ymgynghorol Sirol drafod ac ystyried unrhyw gynigion sydd wedi dod gerbron y Panel Adolygu Dalgylch.

7.9 Yn nhrydydd cyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch bydd cyfle i gyflwyno sylwadau'r Arweinydd Portffolio/Panel Ymgynghorol ar sail y drafodaeth a'r wybodaeth ffeithiol sydd wedi derbyn ystyriaeth ac i gyflwyno opsiynau drafft terfynol.

7.10 Bydd cyfle i edrych ar fodelau creadigol, gan gynnwys datblygu ysgolion ardal. Yn ogystal, bydd angen ystyried trefniadau cydweithio ffurfiol newydd o fewn y dalgylch, naill ai cydweithio rhwng ysgolion cynradd lleol, cydweithio gyda'r sector uwchradd, neu gydweithio gydag asiantaethau a sefydliadau eraill e.e. Iechyd. Bydd dealltwriaeth drylwyr o'r ysgolion yn y dalgylch yn greiddiol, a bydd modd trefnu ymweliadau ag ysgolion o fewn y dalgylch ar gais y Panel Adolygu Dalgylch.

7.11 Wrth ddod â chynigion gerbron, bydd y Panel Adolygu Dalgylch yn casglu safbwyntiau plant a phobl ifanc, rhieni a thrigolion lleol eraill, cynghorau cymuned lleol ac awdurdodau lleol eraill, ysgolion a chylchoedd meithrin chwarae lleol.

7.12 Yn dilyn cyfraniad y Panel Adolygu Dalgylch a'r Panel Ymgynghorol Sirol, bydd yr Arweinydd Portffolio yn cyflwyno cynigion i bwyllgorau perthnasol y Cyngor cyn symud tuag at ymgynghoriad ffurfiol. Gwelir y Panel yn ddolen gyswllt bwysig rhwng yr Arweinydd Portffolio a chynrychiolwyr o'r gymuned.

7.13 Ceisir cwblhau'r gwaith o roi cynigion yn eu lle mewn 3 dalgylch rhwng Ebrill 2009 ac Ebrill 2010. Anelir wedyn i geisio cwblhau cynigion ar gyfer 3 dalgylch yn flynyddol. Mae'n rhaid sicrhau bod adnoddau priodol i weithredu'r cynlluniau o fewn y Gwasanaeth Ysgolion.

## 8. GOFYNION Y LLYWODRAETH

8.1 Bydd angen i unrhyw gynigion sy'n datblygu yn ystod y trafodaethau dalgylch rhoi ystyriaeth lawn i ofynion Llywodraeth y Cynulliad. Nodir isod yr ystyriaethau allweddol sydd wedi'u rhestru yn *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion (Cylchlythyr 23/02)*

- effaith ar safon yr addysg sydd i'w darparu yn yr ardal;
- pa mor gost effeithiol yw cynigion, ac a oes adnoddau ariannol digonol ar gael i'w rhoi ar waith;
- yr effaith ar sicrhau bod ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig o fewn cyrraedd hwylus a'r effaith ar faint o amser y cymerir i deithio i'r ysgol;
- barn y rheini yr effeithir arnynt fwyaf uniongyrchol, megis rhieni ac ysgolion neu ddarparwyr eraill yn yr ardal;

- yr angen am y math penodol o ddarpariaeth a gynigir, er enghraifft lefel galw'r rhieni am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg;
- unrhyw effaith ar gyfran y lleoedd mewn ysgolion ffydd sydd yn yr ardal;
- yr angen i'r AALL'au gydymffurfio a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, gan gynnwys y darpariaethau hynny sy'n ymwneud ag ysgolion un rhyw;
- i ba raddau y byddai cynigion yn meithrin cydweithrediad rhwng darparwyr addysg ar ol-16 oed;
- unrhyw ofynion newydd yn yr addasiad i Gylchlythyr 23/02 sy'n dilyn ymgynghoriad diweddar, yn benodol unrhyw bwyslais ychwanegol ar sicrhau bod cynigion newydd yn cyfrannu at gyrraedd nodau *Iaith Pawb*, *Y Cyfnod Sylfaen*, *Cwricwlwm 2008, Llwybrau Dysgu 14-19* ac unrhyw ofynion newydd.

## 9. TREFNIADAU CYFATHREBU

9.1 Er mwyn cefnogi datblygiad y Strategaeth uchod, rhoddwyd sylw i drefniadau cyfathrebu. Yn naturiol, mae'r Cyngor yn awyddus i wrando ar y farn yn lleol, i geisio cytundeb ar y ffordd ymlaen gan anelu at newid drwy gydweithio gyda'r gymuned yn lleol. Y nod - yn syml - yw ceisio cael pawb i weithio drwy'r newid efo'i gilydd yn y dalgylchoedd hynny fydd yn derbyn sylw.

9.2 Bydd angen cyfathrebu ar 2 lefel - sirol a dalgylch. Mae angen i'r negeseuon - ar lefel sirol a dalgylch - fod yn glir ac yn gyson, ac i'r broses fod yn dryloyw.

9.3 O ran y cyfathrebu sirol, y bwriad yn rhan gyntaf y broses fydd i ledu gwybodaeth ymhlith aelodau etholedig ac eraill er mwyn egluro'r rhesymau PAM fod angen newid gan gynnwys crynodeb o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Gweithgor.


9.4 I wneud hyn, cynhelir cynhadledd ar gyfer holl Aelodau'r Cyngor, penaethiaid ysgolion a chadeirydd neu gynrychiolydd arall cyrff llywodraethol gyda'r bwriad o gyflwyno gwybodaeth.

9.5 Sicrheir y bydd gwybodaeth gyson yn cael ei chyflwyno i Aelodau'r Cyngor, Penaethiaid Ysgolion, athrawon, llywodraethwyr, disgyblion, staff eraill a'r cyhoedd. Bydd man arbennig ac amlwg ar wefan y Cyngor yn cael ei ddatblygu fydd yn cynnwys yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Gweithgor a gwybodaeth berthnasol.

9.6 O ran y cyfathrebu dalgylchol, bydd gan y Panel Adolygu y cyfeirir ato yn Para. 7 rôl allweddol i'w chwarae wrth gynnal trafodaethau aeddfed a chyfrifol am y ffordd ymlaen yn lleol. Bydd negeseuon clir a chyson PAM fod angen newid yn cael eu cyflwyno ar lefel y dalgylch, ynghyd â thrafodaeth ynglŷn â SUT bydd yr ad-drefnu yn digwydd.

9.7 **Ar ôl cwblhau'r drefn uchod bydd argymhellion clir yn cael eu llunio ar gyfer dalgylch a hynny bob amser yng nghyd-destun y Weledigaeth, yr Amcanion a'r Egwyddorion a gyflwynir yn y Strategaeth hon.**

# ADOLYGU DARPARIAETH ADDYSG
# **BANGOR**
# *EDUCATION PROVISION REVIEW*





Ciplun o Sefyllfa Ardal Bangor
2017/18
*Snapshot of the Situation in the Bangor Area*

# Cynnwys / *Contents*


| | Tudalen Page | |
|---|---|---|
| 1. Lleoliad Ysgolion Bangor | 2 | 1. Location of Bangor schools |
| 2. Capasiti a llefydd gweigion Ionawr 2017 | 3 | 2. Capacity and surplus places January 2017 |
| 3. Niferoedd yn ysgolion cynradd Bangor yn ôl dalgylch ysgolion | 4 | 3. Bangor primary school pupil numbers by school catchment area |
| 4.(a) Niferoedd disgyblion ysgolion cynradd Bangor 1976-2016 | 5 & 6 | 4.(a) Bangor primary school pupil numbers 1976-2016 |
| 4.(b) Rhagamcanion disgyblion | 7 & 8 | 4.(b) Pupil projections |
| 5. Maint Dosbarthiadau | 9 | 5. Class Sizes |
| 6. Disgyblion gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol | 10 | 6. Pupils with Additional Learning Needs |
| 7. Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 11 | 7. Leadership and Management |
| 8. Asesiadau Estyn a Llywodraeth Cymru | 12 | 8. Estyn and Welsh Government assessments |
| 9. Dyraniadau Ysgolion 2016/17 | 13 | 9. School Allocations 2016/17 |
| 10. Cyflwr adeiladau ysgolion | 14 | 10. Condition of school buildings |
| 11. Proffil ieithyddol | 15 | 11. Language profile |
| 12. Defnydd arall o'r ysgolion | 16 | 12. Other use of schools |

# 1. Lleoliad Ysgolion Bangor / Location of Bangor Schools




| Ysgol Tryfan – Statws US 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity | 628 |
| Disgyblion/Pupils | 436 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | 192 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £5,037 |

| Ysgol Hirael – Statws CS 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity (D-Bl6) | 186 |
| Disgyblion/Pupils (D-Bl6) | 171 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | 15 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £3,562 |

| Ysgol Glancegin – Statws CS 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity (D-Bl6) | 210 |
| Disgyblion/Pupils (D-Bl6) | 213 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | -3 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £3,674 |

| Ysgol Cae Top – Statws CWR(E) 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity (D-Bl6) | 214 |
| Disgyblion/Pupils (D-Bl6) | 213 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | 1 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £3,521 |

| Ysgol Llandygai – Statws CWR(E) 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity (D-Bl6) | 157 |
| Disgyblion/Pupils (D-Bl6) | 135 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | 22 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £3,782 |

| Ysgol Friars – Statws US 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity | 1,328 |
| Disgyblion/Pupils | 1,273 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | 55 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £4,404 |

| Ein Harglwyddes – Statws CWR(C) 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity (D-Bl6) | 113 |
| Disgyblion/Pupils (D-Bl6) | 114 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | -1 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £3,475 |

| Ysgo y Faenol – Statws CWR(E) 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity (D-Bl6) | 186 |
| Disgyblion/Pupils (D-Bl6) | 206 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | -20 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £3,121 |

| Ysgol y Garnedd – Statws CS 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity (D-Bl6) | 210 |
| Disgyblion/Pupils (D-Bl6) | 305 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | -95 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £3,111 |

| Ysgol Coed Mawr – Statws CS(B) 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity (D-Bl6) | 56 |
| Disgyblion/Pupils (D-Bl6) | 24 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | 32 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £6,525 |

| Ysgol Glanadda – Statws CS(I) 2017-2018 | |
|---|---|
| Capasiti/Capacity (Bl3-Bl6) | 71 |
| Disgyblion/Pupils (Bl3-Bl6) | 41 |
| Llefydd Gwag/Surplus Places | 30 |
| Cyllideb yr ysgol fesul disgybl/ School budget per pupil | £5,052 |

## 2. Capasiti a Llefydd gweigion Medi 2017 / *Capacity and Surplus Places September 2017*

| Ysgol<br>School | Capasiti (D – Bl6)<br>Capacity (R – Yr6) | Nifer o Lefydd Gwag<br>Number of Surplus Places | % o Lefydd Gwag<br>% of Surplus Places |
|---|---|---|---|
| **Glanadda** | 71 | 30 | 42% |
| **Coed Mawr** | 56 | 32 | 57% |
| **Y Garnedd** | 210 | 0 | 0 |
| **Hirael** | 186 | 0 | 0 |
| **Y Faenol** | 186 | 0 | 0 |
| **Llandygai** | 157 | 8 | 5% |
| **Cae Top** | 214 | 0 | 0 |
| **Ein Harglwyddes** | 113 | 0 | 0 |
| **Glancegin** | 280 | 29 | 10% |
| **Friars** | 1328 | 55 | 4% |
| **Tryfan** | 628 | 192 | 31% |
| **CYFANSWM TOTAL** | 3,429 | 346 | 10% |

Ffynhonnell: Data Medi 2017 sydd wedi ei gyflwyno i'r Adran Addysg yn flynyddol gan yr ysgolion
*Source: Data September 2017 as presented to the Education Department by the schools annually*

**Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd :**

"4.6.1 Ein disgwyliadau yw bod Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer addysg gynradd y Sir"

***Excellent Primary Education For Children in Gwynedd Strategy :***

*"4.6.1 Our expectation is that Gwynedd will make the best possible use of all financial resources available for the County's primary education"*

## 3. Niferoedd yn ysgolion cynradd Bangor yn ôl dalgylch ysgolion / *Bangor primary school pupil numbers by school catchment area*

| Ysgol / School | | Dalgylch cartref / Home catchment: Cae Top | Hirael | Babanod Coed Mawr + Glanadda | Y Faenol | Glancegin | Llandygai | Arall/ Other | Cyf / Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol / School | Y Garnedd | 46 | 28 | 78 | 69 | 23 | 20 | 74 | 338 |
| | Cae Top | 90 | 13 | 59 | 18 | 7 | 3 | 49 | 239 |
| | Hirael | 13 | 102 | 20 | 5 | 37 | 2 | 17 | 196* |
| | Babanod Coed Mawr + Glanadda | 5 | 2 | 50 | 4 | 2 | 2 | 4 | 69 |
| | Y Faenol | 12 | 1 | 34 | 111 | 3 | 3 | 55 | 219 |
| | Ein Harglwyddes | 8 | 20 | 43 | 11 | 12 | 1 | 28 | 123 |
| | Llandygai | 1 | 8 | 4 | 1 | 28 | 45 | 63 | 150* |
| | Glancegin | 3 | 5 | 5 | 0 | 235 | 0 | 3 | 251 |
| | Cyfanswm Total | **178** | **179** | **293** | **219** | **347** | **76** | **293** | **1,585** |

*Efallai na fydd data a gymerir o SIMS ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad yn cyfateb yn union â'r ffurflen cyfrifiad ysgolion
*Data taken from school SIMS on census day may not exactly match the schools census return

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2017
*Source: September 2017 School Census*

## 4(a) Niferoedd disgyblion ysgolion cynradd Bangor 1980 - 2017 /
## *Bangor primary school pupil numbers 1980 - 2017*

| Ysgol School | Niferoedd [Meithrin – Bl.6 (Oed 3-11)] Number [Nursery - Yr.6 (Age 3-11)] | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1980 | 1985 | 1990 | 1995 | 2000 | 2005 | 2010 | 2015 | 2017 | 1980-2017 twf / growth | 1980-2017 % twf / growth |
| Glanadda | 128 | 83 | 87 | 89 | 61 | 63 | 45 | 42 | 41 | -87 | -68% |
| Coed Mawr | 73 | 67 | 48 | 90 | 54 | 49 | 57 | 40 | 28 | -45 | -62% |
| Y Garnedd | 218 | 185 | 191 | 268 | 271 | 312 | 325 | 346 | 338 | 120 | 55% |
| Hirael | 189 | 167 | 168 | 221 | 223 | 252 | 201 | 168 | 195 | 6 | 3% |
| Y Faenol | 141 | 108 | 110 | 147 | 244 | 243 | 244 | 253 | 219 | 78 | 55% |
| Llandygai | 128 | 128 | 135 | 150 | 176 | 169 | 181 | 143 | 149 | 21 | 16% |
| Cae Top | 243 | 170 | 207 | 195 | 212 | 216 | 251 | 242 | 240 | -3 | -1% |
| Ein Harglwyddes | 135 | 149 | 113 | 151 | 123 | 113 | 115 | 126 | 123 | -12 | -9% |
| Glancegin | 309 | 235 | 326 | 328 | 264 | 226 | 207 | 229 | 251 | -58 | -19% |
| Ardal / Area | 1564 | 1292 | 1385 | 1639 | 1628 | 1643 | 1626 | 1589 | 1584 | | |

Ffynhonnell: Data Diweddaraf Cyfrifiad Medi 2017
*Source: Updated September 2017 School Census*

# Pryd oedd yr ysgolion ar ei uchaf/lleiaf? / *When were the schools at their highest/lowest?*

| Ysgol / School | Uchaf / Highest | Lleiaf / Fewest |
|---|---|---|
| **Glanadda** | 128 (1980) | 40 (2011) |
| **Coed Mawr** | 90 (1995) | 28 (2017) |
| **Y Garnedd** | 357 (2016) | 179 (1988) |
| **Hirael** | 252 (2005) | 159 (2016) |
| **Y Faenol** | 262 (2009) | 107 (1983) |
| **Llandygai** | 182 (2004) | 124 (1982) |
| **Cae Top** | 251 (2010) | 170 (1985) |
| **Ein Harglwyddes** | 164 (1994) | 98 (2001) |
| **Glancegin** | 363 (1994) | 191 (2008) |

**Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd :**
"4.2.1 Ein disgwyliadau yw bod angen adlewyrchu tueddiadau o ran poblogaeth a niferoedd disgyblion cynradd wrth gynllunio ar gyfer dyfodol addysg mewn dalgylchoedd gwahanol"

***Excellent Primary Education For Children in Gwynedd Strategy :***
*"4.2.1 Our expectation is that planning for the future of education in different catchment areas needs to reflect trends in terms of population and primary pupil numbers"*

## 4(b) Rhagamcanion Disgyblion / *Pupil Projections*

RHAGAMCAN MEDI 2018 SEPTEMBER PROJECTION

| Ysgol / School | Blwyddyn Ysgol / School Year | | | | | | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M / N | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Total |
| Glanadda | - | - | - | - | 6 | 4 | 17 | 9 | 36 |
| Coed mawr | 7 | 3 | 7 | 11 | - | - | - | - | 28 |
| Y Garnedd | 31 | 33 | 43 | 47 | 41 | 49 | 40 | 50 | 334 |
| Hirael | 24 | 24 | 24 | 21 | 24 | 24 | 28 | 22 | 191 |
| Y Faenol | 13 | 13 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 206 |
| Llandygai | 17 | 14 | 26 | 13 | 18 | 18 | 19 | 13 | 138 |
| Cae Top | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 240 |
| Ein Harglwyddes | 10 | 10 | 13 | 15 | 22 | 19 | 14 | 18 | 121 |
| Glancegin | 36 | 38 | 28 | 39 | 30 | 37 | 24 | 32 | 264 |

| Ysgol / School | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | Cyfanswm/ Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Friars | 210 | 212 | 214 | 220 | 200 | 120 | 96 | 1272 |
| Tryfan | 70 | 71 | 66 | 69 | 80 | 35 | 39 | 430 |

RHAGAMCAN MEDI 2019 SEPTEMBER PROJECTION

| Ysgol / School | Blwyddyn Ysgol / School Year | | | | | | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M / N | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Total |
| Glanadda | - | - | - | - | 11 | 6 | 4 | 17 | 38 |
| Coed mawr | 8 | 7 | 6 | 7 | - | - | - | - | 28 |
| Y Garnedd | 45 | 35 | 33 | 43 | 47 | 41 | 49 | 40 | 333 |
| Hirael | 23 | 24 | 24 | 24 | 21 | 24 | 29 | 28 | 197 |
| Y Faenol | 30 | 13 | 13 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 206 |
| Llandygai | 19 | 17 | 14 | 26 | 13 | 18 | 18 | 19 | 144 |
| Cae Top | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 240 |
| Ein Harglwyddes | 10 | 10 | 13 | 13 | 15 | 22 | 19 | 14 | 116 |
| Glancegin | 30 | 36 | 38 | 28 | 39 | 30 | 37 | 24 | 262 |

| Ysgol / School | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | Cyfanswm/ Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Friars | 210 | 212 | 214 | 216 | 210 | 118 | 100 | 1280 |
| Tryfan | 75 | 70 | 71 | 66 | 69 | 52 | 33 | 436 |

| | RHAGAMCAN MEDI 2020 SEPTEMBER PROJECTION | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn Ysgol / School Year | | | | | | | | Cyfanswm Total |
| **Ysgol / School** | **M / N** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | |
| **Glanadda** | - | - | - | - | 7 | 11 | 6 | 4 | 28 |
| **Coed mawr** | 7 | 8 | 8 | 3 | - | - | - | - | 26 |
| **Y Garnedd** | 45 | 44 | 35 | 33 | 43 | 47 | 41 | 49 | 337 |
| **Hirael** | 24 | 23 | 24 | 24 | 24 | 21 | 24 | 24 | 188 |
| **Y Faenol** | 30 | 30 | 13 | 13 | 30 | 30 | 30 | 30 | 206 |
| **Llandygai** | 16 | 19 | 17 | 14 | 26 | 13 | 18 | 18 | 141 |
| **Cae Top** | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 240 |
| **Ein Harglwyddes** | 10 | 10 | 13 | 13 | 13 | 15 | 22 | 19 | 115 |
| **Glancegin** | 30 | 30 | 36 | 38 | 28 | 39 | 30 | 37 | 268 |

| Ysgol / School | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | Cyfanswm/ Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Friars** | 210 | 212 | 214 | 216 | 209 | 120 | 99 | 1280 |
| **Tryfan** | 75 | 75 | 70 | 71 | 66 | 40 | 50 | 447 |

# 5. Maint dosbarthiadau 2017-18 / *Class sizes 2017-18*

| Ysgol *School* | Meithrin *Nursery* AM | PM | Derbyn *Reception* | Bl 1 *Yr 1* | Bl2 *Yr 2* | Bl 3 *Yr 3* | Bl 4 *Yr 4* | Bl 5 *Yr 5* | Bl 6 *Yr 6* | Cyfanswm *Total* | Nifer y dosbar-thiadau *No. of Classes* | Dosbarth mwyaf *Largest Class* | Dosbarth lleiaf *Smallest Class* | *Maint dosbarth ar gyfartaledd* *Average Class Size* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Garnedd | 7 | 5 | 15 | 15 | 14 | 16 | 14 | 17 | 13 | 338 | 12 | 30 | 24 | 28.1 |
| | 8 | 3 | 13 | 16 | 13 | 17 | 13 | 17 | 12 | | | | | |
| | 6 | 4 | 15 | 16 | 14 | 15 | 13 | 16 | 11 | | | | | |
| Ysgol y Faenol | 13 | | 30 | 30 | 30 | 30 | 29 | 30 | 27 | 219 | 8 | 30 | 27 | 27.3 |
| Ysgol Cae Top | 27 | | 29 | 31 | 31 | 31 | 30 | 30 | 30 | 239 | 8 | 31 | 29 | 29.8 |
| Ysgol Coed Mawr | 4 | | 7 | 11 | 6 | - | | | | 28 | 2 | 17 | 11 | 14 |
| Ysgol Glanadda | - | | | | | 4 | 17 | 9 | 11 | 41 | 2 | 21 | 20 | 20.5 |
| Ysgol Hirael | 24 | | 24 | 21 | 6 | 11 | 20 | | 28 | 195 | 7 | 31 | 24 | 27.8 |
| | | | | | 18 | 13 | 8 | 22 | | | | | | |
| Ysgol Llandygai | 14 | | 26 | 13 | 18 | 18 | 6 | 13 | 28 | 149 | 6 | 31 | 24 | 24.8 |
| | | | | | | | 13 | | | | | | | |
| Ysgol Ein Harglwyddes | 9 | | 11 | 15 | 22 | 19 | 13 | 18 | 16 | 123 | 4 | 34 | 22 | 30.7 |
| Ysgol Glancegin | 19 | 19 | 10 | 28 | 30 | 31 | | 32 | 23 | 251 | 8 | 32 | 23 | 31.3 |
| | | | 18 | 11 | | 6 | 24 | | | | | | | |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2017
*Source: September 2017 School Census*

# 6. Disgyblion gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol / *Pupils with Additional Learning Needs*

| Ysgol | AY | AY+ | CDU Awdurdod | CDU Fforwm | CDU Ymddygiad | Datganiad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Glanadda** | 8 | 5 | 2 | 1 | 2 | 0 | 18 |
| **Coed Mawr** | 4 | 3 | 2 | 1 | 1 | 0 | 11 |
| **Y Garnedd** | 13 | 8 | 5 | 0 | 0 | 1 | 27 |
| **Hirael** | 21 | 15 | 6 | 0 | 1 | 2 | 45 |
| **Y Faenol** | 0 | 15 | 0 | 0 | 2 | 3 | 20 |
| **Llandygai** | 12 | 14 | 1 | 5 | 3 | 3 | 38 |
| **Cae Top** | 1 | 20 | 2 | 0 | 0 | 3 | 26 |
| **Ein Harglwyddes** | 7 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 22 |
| **Glancegin** | 16 | 17 | 6 | 1 | 7 | 1 | 48 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2017
*Source: September 2017 School Census*

# 7. Arweinyddiaeth a rheolaeth / *Leadership and management*

| Ysgol<br>School | Gofal Dosbarth<br>Teaching Time | Sylwadau<br>Comments |
|---|---|---|
| **Glanadda** | 0% | Pennaeth Mewn Gofal Dros Dro |
| **Coed Mawr** | 0% | Pennaeth Mewn Gofal Dros Dro |
| **Y Garnedd** | 0% | |
| **Hirael** | 20% | |
| **Y Faenol** | 0% | |
| **Llandygai** | 30% | |
| **Cae Top** | 10% | |
| **Ein Harglwyddes** | 40% | |
| **Glancegin** | 10% | |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2017
*Source: September 2017 School Census*

# 8. Asesiadau Estyn a Llywodraeth Cymru / Estyn and Welsh Government Assessments

| | | Estyn | | | | | Llywodraeth Cymru Welsh Government |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad Year of Inspection | Pa mor dda yw'r deilliannau? How good are outcomes? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? How good is provision? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? How good are leadership and management? | Lefel y Dilyniant (os yn briodol) Level of Follow-Up (if necessary) | | Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2017 Welsh Government Support Category 2017 |
| **Glanadda** | 2013 | Digonol/Adequate | Digonol/Adequate | Anfoddhaol/Unsatisfactory | 2014 | Gwelliant Sylweddol / Significant Improvement | Ambr / Amber |
| **Coed Mawr** | 2015 | Digonol/Adequate | Digonol/Adequate | Digonol/Adequate | 2016 | Cynnydd da/ Good Progress | Melyn / Yellow |
| **Y Garnedd** | 2012 | Da/Good | Da/Good | Rhagorol/Excellent | - | - | Gwyrdd / Green |
| **Hirael** | 2015 | Digonol/Adequate | Digonol/Adequate | Digonol/Adequate | 2016 | Cynnydd da/ Good Progress | Melyn / Yellow |
| **Y Faenol** | 2010 | Da/Good | Da/Good | Da/Good | - | - | Gwyrdd / Green |
| **Llandygai** | 2012 | Da/Good | Da/Good | Da/Good | - | - | Gwyrdd / Green |
| **Cae Top** | 2016 | Rhagorol/Excellent | Rhagorol/Excellent | Rhagorol/Excellent | - | - | Gwyrdd / Green |
| **Ein Harglwyddes** | 2011 | Da/Good | Da/Good | Digonol/Adequate | 2014 | Gwelliant Sylweddol / Significant Improvement | Ambr / Amber |
| **Glancegin** | 2013 | Digonol/Adequate | Da/Good | Da/Good | - | - | Melyn / Yellow |
| **Tryfan** | 2013 | Da/Good | Da/Good | Da/Good | - | - | Melyn / Yellow |
| **Friars** | 2011 | Digonol/Adequate | Da/Good | Da/Good | 2012 | Cynnydd da / Good Progress | Gwyrdd / Green |

**Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru**

Caiff y dyfarniadau yng ngham un a cham dau eu cyfuno i bennu categori cymorth ar gyfer yr ysgol. Categori lliw fydd hwn, a fydd yn dynodi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar yr ysgol – naill ai gwyrdd, melyn, oren neu goch.

Dyma lefel y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer pob categori:-

•Categori cefnogaeth gwyrdd - Bydd ysgol yn y categori hwn yn derbyn hyd at 4 diwrnod o amser cynghorydd her.
•Categori cefnogaeth melyn - Bydd ysgol yn y categori hwn yn derbyn hyd at 10 diwrnod o amser cynghorydd her.
•Categori cefnogaeth oren - Bydd ysgol yn y categori hwn yn derbyn hyd at 15 diwrnod o amser cynghorydd her.
•Categori cefnogaeth coch - Bydd ysgol yn y categori hwn yn derbyn hyd at 25 diwrnod o amser cynghorydd her.

Bydd pob cynghorydd her yn pennu natur y pecyn cymorth penodol a gaiff ei ddarparu i bob ysgol, yn unol â'r angen.

***Welsh Government Support Category***

*The outcomes in step one and step two are combined to decide on the school's support category. The final categorisation is a colour code that shows the level of support a school needs – green, yellow, amber or red.*

*The level of support available for each category is as follows:-*

*•Green support category - A school in this category will receive up to 4 days of challenge adviser time.*
*•Yellow support category - A school in this category will receive up to 10 days of challenge adviser time.*
*•Amber support category - A school in this category will receive up to 15 days of challenge adviser time.*
*•Red support category - A school in this category will receive up to 25 days of challenge adviser time.*

*Each challenge adviser will determine the nature of the bespoke support package to be provided to each school according to need.*

# 9. Dyraniad Ysgolion 2017/18 / *Schools Allocation 2017/18*

| | Glanadda | Coed Mawr | Y Garnedd | Hirael | Y Faenol | Llandygai | Cae Top | Ein Harglwyddes | Glancegin | Friars | Tryfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyraniad Cyllidol 2017/18 2017/18 Financial Allocation** | £253,000 | £189,000 | £1,039,000 | £524,000 | £684,000 | £527,000 | £786,000 | £429,000 | £800,000 | £5,342,000 | £2,342,000 |
| **Cost y disgybl 2017/18 Cost per pupil 2017/18** | £5,052 | £6,525 | £3,111 | £3,562 | £3,121 | £3,782 | £3,521 | £3,475 | £3,674 | £4,404 | £5,037 |
| **Gwybodaeth Ychwanegol/ Additional Information** | | £32,520 *Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio/ Minimum Staffing Protection | | | | | | | | | |

*Mae'r polisi gwarchodaeth yn sicrhau o leiaf pennaeth ac athro/athrawes ym mhob ysgol gyda mwy na 15 disgybl, a pennaeth a cymhorthydd dosbarth mewn ysgolion gyda llai na 15 disgybl.

*The minimum staffing protection policy ensures a minimum of headteacher and teacher at every school which has more than 15 pupils, and a headteacher and a classroom assistant in a school with fewer than 15 pupils.

**Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd :**

"4.6.1 Ein disgwyliadau yw bod Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer addysg gynradd y Sir"

***Excellent Primary Education For Children in Gwynedd Strategy :***

*"4.6.1 Our expectation is that Gwynedd will make the best possible use of all financial resources available for the County's primary education"*

# 10. Cyflwr Adeiladau Ysgolion / *Condition of School Buildings*

| Ysgol<br>School | Categori Cyflwr/<br>Conditions Category | Diffygion Addasrwydd a Chyflwr / Shortcomings of Suitability and Condition | | Cost y Cynnal a Chadw sydd ei Angen / Cost of Maintenance Required |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol y Garnedd** | C | • Addasrwydd – Nifer y dysgwyr yn yr Ysgol yn fwy na chapasati swyddogol yr Ysgol. Nifer o ddysgwyr yn cael eu haddysg mewn gofod anaddas. Maint y dosbarthiadau yn rhy fach.<br>• Cyflwr –<br>○ Mae angen gwaith ar bron bob elfen o'r adeiladwaith erbyn hyn. Mae rhannau helaeth o'r adeiladwaith o wneuthuriad coed ac mae parhau i'w gynnal yn anodd. Yn y dyfodol byddai angen adnewyddu rhannau sylweddol o'r adeilad a hyd yn oed wedyn byddai'n parhau i fod yn anaddas i bwrpas. | • Suitability - The number of learners in the School more than the official capacity of the School. Number of learners being educated in an unsuitable space. Class sizes too small.<br>• Condition -<br>○ Almost all elements of the structure now need work. Extensive parts of the structure are made of wood and thus maintenance can be difficult. In the future, extensive parts of the building would require renewal and even then it would remain unsuitable for purpose. | - |
| **Ysgol Glanadda** | B | • Addasrwydd - Cynllun yr Ysgol yn anhyblyg. Maint yr ystafelloedd dosbarth ddim i safonau presennol.<br>• Cyflwr –<br>○ Angen adnewyddu'r ffenestri<br>○ Angen uwchraddio sustem awyru'r gegin<br>○ Angen adnewyddu fargoed y to<br>○ Angen paentio'r tu allan | • Suitability - The School's Plan is rigid. Size of classrooms not to current standards<br>• Condition –<br>○ Need to refresh windows<br>○ Need to upgrade the kitchen ventilation system<br>○ Need to renovate the barge board of the roof<br>○ Need to paint outside | £85,000 |
| **Ysgol Babanod Coedmawr** | B | • Addasrwydd – Cynllun yr Ysgol yn anhyblyg. Dosbarthiadau yn rhy fach. Safle yn gyfyngedig a dim modd ei ehangu.<br>• Cyflwr –<br>○ Angen adnewyddu'r sustem drydanol.<br>○ Gwaith i'r iard chwarae<br>○ Angen adnewyddu'r ffenestri<br>○ Angen adnewyddu rhannau o'r gegin gan gynnwys gwella'r awyriant.<br>○ Angen adnewyddu'r toeau fflat | • Suitability - The School's Plan is rigid. Classes too small. Site is limited and can't be expanded.<br>• Condition –<br>○ Need to renew the electrical system.<br>○ Work for playground<br>○ Need windows refreshment<br>○ Need to refurbish parts of the kitchen including improving the ventilation.<br>○ Need to renovate flat roofs | £245,000 |
| **Ysgol y Faenol** | A | • Addasrwydd – Dosbarthiadau yn rhy fach. Nifer o'r dysgwyr mewn dosbarthiadau dros dro (mobiles). Problemau parcio y tu allan i'r Ysgol.<br>• Cyflwr –<br>○ Angen adnewyddu rhai ffenestri metal<br>○ Angen gwaith paentio y tu allan<br>○ Angen adnewyddu nenfwd allanol i du blaen yr Ysgol. | • Suitability - Classes too small. Number of learners in temporary classes (mobiles). Parking problems outside the School.<br>• Condition –<br>○ Need to renew some metal windows<br>○ Need painting work outside<br>○ Need to refurbish an external ceiling to the front of the School | £75,000 |

*** Gwariant sydd yn gyfrifoldeb ar y Cyngor yn unig. Strwythur allanol yr adeilad yn gyfrifoldeb ar yr Eglwys / Expenditure which is the responsibility of the Council alone. External structure of the building is the responsibility of the Church.*

Ffynhonnell: Adran Eiddo Gwynedd

*Source: Gwynedd Property Department*

# 11. Proffil Ieithyddol / *Language Profile*

| Ysgol<br>School | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref<br>Speak Welsh fluently at home | Ddim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl<br>Do not speak Welsh at home but are fluent | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl<br>Speak Welsh at home but not fluent | Ddim yn siarad Cymraeg gartref a nid yn rhugl<br>Do not speak Welsh at home and are not fluent | Ddim yn gallu siarad Cymraeg o gwbwl<br>Do not speak Welsh at all | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Glanadda** | 10 (20%) | 5 (10%) | 3 (6%) | 23 (46%) | 9 (18%) | **50** |
| **Coed Mawr** | 6 (16%) | 0 | 5 (14%) | 8 (22%) | 18 (49%) | **37** |
| **Y Garnedd** | 190 (54%) | 9 (3%) | 65 (19%) | 61 (17%) | 24 (7%) | **349** |
| **Hirael** | 7 (4%) | 4 (2%) | 10 (6%) | 72 (41%) | 81 (47%) | **174** |
| **Y Faenol** | 12 (5%) | 30 (13%) | 20 (9%) | 86 (37%) | 82 (36%) | **230** |
| **Llandygai** | 16 (10%) | 17 (11%) | 30 (19%) | 57 (35%) | 41 (25%) | **161** |
| **Cae Top** | 3 (1%) | 1 (1%) | 26 (11%) | 124 (52%) | 84 (35%) | **238** |
| **Ein Harglwyddes** | 1 (1%) | 1 (1%) | 2 (1%) | 15 (12%) | 107 (85%) | **126** |
| **Glancegin** | 21 (9%) | 26 (11%) | 35 (15%) | 97 (43%) | 48 (21%) | **227** |
| | **Cymraeg Rhugl<br>Fluent Welsh** | | **Ychydig o Gymraeg<br>Some Welsh** | | **Dim Cymraeg<br>No Welsh** | |

Ffynhonnell: PLASC Ionawr 2017
*Source:* PLASC January 2017

**Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd :**

“4.8.1 Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohonni”

***Excellent Primary Education For Children in Gwynedd Strategy :***

*“4.8.1 Our expectation is that all the County's pupils will have developed age-relevant bilingual skills which allows them to become fully participating members of the bilingual society in which they live"*

# 14. Defnydd Arall o'r Ysgolion / Other Use of the Schools

| | Clwb Brecwast<br>*Breakfast Club* | Clwb ar ôl Ysgol<br>*After school club* | Clwb Gwyliau<br>*Holiday Club* | Cylch Meithrin<br>*Cylch Meithrin* | *Wrap-Around* | **Defnydd Cymunedol**<br>Community use |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Garnedd** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymarfer côr Aelwyd (Uwchradd) yr Urdd<br>Urdd Choir Practice (Secondary) |
| **Hirael** | ✓ | | | ✓ | ✓ | |
| **Y Faenol** | ✓ | ✓ | ✓ | | | Côr Dinas Bangor<br>Bangor City Choir |
| **Llandygai** | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| **Cae Top** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Kids camp Dreigiau Cae Top<br>Stiwdio ddawns - Dancing studio<br>Hyfforddiant Peldroed - Football Training<br>Corau – Choirs |
| **Glanadda** | ✓ | | | | | Clwb Yoga<br>Yoga Club |
| **Coed Mawr** | ✓ | | | ✓ | | |
| **Ein Harglwyddes** | ✓ | ✓ | | | | |
| **Glancegin** | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |

Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion ar sail gwybodaeth a roddwyd gan bennaeth pob ysgol Mai 2017
*Source: Survey of schools based on information provided by the headteacher of each school May 2017*

**Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd :**

"4.8.1 Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohonni"

***Excellent Primary Education For Children in Gwynedd Strategy :***

*"4.8.1 Our expectation is that all the County's pupils will have developed age-relevant bilingual skills which allows them to become fully participating members of the bilingual society in which they live"*

# Adolygu Darpariaeth Addysg Bangor

## Asesiad effaith ieithyddol ac ardrawiad cymunedol

**Dyddiad Cyflwyno:** 2018-03-29
**Awdur :** Cyngor Gwynedd

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Map | 3 |
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Proffil Ieithyddol Dalgylch Bangor | 6 |
| 3. | Ysgolion | 7 |
| 4. | Tystiolaeth Ychwanegol | 13 |
| 5. | Opsiynau Posib | 17 |
| 6. | Casgliad | 18 |
| 7. | Argymhelliad | 19 |
| 8 | Ardrawiad Cymunedol | 20 |
| | Atodiad1: Opsiwn cyfuno Glanadda/Coed Mawr a Y Garnedd | 22 |

*Map 1: Lleoliad ysgolion Bangor*




YMCHWIL a DADANSODDEG

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100023387

Corporate Support Department, Gwynedd Council
© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100023387

# 1. Cyflwyniad

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau ieithyddol yn allweddol i strategaethau addysg y Sir. Mae'r Cyngor yn ad-drefnu ysgolion ym Mangor, ac mae'n ofynnol, yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), i gynnal asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r sefyllfa ynglŷn â'r prif ystyriaethau iaith yn ymwneud ag effeithiau'r opsiynau dan sylw ym Mangor.

## 1.1 Sefyllfa Gwynedd

Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 77,000 (65.4%) o boblogaeth Gwynedd dros dair oed yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn ostyngiad o'r Cyfrifiad blaenorol. Roedd ffigyrau Cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi fod 65,900 (56%) o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen, ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

Yng Ngwynedd, fel mewn nifer o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Dengys Cyfrifiad 2011 bod amrywiaeth eang iawn yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg ar draws y sir, gyda'r canrannau uchaf yn hanu o wardiau Llanrug (87.8%) a Pheblig (87.4%) yng Nghaernarfon. Gwelir y canrannau'n gostwng wrth fynd i gyfeiriad Bangor (36.4%), a'r ardaloedd arfordirol ym Meirionnydd megis Aberdyfi (35.5%). Er hyn, mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli o leiaf 30% o'r boblogaeth barhaol ymhob ward heblaw dwy, sef ward Menai (18.6%) a ward Deiniol (22.8%) ym Mangor.

## 1.2 Polisi Iaith

### Cynradd

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

### Uwchradd

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

## 1.3 Cyfeiriad Strategol Addysg yng Ngwynedd

Mabwysiadwyd strategaeth *"Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd"* gan y Cyngor yn Ebrill 2009 ac fe'i hadolygwyd yn Rhagfyr 2010. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth *"Rhaglen Strategol - Tuag at 2025"* gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisïau a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

## 2. Proffil Ieithyddol Dalgylch Bangor

Mae rhai o'r newidiadau a gynigwyd yn mynd i gael effaith ar nifer o ysgolion ar draws Bangor. Gan ddefnyddio data o'r Cyfrifiad yn 2011 gallwn edrych ar broffil ieithyddol wardiau Bangor a Pentir. Mae'r tabl yn dangos bod 7,190 (39.3%) o drigolion yr ardal yma yn gallu siarad Cymraeg.

| **Ward** | Deiniol | Dewi | Garth | Glyder | Hendre | Hirael | Marchog | Menai | Pentir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob Preswylydd Arferol 3+ | 1,795 | 1,764 | 983 | 1,726 | 1,449 | 1,656 | 2,448 | 4,107 | 2,366 |
| Gallu siarad Cymraeg | 410 (22.8%) | 927 (52.6%) | 299 (30.4%) | 893 (51.7%) | 656 (45.3%) | 625 (37.7%) | 1,229 (50.2%) | 762 (18.6%) | 1,389 (58.7%) |
| Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 46 (2.6%) | 140 (7.9%) | 53 (5.4%) | 107 (6.2%) | 114 (7.9%) | 98 (5.9%) | 218 (8.9%) | 66 (1.6%) | 157 (6.6%) |
| Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 44 (2.5%) | 89 (5%) | 17 (1.7%) | 67 (3.9%) | 69 (4.8%) | 57 (3.4%) | 109 (4.5%) | 31 (0.8%) | 116 (4.9%) |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 320 (17.8%) | 691 (39.2%) | 229 (23.3%) | 717 (41.5%) | 468 (32.3%) | 469 (28.3%) | 900 (36.8%) | 661 (16.1%) | 1,111 (47.0%) |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 46 (2.6%) | 45 (2.6%) | 25 (2.5%) | 48 (2.8%) | 47 (3.2%) | 36 (2.2%) | 79 (3.2%) | 70 (1.7%) | 52 (2.2%) |
| Gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 101 (5.6%) | 294 (16.7%) | 74 (7.5%) | 206 (11.9%) | 179 (12.4%) | 175 (10.6%) | 447 (18.3%) | 156 (3.8%) | 265 (11.2%) |
| Dim Sgiliau Cymraeg | 1,238 (69%) | 505 (28.6%) | 585 (59.5%) | 581 (33.7%) | 572 (39.5%) | 821 (49.6%) | 695 (28.4%) | 3,123 (76%) | 665 (28.1%) |

Wrth edrych ar amcangyfrifon ganol blwyddyn 2016 ar gyfer y wardiau yn Bangor a Pentir amcangyfrifir fod y boblogaeth yn 19,313 gyda 2,665 rhwng 0 a 15 oed. Mae hyn yn gynydd o 2.69% a 3.86% ar ffigyrau'r cyfrifiad yn 2011. Mae nifer o ddatblygiadau tai wedi bod yn Bangor yn ddiweddar a rydym yn disgwyl i'r tueddiad o gynydd yn y boblogaeth barhau.

# 3. Ysgolion

## 3.1 Capasiti'r Ysgolion

Mae naw ysgol gynradd yn ardal Bangor. Mae'r tabl isod yn dynodi capasiti'r ysgolion a nifer y disgyblion sydd yn mynychu ym Medi 2017. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

*Tabl 2: Capasiti ysgolion*

| Ysgol | Capasiti | Nifer o ddisgyblion | Statws |
|---|---|---|---|
| Ysgol Cae Top | 210 | 240 | RCE |
| Ysgol Ein Harglwyddes | 113 | 123 | CCP |
| Ysgol Glanadda | 81 | 41 | IS |
| Ysgol Babanod Coed Mawr | 56 | 28 | BS |
| Ysgol Glancegin | 210 | 251 | CS |
| Ysgol Hirael | 186 | 195 | CS |
| Ysgol Y Faenol | 186 | 219 | RCE |
| Ysgol Y Garnedd | 210 | 338 | CS |
| Ysgol Llandygai | 157 | 149 | RCE |

RCE –Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Reolaeth yr Eglwys yng Nghymru
CCP – Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Gymorth yr Eglwys Gatholig
IS – Ysgol Iau Gymunedol
BS- Ysgol Babanod Gymunedol
CS – Ysgol Gymunedol

## 3.2 Perfformiad Academaidd

Dengys y tablau isod ganlyniadau Cyfnod Sylfaen ac CA2 ar gyfer ysgolion Bangor:.

*Tabl 12: Canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel disgwyliedig - Cymraeg (iaith gyntaf) – CA1*

| Ysgol | Cyfnod Sylfaen (cyflawni deilliant 5+) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Cae Top | 86.2 | 86.7 | 92.9 | 100.0 | 96.4 | 100.0 |
| Ein Harglwyddes | - | - | - | - | - | - |
| Glanadda | - | - | - | - | - | - |
| Coed Mawr | 57.1 | 80.0 | 75.0 | 87.5 | 93.3 | 87.5 |
| Glancegin | 63.6 | 82.6 | 80.0 | 82.9 | 84.6 | 83.8 |
| Hirael | 77.8 | 79.2 | 57.1 | 76.5 | 66.7 | 63.2 |
| Y Faenol | 94.7 | 96.6 | 93.1 | 100.0 | 96.0 | 87.1 |
| Y Garnedd | 96.9 | 94.6 | 93.9 | 95.9 | 95.0 | 100.0 |
| Llandygal | 83.3 | 87.0 | 88.9 | 90.9 | 89.5 | 94.7 |

*Tabl 13: Canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel disgwyliedig - Cymraeg (iaith gyntaf) – CA2*

| Ysgol | CA2 (cyflawni deilliant 5+) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Cae Top | 70.0 | 78.6 | 85.7 | 100.0 | 84.6 | 86.7 |
| Ein Harglwyddes | 0.0 | 76.9 | * | 75.0 | * | * |
| Glanadda | 40.0 | 77.8 | 77.8 | * | 75.0 | 83.3 |
| Coed Mawr | - | - | - | - | - | - |
| Glancegin | 50.0 | 70.6 | 76.9 | 80.0 | 60.0 | 73.7 |
| Hirael | 62.5 | 77.8 | 77.3 | 76.0 | 61.5 | 73.7 |
| Y Faenol | 91.3 | 88.0 | 100.0 | 92.3 | 92.9 | 84.6 |
| Y Garnedd | 95.2 | 97.9 | 97.4 | 90.5 | 100.0 | 100.0 |
| Llandygai | 85.7 | 85.0 | 92.3 | 95.0 | 81.8 | 88.0 |

- Ddim yn berthnasol

* Data ddim ar gael (Nid yw Ysgol Ein Harglwyddes yn dilyn Cymraeg *(iaith gyntaf)*

*Ffynhonnell: Casglu Data Cenedlaethol (NDC) via ([http://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy](http://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy))*

Gwelwn fod yr ysgolion i gyd yn llwyddo pan mae'n dod i gyrhaeddiad academaidd. Mae dros 70% o ddisgyblion ym mhob ysgol wedi cyrraedd y lefel disgwyliedig yn Cymraeg (iaith gyntaf) yn 2017. Gwelwn felly, hyd yn oed yn yr ysgolion ble nad yw'r diwylliant o siarad Cymraeg mor gryf, mae'r disgyblion yn parhau i lwyddo yn academaidd yn y Gymraeg ac mae'r ysgolion yn rhoi addysg gadarn iddynt yn yr iaith.

Fel rhan o weithredu'r Siarter Iaith, mae holl ddisgyblion CA2 pob ysgol gynradd yng Ngwynedd (ar wahân i Ysgol Ein Harglwyddes) yn cwblhau holiadur gwe iaith am eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ddwywaith y flwyddyn. Dyma'r canlyniadau o Hydref 2017 am y defnydd mae'r disgyblion yn ei wneud o'r Gymraeg gyda'u athrawon. (Nid oes data ar gyfer Ysgol Babanod Coed Mawr gan nad oes disgyblion o flynyddoedd 3-6 yn yr ysgol).

*Tabl 4: Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r athrawon (ar wahân i wersi Saesneg)*

| Siarad Cymraeg efo'r athrawon (ar wahân i wersi Saesneg) | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 16% | 36.8% | 34% | 6.6% | 6.6% |
| Ysgol Y Garnedd | 96.9% | 0.6% | 1.9% | 0.6% | 0% |
| Ysgol Glanadda | 71.4% | 11.9% | 9.5% | 7.1% | 0% |
| Ysgol Cae Top | 6% | 42.9% | 35.7% | 11.9% | 3.6% |
| Ysgol Glancegin | 57.5% | 28.3% | 11.3% | 1.9% | 0.9% |
| Ysgol Hirael | 45.1% | 19.5% | 23.2% | 8.5% | 3.7% |
| Ysgol Llandygai | 52.2% | 18.8% | 13% | 5.8% | 10.1% |

*Tabl 5: Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r cymhorthyddion (ar wahân i wersi Saesneg)*

| Siarad Cymraeg efo'r cymhorthyddion (ar wahân i wersi Saesneg) | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 8.5% | 25.5% | 39.6% | 16% | 10.4% |
| Ysgol Y Garnedd | 96.3% | 1.3% | 1.3% | 0.6% | 0.6% |
| Ysgol Glanadda | 69% | 14.3% | 9.5% | 7.1% | 0% |
| Ysgol Cae Top | 3.6% | 29.8% | 44% | 13.1% | 9.5% |
| Ysgol Glancegin | 51.9% | 31.1% | 13.2% | 1.9% | 1.9% |
| Ysgol Hirael | 36.6% | 19.5% | 25.6% | 11% | 7.3% |
| Ysgol Llandygai | 42.0% | 17.4% | 20.3% | 8.7% | 11.6% |

*Tabl 6: Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo gweddill staff yr ysgol*

| Siarad Cymraeg efo gweddill staff yr ysgol | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 7.5% | 24.5% | 34.9% | 17.9% | 15.1% |
| Ysgol Y Garnedd | 97.5% | 1.3% | 1.3% | 0% | 0% |
| Ysgol Glanadda | 28.6% | 40.5% | 19% | 11.9% | 0% |
| Ysgol Cae Top | 3.6% | 23.8% | 48.8% | 13.1% | 10.7% |
| Ysgol Glancegin | 48.1% | 31.1% | 11.3% | 5.7% | 3.8% |
| Ysgol Hirael | 31.7% | 15.9% | 30.5% | 9.8% | 12.2% |
| Ysgol Llandygai | 34.8% | 20.3% | 23.2% | 7.3% | 14.5% |

## 3.3 Defnydd Anffurfiol o'r Gymraeg

*Tabl 3: Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth*

| Siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 2.8% | 8.5% | 57.5% | 17% | 14.2% |
| Ysgol Y Garnedd | 88.8% | 6.9% | 3.1% | 0% | 1.3% |
| Ysgol Glanadda | 4.8% | 21.4% | 66.6% | 7.1% | 0% |
| Ysgol Cae Top | 2.4% | 8.3% | 56% | 22.6% | 10.7% |
| Ysgol Glancegin | 26.4% | 25.5% | 40.6% | 2.8% | 4.7% |
| Ysgol Hirael | 4.9% | 15.9% | 48.8% | 22% | 8.5% |
| Ysgol Llandygai | 5.8% | 5.8% | 31.9% | 23.2% | 33.3% |

*Tabl 7: Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio*

| Siarad Cymraeg efo'r plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 2.8% | 8.5% | 24.5% | 36.8% | 27.4% |
| Ysgol Y Garnedd | 83.8% | 12.5% | 3.1% | 0.6% | 0% |
| Ysgol Glanadda | 4.8% | 21.4% | 50% | 19% | 4.8% |
| Ysgol Cae Top | 1.2% | 3.6% | 34.5% | 35.7% | 25% |
| Ysgol Glancegin | 11.3% | 20.8% | 36.8% | 14.2% | 17% |
| Ysgol Hirael | 1.2% | 12.2% | 32.9% | 25.6% | 28% |
| Ysgol Llandygai | 7.3% | 5.8% | 37.7% | 15.5% | 33.3% |

*Tabl 8: Canran y plant sy'n siarad Cymraeg ar iard yr ysgol*

| Siarad Cymraeg ar iard yr ysgol | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 2.8% | 8.5% | 22.6% | 30.2% | 35.8% |
| Ysgol Y Garnedd | 79.4% | 16.3% | 4.4% | 0% | 0% |
| Ysgol Glanadda | 0% | 19% | 57.1% | 19% | 4.8% |
| Ysgol Cae Top | 0% | 5.6% | 31% | 39.3% | 23.8% |
| Ysgol Glancegin | 5.6% | 25.5% | 42.5% | 16% | 10.4% |
| Ysgol Hirael | 4.9% | 7.3% | 30.5% | 29.3% | 28% |
| Ysgol Llandygai | 1.4% | 7.2% | 31.9% | 17.4% | 42.0% |

*Tabl 10: Canran y plant sy'n hyderus wrth siarad Cymraeg*

| Dw i'n hyderus wrth siarad Cymraeg | Hyderus iawn | Hyderus | Gweddol Hyderus | Ddim yn Hyderus | Ddim yn Hyderus o gwbwl |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 42.5% | 26.4% | 19.8% | 5.7% | 5.7% |
| Ysgol Y Garnedd | 78.8% | 11.9% | 6.3% | 1.9% | 1.3% |
| Ysgol Glanadda | 59.5% | 21.4% | 7.1% | 9.5% | 2.4% |
| Ysgol Cae Top | 15.5% | 33.3% | 33.3% | 8.3% | 9.5% |
| Ysgol Glancegin | 60.4% | 29.2% | 8.5% | 0.9% | 0.9% |
| Ysgol Hirael | 46.3% | 18.3% | 17.1% | 12.2% | 6.1% |
| Ysgol Llandygai | 44.3% | 24.6% | 11.6% | 2.9% | 15.9% |

*Tabl 11: Canran y plant sy'n meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg*

| Dw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg | Pwysig iawn | Pwysig | Gweddol bwysig | Ddim yn bwysig | Ddim yn bwysig o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 76.4% | 14.2% | 5.6% | 0.9% | 2.8% |
| Ysgol Y Garnedd | 84.4% | 11.9% | 3.8% | 0% | 0% |
| Ysgol Glanadda | 95.2% | 4.8% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Cae Top | 33.3% | 35.7% | 20.2% | 3.6% | 7.1% |
| Ysgol Glancegin | 74.5% | 20.8% | 1.9% | 2.8% | 0% |
| Ysgol Hirael | 63.4% | 19.5% | 13.4% | 2.4% | 1.2% |
| Ysgol Llandygai | 71.0% | 11.6% | 8.7% | 0.0% | 8.7% |

Nifer yr ymatebion:
Y Faenol – 106
Y Garnedd – 160
Glanadda – 42
Cae Top – 84
Glancegin – 106
Hirael – 82
Llandygai – 69

Mae'n amlwg bod gwahaniaethau mawr yn y defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion yn ysgolion Bangor. Gwelwn mai Ysgol Y Garnedd yw'r unig ysgol ble mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn siarad Cymraeg "bob amser" ar yr iard yn ogystal ac hefo athrawon a staff yr ysgol.

Mae'r defnydd o'r Gymraeg dal yn weddol uchel yn Ysgol Glancegin ac Ysgol Glanadda ac Babanod Coed Mawr gydag ymdrech amlwg gan ddisgyblion i ddefnyddio'r iaith gyda staff yr ysgol ac yn debygol o ddefnyddio'r iaith "yn aml" "weithiau" neu "ychydig" ar iard yr ysgol.

Mae llai o ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgol Yr Hirael, dim ond "weithiau" bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn siarad Cymraeg a'u gilydd yn y dosbarth gyda nifer yn gwneud hynny "ychydig iawn" neu "byth" ar yr iard. Fodd bynnag mae 65% ohonynt yn siarad Cymraeg "bob amser" neu "yn aml" gyda'u athrawon.

Yn Ysgol Y Faenol ac Ysgol Cae Top gwelwn nad ydi defnyddio'r Gymraeg yn naturiol i nifer o ddisgyblion gyda niferoedd isel llai na 3% yn siarad Cymraeg a'i gilydd "Bob amser" yn yr ystafell ddosbarth. Dim ond "yn aml" neu "weithiau" mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gyda'u hathrawon yn yr ysgol. Yn Ysgol Y Faenol mae 35.8%, yr ateb mwyaf poblogaidd yn dweud eu bod nhw "Byth" yn siarad Cymraeg ar iard yr ysgol gyda 30.2% yn dweud eu bod yn gwneud "ychydig iawn". Yn ysgol Cae Top doedd yr un disgybl yn siarad Cymraeg "bob amser" ar iard yr ysgol. Roedd 39.3% yn siarad "ychydig iawn" a 23.8% "Byth" yn gwneud hynny.

Does dim data ar gael ar gyfer defnydd o'r Gymraeg yn ysgol Ein Harglwyddes. Mae'r arolwg Estyn yn dweud bod angen i'r ysgol gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwersi. Mae'r canran oedd yn cyfarfod y safon ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn eu rhoi nhw yn agos i ganlyniadau yn Ysgol Hirael ac Ysgol Glancegin sydd yn dangos bod gallu da yn y Gymraeg gan y mwyafrif o ddisgyblion pan yn gadael yr ysgol.

## 3.4 Cefndir Ieithyddol y Plant

Ar gychwyn eu amser yn yr ysgol mae rhieni disgyblion yn llenwi ffurflen sydd yn gofyn cwestiynau am gefndir ieithyddol y disgyblion. Mae'r tablau isod yn dangos canran y disgyblion a oedd yn siarad Cymraeg adref pan oeddent yn cychwyn yn yr ysgol a'r canran o ddisgyblion oedd yn siarad iaith wahanol i Gymraeg neu'r Saesneg yn y cartref.

| **Ysgol** | **Yn siarad Cymraeg yn y cartref (%)** |
|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 17.05% |
| Ysgol Y Garnedd | 67.26% |
| Ysgol Glanadda | 22.58% |
| Ysgol Babanod Coed Mawr | 25% |
| Ysgol Cae Top | 16.46% |
| Ysgol Glancegin | 24.19% |
| Ysgol Hirael | 13.37% |
| Ysgol Ein Harglwyddes | 3.28% |
| Ysgol Llandygai | 29.1% |

| **Ysgol** | **Yn siarad iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg yn y cartref** |
|---|---|
| Ysgol Y Faenol | 22.12% |
| Ysgol Y Garnedd | 0.29% |
| Ysgol Glanadda | 11.63% |
| Ysgol Babanod Coed Mawr | 32.14% |
| Ysgol Cae Top | 16.46% |
| Ysgol Glancegin | 1.61% |
| Ysgol Hirael | 22.99% |
| Ysgol Ein Harglwyddes | 47.54% |
| Ysgol Llandygai | 0% |

Gwelir bod amrywiaeth mawr yn nghefndiroedd ieithyddol disgyblion y gwahanol ysgolion. Dim ond yn Ysgol Y Garnedd mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref, gyda cyn lleied a 3.28% yn gwneud hynny yn Ysgol Ein Harglwyddes a 13.37% yn Ysgol Hirael. Mae hyn yn rhannol oherwydd demograffeg Bangor ond, hefyd, mae nifer o gartrefi Cymraeg yn dewis i'w plant fynychu Ysgol Y Garnedd gan iddo gael ei adnabod yn lleol fel 'Ysgol Gymraeg'.

# 4. Tystiolaeth Ychwanegol

Mae adroddiadau Estyn yn cynnwys ychydig o sylwebaeth ar y defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion Cynradd. Yn ogystal, mae rhai ysgolion yn cynnig sylw ar eu defnydd o'r iaith ar eu gwefannau.

## Cae Top

Mae adroddiad Estyn o 2016 yn dweud

*"Mae tua 25% o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg ac yn siarad 16 gwahanol iaith. Mae tua 24% yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg."* ac yn argymell i'r ysgol "*barhau i godi safonau yn y Gymraeg"*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Cae%20Top%20cy.pdf)

Ar wefan yr ysgol maent yn dweud

*"Mae gennym.... athro/athrawes ychwanegol sy'n darparu Gwersi Cymraeg Ychwanegol ar gyfer unigolion penodol." " Mae tua 27% o'n disgyblion yn dod o wledydd tramor a rhyngddynt, siaredir dros ugain o wahanol ieithoedd yn y cartrefi ac rydym yn falch iawn o'r ethos aml-ddiwylliannol a geir yn yr ysgol. "*

## Ein Harglwyddes

Mewn adroddiad Estyn yn 2011 mae'n dweud

*"Mae tua hanner y disgyblion o gefndir ethnig Asiaidd, Dwyrain Ewropeaidd neu arall ac yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ni ddefnyddia'r un disgybl y Gymraeg fel mamiaith."* Ac yn argymell i'r ysgol "*gwneud defnydd mwy cyson o Gymraeg achlysurol yn ystod gwersi."*

*"Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da yn natblygiad yr iaith Gymraeg. Mae llawer yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarchion a chyfarwyddiadau gyda'r mwyaf hyderus yn defnyddio ymadroddion a brawddegau syml a ddysgwyd yn bwrpasol i ddatgan eu syniadau."*

*(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad%20Arolygiad%20Ysgol%20Ein%20Harglwyddes%20CYM%202011_0.pdf)*

## Glanadda

Yn adroddiad Estyn yn 2013 mae'n dweud.

*"Daw 12% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg."* A bod angen "*Codi safonau yn y Gymraeg."*

*"Maent yn cyfrannu'n hyderus ac yn synhwyrol i drafodaethau grŵp yn Saesneg. Serch hynny, nid yw medrau llafar Cymraeg llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddigonol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 ac nid oes ganddynt yr hyder i gyfrannu'n effeithiol i drafodaeth yn y Gymraeg"*

*(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Glanadda%202013_0.pdf)*

Mae Ysgol Glanadda a Coed Mawr yn rhan o ffederasiwn sef ffederasiwn Bro Ddewi ac yn rhannu gwefan. Mae'r wefan yn nodi hyn fel un o amcanion yr ysgolion:

*"Galluogi pob disgybl i ddod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn eu galluogi i ymgyfrannu'n llawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol ein cymdeithas ddwyieithog."*

## Babanod Coed Mawr

Mae adroddiad Estyn 2015 yn dweud

*"Oddeutu 8% o'r disgyblion sydd o gartrefi lle siaredir Cymraeg" "Mae disgyblion abl yn darllen yn rhugl a deallus yn y Gymraeg"*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Babanod%20Coed%20Mawr%202015.pdf.pdf)

Mae Ysgol Glanadda a Coed Mawr yn rhan o ffederasiwn ac yn rhannu gwefan.

## Glancegin

Mae adroddiad Estyn 2013 yn argymell bod angen i'r ysgol

*"Sicrhau gwelliannau pellach yn y Gymraeg ar draws yr ysgol."*

Ac yn arsylwi am ddisgyblion yr ysgol

*"nid ydynt yn siarad gyda'i gilydd yn Gymraeg pan nad ydynt dan oruchwyliaeth uniongyrchol oedolyn."*

*"Mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i ychwanegu'r dimensiwn Cymreig yn y cynlluniau gwaith ac mewn arddangosfeydd ar hyd yr ysgol. Trefnir i'r cynnwys fod mor berthnasol ac agos â phosib i'r disgyblion, er enghraifft bomio Maesgeirchen yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r ysgol yn darparu nifer o glybiau ar ôl ysgol er mwyn ymestyn profiad y disgyblion o ddefnyddio'r Gymraeg."*

*"Nid yw disgwyliadau athrawon o ran defnydd a safon y Gymraeg yn ddigon cyson."*

*(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Glancegin%202013_0.pdf.pdf.pdf)*

## Hirael

Yn Adroddiad Estyn 2015, dywedir

*"Daw ychydig o gartrefi lle siaredir y Gymraeg"*

*"Nid yw medrau iaith Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddigonol ar draws yr ysgol"*

*([https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Hirael%20cy.pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Hirael%20cy.pdf))*

Ar wefan yr ysgol mae'n dweud

*"Rydym yn dilyn polisi iaith Adran Addysg Gwynedd trwy ddarparu addysg Gymraeg i bob plentyn yn yr Adran Babanod"* a *"Dylai staff bob amser geisio defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd gyda phob disgybl. Dylai'r Gymraeg fod yn nodwedd gyson o arddangosfeydd mewn pob ystafell ddosbarth a choridor gan y dylid manteisio ar bob cyfle i amlygu agweddau o'r Cwricwlwm Cymreig ym mywyd cyffredinol a gwaith yr ysgol."*

## Y Garnedd

Mae adroddiad Estyn 2012 yn dweud

*"Daw 67% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg, a siarada tua 95% o'r disgyblion Gymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfwerth. Mae pum disgybl yn hanu o gefndir ethnig."*

*([https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20y%20Garnedd%20Hydref%202012_0.pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20y%20Garnedd%20Hydref%202012_0.pdf))*

## Y Faenol

Mae prosbectws yr ysgol yn nodi un o'u hamcanion fel

*"Galluogi pob disgybl i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gall gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog y mae'n rhan ohoni."*
*([http://www.faenol.gwynedd.sch.uk/Faenol-Prosbectws.pdf](http://www.faenol.gwynedd.sch.uk/Faenol-Prosbectws.pdf))*

Mae adroddiad Estyn 2010 yn argymell bod angen i'r ysgol:

*"wella safon gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn y Gymraeg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2;"*

Ac yn dweud

*"Gan ystyried eu cefndir ieithyddol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg. Maent yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu'r iaith ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn llwyddo i gyrraedd lefel dda o ddwyieithrwydd. Mae safonau yn y Gymraeg wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. "*

*([https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Inspection%20Report_Ysgol%20Y%20Faenol_CYM_2010_0](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Inspection%20Report_Ysgol%20Y%20Faenol_CYM_2010_0)*

## Llandygai

Yn adoddiad Estyn 2012 mae'n dweud

"Mae oddeutu 20% o'r disgyblion yn siarad

Cymraeg gartref."

[https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Llandygai%20cy%202012_0.pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Llandygai%20cy%202012_0.pdf)

A’r wefan yr ysgol meant yn dweud

“Gweledigaeth yr ysgol yw annog defnydd o’r Gymraeg yn gymdeithasol er mwyn magu disgyblion dwyieithog hyderus.”

# 5. Opsiynau posib

**Parhau gyda'r drefn bresennol**

**Opsiwn 3**

Ymestyn Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coed Mawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.

**Opsiwn 10**

Cynyddu capasiti'r Faenol (270). Garnedd i safle newydd a chodi chapasiti (330). Addasu safle Glanadda i dderbyn plant Coed Mawr (90). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.

*Yn dilyn trafodaethau pellach, yn seiliedig ar sylwadau a nodwyd yn y cyfarfod PAD 4, mae Opsiwn 3 yn cynnwys capasiti diwygiedig o 315 yn hytrach na 270 ar gyfer y Faenol. Bydd yr elfen arfaethedig yma yn galluogi trefniadau mynediad ar gyfer dosbarth a hanner pob blwyddyn.

# 6. Casgliad

Mae'n anodd darogan unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg o unrhyw gynllun. Ar hyn o bryd mae nifer o aelwydydd Cymraeg ardal Bangor yn penderfynu danfon eu plant i Ysgol y Garnedd sydd, yn draddodiadol wedi cael ei gweld fel yr ysgol fwyaf Cymreig yr ardal. Mae nifer y disgyblion sydd yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 wedi bod yn 100% yn ystod y ddwy flynedd diwethaf sydd yn llwyddiant arbennig. Wrth gynyddu capasiti Ysgol y Garnedd mae disgwyl y bydd mwy o blant o aelwydydd di-Gymraeg yn mynychu'r ysgol. Mae'n bosib bydd diwylliant Cymraeg yr ysgol yn parhau a'r disgyblion o aelwydydd di-gymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn aml fel y gwelwn yn Y Garnedd yn barod. Mae'r ffigyrau'n dangos gydag arweinyddiaeth gref gan yr athrawon mae'n bosib i ysgol ddylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn dosbarthiadau'r ysgol, disgwylir i hynny aros yn gryf yn Y Garnedd ar ôl cynyddu capasiti. Mae'n anodd gweld os gall yr ysgol ddylanwadu ar iaith y buarth gyda'r gwahaniaeth yn y defnydd o'r Gymraeg yn y dosbarth ac ar yr iard mewn rhai ysgolion yn fawr. Mae'n bosib felly y byddai cynyddu capasiti Ysgol y Garnedd yn lleihau'r nifer sydd yn siarad Cymraeg "bob amser" ar yr iard am gyfnod. Byddai cynyddu'r capasiti i nifer llai 330 yn lle 420 fel yn opsiwn 10 yn lleihau'r risg yma yn y tymor byr. Fodd bynnag, drwy drochi'r plant hyn, mae'n bosibl yn y tymor canol a hir y bydd mwy o blant hyfedr ddwyieithog yn cael eu meithrin.

Mae'r opsiynau i gau Ysgolion Coed Mawr a Glanadda yn cyd-fynd ac estyniad sylweddol i Ysgol y Garnedd. Disgwylir felly y bydd y mwyafrif o ddisgyblion a fyddai'n mynd i'r ysgolion yma yn mynd i Ysgol y Garnedd. O ystyried bod y rhan fwyaf o ddisgyblion Glanadda yn hyderus yn siarad Cymraeg, yn meddwl bod siarad Cymraeg yn bwysig ac yn siarad Cymraeg "bob amser" gyda'u hathrawon mae'n debygol y byddent yn gyfforddus yn niwylliant Cymraeg Ysgol y Garnedd a ddim yn newid iaith y dosbarth yn ormodol.

Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd. O edrych ar y dystiolaeth, ac yn unol â'r Polisi Iaith, disgwylir i gyfrwng y ddarpariaeth gwricwlaidd fod yr un fath ar draws yr ysgolion cynradd, ac mae holl ysgolion cynradd Bangor (ar wahân i Ysgol Ein Harglwyddes) yn llwyddo i gael canran sylweddol o'r disgyblion i gyflawni y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg (iaith gyntaf) yn y Cyfnod Sylfaen a CA2. Mae Cyngor Gwynedd wedi llunio Polisi Iaith er mwyn sicrhau bod y Cyngor a Staff y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r polisi iaith yn amlinellu sut y bwriedir cydymffurfio â'r Safonau Iaith a sut bydd y Cyngor yn mynd ati i fanteisio ar bob cyfle posib i hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau Cymraeg ymysg trigolion Gwynedd.

Yn ardal Bangor mae Menter Iaith Bangor yn hyrwyddo ac ehangu'r iaith Gymraeg ar lefel gymunedol ar draws y ddinas. Dywed eu bod "*am weld yr iaith yn dod yn rhan ganolog a naturiol o fywyd bob dydd yma, ar y strydoedd, yn y siopau, ac yn wir ymhobman, gyda phawb o'r trigolion yn rhannu'r cyfrifoldeb am ei dyfodol a'i ffyniant.*" Cewch fwy o wybodaeth am Menter Iaith Bangor ar eu gwefan.

Serch hynny, cydnabyddir fod naws a diwylliant Cymreig yr ysgolion cynradd ym Mangor yn amrywio, a hynny'n bennaf ar sail cefndir ieithyddol y plant. Adlewyrchir yr amrywiaeth hwn bennaf yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan y plant mewn cyd-destunau anffurfiol a chymdeithasol. Mewn ymateb i hyn, datblygwyd y Siarter Iaith gan y Cyngor fel cynllun penodol sydd yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd er mwyn annog defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, hyrwyddo

ymwybyddiaeth o Gymreictod a naws Gymreig yr ysgolion. Gweler Atodiad 1 am fwy o wybodaeth ynglŷn a defnydd y Gymraeg.

# 7. Argymhelliad

Wrth gwrs, nid yw cyfuno'r data yn y modd yma yn rhoi darlun broffwyd perffaith o beth fyddai'n digwydd, ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth y dylanwad y mae disgyblion eraill, athrawon a'r amgylchedd yn eu cael ar ddefnydd disgyblion o'r iaith. Wrth edrych ar y tablau gwelwn bod peth newid yn y canrannau wrth gyfuno canlyniadau'r ddwy ysgol ond nid yw'n sylweddol mewn nifer o'r categorïau. Mae mwyafrif sylweddol o ymatebwyr yn parhau i siarad Cymraeg 'bob amser' yn y gwahanol sefyllfaoedd. Mae hyn yn argoeli yn dda ar gyfer yr iaith Gymraeg yn Ysgol Y Garnedd petai disgyblion Glanadda yn mynychu. Mae'n edrych fel bydd diwylliant cryf o siarad Cymraeg yno a fydd yn hybu holl ddisgyblion yr ysgol i siarad Cymraeg.

Mae'r ymarferiad hwn (er nad yw'n wyddonol) o gyfuno data gwe iaith Ysgol y Garnedd ac ysgol Glanadda yn cyfleu y gallai cynyddu niferoedd Ysgol y Garnedd i dderbyn disgyblion Ysgol Glanadda arwain at ostyngiad yn y defnydd cymdeithasol a wneir o'r Gymraeg yn Ysgol y Garnedd, ac yn arbennig felly ar yr iard.

Serch hynny, gwyddom eisoes fod nifer o aelwydydd Cymraeg ardal Bangor yn penderfynu anfon eu plant i Ysgol y Garnedd sydd, a ystyrir fel yr ysgol fwyaf Cymreig yn yr ardal. Digwydd hynny'n bennaf ar sail cefndir ieithyddol y plant sydd yn mynychu'r ysgol, ynghyd â thraddodiad o arweinyddiaeth cryf ac ymrwymiad cadarn tuag at y Gymraeg ar draws yr ysgol.

Ar sail data yn **Atodiad 1**, mae'n bosib rhagweld gostyngiad yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Fodd bynnag, rhagwelir y gallai arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad cadarn Ysgol y Garnedd tuag at y Gymraeg gael dylanwad cadarnhaol ar ddisgyblion Ysgol Coedmawr a Glanadda, gyda'r dylanwad hwnnw'n cynyddu dros y blynyddoedd wrth i'r plant gael eu trochi fwyfwy yn niwylliant Ysgol y Garnedd.

O ran agweddau tuag at y Gymraeg, gwelir fod gan ddisgyblion Ysgol y Garnedd ac ysgol Glanadda fel ei gilydd agweddau cadarnhaol iawn tuag at y Gymraeg, pan ofynnwyd wrthynt 'Pa mor hyderus ydynt wrth siarad Cymraeg?' ynghyd â 'Ydyn nhw'n meddwl ei bod yn bwysig siarad Cymraeg?'

Nid yw'r cynnydd mewn capasiti sydd yn cael ei gynnig i Ysgolion Y Faenol, Ein Harglwyddes a Glancegin yn debygol o effeithio'r sefyllfa ieithyddol, gan fod y nifer o ddisgyblion sydd yn yr ysgolion yma yn agos i'r capasiti newydd beth bynnag.

# 8. Ardrawiad Cymunedol

Fel rhan o’r broses ymgynghori statudol, mae angen gwneud asesiad effaith cymunedol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013. Mae’r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig.

*“Mewn rhai ardaloedd, gall yr ysgol fod yn ganolbwynt i weithgarwch cymunedol hefyd, a gallai goblygiadau ei chau fod yn fwy na mater o ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd arbennig mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgol ar gyfer darparu gwasanaethau i’r gymuned leol.”*

*“Dylai’r achos y mae cyflwynwyr cynigion yn ei baratoi ddangos bod asesiad wedi’i gynnal ar effaith cau ysgol ar y gymuned, a sut y gallai’r cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd gael eu cynnal. Os oes cynnig i gau ysgol, dylai Awdurdodau Lleol ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd i gynnal neu wella ymgysylltu â’r broses addysg ac â chyfleusterau eraill a gynigir gan ysgolion fel gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol a allai helpu i fynd i’r afael â thlodi plant.”*

Ffynhonnell: Cylchlythyr 006 /2013

Mae trafodaethau ad-drefnu ysgolion cynradd yn cael eu cynnal yn nalgylch Bangor. O fewn y dalgylch mae  9 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd. Gweler Map 1 (tud.3) i weld lleoliadau'r ysgolion. O ystyried bod yr ysgolion yn agos at ei gilydd mewn ardal drefol rydym yn gallu dweud bod cymunedau’r ysgolion gyda mynediad at yr un adnoddau cyffredinol (e.e. meddygfa, siopa, eglwys ayb.). Mae’r gymuned yn gwneud defnydd o adeiladau ac adnoddau rhai o’r ysgolion yn bresennol, bydd unrhyw newid i’r adeiladau yn enwedig cau unrhyw safleoedd yn cael effaith ar y cymunedau.

Dyma dabl yn nodi pa weithgareddau cymunedol, tu allan i waith arferol yr ysgol sydd yn digwydd yn adeiladau'r ysgol. Mae nifer o’r gweithgareddau yma wedi eu hanelu at ddisgyblion yr ysgol ond mae grwpiau cymunedol eraill, fel corau, bandiau a thimau chwaraeon hefyd yn gwneud defnydd o adeiladau rhai o’r ysgolion.

*Tabl 14: Defnydd cymunedol o gyfleusterau’r ysgol*

| | Cae Top | Ein Harglwyddes | Glanadda | Coedmawr | Glancegin | Hirael | Y Faenol | Llandygai | Y Garnedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Urdd** | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| **Chwaraeon** | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | | ✓ |
| **Ymarfer Côr** | | | | | | | ✓ | | ✓ |
| **Ymarfer cerddoriaeth** | | | ✓ | | | | | | ✓ |
| **Clwb Ar ôl ysgol** | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Clwb brecwast** | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Digwyddiadau Elusenol** | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | |
| **Clybiau addysgiadol** | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | |
| **Gwasanaethau Cymunedol** | | | | | | | ✓ | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cylch Meithrin** | ✓ | | | | | | | ✓ | |
| **Clwb Gwyliau Ysgol** | ✓ | | | | | | ✓ | | |
| **Dosbarthiadau Derbyn Eglwys Gatholig** | | ✓ | | | | | | | |

Drwy gau safleoedd Glanadda a Coedmawr (Opsiwn 3 ac Opsiwn 8 ) mi fydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu colli. Fodd bynnag gwelwn fod ysgolion eraill yr ardal fel Ysgol y Garnedd yn gwneud defnydd tebyg o adeilad yr ysgol a byddai modd i’r gymuned wneud defnydd o’r adeilad hwnnw.

Does dim rheswm i feddwl y byddai'r un o’r opsiynau yn cael effaith negyddol sylweddol ar y gymuned.

# Atodiad 1

*Tabl 9.1: Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth*

| Siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Garnedd | 88.8% | 6.9% | 3.1% | 0% | 1.3% |
| Ysgol Glanadda | 4.8% | 21.4% | 66.6% | 7.1% | 0% |
| Gyda'u Gilydd | 71.3% | 9.9% | 16.3% | 1.5% | 1% |

*Tabl 9.5: Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio*

| Siarad Cymraeg efo'r plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Garnedd | 83.8% | 12.5% | 3.1% | 0.6% | 0% |
| Ysgol Glanadda | 4.8% | 21.4% | 50% | 19% | 4.8% |
| Gyda'u Gilydd | 67.3% | 14.4% | 12.9% | 4.5% | 1% |

*Tabl 9.6: Canran y plant sy'n siarad Cymraeg ar iard yr ysgol*

| Siarad Cymraeg ar iard yr ysgol | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Garnedd | 79.4% | 16.3% | 4.4% | 0% | 0% |
| Ysgol Glanadda | 0% | 19% | 57.1% | 19% | 4.8% |
| Gyda'u Gilydd | 62.9% | 16.8% | 15.3% | 4% | 1% |

*Tabl 9.8: Canran y plant sy'n hyderus wrth siarad Cymraeg*

| Dw i'n hyderus wrth siarad Cymraeg | Hyderus iawn | Hyderus | Gweddol Hyderus | Ddim yn Hyderus | Ddim yn Hyderus o gwbwl |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Garnedd | 78.8% | 11.9% | 6.3% | 1.9% | 1.3% |
| Ysgol Glanadda | 59.5% | 21.4% | 7.1% | 9.5% | 2.4% |
| Gyda'u Gilydd | 74.8% | 13.7% | 6.4% | 3.5% | 1.5% |

*Tabl 9.9: Canran y plant sy'n meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg*

| Dw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg | Pwysig iawn | Pwysig | Gweddol bwysig | Ddim yn bwysig | Ddim yn bwysig o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Garnedd | 84.4% | 11.9% | 3.8% | 0% | 0% |
| Ysgol Glanadda | 95.2% | 4.8% | 0% | 0% | 0% |
| Gyda'u Gilydd | 86.6% | 10.4% | 3% | 0% | 0% |

Rhaglen Moderneiddio Addysg

Adran Addysg

# Adroddiad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

## Dalgylch Bangor

## Ionawr 2018

# Cyflwyniad

Mae wedi dod i'r amlwg bod nifer o faterion angen sylw gydag ysgolion Dalgylch Bangor, er enghraifft:

- gôr gapasiti mewn rhai ysgolion (Garnedd a Faenol)
- nifer uchel o lefydd gweigion mewn rhai ysgolion (Coedmawr a Glanadda)
- trafferthion arweinyddiaeth a recriwtio – yn enwedig swyddi pennaeth
- gofod dysgu anaddas sy'n cyfyngu gallu ysgol i ddarparu cwricwlwm llawn
- cyflwr gwael rhai adeiladau
- diffyg cyfleusterau
- anghysondeb cost y pen fesul disgybl rhwng ysgolion
- sicrhau bod ysgolion yn hyfyw i'r dyfodol, gan roi ystyriaeth fanwl i unrhyw ddatblygiadau tai pellach yn ardal Goetre Uchaf (Penrhosgarnedd)

Bydd Swyddfa Moderneiddio Addysg Cyngor Gwynedd, drwy gynllun cyllido Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion 21ain Ganrif, yn edrych i daclo'r materion uchod drwy ddatblygu model addysgol a fydd yn cyfarch y problemau gan weithredu datrysiad a fydd yn hyfyw i'r dyfodol. Bydd rhai elfennau yn cael ei gweithredu drwy'r Ffynhonnell Ariannol bresennol, sef Band A (2013-18) a rhai drwy'r ffynhonnell ariannol eraill.

Mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gan fforwm Panel Adolygu Dalgylch (PAD). Mae aelodaeth y PAD yn cynnwys Penaethiaid, Cadeiryddion Llywodraethwyr, a chynrychiolaeth o Riant Lywodraethwr holl ysgolion y Dalgylch, Aelodau Lleol, cynrychiolaeth o'r Eglwys (Catholig ag Anglicanaidd) a chynrychiolwyr o Grwp Llandrillo Menai. Mae'r trafodaethau wedi edrych ar 12 opsiwn posib i gychwyn. Disgwylir bydd rhai elfennau yn cael eu darparu mewn camau.

**Rhestr Fer o Opsiynau**

1. **Status Quo/Gwneud Dim** – sefyllfa presennol

2. **(Opsiwn 3)** Ymestyn y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coed Mawr a Glanadda. Adeilad newydd ar gyfer Ein Harglwyddes. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol.

   D.S Rhagwelir bydd elfennau eraill yn cael eu gweithredu o dan raglen ariannu Band B, gan gynnwys, gwelliannau i rannau o Ysgol Hirael, ystyriaeth a roddir i ddarpariaeth Uwchradd (yn enwedig cyflwr adeiladau) a nodi safle mwy addas ar gyfer Ein Harglwyddes (bydd y mwyafrif ohonynt yn cael eu hariannu gan yr Eglwys (85%) gyda chyfraniad o 15% gan y Cyngor trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif).

3. **(Opsiwn 8)** Cau Glanadda a Coed Mawr. Estyniad i'r Faenol (315). Adeilad newydd i'r Garnedd (380-420 o blant). Adeilad newydd i Ein Harglwyddes (120) (cyllid yr Eglwys). Creu cyfleusterau cymunedol chwaraeon i'w rhannu gan y Garnedd, Friars, Cae Top (fel Parc Eirias). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol.

   D.S Rhagwelir bydd elfennau eraill yn cael eu gweithredu o dan raglen ariannu Band B, gan gynnwys, gwelliannau i rannau o Ysgol Hirael, ystyriaeth a roddir i ddarpariaeth Uwchradd (yn enwedig cyflwr adeiladau) a nodi safle mwy addas ar gyfer Ein Harglwyddes (bydd y mwyafrif ohonynt yn cael eu hariannu gan yr Eglwys (85%) gyda chyfraniad o 15% gan y Cyngor trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif).

4. **(Opsiwn 10)** Cynyddu capasiti'r Faenol (315). Garnedd i safle newydd a chodi chapasiti (330). Addasu safle Glanadda i dderbyn plant Coed Mawr (90). Adeilad newydd ar gyfer Ein Harglwyddes. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol.

   D.S Rhagwelir bydd elfennau eraill yn cael eu gweithredu o dan raglen ariannu Band B, gan gynnwys, gwelliannau i rannau o Ysgol Hirael, ystyriaeth a roddir i ddarpariaeth Uwchradd (yn enwedig cyflwr adeiladau) a nodi safle mwy addas ar gyfer Ein Harglwyddes (bydd y mwyafrif ohonynt yn cael eu hariannu gan yr Eglwys (85%) gyda chyfraniad o 15% gan y Cyngor trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif).

# 1. Deddfwriaeth Perthnasol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2014 ("y Ddeddf") yn cyfuno gweithredoedd gwrth wahaniaethu blaenorol yn un Ddeddf i'w disodli. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r ddeddfwriaeth, ac mae'n gwaredu anghysondebau, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall y ddeddfwriaeth ac i gydymffurfio ag ef. Daeth y rhan fwyaf o ofynion y Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau newydd i'r sector cyhoeddus ynglŷn â chydraddoldeb (y 'ddyletswydd gyffredinol') sy'n disodli'r cyfrifoldebau unigol sy'n ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhyw. Daeth y ddyletswydd hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni cyfrifoldebau yn ystyried sut y gallent gyfrannu'n gadarnhaol tuag at gymdeithas decach trwy wella cydraddoldeb a chysylltiadau da o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod sylw i gydraddoldeb yn cael ei gynnwys yn y ffordd y mae polisïau'n cael eu cynllunio a'r ffordd y darperir gwasanaethau ac yn sicrhau bod polisïau a gwasanaethau yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb, e.e. diddymu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal a chreu perthynas dda. Mae'r dyletswyddau hyn yn gyfreithiol rwymol. Gall awdurdodau sy'n methu â chyflawni'r dyletswyddau wynebu her gyfreithiol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl ar sail cyfres o nodweddion gwarchodedig: Hil, Rhyw, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Ail-aseiniad Rhyw, Crefydd, Credo ac Oedran. Lle bo'n berthnasol, mae hefyd yn amddiffyn ar sail priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. Dylid nodi hefyd bod y Ddeddf yn darparu amddiffyniad ar sail 'cysylltiad' gyda'r nodweddion gwarchodedig, ac felly byddai'n amddiffyn rhieni neu warcheidwaid plant anabl ar sail eu cysylltiad â'r plentyn. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' yn amlwg yn ystod y broses o wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn bwysig nodi bod awdurdodau cyhoeddus sy'n glwm wrth y rhwymedigaethau hefyd yn debygol o gael eu rhwymo gan y rhwymedigaethau sy'n berthnasol i'r Ddeddf Hawliau Dynol. Felly, fel rhan o'r un broses, byddai'n ddarbodus hefyd ystyried yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ei chael ar hawliau dynol.

# 2. Gweithredu

Mae Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am yr asesiad hwn. Fe'i cynhaliwyd rhwng Ionawr a Chwefror 2018. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar ddata gan PLASC Medi 2017, ynghyd ag adroddiadau Estyn a ffynonellau eraill. Mae prosesau ar waith i sicrhau bod pob ysgol berthnasol yn cael cyfle i gyfrannu at yr asesiad cydraddoldeb. Bydd ymatebion ysgol yn cael eu hymgorffori yn y broses ymgynghori statudol. Bydd disgyblion hefyd yn cael cyfle i gyfrannu eu barn yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

# 3. Adnabod Effaith

**Beth fydd effaith unrhyw newid a weithredir ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb?**

| Nodweddion Cydraddoldeb | Effaith |
|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Mae gan holl ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. |

*Mae'r tabl isod yn adnabod disgyblion yr ysgolion perthnasol o ran Cefndir Ethnig (CYBLD Ionawr 2017):*

| Ysgol | Gwyn Prydeinig | Gwyn arall / cymysg | Gwyddelig | Rwmanaidd | Pwylaidd | Twrcaidd / Cypraidd | Affricanaidd | Asaidd | Bangladeshi | Dwyrain Canol | Tseiniaidd | Pakistanaidd | Arabaidd | Sbaenaidd Portiwgeaidd | Indiaidd | Cymysg | Arall | Dim gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Garnedd** | 259 | 1 | 1 | | | | | | | | | | | | | 1 | 1 | 3 |
| **Coed mawr (Babanod)** | 13 | 1 | | | | | | | | | | | 1 | | | | | |
| **Glanadda** | 41 | 1 | | | | | | 3 | 1 | | | | 2 | 1 | | | | 1 |
| **Y Faenol** | 118 | 9 | | 1 | 5 | | | 4 | 2 | 2 | 8 | 2 | 8 | | 4 | 2 | 3 | 2 |
| **Hirael** | 86 | 9 | | 1 | | | 4 | 2 | 3 | 10 | 1 | | 8 | | | 2 | 3 | 2 |
| **Glancegin** | 155 | 1 | | | 1 | 2 | | | | 1 | | | | | | | | 7 |

*Mae'r tabl isod yn adnabod disgyblion yr ysgolion perthnasol o ran Hunaniaeth Cenedlaethol (CYBLD Ionawr 2017):*

| Ysgol | Cymraeg | Gwyn Prydeinig | Arall | Ddim yn gwybod neu heb ddweud |
|---|---|---|---|---|
| Y Garnedd | 229 | 30 | 0 | 7 |
| Coedmawr (Babanod) | 7 | 5 | 2 | 1 |
| Glanadda | 29 | 13 | 6 | 2 |
| Y Faenol | 72 | 74 | 22 | 5 |
| Hirael | 43 | 49 | 31 | 8 |
| Glancegin | 99 | 55 | 2 | 11 |

| | |
|---|---|
| **Yr Iaith Gymraeg** | Mae Cynllun Addysg Gymraeg y Cyngor yn gosod yr un gofynion ar bob ysgol, ac felly o ran gweithredu'r polisi, ni fydd unrhyw newidiadau, waeth pa fodelau sy'n cael eu mabwysiadu.<br><br>*[Bydd asesiad ieithyddol ar wahân yn cael ei gweithredu i asesu unrhyw effaith arfaethedig ar yr iaith Gymraeg.]* |
| **Anabledd** | Fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd, bydd cyfle i sicrhau y bydd pob adeilad yn cwrdd â gofynion a safonau mynediad i'r anabl (y DDA). O safbwynt adeiladu, bydd unrhyw gynlluniau a weithredir yn bodloni Rheoliadau Adeiladu Cymru 2010 - Rhan M (Mynediad at adeiladau a defnyddio adeiladau). Mae'r Rheoliadau hyn yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Mae polisi'r Cyngor yn mynnu bod ysgolion yn darparu Polisi Gwrth-fwlio, ac o ganlyniad, disgwylir i bob ysgol ddiogelu rhag bwlio ar sail anabledd, ac ar unrhyw sail arall. Yn ogystal, mae gan ysgolion Gwynedd God Ymarfer Cludiant. Bydd yr holl fodelau arfaethedig hefyd yn darparu cyfleoedd i wella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. |
| **Oedran** | Byddai'r tri opsiwn rhestr fer, Modelau 3, 8 a 10 yn cynnwys newid i'r garfan oed ar gyfer rhai disgyblion. Ar hyn o bryd mae Ysgol Coedmawr yn ysgol fabanod (rhwng 3 a 7 oed) ac Ysgol Glanadda yn ysgol iau (rhwng 7 ac 11 oed). Byddai'r newidiadau arfaethedig yn yr holl 3 opsiwn yn arwain at blant o Goedmawr a Glanadda yn cael eu haddysgu mewn ysgol gydag ystod oedran o 3 i 11 ar un safle. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai hyn yn cael effaith negyddol gan fod yr ystod oedran yn y mwyafrif o ysgolion Gwynedd ar gyfer plant 3-11 oed. |
| **Rhyw** | Ni fydd y cynlluniau yn cael llawer o effaith ar ryw gan fod pob ysgol a effeithir yn ysgolion cynradd cymysg o ran rhyw. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Mae nifer o ysgolion yn y dalgylch sydd o enwad crefyddol. Ysgol Gynradd Wirfoddol dan rheolaeth yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol y Faenol (CWR(E)) ac mae Ein Harglwyddes yn Ysgol Gynradd Wirfoddol dan cymorth yr Eglwys Gatholig (CWR(C)). Nid yw unrhyw un o'r cynigion yn awgrymu newid y categorïau cyfredol.<br><br>Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n mynd i'r afael ag unrhyw achosion a allai godi sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gredoau. |

## 4. Dyletswyddau Cydraddoldeb

**A fydd unrhyw newid a weithredir yn ateb Dyletswyddau Cyffredinol Ddeddf Cydraddoldeb?**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Ydi'r ddyletswydd yn cael ei hateb? | Ym mha ffordd? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Ni fydd unrhyw un o'r opsiynau arfaethedig yn newid dyletswydd statudol yr ysgolion yr effeithir arnynt i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Y nod yw rhoi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn mewn ffordd sy'n addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt. Byddant yn parhau i ddefnyddio'r Cyngor Ysgol, gwersi ABCh, polisïau |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwrth-fwlio a dulliau eraill i sicrhau bod yr ysgol yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Bydd pob un o'r tri opsiwn yn anelu at wella cyfleoedd i bob plentyn o fewn y dalgylch.<br><br>Adroddiad Estyn (Ionawr 2007) '*Mae gwerthusiad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu adeiladau a adnewyddwyd yn sylweddol*' yn nodi bod "*plant sy'n derbyn eu haddysg mewn adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu'n sylweddol yn perfformio gwell, cyrhaeddiad a lefelau cyrhaeddiad yn cael eu gwella ar hyd gyda phresenoldeb ac ymddygiad. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth hefyd yn gwella, ynghyd ag ansawdd yr addysgu. Mae'r gwelliannau hefyd yn golygu mwy o ddewis i ddisgyblion oherwydd mwy o le a chyfleusterau gwell. Mae'r ddarpariaeth y mae'r ysgol yn ei wneud ar gyfer gweithgareddau cyn-ysgol ac ar ôl ysgol hefyd yn gwella'n sylweddol* ".<br><br>Bydd pob ysgol yn parhau i hyrwyddo cyfle cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Nod y tair opsiwn fydd adeiladu ar y berthynas dda rhwng yr ysgolion a'u cymunedau, a hefyd annog ysgolion i rannu arfer da. Mae Opsiwn 8 yn cynnwys cyfleoedd i rannu cyfleusterau chwaraeon cymunedol.<br><br>Yn ystod unrhyw brosiect datblygu cyfalaf ysgol, bydd y Cyngor yn archwilio pob cyfle i wella'r berthynas rhwng ysgol a'i chymuned a hyrwyddo'r ysgol ar gyfer defnydd cymunedol. |

# 5. Casgliadau

Ni ragwelir y byddai unrhyw un o'r tri model yn cael effaith ar y sylwedd ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb a gynhwysir yn yr asesiad hwn. Os bydd rhai yn cael eu hamlygu, yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y Cyngor yn ystyried y camau gweithredu angenrheidiol. Ni fydd unrhyw newid i unrhyw bolisi ysgol o fewn yr ysgolion perthnasol o ran materion cydraddoldeb.

# 6. Camau Lliniaru a Monitro

Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol. Os tynnir sylw at unrhyw un yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y Cyngor yn ceisio ffyrdd i'w lliniaru, gan edrych yn benodol ar unrhyw awgrymiadau a gynhigir yn yr ymatebion.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **17 Ionawr 2017** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **SWYDDOG** | **Arwyn Thomas** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adolygu darpariaeth addysg cynradd dalgylch Bangor** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn am yr hawl i gychwyn trafodaethau lleol yn unol a'r adroddiad ynglyn ag adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor.

**Barn yr Aelodau Lleol:**

Sylwadau'r Aelodau i ddilyn.

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer 6 prosiect o fewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Disgwylir bydd pob un yn cael eu cwblhau ar amser. Mae'r Llywodraeth yn ogystal wedi hysbysu Awdurdodau Lleol ynglŷn â'u capasiti i gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A (h.y. cyn diwedd Mawrth 2019).

1.2 Mae'r Adran Addysg wedi adnabod Bangor fel dalgylch sydd angen sylw brys oherwydd nifer o ffactorau yn ymwneud â phryderon am addysg gynradd yn yr ardal ers rhai blynyddoedd.

1.3 Yn Rhagfyr 2014 derbyniwyd llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru yn gofyn am fanylion (amlinellol) cryno a chost prosiectau strategol yn ein hardal oedd angen eu cwblhau o fewn amserlen Band B ar gyfer Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Bydd cyfnod Band B yn rhedeg rhwng 2019-24. Adnabuwyd dalgylch Bangor fel dalgylch a fyddai'n derbyn ystyriaeth pryd y byddai'r Awdurdod yn paratoi ceisiadau i'r dyfodol.

1.4 Mae sefyllfa ysgolion Bangor, yn arbennig yr ysgolion cynradd yn ardaloedd Penrhosgarnedd a Choed Mawr, wedi newid yn ddiweddar ac wedi codi pryder yn lleol ac yn yr Adran Addysg.

1.5 Mae 2 ysgol gynradd yn ardal Penrhosgarnedd dros gapasiti. Ym mis Medi 2016, roedd Ysgol Y Faenol 20 dros gapasiti ac Ysgol Y Garnedd 106 dros gapasiti.

1.6 Mae datblygiad tai newydd yn Goetre Uchaf, Penrhosgarnedd yn golygu bydd 245 o anheddau yn cael eu hadeiladu gydag amcangyfrif y bydd dros 90 o blant oed cynradd a 70 oed uwchradd yn byw ynddynt.

1.7 Yn sgil yr heriau a restrwyd uchod, mae'r Adran Addysg o'r farn fod angen cychwyn trafod dyfodol darpariaeth addysg gynradd ym Mangor yn fuan gan fyddai oedi tan gyfnod Band B (2019-24) yn gallu arwain at sefyllfa argyfyngus mewn rhai o ysgolion y dalgylch.

## 2. RHESYMAU DROS YSTYRIED Y PENDERFYNIAD

### 2.1 Cynnydd ym mhoblogaeth disgyblion a niferoedd presennol mewn ysgolion

2.1.1 Mae datblygiad tai newydd yn Goetre Uchaf, Penrhosgarnedd yn golygu bydd 245 o anheddau yn cael eu hadeiladu gydag amcangyfrif y bydd o dros 90 o blant oed cynradd a 70 oed uwchradd yn byw ynddynt.

2.1.2 Y ddwy ysgol gynradd agosaf i Goetre Uchaf ydi Ysgol Y Faenol ac Ysgol Y Garnedd. Gan fod amcangyfrif y bydd y datblygiad tai yn golygu dros 90 o blant oed cynradd ychwanegol yn yr ardal, bydd mwy o bwysau ar gynhwysedd y 2 ysgol leol i dderbyn plant. Mae'r dwy ysgol yn barod yn sylweddol dros gapasiti, gyda Ysgol Y Faenol 20 ac Ysgol Y Garnedd 106 dros gapasiti.

2.1.3 Mae digon o gapasiti yn y 2 ysgol uwchradd ar gyfer unrhyw blant ychwanegol fydd yn byw yn y tai newydd.

2.1.4 Mae'r datblygwr wedi ymrwymo i gyfrannu £1,115,387 tuag at ddatblygu darpariaeth gynradd ychwanegol yn yr ardal fel ymateb i'r cynnydd yn yr angen am lefydd oherwydd y tai ychwanegol. Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth gynradd newydd ymateb i'r angen am y llefydd ychwanegol yma.

2.1.5 Mae dwy ysgol gynradd gyda niferoedd isel o ddisgyblion, sef Ysgol Coed Mawr (25) ac Ysgol Glanadda (50).

2.1.6 Mae pryderon na fydd capasiti o 210 (heb feithrin) yn ddigonol ar gyfer Ysgol Glancegin.

2.1.7 Mae'r tabl isod yn dangos capasiti pob ysgol gynradd a niferoedd disgyblion yn Medi 2016.

| | **Niferoedd Medi 2016** | **Capasiti** | **% llefydd gweigion** |
|---|---|---|---|
| Ysgol y Garnedd | 316 | 210 | 0% |
| Ysgol y Faenol | 206 | 186 | 0% |
| Ysgol Cae Top | 210 | 210 | 0% |
| Ysgol Babanod Coed Mawr | 25 | 56 | 55% |
| Ysgol Glanadda | 50 | 81 | 38% |
| Ysgol Hirael | 138 | 186 | 26% |
| Ysgol Llandygai | 133 | 157 | 15% |
| Ysgol Ein Harglwyddes | 120 | 113 | 0% |
| Ysgol Glancegin | 204 | 210* | 3% |

*capasiti o Medi 2017 ymlaen

### 2.2 Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion (uwchradd)

2.2.1 Fel y gwelir o'r tabl isod roedd 1,213 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Friars a 465 yn mynychu Ysgol Tryfan yn Medi 2016.

| | **Niferoedd Medi 2016** | **Capasiti** | **% llefydd gweigion** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Friars | 1,213 | 1,328 | 9% |
| Ysgol Tryfan | 465 | 628 | 26% |

2.2.2 Dros y 5 mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd, trosglwyddwyd 63% o ddisgyblion holl ysgolion cynradd Bangor i Ysgol Friars gyda 34% yn trosglwyddo i Ysgol Tryfan.

2.2.3 Yn ogystal dros y 5 mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd, roedd dros 80% o ddisgyblion ysgolion Glanadda, Y Faenol, Cae Top ac Ein Harglwyddes yn trosglwyddo i Ysgol Friars tra bod dros 80% o ddisgyblion Ysgol Y Garnedd yn trosglwyddo i Ysgol Tryfan. O'r 3 ysgol arall roedd rhwng 54-66% yn trosglwyddo i Ysgol Friars.

**2.3 Cyflwr**

Ar y cyfan, mae cyflwr ysgolion dalgylch Bangor yn weddol ac wedi eu categoreiddio yn A neu B. Serch hynny mae arolygiad diweddar o gyflwr ac addasrwydd Ysgol Y Garnedd gan gwmni 'Faithful & Gould' ar ran Llywodraeth Cymru, yn datgan fod angen gwaith gwella sylweddol er mwyn codi safon cyflwr yr ysgol hwnnw o C- i B.

**2.4 Safonau addysg**

2.4.1 Mae recriwtio i swydd Pennaeth yn ysgolion Coed Mawr a Glanadda wedi profi'n eithriadol o heriol ac mae hynny wedi creu ansefydlogrwydd dros nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd mae trefniant rhan amser, dros dro mewn lle hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd hon.

2.4.2 Mae Ysgol Coed Mawr wedi ei gategoreiddio'n oren ac Ysgol Glanadda yn goch yng nghategoreiddio perfformiad gan Lywodraeth Cymru am 2015. Yn ychwanegol, derbyniodd Ysgol Glanadda 'anfoddhaol' am ei rhagolygon gwella'r ysgol yn dilyn arolygiad Estyn yn 2013. Yn dilyn arolygiad dilynol yn 2014 dyfarnwyd fod:

*'Ysgol Glanadda wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Chwefror 2013. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Glanadda oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.'*

2.4.3 Bu i Ysgol Babanod Coed Mawr dderbyn barnau 'digonol' yn hei arolwg Estyn yn 2015. Yn dilyn ymweliad monitro dilynol Estyn yn 2016 nodwyd bod:

*'Ysgol Babanod Coed Mawr wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn yn Mehefin 2016. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn.'*

2.4.4 Roedd pob ysgol arall ym Mangor wedi derbyn 'da' neu 'digonol' yn dilyn eu harolygon Estyn diweddaraf. Mi fydd unrhyw ddatblygiad cynradd newydd yn anelu i godi safonau addysgol yn yr ardal.

**2.5 Anghenion Dysgu Ychwanegol**

2.5.1 Mae Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn yn nodi'r angen am ganolfannau i wella adnoddau ar gyfer plant gydag anhwylderau lleferedd, iaith a chyfathrebu a'r rhai gydag anhwylderau cyfathrebu cymdeithasol.

2.5.2 Mae Canolfannau Anhwylder Iaith yn cynnig darpariaeth sydd yn ffocysu ar anhwylderau iaith benodol, ble mae agweddau o ddealltwriaeth, mynegiant, lleferydd a chof tymor byr disgybl yn parhau i ddatblygu mewn modd problemus er gallu di-iaith addas.

2.5.3 Mae Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol yn ddarpariaeth sydd yn ffocysu ar anawsterau gyda defnydd cymdeithasol o iaith, sgiliau rhyngweithio a chyfathrebu, anghenion

ymddygiadol sydd yn deillio o anawsterau cyfathrebu cymdeithasol a dealltwriaeth sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer plant sydd ag anghenion o'r math yma (h.y. nid o reidrwydd a diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth).

## 3. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 3.1 Cais am arian Llywodraeth Cymru

3.1.1 Fel rhan o Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif mae'r Cyngor eisoes wedi sicrhau cyfraniad o £2,555,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at adeiladu ysgol newydd ar gyfer 240 (yn cynnwys 30 lle meithrin) o ddisgyblion ym Maesgeirchen yn lle'r Ysgol Glancegin presennol. Rhagwelir bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau ar gyfer tymor yr Hydref 2017.

3.1.2 Cyflwynwyd cais ym mis Medi am £12,730,000 gan ofyn am gyfraniad o £6,365,000 gan y Llywodraeth. Cymeradwywyd y cais hwn mewn egwyddor ym mis Hydref 2016. Bydd cyfraniad Cyngor Gwynedd wedi ei gwrdd trwy gyfraniad £1,115,387 gan gwmni Redrow (datblygiad Goetre Uchaf), £4,500,000 o arian Cynllun Rheoli Asedau, ac unrhyw dderbyniadau o werthu safleoedd hyd at £749,613.

3.1.3 Bydd angen cyflwyno achos fusnes (model busnes 5 achos) llwyddiannus er mwyn sicrhau cyfraniad Llywodraeth Cymru.

### 3.2 Amserlen gwario cyfraniad Llywodraeth Cymru

Gwyddom fod nifer sylweddol o opsiynnau posib ar gyfer dyfodol addysg plant ym Mangor a bydd yr opsiwn ffafriedig yn dod i'r amlwg wrth i'r drafodaeth fynd rhagddi. Gwyddom hefyd fod yn rhaid cwblhau gwario arian grant Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif y Llywodraeth erbyn Mawrth 2019. Golyga hyn fod angen gwario £6,365,000 mewn ychydig dros ddwy flynedd o amser sy'n amserlen heriol iawn. Os am gyrraedd y nôd yma, does dim dewis ond cychwyn ar y gwaith yn syth, gyfochrog â'r drafodaeth ar yr opsiynnau addysgol.

Gwyddom i sicrwydd na allwn barhau yn y tymor canolig i addysgu plant yn adeilad presennol Ysgol Y Garnedd oherwydd nad yw'n ddigon o faint i ymdopi â'r niferoedd plant presennol hab son am allu cartrefu unrhyw blant ychwanegol a ddaw i fyw i'r ddinas yn sgil y datblygiadau tai arfaethedig.

Gwyddom hefyd fod angen cryn waith i ddelio gydag ambell ddosbarth is-safonol ar safle Ysgol Y Faenol yn ogystal â'r angen i wella diogelwch y fynedfa bresennol i'r safle.

Nid yw'r drafodaeth ar opsiynnau addysgol yn debygol o effeithio ar y ddau ofyn uchod ac felly gallwn gychwyn ar y gwaith dylunio yn syth heb fod yn rhagfarnu ar ganlyniad y trafodaethau yn lleol. Mae pa bynnag fodel neu opsiynnau a ddaw i'r amlwg yn debygol iawn o orfod cynnwys adeiladau ysgol ar gyfer plant sydd ar hyn o bryd yn safleoedd Ysgol Y Garnedd ac Ysgol Y Faenol ac felly, er mwyn lleihau'r risg o golli'r arian grant, bydd rhaid symud ymlaen yn ddi oed gyda'r gwaith dylunio ar gyfer y ddwy safle yma.

**3.3 Strategaethau Addysg**

Mae Cyngor Gwynedd wedi creu 2 ddogfen strategol yn y blynyddoedd diweddar yn amlinellu cyfeiriad strategol ar gyfer addysg yn y sir. Byddwn yn defnyddio'r strategaethau hyn yn ogystal â'r materion sydd wedi eu hadnabod yn lleol fel sail ein trafodaethau.

3.3.1 Strategaeth '*Addysg Gynradd 'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* sydd yn gosod gweledigaeth, amcanion ac egwyddorion clir ar gyfer y gwaith o adolygu trefniadaeth ysgolion y sir. Prif amcanion y strategaeth yw i:

- Gynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant y sir drwy sicrhau dosbarthiadau o faint addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ein hysgolion;
- Anelu i hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol wrth roi cynigion newydd yn eu lle ar gyfer addysg gynradd y Sir;
- Ymateb i anghenion a chyfleon yn y gyfundrefn addysg gynradd bresennol drwy fod yn rhagweithiol a chreadigol, gan weithio ar y cyd gydag eraill tuag at gynllun hir dymor fydd yn gynaliadwy ac ymarferol;
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael – yn ddynol, technolegol, ariannol – fel bod plant yn cael y budd mwyaf o wariant y sir ar addysg;
- Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y sir drwy wella cyfleusterau ac adeiladau;
- Datblygu ein hysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.

3.3.2 '*Rhaglen Strategol - Tuag at 2025*' sy'n creu sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd. Prif amcanion y strategaeth yma yw i:

- Gynnig y profiadau dysgu gorau posibl - a hynny i holl ddysgwyr y sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â'r cwricwlwm allgyrsiol, sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall ac yn arwain at wella safonau, gan wneud y defnydd gorau posibl o Dechnoleg Gwybodaeth;
- Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol a lles emosiynol plant a phobl ifanc - gan sicrhau bod y prif sefydliadau addysg a hyfforddiant yn y sir yn chwaraewyr allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd;
- Paratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith, gan wneud yn sicr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol;
- Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac athrawon y sir, a hynny yn bennaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cyflunio i ymateb i'r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth;
- Datblygu sefydliadau addysgol o'r math cywir (cynradd ac uwchradd) i fod yn rhai sy'n ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol lle'n briodol - a chyfoethogi profiadau i blant a phobl ifanc wrth iddynt ddod yn rhan o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r gymuned ehangach;
- Cryfhau'r Iaith Gymraeg - fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol - a galluogi plant a phobl ifanc gael mynediad at addysg a hyfforddiant dwyieithog.

**3.4 Datblygiadau i'r dyfodol**

3.4.1 Ers i gais cynllunio Pen y Ffridd, Bangor gael ei wrthod gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd mae'r datblygwr wedi apelio yn erbyn y penderfyniad ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr apêl. Os fydd y penderfyniad yn cael ei wrthdroi yna bydd angen darganfod lle ychwanegol ar gyfer rhyw 146 o blant oed cynradd a 113 uwchradd.

3.4.2 Mae digon o le yn y 2 ysgol uwchradd ar gyfer plant ychwanegol ond bydd angen edrych ar ddarganfod lle i unrhyw blant oed cynradd yn ysgolion cyfagos i'r datblygiad. Er mwyn gwneud hyn bydd angen ystyried y mater wrth drafod anghenion yr ardal i'r dyfodol.

3.4.3 Mae'r datblygwr wedi ymrwymo i gyfraniad o £907,018 tuag at ddatblygu darpariaeth gynradd ychwanegol yn yr ardal os bydd y datblygiad yn mynd yn ei flaen.

**4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

4.1 Os bydd y Cabinet yn caniatáu i'r Aelod Cabinet symud ymlaen i gychwyn trafodaethau lleol ar adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor, y cam nesaf fydd sefydlu Pwyllgor Adolygu Dalgylch (PAD) i adnabod a thrafod opsiynau gan gytuno ar opsiwn ffafredig fydd yn ymateb i anghenion addysg ar gyfer yr ardal i'r dyfodol.

4.2 O ganlyniad i'r trafodaethau lleol, creu a chyflwyno cam cyntaf achos fusnes (SOC) i Lywodraeth Cymru er mwyn cael eu cymeradwyaeth nhw i'r achos strategol dros newid a'r opsiwn ffafredig fyddwn yn argymell i ymgynghori arno. Os yn llwyddiannus, bydd hyn yn caniatáu inni symud ymlaen i'r cam nesaf o greu achos fusnes terfynol, yn dilyn ymgynghori, er mwyn sicrhau cyfraniad £6,365,000 gan Lywodraeth Cymru.

4.3 Yn dilyn cynnal trafodaethau lleol, dychwelyd i'r Cabinet i ofyn caniatâd i symud ymlaen gan gynnwys caniatad i gynnal unrhyw broses statudol, yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, yn ôl yr angen.

**Rhaglen waith**

| **Dyddiad** | **Gwaith** |
|---|---|
| Chwefror – Mai 2017 | **Cynnal cyfres o gyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch.** Pwrpas y cyfarfodydd hyn fydd i - gytuno cylch gorchwyl, strategaeth ac amcanion, gwybodaeth ysgolion, proses, cyfathrebu, trafod opsiynau, gwerthuso opsiynau, asesiad ardrawiad, cytuno opsiwn ffafredig |
| Mawrth - Mai 2017 | **Paratoi a chyflwyno Cais SOC (cais amlinell strategol)** |
| Gorffennaf 2017 | **Cabinet -** Adrodd yn ôl i'r Cabinet, yn dilyn adborth lleol, i ofyn caniatâd i symud ymlaen gan gynnwys caniatad i gynnal unrhyw broses statudol, yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, yn ôl yr angen. |

**5. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'r achos dros adolygu'r ddarpariaeth yn amlwg iawn gyda materion fel niferoedd yn awr ac i'r dyfodol a safonau addysg yn teilyngu'r sylw pennaf. Dechrau proses yw hyn, wrth gwrs, ac

mae ffordd bell i fynd eto cyn bod unrhyw beth yn medru cael ei wireddu ond mae'n bwysig cychwyn trafodaethau lleol mor fuan a phosib.

**Y Swyddog Monitro:**
Nodi'r mae cychwyn ar broses o drafodaethau lleol sydd ger bron, ac felly nid oes sylw penodol o ochr priodoldeb. Fodd bynnag dylid nodi fod trefn statudol i'w ddilyn wrth i'r broses ddatblygu.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwy'n croesawu'r ymdrech i gynllunio ymlaen llaw er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth addysg ym Mangor, gan ragweld datblygiadau yn y dyfodol.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 1701/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **01/02/2017** |

## PWNC

Eitem :CYNLLUN GWEITHREDU HENEIDDIO'N DDA

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd fel dogfen weithredol ar gyfer hybu gweithio yn ataliol ac yn draws adrannol ym maes Pobl Hyn, a chyfrannu at yr agenda llesiant.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae yna bwysau cynyddol i sicrhau fod holl weithgareddau'r Cyngor yn cyfrannu tuag at yr agenda ataliol ym maes yr henoed.

Mae'r Cynllun yma yn cyd fynd gyda'r pwyslais ar lesiant yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn amlygu beth y bwriedir ei wneud i geisio uchafu cyfraniad pob adran o fewn y cyngor tuag at yr agenda honno.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 17/01/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **01/02/2017** |

## PWNC

Eitem :EFFAITH Y DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 A'R BOLISI CODI TAL AM WASANAETHAU OEDOLION

## PENDERFYNIAD

Addasu'r polisi codi tal ar sail y cynigion a ymgynghorwyd arnynt ac sydd wedi eu gosod yn Atodiad Ch o'r adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar 15 Mawrth 2016 penderfynodd y Cabinet fabwysiadu Polisi Codi Tal dros dro. Yn ogystal, penderfynwyd y dylai'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ymgynghori ar newidiadau pellach i'r Polisi, gyda'r bwriad o sefydlu polisi newydd fydd yn adlewyrchu gofynion a chyfleoedd sydd yn codi o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd gyda Defnyddwyr Gwasanaeth Preswyl a Dibreswyl ac mae ei ymatebion i'r gweld yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 17/01/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **01/02/2017** |

**PWNC**

Eitem :NEWID LLWBR DEWISIOL GWELLIANT FFORDD / MYNEDIAD LLANBEDR

**PENDERFYNIAD**

Peidio gwarchod y llwybr gwreiddiol ar gyfer ffordd osgoi Llanbedr a chefnogi'r cynllun yn Atodlen B o'r adroddiad ar gyfer llwybr ffordd mynediad newydd yn yr ardal.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er bod llwybr ar gyfer ffordd osgoi eisoes wedi ei sefydlu amser maith yn ôl y gred bellach oedd bod angen ail edrych ar y cynlluniau gyda'r nod penodol o wella cysylltiadau trafnidiaeth i'r awyrborth.

'Roedd gwaith ystyried opsiynau gwahanol wedi ei wneud drwy ddefnyddio proses arfarnu WelTAG, ar canlyniad oedd argymell ffordd mynediad newydd a fydd hefyd yn ffordd osgoi i'r pentref.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol ynghyd a'r aelod lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 17/01/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **01/02/2017** |

## PWNC

Eitem :DARPARIAETH TOILEDAU CYHOEDDUS YNG NGWYNEDD

## PENDERFYNIAD

I. Cyflawni'r toriad o £244,000 yn y gwasanaeth drwy wireddu'r Cynllun Partneriaeth gyda Chynghorau Cymuned a Thref er mwyn cadw'r mwyafrif o doiledau cyhoeddus presennol y Sir ar agor i'r dyfodol.
II. Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol I gytundebu gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref sydd wedi datgan diddordeb mewn partneriaethu.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

'Roedd y Cyngor wedi penderfynu fel rhan o'i restr toriadau y byddai'n rhaid cau 50 allan o 73 o doiledau er mwyn cyflawni'r arbedion angenrheidiol. Wedi hynny fodd bynnag fe nodwyd y byddai modd cyfarch yr arbediad mewn ffordd wahanol pe byddai cynghorau cymuned a thref yn fodlon dod i bartneriaeth gyda'r Cyngor er mwyn cadw toiledau unigol. Mae'r cynllun Partneriaethu yn cynnig y posibiliad o gadw llawer iawn mwy o doiledau'n agored i'r dyfodol.

Rhagwelir y bydd modd cadw isafswm o 52 doiledau ar agor drwy gefnogaeth a chydweithrediad Cynghorau Cymuned a Thref.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Datganwyd buddiant gan y Cynghorwyr canlynol:

Dyfed Edwards – Aelod o Gyngor Cymuned Llanllyfni
Dyfrig Siencyn – Aelod o Gyngor Tref Dolgellau
Gareth Thomas – Cadeirydd Cyngor Tref Penrhyndeudraeth
Mandy Williams-Davies – Aelod o Gyngor Tref Ffestiniog
Mair Rowlands – Aelod o Gyngor Tref Dinas Bangor
W. Gareth Roberts – Aelod o Gyngor Cymuned Aberdaron

Ioan Thomas – Aelod o Gynfor Tre Caernarfon
Peredur Jenkins – Aelod o Gyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain

Nid oedd yn fuddiant sy’n rhagfarnu felly nid oedd angen gadael yr y cyfarfod

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i’r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 17/01/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **01/02/2017** |

## PWNC

Eitem :CYNLLUN TROEDFFORDD, FFORDD COETMOR, BETHESDA

## PENDERFYNIAD

Cyfalafu £120,000 o danwariant yr Adran Rheoleiddio ar gyfer cyfraniad at welliant diogelwch drwy ddarparu troedffordd rhwng Plan Ffrancon a Ffordd Hen Barc ar hyd Ffordd Coetmor, Bethesda.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae hon yn gynllun yn gosod darpariaeth troedffordd newydd ar ran o rwydwaith o ffyrdd ym Methesda sydd â llawer o ddefnydd gan gerddwyr, yn enwedig disgyblion yn cerdded i Ysgol Dyffryn Ogwen a sawl sydd yn cerdded i Ganolfan Hamdden Plas Ffrancon. Nid oes darpariaeth troedffordd o gwbl rhwng Plas Ffrancon a Ffordd Hen Barc ar hyn o bryd, ac fe fyddai darpariaeth o'r fath yn welliant diogelwch sylweddol yn ogystal â bod yn adnodd gwerthfawr i'r gymuned.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Aelod Lleol ynghyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 17/01/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **01/02/2017** |

## PWNC

Eitem :ADOLYGU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD DALGYLCH BANGOR

## PENDERFYNIAD

Cychwyn trafodaethau lleol yn unol a'r adroddiad ynglŷn ag adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r cynnydd ym mhoblogaeth disgyblion a niferoedd presennol mewn ysgolion yn ardal Bangor ynghyd a'r cynnydd yn nifer y tai yno yn golygu fod angen ystyried y ddarpariaeth yn y ddinas ar gyfer y dyfodol. Oherwydd fod yna danwariant ym Mand A Cynllun Ysgolion 21ain ganrif y Llywodraeth mae yna gyfle wedi codi i ni gael adnoddau i gyflawni unrhyw addasiadau strwythurol, ac er mwyn manteisio arno mae angen sefydlu beth y byddem yn dymuno ei weld ym Mangor.

Er mwyn sefydlu hynny mae angen dechrau trafodaeth yn lleol.
.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Datganwyd buddiant gan y Cynghorwyr canlynol:

Mair Rowlands – Aelod o Gorff Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Cae Top, Bangor
Dafydd Meurig – Aelod o Gorff Llywodraethwyr Ysgol Llandygai, Bangor
Lesley Day – (Aelod Lleol) Aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Hirael, Bangor

Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac felly nid oedd angen gadael y cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd ag aelodau lleol.

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys  yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 17/01/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **01/02/2017** |

## PWNC

Eitem :ADRODDIAD PERFFORMIAD Y DIRPRWY ARWEINYDD

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 17/01/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **01/02/2017** |

---

**PWNC**

Eitem :BLAENRAGLEN Y CABINET

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod, yn amodol ar wneud yr addasiadau isod:-

- Cyng Dyfed Edwards – Nodi fod dyddiad bellach ar gyfer yr eitem Prynu Tir yn ardal Llanrug.
- Cyng Gareth Thomas – Newid enw'r Aelod Cabinet yn eitem Cyflwyniad gan Ffion Johnstone

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaenraglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Flaenraglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, a cadarnhawyd nad oedd dim i'w ychwanegu.

---

**ADRODDIAD I'R CABINET**
Mawrth 13, 2018

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Dyfodol Darpariaeth Addysg Gynradd yn Nalgylch Bangor

**Swyddog Cyswllt:** Diane Jones – Arweinydd Prosiect Bangor

---

**Pwrpas yr adroddiad**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio caniatâd Cabinet y Cyngor i fwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol parthed y broses o ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Bangor.

Y Penderfyniad a Geisir:

1. Cynnal ymgynghoriad statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Bangor ar gynnig i gau ysgolion Glanadda a Choedmawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.

2. Cynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn ymwneud a chynyddu chapasiti Ysgol y Faenol i 315 yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ac adrodd ar y canlyniadau i'r Cabinet.

---

**Barn yr Aelodau Lleol**

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ers ei fabwysiadu yn Ebrill 2009. Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2012, penderfynodd y Cabinet ar '*Gynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Addysg'* wedi ei sylfaenu ar y strategaeth hon.

1.2 Ar ddiwedd 2016, hysbysodd Llywodraeth Cymru fod cyfle i Awdurdodau Lleol gyda'r capasiti, i gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Yn sgil hyn, cyflwynwyd cais ychwanegol i'r Llywodraeth, a chafodd yr Adran Addysg cadarnhad fod yr arian wedi ei glustnodi mewn egwyddor. Roedd y cadarnhad hwn wedi galluogi'r Cyngor i gychwyn adolygu'r ddarpariaeth addysg bresennol ym Mangor fel rhan o becyn ariannol arfaethedig gwerth £12,730,000 a fyddai'n cynnwys cyfraniad gan y Cyngor.

1.3 Yn y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2017, cymeradwywyd argymhelliad, 'gofyn am yr hawl i gychwyn trafodaethau lleol yn unol a'r adroddiad ynglŷn ag adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor'.

1.4 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Panel Adolygu Dalgylch (PAD) rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd, gyda'r olaf ar 29 Tachwedd 2017. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd a gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr y ddinas. Eglurwyd yn ogystal byddai rhagor o gyllid o bosibl ar gael ym Mand B yn ychwanegol i'r cyllid oedd yn perthyn i Band A, petai angen yn cael ei adnabod. Fel rhan o'r broses, adnabuwyd nifer o amcanion i'w hystyried ar gyfer y ddarpariaeth yn nalgylch Bangor sef:

- Sicrhau digon o lefydd ar gyfer pob plentyn yn y lleoliadau priodol;
- Sicrhau nad oes unrhyw ysgol yn orlawn;
- Sicrhau nad oes unrhyw ysgol wedi'i asesu yng nghyflwr C neu waeth;
- Lleihau llefydd gweigion sylweddol mewn ysgolion neu gynyddu effeithiolrwydd;
- Lleihau amrediad cost y pen ar gyfer darparu addysg yn y dalgylch;
- Sicrhau bod maint dosbarthiadau yn addas yn yr ysgolion cynradd;
- Sicrhau nad oes dros 25 disgybl o'r un oedran mewn un dosbarth;
- Sicrhau nad oes rhagor na 20 disgybl o oedrannau gwahanol mewn un dosbarth;
- Cysoni ansawdd addysg yn y dalgylch;
- Sicrhau nad oes unrhyw bennaeth yn treulio rhagor na 20% o'i amser yn dysgu;
- Datblygu'r defnydd o ysgolion fel adnodd cymunedol;
- Gwella'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y dalgylch.

1.5 Yn dilyn cyflwyno rhestr fer o'r opsiynau posibl, anfonwyd holiadur i aelodau'r PAD i gyflwyno sylwadau'r ysgolion perthnasol ynglŷn â'r opsiynau arfaethedig. O ran y sylwadau a dderbyniwyd, roedd yr ymateb yn ffafrio opsiwn 10 a 3. Y prif faterion a nodwyd gan aelodau'r PAD oedd; yr angen i unrhyw opsiwn gynnwys gwelliannau a chodi capasiti i rai adeiladau ysgolion Bangor, bod ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw effaith ar sefyllfa trafnidiaeth a thraffig ym Mhenrhosgarnedd, ystyriaeth i faterion ieithyddol, sicrhau trefniadau priodol ar gyfer plant Coedmawr a Glanadda, ac ystyriaeth i unrhyw safleoedd addas ar gyfer datblygu sydd ar gael ym Mangor.

## 2. SEFYLLFA BRESENNOL DALGYLCH BANGOR

2.1 Mae Dalgylch Bangor yn cynnwys 11 ysgol, dwy ysgol uwchradd (Ysgol Uwchradd Tryfan ac Friars) a 9 ysgol gynradd (Ysgol Gynradd Y Garnedd, Hirael, Y Faenol, Llandygai, Cae Top, Glancegin, Babanod Coed Mawr, Glanadda). Mae'r ysgolion wedi eu lleoli oddi fewn ac o amgylch Dinas Bangor. Mae dalgylch Ysgol Y Garnedd ac Ysgol Gatholig Ein Harglwyddes yn cynnwys Bangor cyfan. Adeiladwyd ysgol newydd ar gyfer Ysgol Cae Top ag agorwyd ym Medi 2009 yn dilyn buddsoddiad o £4miliwn. Gweler fod Ysgol Llandygai yn derbyn plant o ddau ddalgylch, sef Bangor a Bethesda.




2.2 Mae'r ardal wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn wynebu'r ddarpariaeth addysg sy'n cynnwys:

- Capasiti: Mae dwy ysgol yn ardal Penrhosgarnedd yn sylweddol dros gapasiti, sef Ysgol Y Garnedd ac Ysgol Y Faenol. Ym mis Medi 2017, roedd Ysgol Y Faenol 20 llefydd dros capasiti, ac Ysgol Y Garnedd 95 dros capasiti.
- Datblygiad Tai: Bydd datblygiadau tai newydd ym Mangor yn rhoi mwy o bwysau ar allu'r ysgolion lleol i dderbyn plant. Mae un datblygwr wedi derbyn caniatâd cynllunio i adeiladu 245 o anheddau, ac eisoes wedi adeiladu nifer ohonynt. Mae'r cwmni wedi ymrwymo i gyfrannu £1,115,387 at addasu'r ddarpariaeth addysgol oed cynradd ym Mangor.
- Llefydd Gweigion: Mae'r ddwy ysgol gynradd yn ardal Coedmawr, sef Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda, wedi'i ffederaleiddio (Ffederasiwn Bro Dewi). Mae nifer uchel o lefydd gweigion yn bodoli yn yr ysgolion hyn o'u cymharu â'u capasiti. Mae gan Ysgol Coedmawr 57% o lefydd gweigion ac Ysgol Glanadda 42% o lefydd gweigion. Mewn cyferbyniad a hyn, nid oes gan weddill ysgolion cynradd Bangor fwy na 10% o lefydd gweigion. Mae 5 allan o'r deg ysgol gynradd yn llawn, gyda rhai ohonynt gyda niferoedd y disgyblion yn fwy na'r capasiti.

2.3 Mae'r gost fesul disgybl yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y dalgylch ychydig yn is na'r cyfartaledd sirol o £3,777, gydag Ysgolion Coedmawr (£6,525), Glanadda (£5,052) yn sylweddol uwch. Mae amrediad yng nghost y pen rhwng 2 o ysgolion cynradd Bangor o £3,414, sef rhwng Coed Mawr (£6,525) ac Ysgol Garnedd (£3,111). Mae Ysgol Babanod Coedmawr yn derbyn £32,520 o gyllid ychwanegol blynyddol trwy'r "rhwyd-diogelu lleiafswm staffio".

2.4 **Sefyllfa Ysgol Y Garnedd**

2.4.1. Mae Ysgol Y Garnedd yn ysgol gymunedol sy'n gwasanaethu dinas Bangor a phentrefi cyfagos Tal-y-bont a Llandygai. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn darparu addysg i 305 o blant (derbyn - blwyddyn 6, Ffigyrau Medi 2017) ar safle sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 210 o blant. Yn ystod adolygiad Estyn diwethaf nodwyd "er bod ystafelloedd yn yr adeilad yn gyfyng iawn i niferoedd y disgyblion, mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r safle drwy drefniadaeth ofalus a disgyblaeth dda'r disgyblion". Er bod yr ysgol yn ymdopi yn dda gyda'r sefyllfa, mae'n bellach yn anghynaladwy.

2.4.2. Yn ystod arolwg cyflwr ac addasrwydd annibynnol a wnaed gan Faithful & Gould (ar gais Llywodraeth Cymru) ym Medi 2016, adnabuwyd fod cyflwr yr adeilad wedi ei gategoreiddio yn C- gan adnabod nifer sylweddol o ddiffygion. Mae rhannau o'r adeilad o wneuthuriad coed sy'n anodd iawn i'w gynnal erbyn hyn. Mae hefyd wedi ei ddylunio ar gyfer nifer sy'n sylweddol llai na'r nifer o blant sy'n mynychu heddiw.

2.5 **Sefyllfa Ysgolion Coedmawr a Glanadda**

2.5.1. Ar hyn o bryd, nid oes pennaeth parhaol gan naill ai Ysgol Coedmawr na Glanadda yn sgil problemau denu ymgeiswyr. Fel canlyniad, penodwyd Pennaeth mewn gofal dros dro yn weithredol o 1af o Fedi 2017 hyd at 31ain o Awst 2018, yn gweithredu yn ddigyswllt. Yn ychwanegol, ceir dau Bennaeth Cynorthwyol yn rheoli'r safleoedd yn ogystal â dysgu. Mae'r sefyllfa hon wedi cynnig datrysiad tymor byr drud iawn, ond, mae angen edrych ar ddatrysiad hir dymor.

2.5.2. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19 a 2019/20, bydd yr ysgol yn wynebu trafferthion ariannol sylweddol a fydd yn golygu na all y trefniant presennol barhau heb newid mawr i lefelau staffio'r ysgolion. Golygai hyn bydd angen ystyried datrysiadau dros dro ar gyfer Medi 2018 yn y ddwy ysgol. Un opsiwn fyddai symud y plant i safle dros dro a fyddai'n galluogi'r ysgolion a'r pennaeth i weithredu yn fwy effeithiol.

2.5.3. Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn isel o'i gymharu â gweddill ysgolion Bangor. Ym Medi 2017, roedd 28 disgybl yn Ysgol Coedmawr a 41 disgybl yn Ysgol Glanadda gyda chyfanswm o 69 (meithrin- Bl.6) ar gofrestr y ddwy ysgol, tra bod 224 o blant y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion cynradd eraill (mae Ysgol Y Garnedd yn derbyn y nifer fwyaf, sef 78 o blant o ddalgylch Coedmawr a Glanadda). Yn ogystal, roedd y niferoedd ar gyfer Medi 2017 y rhai isaf yn y ddwy Ysgol ers 25 mlynedd. Mae'r gostyngiad yn niferoedd Coedmawr ers 1980 yn dangos fod 68% llai o blant yn mynychu'r ysgol, gyda 62% yn llai yn mynychu ysgol Coedmawr yn yr un cyfnod.

| | | Dalgylch Cartref | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cae Top** | **Hirael** | **Babanod Coed Mawr + Glanadda** | **Y Faenol** | **Glancegin** | **Llandygai** | **Arall** | **Cyfanswm** |
| **Ysgol** | Y Garnedd | 46 | 28 | 78 | 69 | 23 | 20 | 74 | 338 |
| | Cae Top | 90 | 13 | 59 | 18 | 7 | 3 | 49 | 239 |
| | Hirael | 13 | 102 | 20 | 5 | 37 | 2 | 17 | 196* |
| | Babanod Coed Mawr + Glanadda | 5 | 2 | 50 | 4 | 2 | 2 | 4 | 69 |
| | Y Faenol | 12 | 1 | 34 | 111 | 3 | 3 | 55 | 219 |
| | Ein Harglwyddes | 8 | 20 | 43 | 11 | 12 | 1 | 28 | 123 |
| | Llandygai | 1 | 8 | 4 | 1 | 28 | 45 | 63 | 150* |
| | Glancegin | 3 | 5 | 5 | 0 | 235 | 0 | 3 | 251 |
| | Cyfanswm | **178** | **179** | **293** | **219** | **347** | **78** | **293** | **1,585** |

** Efallai na fydd data a gymerir o SIMS ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad yn cyfateb yn union â'r ffurflen cyfrifiad ysgolion*

## 3. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL – DEWIS MODEL

3.1.1. Crëwyd rhestr hir o opsiynau. Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model 'Status Quo' yn cael ei gynnwys at ddiben cymharu:

| | |
|---|---|
| **Status Quo** | Gwneud Dim |
| **Model 1** | Ymestyn Ysgol Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 270. Cau Ysgol Coed Mawr, Glanadda a'r Garnedd. Creu ysgol newydd ar 2 safle (babanod a iau) gyda'r ysgol babanod ar safle Coed Mawr (180) a'r iau ar safle'r Garnedd (240). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Model 2** | Cau Ysgol Coed Mawr, Glanadda, Y Faenol a'r Garnedd. Datblygu ysgol newydd gyda chapasiti o 690. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Model 3** | Ymestyn Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coed Mawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau |

| | |
|---|---|
| | adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Model 4** | Adeilad newydd i'r Garnedd, capasiti o 350 i 380. Ysgol newydd i Coed Mawr a Glanadda i gynnwys llefydd i'r plant newydd o dai Pen y Ffridd (Goetre Uchaf). Ymestyn y Faenol i tua 250 a datrys problemau traffig. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Model 5** | Un ysgol gydol oes ym Mangor (2,746 + 306). Cau pob ysgol gynradd ac uwchradd |
| **Model 6** | Uno ysgol Tryfan a Friars a chreu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg (1,347 + 306) gan godi ysgol gynradd newydd ar safle cyfredol Tryfan (420) ac ymestyn Ysgol Faenol (270). Cau Ysgol Coed Mawr, Glanadda a Garnedd. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Model 7** | Cyfuno Ysgol Tryfan a Dyffryn Ogwen ar safle newydd (700 + 150?). Ysgol gynradd newydd ar safle cyfredol Tryfan (420) ac ymestyn Ysgol Faenol (270). Cau Ysgol Coed Mawr, Glandda a Garnedd. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Model 8** | Cau Glanadda a Coed Mawr. Estyniad i'r Faenol (270). Adeilad newydd i'r Garnedd (380-420 o blant). Adeilad newydd i Ein Harglwyddes (120) yn ystod yr ail ffês (cyllid yr Eglwys). Creu cyfleusterau cymunedol chwaraeon i'w rhannu gan y Garnedd, Friars, Cae Top (fel Parc Eirias). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol. |
| **Model 9** | Ail adeiladu Ysgol Ein Harglwyddes ar yr un safle (120).Rhoi estyniad i Glanadda (90) er mwyn cyfuno gydag Ysgol Coed Mawr. Ail adeiladu Coed Mawr er mwyn gwneud lle i ormodedd y Faenol a'r Garnedd (240). Parc Cegin? (digon o le) . Ail gyflwyno gwasanaeth bws ar gyfer disgyblion. Rhaid i'r ysgolion fod yn ddigon mawr ar gyfer twf poblogaeth. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol. |
| **Model 10** | Cynyddu capasiti'r Faenol (270). Garnedd i safle newydd a chodi chapasiti (330). Addasu safle Glanadda i dderbyn plant Coed Mawr (90). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Model 11** | Ysgol newydd i'r Faenol (270). Garnedd i safle newydd a chynyddu'r capasiti (420). Cau Coed Mawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Model 12** | Ymestyn y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 360. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 330. Cau Ysgol Coed Mawr a Glanadda gan ddanfon plant i Faenol. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |


3.1.2. Gwerthuswyd yr opsiynau gwahanol a gellir gweld cymhariaeth bellach o'r modelau yn erbyn ffactorau a chytunwyd yn ystod y cyfarfod PAD cyntaf. Gellir gweld y gwerthusiad opsiynau llawn yn **Atodiad 1.**

## 4. Y CYFEIRIAD AR GYFER Y DALGYLCH

4.1 Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r opsiynau posibl, y cyfeiriad a awgrymir fel sail ar gyfer cynnwys yr ymgynghoriad statudol hon yw Model 3 sef:

Ymestyn y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coed Mawr a Glanadda. Adeilad newydd ar gyfer Ein Harglwyddes. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol.

### 4.2 **Opsiwn Ffafriedig**




4.3 Fel gyda phob sefyllfa debyg, mae gan rieni yr hawl i ddewis lleoliad amgen ar gyfer eu plant os ydynt yn dymuno. Gan y bydd y newidiadau yn Ysgol y Faenol gerllaw ar yr un adeg a datblygu adeilad newydd ar safle'r Garnedd, tebyg y bydd rhai yn dymuno dewis yr ysgol honno ar gyfer addysg eu plant.

## 5. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 5.1 **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau**

5.1.1. Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar fabwysiadu egwyddorion newydd i ddarparu sylfeini ar gyfer system addysg yn y dyfodol a fydd yn addas i bwrpas. Mae trefn addysg arfaethedig ar gyfer yr ysgolion cynradd wedi'i asesu ar sail egwyddorion cyffredinol, sef amodau arweinyddiaeth sy'n anelu tuag at gynnig 80% o amser digyswllt i'r pennaeth, ac sy'n ceisio sicrhau ysgolion gyda dosbarthiadau o ddim mwy na dau oedran. Gallai'r nodau hyn ymateb i'r her fwyaf sy'n wynebu'r sector cynradd, sef penaethiaid heb amser digonol i arwain, ac athrawon mewn ysgolion bychain sydd yn gorfod addysgu ystod eang o blant o wahanol oedrannau a galluoedd oddi mewn yr un dosbarth.

5.1.2. Byddai cynyddu maint Ysgol Y Garnedd i 420 yn golygu strwythur a fyddai cynnwys dau ddosbarth ar gyfer pob oedran h.y. mynediad â lle i 60 o blant ym mhob grŵp blwyddyn, rhwng grwpiau

Derbyn a Blwyddyn Chwech. Rhagwelir y bydd pegynau amrediad oedran o fewn dosbarthiadau sydd yn bodoli yn rhai ysgolion yn diflannu, sydd yn fodd o leddfu'r heriau a phroblemau addysgu a dysgu effeithiol y gall ddigwydd pan ceir ystod oedran eang mewn un dosbarth.

## 5.2 Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion

5.2.1. Mae niferoedd disgyblion yn yr ysgolion wedi newid yn sylweddol ers 1980, gyda gostyngiad o 62% yn Ysgol Coedmawr a 68% yn Ysgol Glanadda. I'r gwrthwyneb, mae niferoedd Y Garnedd wedi cynyddu 55% yn yr un cyfnod. Dengys y tabl isod y nifer o ddisgyblion cynradd ym Mangor ers 1980.

| | Niferoedd [Meithrin – Bl.6 (Oed 3-11)]<br>Number [Nursery - Yr.6 (Age 3-11)] | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol**<br>**School** | **1980** | **1985** | **1990** | **1995** | **2000** | **2005** | **2010** | **2015** | **2017** | **1980-2017**<br>**Twf / growth** | **1980-2017**<br>**% twf / growth** |
| **Glanadda** | 128 | 83 | 87 | 89 | 61 | 63 | 45 | 42 | 41 | -87 | -68% |
| **Coed Mawr** | 73 | 67 | 48 | 90 | 54 | 49 | 57 | 40 | 28 | -45 | -62% |
| **Y Garnedd** | 218 | 185 | 191 | 268 | 271 | 312 | 325 | 346 | 338 | 120 | 55% |
| **Hirael** | 189 | 167 | 168 | 221 | 223 | 252 | 201 | 168 | 195 | 6 | 3% |
| **Y Faenol** | 141 | 108 | 110 | 147 | 244 | 243 | 244 | 253 | 219 | 78 | 55% |
| **Llandygai** | 128 | 128 | 135 | 150 | 176 | 169 | 181 | 143 | 149 | 21 | 16% |
| **Cae Top** | 243 | 170 | 207 | 195 | 212 | 216 | 251 | 242 | 240 | -3 | -1% |
| **Ein Harglwyddes** | 135 | 149 | 113 | 151 | 123 | 113 | 115 | 126 | 123 | -12 | -9% |
| **Glancegin** | 309 | 235 | 326 | 328 | 264 | 226 | 207 | 229 | 251 | -58 | -19% |
| **Ardal / Area** | 1564 | 1292 | 1385 | 1639 | 1628 | 1643 | 1626 | 1589 | 1584 | | |

## 5.3 Amgylchedd ddysgu – ansawdd ac addasrwydd adeiladau

5.3.1. Mae Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru yn nodi bod yr amgylchedd addysgu yn ffactor bwysig wrth ddarparu addysg. Mae Estyn hefyd o'r farn fod adeiladau dysgu o ansawdd ac amgylchedd ddysgu da yn medru gwella cyflawniad disgyblion. (Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion cyn ac wedi iddynt symud i adeiladau newydd neu eiddo wedi eu hadnewyddu, 2007).

5.3.2. Yn ogystal, mae adeiladau newydd neu sydd wedi eu hailwampio, yn golygu llai o wariant ar gynnal a chadw adeiladau ac ar ynni.

*Ffynhonnell: Data cyfrifiad ysgolion bob Medi 2017*

5.3.3. Cyfeiriwyd eisoes yn 2.4.2 uchod at gyflwr Ysgol y Garnedd. Mae angen gwaith ar bron bob elfen o'r adeiladwaith erbyn hyn. Mae rhannau helaeth o'r adeiladwaith o wneuthuriad coed ac mae parhau i'w gynnal yn anodd. Mae nifer y disgyblion yn yr Ysgol yn fwy na chapasti swyddogol yr

Ysgol, gyda nifer o ddisgyblion yn cael eu haddysg mewn gofod anaddas. Mae maint y dosbarthiadau yn rhy fach.

5.3.4. Mae Ysgol Glanadda yn adeilad carreg Fictorianaidd ei natur ac mae modd ei gynnal yn barhaus. Mae angen gwaith ar y ffenestri, to a'r gegin. Fel arall mae mewn cyflwr derbyniol. Mae cynllun yr ysgol yn anhyblyg a maint yr ystafelloedd dosbarth ddim i safonau presennol.

5.3.5. Nid yw Ysgol Coed Mawr mewn cyflwr cystal ac mae angen ei ail weirio, adnewyddu toeau fflat, ffenestri newydd a gwaith ar y gegin. Mae modd parhau ei gynnal ond bydd nid yw o adeiladwaith safonol a bydd angen buddsoddiad parhaus i'w gynnal. Mae cynllun yr ysgol yn anhyblyg a maint yr ystafelloedd dosbarth ddim i safonau presennol. Mae'r safle yn gyfyngedig a dim modd ei ehangu

5.4 **Arweinyddiaeth a Staffio**

5.4.1. Mae'r arweinyddiaeth yn Y Garnedd wedi ei adnabod gan Estyn (2012) yn "rhagorol", gydag arweiniad cadarn yn cael ei roi gan y Pennaeth a'r uwch dim rheoli. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, mae'r sefyllfa yn ysgolion Glanadda a Coedmawr wedi bod yn un o'r prif ystyriaethau ar gyfer newid, gyda sefyllfa fregus yn ymwneud a diffyg trefniadau arweinyddiaeth gwydn.

5.4.2. Petai cymeradwyaeth i'r cynnig, byddai goblygiadau staffio a allai arwain at ansicrwydd a diswyddiadau i rai o aelodau staff ysgolion Glanadda a Choedmawr. Bydd staff a chynrychiolwyr yr Undebau yn cael eu cynnwys fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl ar y cyd â'r Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

5.4.3. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd arweiniad cryf mewn ysgol fel ffordd o gynnal a gwella safonau. Mae'r camau canlynol ar waith er mwyn sicrhau arweinyddiaeth gref yn ysgolion Gwynedd ar gyfer y dyfodol:

- GwE yn hyfforddi un uwch-reolwr o bob ysgol uwchradd i ddatblygu eu sgiliau arwain personol, a hefyd i ddatblygu rheolwyr canol eu hysgolion;
- Ysgolion llwyddiannus yn rhannu arfer dda a chynnal dyddiadau Datblygu Arweinyddiaeth i reolwyr gweddill yr ysgolion;
- Cynlluniau ysgol i ysgol yn sicrhau fod arweinwyr ysgolion yn cydweithio ac yn datblygu arbenigedd arweinydd;
- Annog darpar arweinwyr i ennill y cymhwyster CPCP;
- Cynllun mentora Penaethiaid;
- Cynllun peilot Arweinydd Strategol dalgylchol ar waith er mwyn hybu a datblygu arweinyddiaeth strategol yng Ngwynedd

5.5 **Ystyriaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol:**

Mae cyfle trwy'r arian Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif i ddarparu gwell adnoddau i'r plant hynny sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ardal trwy rhoi sylw briodol i'r:

- Canolfan Adnoddau Iaith i ddisgyblion sydd ag anhwylderau iaith penodol a fyddai'n elwa o gefnogaeth ddwys am gyfnod byr. Y nod o gynnig y ddarpariaeth hon yw ceisio newid cadarnhaol hirdymor yn anhwylderau ieithyddol pobl ifanc, a thrwy hynny, sicrhau eu bod yn gallu llwyddo'n academaidd.

- Canolfan Cyfathrebu Cymdeithasol ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol a diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistig, a fyddai'n elwa o gefnogaeth ddwys yn y system addysg prif ffrwd. Mae'r ddarpariaeth hon yw ceisio galluogi newid cadarnhaol hirdymor ym medrau cyfathrebu cymdeithasol pobl ifanc, a thrwy hynny sicrhau eu bod yn gallu llwyddo'n academaidd, yn gymdeithasol ac yn annibynnol.

5.6 **Adnoddau Ariannol**

5.6.1. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae'r gwariant yn ôl y disgybl yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol. Oherwydd yr hinsawdd ariannol anodd sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae'n gwneud synnwyr i ddefnyddio adnoddau addysgol mor effeithiol ag sy'n bosibl.

5.6.2. Yn 2017/18, dyrannwyd £5,231,881 i ysgolion cynradd y dalgylch. Mae cost y pen ysgolion cynradd y dalgylch yn £3,527 y disgybl ar gyfartaledd, i gymharu gyda cyfartaledd cost y disgybl yng Ngwynedd o £3,777.

5.6.3. Wrth sefydlu'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd, a throsglwyddo plant Ysgol Coedmawr ac Ysgol Glanadda i safle'r Garnedd amcangyfrifir y gall y cynllun arwain at arbedion refeniw parhaol o tua £107,519 o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol gyda chostau rhedeg blynyddol refeniw adeilad Ysgol y Faenol yn dilyn estyniad yn cynyddu £23,074

5.6.4. Rhaid cydnabod bod trefniadau cyfrifo cenedlaethol NNDR (treth adeilad) yn arwain at gynnydd yn dilyn buddsoddiad cyfalaf, ond gyda'r gronfa NNDR yn cael ei ddosbarthu yn ôl i awdurdodau, gellid dadlau na ddylid ystyried y mater yma wrth adnabod arbedion refeniw.

5.6.5. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo mewn egwyddor i gyfrannu 50% tuag at y swm o £12.7 miliwn y bwriedir ei fuddsoddi yn y dalgylch, ac mae hyn yn ddarostyngedig i gwblhau achos fusnes llwyddiannus.

5.7 **Ffactorau Daearyddol**

5.7.1. Wrth symud i'r adeilad newydd, ni ragwelir bydd angen i unrhyw ddisgybl deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol â'r strategaeth. Mae Ysgol Glanadda wedi ei leoli 0.8 filltir i ffwrdd o safle presennol Ysgol Y Garnedd, gydag Ysgol Coedmawr wedi ei leoli 0.3 filltir i ffwrdd. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y Sir, ac ni ragwelir unrhyw gynnydd yng nghostau cludiant yn deillio o weithredu ar yr opsiwn ffafriedig.

5.8 Bydd angen i unrhyw gynllun datblygu flaenoriaethu gwella sefyllfa traffig safle presennol y Garnedd. Mae ardal Penrhosgarnedd yn goddef traffig trwm ar adegau penodol o'r dydd ac felly bydd angen i ddyluniad y datblygiad newydd alluogi tynnu traffig yr ysgol oddi ar y ffordd fawr yn hwylus.

5.9 **Elfennau Pellach ar gyfer Gweledigaeth Addysg ym Mangor**

5.9.1. Fel y nodwyd eisoes, mae'r opsiwn ffafrieidig ar gyfer y weledigaeth addysg ar gyfer Bangor yn cynnwys sawl elfen wahanol. Yn ychwanegol i'r cynnig ymgynghori ar opsiwn i gau Ysgolion Coedmawr a Glanadda a chynyddu'r Garnedd, bydd gwaith yn parhau gyda'r elfennau isod.

- **Y Faenol:** Fel rhan o'r opsiwn ffafriedig, mae'r angen i gynyddu capasiti Ysgol Y Faenol wedi ei adnabod i gyfarch y posibilrwydd o gynnydd yn nifer disgyblion yn deillio o ffactorau fel datblygiadau tai ym Mhenrhosgarnedd, a chapasiti presennol yr ysgol. Y cam nesaf yn y broses

fydd cynnal rhagymgynghoriad gyda'r ymddiriedolwyr a/neu'r corff crefyddol priodol yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Bydd copi ddrafft o ddogfen ymgynghori yn cael ei ddosbarthu fel rhan o'r broses hon. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn nodi yn benodol:

*"Yn achos cynigion i ad-drefnu ysgolion y mae tir a/neu adeiladau'n a gedwir ar ymddiriedolaeth, neu ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig,* ***rhaid*** *i'r cynigydd gynnal ymgynghoriad â'r ymddiriedolwyr a/neu'r corff crefyddol priodol cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori.* ***Rhaid*** *i'r cynigydd ganiatáu 28 diwrnod ar gyfer derbyn sylwadau a* ***rhaid*** *iddo roi sylw priodol i'r sylwadau hyn cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gynnal ymgynghoriad cyffredinol."*

- **Ysgol Glancegin:** Fel rhan o Fand A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, llwyddodd y Cyngor i ddenu £5.11m tuag at adeiladu ysgol newydd ar gyfer 240 o ddisgyblion (yn cynnwys 30 lle meithrin) ym Maesgeirchen yn lle'r Ysgol Glancegin presennol. Pryd gyflwynwyd y cais wreiddiol, roedd niferoedd llefydd gweigion sylweddol yn yr ysgol, gyda nifer o blant yn mynychu ysgolion eraill yn y dalgylch. Os bydd y cynnydd yn y niferoedd yn parhau, mae posibilrwydd y bydd angen ystyried gwrthod mynediad i rai o blant y dalgylch. Er mwyn datrys y sefyllfa, bydd angen asesu'r angen i gynnwys dosbarth ychwanegol ar gyfer 30 o blant yn yr ysgol. Mae'r cynllun gwreiddiol ar gyfer yr adeilad newydd yn galluogi hyblygrwydd i addasu rhai ardaloedd rhag ofn y byddai twf yn nifer plant y dalgylch yn y dyfodol.

| Niferoedd Medi 2017 | | | | | | | | | Rhagamcanion 2018 | Rhagamcanion 2019 | Rhagamcanion 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **M** | **D** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **Cyfanswm** | **M – Bl6** | **M – Bl6** | **M – Bl6** |
| 38 | 28 | 39 | 30 | 37 | 24 | 32 | 23 | 251 | 264 | 262 | 268 |

- **Ysgol Hirael:** Mae rhannau o'r adeilad mewn cyflwr gwael, gyda'r adeilad to fflat yng nghefn yr adeilad angen sylw. Bydd asesiad pellach yn cael ei wneud ar yr opsiynau ar gyfer gwelliannau.

- **Ysgol Ein Harglwyddes:** Mae cyflwr adeiladau'r ysgol hon wedi ei adnabod yn ystod trafodaethau'r PAD fel elfen bydd angen sylw yn y dyfodol. Ar gyfer ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA), mae trefniadau ariannu yn golygu cyfradd ymyrraeth o hyd at 85% gan Lywodraeth Cymru a 15% gan yr Esgobaeth briodol. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Esgobaeth i gael dealltwriaeth o'r posibiliadau o wella cyflwr ysgol oddi mewn ei chynlluniau cyfalaf strategol.

## 6. EFFEITHIAU'R MODEL ARFAETHEDIG AR Y GYMUNED, YR IAITH GYMRAEG, CYDRADDOLDEB

### 6.11 **Y Gymuned**

6.11.4. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (*Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013*) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd astudiaeth effaith cymunedol ar gyfer y rhestr fer o'r opsiynau a chytunwyd arnynt yn ystod y trydydd cyfarfod PAD. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad 2.**

6.11.5. Nododd yr asesiad, drwy gau safleoedd Glanadda a Coedmawr bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu colli. Fodd bynnag, mae ysgolion eraill yr ardal fel Ysgol Y Garnedd eisoes yn gwneud defnydd tebyg o adeilad yr ysgol ac felly, bydd modd parhau gyda defnydd cymunedol tebyg.

6.11.6. Mae casgliad yr asesiad yn nodi nad oes rheswm i unrhyw un o'r opsiynau gael effaith negyddol sylweddol ar y gymuned.

6.12 **Yr Iaith Gymraeg (**DRAFFT**)**

6.13 Mae unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag adrefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn benodol i Gyngor Gwynedd gydweithio â nhw i ledaenu arferion y Siarter Iaith ledled Cymru, ac mae'r Cyngor wedi gwneud hynny gyda'r Siarter bellach yn weithredol mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog ar draws Cymru. Er mwyn cefnogi'r ysgolion i weithredu'r Siarter Iaith, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido swyddi Cydlynwyr Siarter Iaith drwy'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol.

6.14 Mae'r gwaith o ddatblygu'r Siarter Iaith i fod yn rhaglen genedlaethol yn rhan allweddol o Fframwaith ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu ar gyfer y Gymraeg, fydd yn cwmpasu'r Siarter Iaith (Cynllun ni ar gyfer ysgolion Cymraeg dwyieithog), Cymraeg Campus (Cynllun i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion mwy Saesnig) a PCAI (Pecyn Cefnogi Arferion Iaith). Deallir y daw'r Fframwaith hwn yn weithredol yn Medi 2018.

16.4.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (*Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013*) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd astudiaeth effaith ar yr iaith Gymraeg ar gyfer y rhestr fer o'r opsiynau a chytunwyd yn ystod y trydydd cyfarfod PAD. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad 2.**

16.4.2 Mae'r opsiynau i gau Ysgolion Coedmawr a Glanadda hefyd yn cynnwys datblygu estyniad sylweddol i Ysgol Y Garnedd. Felly disgwylir bydd y mwyafrif o ddisgyblion a fyddai'n mynd i'r ysgolion yma yn mynd i Ysgol Y Garnedd, yn ddarostyngedig i ddewis rhieni. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly yr un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.

16.4.3 Yn unol â'r Polisi Iaith, disgwylir i gyfrwng y ddarpariaeth gwricwlaidd fod yr un fath ar draws ein hysgolion cynradd. Cydnabyddir, serch hynny, ar sail cefndir ieithyddol y plant, fod naws a diwylliant yr ysgolion cynradd ym Mangor (ac ar draws y sir) yn amrywio. Mewn ymateb i hyn, datblygwyd y Siarter Iaith gan y Cyngor - sy'n weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd- er mwyn annog defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, hyrwyddo naws Gymreig ein hysgolion ac ymwybyddiaeth y plant o Gymreictod.

16.5 **Asesiad Cydraddoldeb**

6.15.1. Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar restr fer y modelau posibl. Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r polisïau a threfniadau sydd mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad 2**.

6.15.2. Mae'r asesiad yn nodi nad yw'r opsiynau arfaethedig yn debygol o gael unrhyw effaith negyddol ar nodweddion cydraddoldeb, a disgwylir bydd effaith positif ar rai o'r nodweddion. Prif nod y cynllun yw gwella'r ddarpariaeth addysg yn y dalgylch, gan sicrhau fod plant yr ardal yn cael addysg dda a chyfleoedd cyfartal mewn adeiladau o safon ac sy'n addas i bwrpas, gan hefyd sicrhau fod unrhyw welliannau yn hyfyw i'r dyfodol. Ni fydd unrhyw newid i bolisïau'r ysgolion perthnasol ar faterion cydraddoldeb.

6.15.3. Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol a'r nodweddion cydraddoldeb. Bydd Estyn hefyd yn arolygu'r ysgolion gan asesu agweddau cydraddoldeb yn ôl eu canllawiau arferol.

## 7. CASGLIAD

7.1 Mae Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif wedi rhoi cyfleoedd i'r Cyngor adolygu darpariaeth addysg yn ninas Bangor yn dilyn cais llwyddiannus ar gyfer adnoddau Band A a ellir hefyd arwain at arian o dan Band B. Mae trafodaethau sydd wedi eu cynnal wedi adnabod y materion isod fel blaenoriaethau er mwyn dechrau gwireddu gweledigaeth addysg ar gyfer yr holl ddalgylch ym Mangor:

- Sefyllfa diffyg capasiti yn Ysgol Y Garnedd ac Ysgol Y Faenol, a'r posibilrwydd y bydd datblygiadau tai yn yr ardal yn ychwanegu'r pwysau ar y galw am lefydd yn y ddwy ysgol sydd eisoes yn uchel.
- Mae cyflwr adeiladau Ysgol Y Garnedd hefyd angen eu gwella ar ôl cael eu categoreiddio yn C- gan adroddiad ansawdd annibynnol.
- Mae sefyllfa llefydd gweigion yn Ysgol Babanod Coedmawr (57%) ac Ysgol Glanadda (42%) yn parhau i aros yn uchel i gymharu ag ysgolion eraill y Sir.
- 28 disgybl yn Ysgol Coedmawr a 41 disgybl yn Ysgol Glanadda, tra bod 224 o blant y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion cynradd eraill.
- Mae sefyllfa anodd yn parhau yn ymwneud ag arweinyddiaeth yn y ddwy ysgol sydd wedi eu ffedereiddio. Mae swydd Pennaeth Strategol parhaol dal yn wag gyda phenodiad dros dro tan Fedi 2018.
- Mae cost y pen y ddwy ysgol, Coedmawr (£6,525) a Glanadda (£5,052) yn dipyn uwch na'r gost y pen ar gyfartaledd yn y Sir (£3,777).
- Wrth sefydlu'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd, a throsglwyddo plant Ysgol Coedmawr ac Ysgol Glanadda i safle Y Garnedd amcangyfrifir y gall y cynllun arwain at arbedion refeniw o tua £107,519 o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.

## 8 CAMAU NESAF

8.1 Os cytunai'r Cabinet gydag argymhellion yr adroddiad hwn, yna bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), ar y bwriad o gau Ysgolion Coedmawr a Glanadda, a chynnig lle iddynt yn adeilad newydd Y Garnedd (yn ddarostyngedig ar dewis rhieni).

8.2 Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet yn adrodd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn.

8.3 Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet gloriannu'r ymgynghoriad ac, yn amodol ar farn y Cabinet, penderfynu a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol i weithredu'r cynnig ai peidio. Os cyhoeddir Rhybudd Statudol, bydd cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un gwrthwynebu. Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

8.4 Yn amodol ar benderfyniad Cabinet, bydd broses ar wahân yn dechrau i gynnal rhagymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol y Faenol.

8.5 Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol:

| Camau'r Daith | Amserlen Amlinellol |
|---|---|
| Adroddiad Cabinet - Caniatâd i Ymgynghori ar yr Opsiwn a Ffafrir | 13 Mawrth 2018 |
| Cyfnod Ymgynghori Statudol | Ebrill - Mai 2018 |
| Adroddiad Cabinet yn dilyn ymgynghoriad statudol | Mehefin 2018 |
| Cyhoeddi Rhybudd Statudol a chyfle i ymgynghorai wrthwynebu | Mehefin - Gorffennaf 2018 |
| Penderfyniad Terfynol gan Gabinet y Cyngor | Medi 2018 |

## 9. ARGYMHELLION

9.1 Argymhellir felly:

1. Cynnal ymgynghoriad statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Bangor ar gynnig i gau ysgolion Glanadda a Choedmawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.

2. Cynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn ymwneud a chynyddu chapasiti Ysgol y Faenol i 315 yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ac adrodd ar y canlyniadau i'r Cabinet.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

"Mae cynnwys yr adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb."

**Prif Swyddog Cyllid:**

"Mae'r cynigion gerbron yn dystiolaeth o waith trylwyr gan y Panel Adolygu ac eraill wrth geisio symud ymlaen yn briodol gydag adolygu trefniadaeth ysgolion cynradd yn ardal Bangor.

Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sy'n rhan 2.3, 5.6.2, 5.6.3 a 7.1 o'r adroddiad unai yn wir gostau cywir, neu yn amcangyfrifon teg (lle'n briodol).

Mae'r rhain yn cynnwys amcangyfrif arbediad blynyddol o ddatblygiad ysgol newydd y Garnedd o £107,519 ynghyd â chost ychwanegol flynyddol o £23,074 ar gyfer cynnal adeilad Ysgol y Faenol yn dilyn estyniad (fel nodir yng nghymal 5.6.3 o'r adroddiad).

Rwy'n cefnogi'r argymhellion yma ac yn annog aelodau perthnasol i barhau gyda'r prosiect ehangach i adolygu trefniadaeth ysgolion yn ddi-oed"

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Gwerthusiad Opsiynau |
| **Atodiad 2** | Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb |

Bydd y pecyn cefndirol yn cynnwys:

- Adroddiad Cabinet Ionawr 2017
- Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013)
- Pecyn Ystadegol

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

## PWNC

Eitem 6:DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN NALGYLCH BANGOR

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd:

i. Cynnal ymgynghoriad statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Bangor ar gynnig i gau ysgolion Glanadda a Choedmawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.
ii. Cynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn ymwneud a chynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315 yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ac adrodd ar y canlyniadau i'r Cabinet.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Cyngor wedi gweithredu Strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' ers ei fabwysiadu yn Ebrill 2009. Ar ddiwedd 2016, hysbysodd Llywodraeth Cymru fod cyfle i Awdurdodau Lleol gyda'r capasiti i gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Cyflwynwyd cais ychwanegol i'r Llywodraeth a bu cadarnhad fod arian wedi ei glustnodi mewn egwyddor. Mae'r cadarnhad hwn wedi galluogi'r Cyngor i adolygu'r ddarpariaeth bresennol ym Mangor.

Mae angen ymgymeryd a phroesau statudol i symud ymlaen a chynnigion arfaethiedig sydd yn deillio ac fel cam cyntaf rhaid penderfynu ar gychwyn prosesau ymgynhorol yn unol a'r Ddeddf a'r arweiniad statudol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Cyng. Dafydd Meurig gan fod ei chwaer yn rhedeg y feithrinfa ar safle Ysgol y Faenol. Roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Richard Medwyn Hughes - Aelod Lleol - gan ei fod yn Aelod o Lywodraethwr dwy ysgol sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad - Ysgol Coed

Mawr a Glandda, nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Roedd aelodau lleol yn rhan o’r drafodaeth yn y Cabinet, ac felly bu i’r Aelodau dderbyn eu barn.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

**PWNC**

Eitem 7:AILFODELU'R GWASNAETH IEUENCITD

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:

i. Cymeradwyo mabwysiadu'r model o Glwb Ieuenctid Sirol, Opsiwn 3 gyda'r diwygiadau a nodir ym mharagraff 10.1 o'r adroddiad ar gyfer ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid
ii. Cymeradwyo ail-broffilio £24,800 o'r arbedion o 2018/19 i 2019/20 er mwyn cyfarch peth ariannu o'r mudiadau gwirfoddol yn 2018/19 fel nodir yn rhan 10.4.3 o'r adroddiad.
iii. Ymrwymo'r Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant i adrodd yn ôl i'r Cabinet bob pedwar mis ar gynnydd y gwasanaeth

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn dilyn cwblhau Adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid sy'n amlygu'r angen i newid, lluniwyd opsiynau ar gyfer ail-fodelu ar gyfer y dyfodol. Wedi proses ymgynghroi mae angen penderfynu ar fabwysiadu model newydd ar gyfer darparu gwasnaeth ieuenctid ac ymateb i benderfyniad Her Gwynedd

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. W Gareth Roberts, gan fod Aelod o'r teulu yn gweithio yn y Gwasanaeth Ieuenctid. Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

**PWNC**

Eitem 8:ADOLYGIAD SENEDDOL IECHYD A GOFAL YNG NGHYMRU

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:

i. Derbyn yr adroddiad a'r atodiad gan nodi plethant yn y cynlluniau sydd eisoes yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor gyda'r cyfeiriad a nodi'r yn yr adolygiad.
ii. Gofyn i'r Arweinydd a Prif Weithredwr gysylltu yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru, yn ychwanegol i Aelodau Cynulliad a'r WLGA i amlygu'r cwestiwn o sut bydd modd symud ymlaen yn dilyn yr adolygiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n briodol i ystyried ein hymagwedd mewn pethynas a'r adroddiad terfynol o'r Adolygiad Seneddol, er mwyn gallu bod yn hyderus o'n cyfeiriad ar gyfer y dyfodol mewn perthynas a gwasanaethau iechyd a gofal Gwynedd i blant a phobl o bob oed.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

## PWNC

Eitem 9:CYNLLUN RHANBARTHOL ASESIAD O BOBLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2018 i 2023

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru 2018 i 2023

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau cydymffurfiad a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

## PWNC

Eitem 10:NEWID I AMODAU GWAITH LLEOL Y CYNGOR

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i Amodau Gwaith Lleol y Cyngor.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn moderneiddio a diwygio'r amodau gwaith lleol gan hefyd gyflawni arbediad fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i ymdopi â'r her ariannol bresennol a wynebir.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

## PWNC

Eitem 11:YMATEB CYNGOR GWYNEDD I'R YMGYNGHORIAD STATUDOL AR GYNLLUN LLESIANT DRAFFT GWYNEDD A MON

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo yr ymateb drafft sydd wedi ei baratoi ar ran y Cyngor i'r Ymgynghoriad Statudol ar Gynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Llesiant sy'n amlinellu sut bwriedir gwella llesiant yr ardal.

Yn dilyn ymgynghoriaeth cyhoeddus yn yr adaloedd llesiant, roedd 9 prif nesges yn cael ei hamlygu yn yr asesiadau ar gyfer yr ardal gyfan. Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth yma gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth lunio'r Cynllun Llesiant. Ar hyn o bryd mae'r Cynllun mewn cyfnod o dri mis o ymgynghroi statudol a bydd yn dod i ben ar 30 Mawrth. Roedd hwn yn gyfle i'r Cabinet ddarparu mewnbwn a sicrhau cytundeb i ymateb y Cyngor i'r ddogfen ymgynnghorol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

## PWNC

Eitem 12:RHYDDHAD DEWISIOL TRETHI ANNOMESTIG

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadu'r Fframwaith ar gyfer Caniatáu Rhyddhad Dewisol rhag Trethu Annomestig sy'n ymddangos yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Fframwaith bresennol y Cyngor ar gyfer caniatáu Rhyddhad Dewisiol i Dalwyr Trethi Annomestig wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn. Mae'n amserol i'r Cyngor gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i Bolisi Rhyddhad Dewisol nid yn unig er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas yn sgil newidiadau deddwriaethol, ond hefyd i ystyried os yw'r rhyddhad y mae'r Cyngor yn ei ganiatáu wedi ei anelu i'r manau cywir ac yn fforddiadwy.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Dyfrig Siencyn, Cyng. Mair Rowlands, Cyng. Peredur Jenkins a'r Pennaeth Cyllid, Dafydd Edwards, gan eu bod hwy yn ymddiriedolwyr neu cyfarwyddwyr ar amrywiol glybiau a mentrau sydd yn cael rhyddhad treth. Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

---

**PWNC**

Eitem 13:STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2018

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y fersiwn ymgynghori o Strategaeth Iaith 2018.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol a gofyn Safon 145 (Safonau'r Gymraeg, mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yng Ngwynedd.

Mae angen sicrhau fod y Cabinet yn fodlon ar gynnwys y strategaeth a'r blaenoriaethau a nodi'r ynddi, a'u bod yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod mewn cynlluniau eraill megis Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Llesiant ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

## PWNC

Eitem 14:ADRODDIAD AR RAGLEN ARBEDION ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd:

a) Cyfuno rhai cynlluniau (sydd wedi eu cymeradwyo) i ffrydiau gwaith sydd yn cyflawni arbedion o'r un cyllidebau, ac yn ail broffilio cyfwerth a £270,000 o arbedion 2018/19 I 2019/20 fel yr amlinellir yn rhan 7 o'r adroddiad.
b) Cynyddu'r targed arbedion mewn rhai meysydd sy'n cyflawni mwy na'r targed gwreiddiol, sef £195,000 yn 2018/19 a £200,000 yn 2019/20, fel yr amlinellir yn rhan 8 o'r adroddiad.
c) Cynyddu'r targed arbedion o gynlluniau newydd sef £390,000 yn 2018/19 a £570,000 yn 2019/20, fel yr amlinellir yn rhan 9 o'r adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae llawer wedi newid yn y maes gofal yn genedlaethol ers i'r rhaglen arbedion gael ei chyflwyno, ac mae'r newidiadau yn cynnwys newidiadau deddfwriaethol ac ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i hyn a chryn addasiadau yn y ffordd mae'r Adran bellach yn gweithio mae'r rhaglen wreiddiol o arbedion bellach yn cymhlethu os nad llesteirio ychydig ar yr ymdrechion ganfod arbedion ochor yn ochor â thrawsnewid gwasanaethau'r Adran

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Mawrth 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **28 Mawrth 2018** |

**PWNC**

Eitem 15:CYNLLUNIAU TRETHIANT LLYWODRAETH CYMRU

**PENDERFYNIAD**

Ymateb yn gefnogol i fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno trethi newydd, gan nodi sylwadau a wnaethpwyd yn y drafodaeth ac yn benodol awydd fod nodweddion lleol yn cael eu pwysleisio yn y gyfundrefn.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i Lywodraeth Cymru gynnal pleidlais ar gyfryngau cymdeithasol am y rhestr fel o 4 syniad am drethi ychwanegol yng Nghymru, yn ystod cyfnod rhwng Tachwedd 5 a Rhagfyr 5. Nid oedd yn glir fod cyfle I'r Cyngor ymateb i'r bleidlais. Cafodd y Cabinet drafodaeth ar y trethi er mwyn penderfynu os am fynegi eu barn ar y cynigion ac anfon eu hymatebion ymlaen yn uniongyrchol I'r Llywodraeth.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad